# Pennod 5:
# 'Y Babell Awen'
# gan Dewi Emrys

I'W DDEFNYDDIO YN Y LLYFRGELL YN UNIG

TO BE CONSULTED IN THE LIBRARY ONLY

P.C.B. LLYFRGELL U.W.B. LIBRARY

Un arall o golofnau'r Cymro a wnaeth argraff fawr ar ei ddarllenwyr, ac un o'r colofnau enwocaf yn holl hanes newyddiaduron Cymraeg, yw 'Y Babell Awen' gan Dewi Emrys, colofn farddol wythnosol a ymddangosodd yn ddi-dor yn y papur o'i chychwyn ym Medi 1936 hyd farwolaeth Dewi ym Medi 1952. Fodd bynnag, er bod 'Y Babell Awen' yn newydd i ddarllenwyr Y Cymro ar y pryd, nid oedd y syniad o golofn farddol yn newydd o gwbl mewn gwirionedd, oblegid fel yr eglura Aled Gruffydd Jones yn ei gyfrol Press, Politics and Society, yr oedd colofnau o'r fath yn gyffredin ac yn fawr eu dylanwad am flynyddoedd cyn hynny:

> *....For much of the nineteenth century, poetry remained a lively form of popular writing. David Thomas (Dafydd Ddu Eryri), weaver, teacher and representative of the Gwyneddigion Society in Caernarfonshire, published a translation of Alexander Pope's 'Vital Spark of Heavenly Flame' in the first issue of North Wales Gazette on 5 January 1808, and for the remainder of the century, and beyond, newspapers were important outlets for the poetically talented as well as for the not so gifted. Poetry columns often had their own editors, some of whom were poets of repute, such as David Watkin Jones (Dafydd Morgannwg) in Tarian y Gweithiwr between 1875 and 1878, or Thomas Essile Davies (Dewi Wyn o Esyllt) in the Weekly Mail. Verses covered both moral questions and more immediate political or social events. Rowland Williams (Hwfa Môn) published poems attacking Napoleon III and in defence of Prussia in Yr Herald Cymraeg in 1870, and protest verses against the immigration of rural labourers from Cardiganshire into the iron and coal industries of Merthyr and Dowlais appeared in Welsh in the Workman's Advocate in 1873 and 1874. The poetry columns continued to provide a form of patronage to plebeian writers well into the twentieth century. Huw Menai, from Gilfach Goch and a miner in the Cambrian Combine, was unknown until he 'timidly sent some specimens of his verse to the editor of the South Wales News'. The poems were duly published, and, emboldened by the experience, Menai began to publish more widely in the South Wales News, the Western Mail and the Welsh Outlook....*

Ganed Dewi Emrys, sef David Emrys James, ym 1881 yn Ngheinewydd yng Ngheredigion, yn fab i weinidog annibynnol a merch capten llong; pan oedd yn saith oed daeth ei dad i fugeilio eglwys Rhosycaerau ger Abergwaun ym Mhenfro ac yno y treuliodd ei blentyndod. Newyddiaduraeth oedd ei alwedigaeth gyntaf: aeth i'w brentisio'n gysodydd a newyddiadurwr i swyddfa'r County Echo yn Abergwaun, ond wedi i'r teulu symud i fyw i Gaerfyrddin ym 1886 gorffennodd ei brentisiaeth ar y Carmarthen Journal a chyn ei fod yn 20 oed yr oedd yn is-olygydd ac yn olygydd colofn Gymraeg y papur.

Dechreuodd bregethu'n fuan wedyn a derbyniwyd ef i'r Coleg Presbyteraidd ym 1903; bu am gyfnod yn Eglwys Rydd y Cymry yn Lerpwl cyn gweinidogaethu yn Nowlais, Bwcle, Pontypridd a Llundain: ystyrid ef yn gyffredinol yn un o bregethwyr huotlaf ei oes. Ymunodd â'r fyddin ym 1917 ond diarddelwyd ef ac wedi hynny dychwelodd at newyddiadura yn Llundain.

Yr oedd y blynyddoedd dilynol yn gyfnod tywyll ac anwadal iawn iddo: ymwahanodd oddi wrth ei wraig a'i ddau fab ac ymbellhaodd oddi wrth ei eglwys a'i gyfeillion. Yr oedd 'ar chwâl' mewn mwy nag un ystyr, yn crwydro'n gyson rhwng Cymru a Llundain ac fel pe bai wedi colli pob cyfeiriad i'w fywyd, ond yn y cyfnod hwn hefyd y dechreuodd ymddiddori mewn barddoniaeth o ddifrif gan gyfansoddi'n helaeth a chystadlu mewn eisteddfodau. Yr oedd 1922 yn flwyddyn bwysig yn ei hanes oblegid dyma pryd y cychwynnodd ei waith fel athro beirdd, 'ei brif gyfraniad i'r genedl' yn ôl Luned Phillips yn ei chofiant Dewi Emrys: ar 24 Chwefror y flwyddyn honno dyma gychwyn 'Pabell Awen' yn y Carmarthen Journal a gwelir felly nad oedd teitl ei golofn ddiweddarach yn Y Cymro yn un hollol newydd.

Gwelodd 1926 dristwch a llawenydd mawr yn ei fywyd: gadawodd 'Babell Awen' y Journal ym mis Ionawr y flwyddyn honno yn dilyn marwolaeth ei dad ond cafodd ei awr fawr gyntaf ym mis Awst pan enillodd Goron Eisteddfod Genedlaethol Abertawe am 'Rhigymau'r Ffordd Fawr', testun yr oedd bellach yn gryn arbenigwr arno! Aeth ymlaen yn ddiweddarach i gyflawni camp arbennig iawn trwy ennill dwy Gadair mewn Eisteddfodau Cenedlaethol dilynol: y naill yn Lerpwl ym 1929 ar 'Dafydd ap Gwilym' a'r llall yn Llanelli ym 1930 ar 'Y Galilead'.

Mae'n rhyfeddol meddwl i 'Babell Awen' Y Cymro ddatblygu i fod yn llwyddiant mor nodedig o ystyried iddi gael ei sefydlu gan ŵr a oedd yn byw bywyd mor fohemaidd ar y pryd; yn un o'i hysgrifau yn ei chyfres 'Taith yr Anialwch' ar fywyd Dewi Emrys, a ymddangosodd yn Y Cymro ym 1953, mae Dilys Cadwaladr yn disgrifio 'cartref' Dewi a'r ardal amgylchynol yn Llundain pan gychwynnwyd y 'Babell':

*....Un bore gwlyb anniddan wythnos yn ddiweddarach, cerddem ein dau o orsaf yr Elephant and Castle - un o'r mannau dieithraf o'r ddinas i mi'n bersonol. Arswydwn rhag dinodedd a chyflwr aroglus yr ystrydoedd a llusgai fy ngham lle troediai Emrys yn eithaf hoyw.*

*Oedais rhag ei ddilyn i mewn i un o'r parciau bach twt a safai rhwng rhesi tal tai diobaith yr olwg arnynt. Oedodd yntau i'm symbylu ymlaen.*

*"Cei olwg ddiflas ar y lle yma heddiw. Mae pob peth yn wlyb a llwydaidd, ond ni chei wedd gynddrwg ar bethau pan dyr heulwen cyn bo hir. Tyrd, mi gnociwn ni ar ddrws y tŷ acw yn y gornel bella' acw. Mae'n edrych yn eithaf glân - sglein ar y dwrn, a chwrten bach del ar y ffenest. Dere 'mlaen."*

*Codais fy nghalon a'i ddilyn.*

*Daeth merch dalgref i'r drws a'n cyfarch o hirbell fel y gwna Cocni pan yn siarad ag estron.*

*"Pro?" Dyna oedd ei chwestiwn cyntaf.*

*Synnais o'i chlywed yn gofyn y fath beth ond pan atebodd Emrys sylweddolais beth oedd ystyr y gofyn.*

*"No, we're not actors. I'm a journalist."*

*"What about this one?" Cyfeiriodd ataf fi.*

*"I'm also a journalist", atebais gan gymryd arnaf am y tro cyntaf fod yn un o bendefigion y Wasg.*

*Ond nid oedd yr eneth graff yn rhyw hapus iawn. Mae'n debyg nad ni oedd y newyddiadurwyr cyntaf a lochesodd yn y tŷ.*

*"I'll go an' ask me dad."*

*Yn y man, daeth gŵr byr, prysur at y drws. Cyfarchodd ni'n ddiseremoni hollol. Hawdd gweld iddo ddelio â phobl ddi-ddal y rhan hon o'r dref. Yr oedd llygaid llym fel barcut iddo, ond gwyddwn ar unwaith mai dyn gonest ydoedd.*

*Yr oedd byd Mr. Gears a byd Dewi Emrys yn ddau fyd gwahanol iawn ond yr oedd y ddau yn deall ei gilydd o'r dechrau.*

*Heb fawr o lol, aeth gŵr y tŷ â ni i fyny i lawr uchaf y tŷ tal. Yn gyntaf, dangosodd imi ystafell fechan y tu ôl i'r tŷ a rhoddodd ar ddeall imi mai fi a fyddai tenant honno. Yna aeth ymlaen i'r ystafell hir a wynebai'r parc bach yn ffrynt y tŷ.*

*"This room is the one for you, sir." Yr oedd tôn wahanol i'w lais wrth gyfarch Emrys a chredaf i'r dydd heddiw na hoffai Mr. Gears mohonof fi o'r dechrau.*

* * *

*Ac yn yr ystafell ffrynt honno yn West Square yn Llundain y daeth i fod Babell Awen 'Y Cymro'.*

*Ystafell foel ydoedd - hen wely mawr yn un gornel ohoni a bwrdd helaeth ar ganol llawr; cwpwrdd dillad a lle ymolchi.*

*Ond o bobtu'r lle tân braf, safai dwy gadair freichiau gartrefol, hen-ffasiwn.*

*Eisteddodd Emrys ar y llaw dde. Caeodd ei lygaid a thynnodd ei bibell fawr o'i boced. Yr oedd wedi cyrraedd cartref.*

*Llonyddodd ei wynepryd ac anghofiodd ein bod ni, Gears a minnau, yn aros am ei ddedfryd.*

*Edrychodd gŵr y tŷ arnaf. "As 'e gone to sleep?"*

*"No," meddwn yn dawel. "He's just getting used to his new home."*

*Heb air pellach, aeth Mr. Gears allan o'r ystafell dan fwmian: "'E's a rare un."*

*Yr oedd soffa wrth y ffenestr ac ymestynnais arni tra myfyriai Emrys. Gwyliwn gymysgedd y stryd. Peidiasai â bwrw glaw a daethai plant y sgwâr allan i chwarae o gylch y lampau ac i fyny ac i lawr grisiau'r seleryddd. Eisteddodd hen bobl ddistaw ar seti'r gerddi yn y parc a daeth Harri Price y costar i weiddi rhinweddau ei lysiau a'i ffrwythau*

*ac i gweryla â merched chwim-dafod y sgwâr a ddeuai i brynu ganddo.*
*Ni wyddai neb ohonynt ddyfod un o feirdd mwyaf eu gwlad i fyw i'r tŷ yn y gornel. Nid oedd ots gan neb....*

Ar 29 Awst 1936 ymddangosodd yr hysbyseb hon yn Y Cymro yn cyhoeddi dyfodiad colofn wythnosol hollol newydd yn rhifyn yr wythnos ganlynol o'r papur:

## *Y BABELL AWEN*

*Gan ddechrau yn y Rhifyn, MEDI 5, o'r CYMRO, bydd*

*DEWI EMRYS*

*(Bardd Coronog a Chadeiriol yr Eisteddfod Genedlaethol)*

*yn cychwyn cyfres newydd o ddiddordeb i feirdd, dan y pennawd, 'Y BABELL AWEN'.*

*Hon fydd man cyfarfod beirdd cyfarwydd, a bydd yn athrofa i feirdd ieuainc.*

*Rhoddir gwersi mewn cerdd dafod, a bydd yn geidwad y safonau diweddaraf mewn barddoniaeth.*

*Trefnir cystadleuaethau cyson a rhoddir gwobrau sylweddol am sonedau, englynion a thelynegion.*

*Y mae amryw o Brifeirdd Cymru wedi addo cydweithredu, ac y mae hynny'n sicrwydd o lwyddiant y Babell.*

*Mynnwch 'Y Cymro' bob Wythnos*
*Papur Pob Aelwyd.*

*Ar werth gan lyfrwerthwyr ym mhobman, neu*
*i'w gael yn uniongyrchol oddi wrth y Cyhoeddwyr:*

*Hughes a'i Fab, Wrecsam.*

Ac felly yn rhifyn 5 Medi 1936 gwelwyd 'Agor Drws y Babell Awen' am y tro cyntaf, gan gychwyn colofn farddol wythnosol a oedd i dyfu y tu hwnt i ddisgwyliadau holl staff a darllenwyr Y Cymro, a disgwyliadau mwyaf gobeithiol Dewi Emrys ei hunan; meddai ef yn rhifyn cyntaf y Babell:

*DYMA ddrws 'Y Babell' bellach yn agored. Hi a fydd yn gyfrwng ardderchog o wythnos i wythnos, fel ffenestr siop, i gadw cynhyrchion ein beirdd o flaen llygaid y wlad.*
*Amcenir ei gwneud yn fan cyfarfod prydyddion cyfarwydd, yn athrofa i brydyddion ieuainc ac yn frawdle diduedd ynglŷn â phynciau cerdd dafod. Yn wir, ambell wythnos, da fydd ei chyfyngu bron yn llwyr i ymdriniaeth â materion felly.*

*Dymunaf sicrhau ein darllenwyr na chaiff na ffafr na rhagfarn le yn ei thrafodaethau. Teilyngdod yn unig a egyr ei drws i'r neb a fynno amlygrwydd o'i mewn. Diolchaf yn gynnes i'r beirdd a ysgrifennodd ataf eisoes i ddymuno'n dda iddi. Gyda'r Prifardd Eirug, cytunant oll bod gwir angen adran fel hon mewn newyddiadur cenedlaethol fel 'Y Cymro', er diogelu safon ein barddoniaeth. Os bydd yr anturiaeth hon yn llwyddiant, bwriad perchenogion 'Y Cymro', ymhen ychydig fisoedd, yw cyhoeddi casgliad o ddetholion 'Y Babell' yn llyfryn; a rhoddaf fy ngair yn awr na chaiff ysbwriel le yn y casgliad hwnnw. Felly, feirdd, ymarfogwch! Wele i chwi borth agored i anrhydedd ac anfarwoldeb!*

*CYNNIG GWOBR*

*Cynigir gwobr o hanner gini yr wythnos hon am yr englyn gorau. Testun: 'Y Cerflunydd.' Anfoner yr englynion (dan ffugenwau'n unig) i Olygydd 'Y Babell' erbyn Medi 26. Cyhoeddir y chwech englyn gorau yr un pryd â'r feirniadaeth.*

*CLOD I'R PRIFEIRDD*

*Llongyfarchiadau i fuddugwyr y Goron a'r Awdl yn Eisteddfod Abergwaun, sef y Parch. David Jones, Cilfynydd, a'r Parch. Simon B. Jones, Peniel, Caerfyrddin. Gwelaf fod gohebydd arbennig, mewn newyddiadur arall, yn gresynu mai gweinidogion, flwyddyn ar ôl blwyddyn, sy'n ennill y gwobrau hyn. 'Nid yw llenyddiaeth unrhyw wlad yn iach', ebr ef, 'os y dibynna ei chadwriaeth a'i thwf ar un dosbarth o bobl.' A ysgrifennwyd y fath ffwlbri erioed? Personoliaeth dyn ei hunan sydd yn lliwio'i waith, nid ei berthynas â dosbarth neilltuol. Ond a siarad am ddosbarth, onid y myneich, beth amser yn ôl, oedd ceidwaid celfyddyd yng Nghymru? A dyna'r glêr a'r trwbadwriaid - pobl o'r un dosbarth oll. Ai mantais i lenyddiaeth ein gwlad fyddai gwneud Simon Jones yn forwr drachefn a David Jones yn lowr? Hyn a wn: mai mantais i'r gohebydd dan sylw fyddai rhoi clopa rhesymol ar ei ysgwyddau.*

Neilltuir gweddill y Babell gyntaf hon i ddau englyn gan Gwilym Deudraeth, a ddyfynnir isod, hir-a-thoddaid gan y Parch. Morgan Price, soned gan Amanwy a chyfres o benillion wyth-llinell gan S. Gwilly Davies; yn ogystal â hynny ceir ychydig sylwadau ar waith pob un ohonynt. Dyma ddau englyn Gwilym Deudraeth felly, sef y cynnyrch cyntaf erioed i ymddangos yn y Babell Awen, sy'n cyfarch neb llai na 'Golygydd y Babell':

*Hir flwyddi gorfoleddus - i'r hyfwyn*
*Brifardd Dewi Emrys.*
*Doed y beirdd ar godiad bys*
*I'w fyddin â gwên foddus!*

*Os awdwyr medrus ydych, - rhai a hawl*
*Y rheolau gennych,*
*Grym enaid fydd gair mynych*
*Trwy'r 'Cymro' gan Gymro gwych.*

Yn rhifynnau dilynol y Babell gwelir patrwm wythnosol yn dechrau cael ei sefydlu: yn gyntaf ceid sylwadau ar gynnyrch beirdd yr wythnos, a fyddai'n eu canmol neu'n eu beirniadu yn ôl yr angen, gan gynnig gwelliannau a hyd yn oed newid llinellau a thynnu ymaith benillion cyfain; yna cyhoeddid cynnyrch y beirdd hynny, fel y'i derbynnid yn wreiddiol drwy'r post os oedd yn plesio Dewi Emrys, neu fel arall wedi'i ddiwygio i ateb gofynion technegol y gwahanol fesurau, neu i ateb gofynion cywirdeb iaith, neu'n syml i ateb chwaeth bersonol Dewi!

Ar y cychwyn fel hyn cyhoeddwyd tua pump i wyth o wahanol gynhyrchion y beirdd yn wythnosol ond fel y cynyddai poblogrwydd y Babell yn y misoedd a'r blynyddoedd dilynol yr oedd yn beth digon cyffredin gweld deuddeg neu hyd yn oed bymtheg a mwy o wahanol gynhyrchion mewn un rhifyn ohoni, gan ddangos ei bod yn golofn farddol gynhyrchiol dros ben, yn enwedig o ystyried iddi barhau'n ddi-dor am gyfnod o un mlynedd ar bymtheg. Yr oedd y mesurau'n amrywio'n hollol o englynion i delynegion ac o sonedau i ganigau, unrhyw beth mewn gwirionedd a âi â bryd y beirdd ac a gyrhaeddai safonau Dewi Emrys; yr oedd yn rheol ganddo fodd bynnag na chyhoeddid emynau yn y Babell ac eithrio yn rhifynnau'r Nadolig a'r flwyddyn newydd. Meddai yn y Babell Awen, 24 Medi 1938:

> *Daeth nifer o emynau i law yn ddiweddar. Er nad wyf yn dibrisio cyfansoddiadau felly, y mae gennyf dri rheswm dros beidio a bod yn chwannog i'w derbyn: (1) Y maent yn fwy pwrpasol i bapur enwad. (2) Y mae gormod o rigymwyr cyffredin yn credu y medrant gyfansoddi emyn. (3) Man cyfarfod awenyddion yw'r BABELL, a digon ohonynt yn perthyn i'r cylch....*

Yr oedd pynciau'r gwahanol gynhyrchion barddol hefyd yn amrywio'n fawr ac ymdrinid â phob pwnc dan haul, unrhyw beth o'r syml hollol i'r astrus a'r athronyddol; serch hynny yr oedd Dewi'n bendant na ddylai'r Babell gynnwys barddoniaeth am bobl neu achlysuron a oedd yn hollol leol ei naws, penderfyniad, fel y gwelir yn y man, a esgorodd ar feirniadaeth lem gan un o Gymry enwocaf yr oes.

Ym Mhabell Awen rhifyn 10 Hydref 1936 o'r Cymro, cyhoeddwyd beirniadaeth ar englyn 'Y Cerflunydd', sef y gystadleuaeth a

osodwyd yn y Babell gyntaf un. Er bod Dewi Emrys ei hunan yn y rhifyn dilynol yn ei galw'n 'gystadleuaeth nodedig', mae'r feirniadaeth yn gwbl ddi-flewyn-ar-dafod:

*Y MAE beirdd diweddar Cymru wedi ceisio lladd yr hen syniad ofergoelus mai nodwedd englyn da yw diffiniad cyflawn o'r gwrthrych a roddir yn destun iddo; a dyna'r hen dybiaeth, wrth gwrs, y dylai englyn gynnwys enw'r gwrthrych a ddiffinir.*

*Fflangell finiog ar y teip hwnnw o englyn yw englyn adnabyddus Gwyddelig, 'Dim':*

*'Hen hosan a'i choes yn eisie, - ei brig*
*Heb erioed ei ddechre,*
*A'i throed heb bwyth o'r ede,*
*Hynny yw dim, onid e?'*

*Goddefer i mi dystio nad oes dim mewn englyn yn codi fy ngwrychyn i yn fwy na'r ymgais ynddi i ddweud wrthyf mewn cynghanedd yr hyn yw'r peth a ddisgrifir ynddo, a'r "Dyna fo" neu "Dyna fe" anffaeledig ar ei ddiwedd.*

*Mi wn yn iawn beth yw Cerflunydd, ac ofer gwastraffu amser a nerth prydyddol i geisio fy atal rhag tybio mai ceffyl neu ynteu ryw greadur arall ydyw. Edrychaf am englyn a rydd i mi ryw syniad aruchel am dano, rhyw awgrym cynhwysfawr o'i gelfyddyd a'i wyrth, rhyw olwg arno a bair i mi ryfeddu at ei gampwaith a throi i'w fawrygu.*

*BEIRDD Y "DYNA FO"*

*Fe geir twysged o feirdd y "Dyna fo" a'r "Dyna fe" yn y gystadleuaeth hon; ac y mae'n hyfrydwch gennyf eu cloi gyda'i gilydd yng nghell y trydydd dosbarth, er mai gofid i mi yw darganfod bod cymaint o'r wehelyth yn aros yn yr "oes olau hon"!*

*Y mae cynifer â chant a hanner a chwech (156) yn ymgiprys am yr hanner-gini; ond dyma nifer go dda ohonynt yn mynd yn syth i'r dosbarth isaf heb roddi i mi ronyn o drafferth barn na phoen cydwybod.*

*<u>Dosbarth 4.</u> - (CYHOEDDIR 30 O FFUGENWAU)*

*GALW AM ASTUDIAETH*

*Gydag eithrio'r pedwar olaf a enwir yn y dosbarth hwn, cystadleuwyr heb rithyn o syniad am ofynion englyn yw'r rhain i gyd; a'r pedwar olaf yn amlygu bod ganddynt lawer i'w ddysgu eto. Gwybydded y bobl hyn fod crefft yr englynwr yn hawlio astudiaeth fanwl o'r gynghanedd, a'r astudiaeth honno yn orchwyl misoedd lawer, heb sôn am yr ymarfer hir sydd yn rhoi i grefftwr ei fedr a'i gyffyrddiad sicr.*

*<u>Dosbarth 3.</u> - (CYHOEDDIR 93 O FFUGENWAU)*

*GWALL ACEN*

*Dichon fod 'H.W.' am i ni ganiatáu iddo drosi'r 'f' yn y gair 'fynwes' heb ei hateb - 'O wres ei fynwes ei hun.' Ond gwan yw peth felly mewn englyn. Y mae gwall acen yn llinell olaf 'Fe'i Gwelais Ef' - 'Echdoe, yn un fflach o dân.'*

*Ceir prydyddion medrus yn y dosbarth hwn, ond cyffredin yw'r syniadau. Y ddwy linell orau o'u plith yw:*

*(1) 'Fe lunia faen fel yn fyw.'*

*(2) 'Hwn o faen a wna feinir.'*

*Dosbarth 2. - (CYHOEDDIR 22 O FFUGENWAU)*

*GWAITH CREFFTWYR*

*Y mae crefftwyr yn y dosbarth hwn, fel y prawf y dyfyniadau canlynol:*

*'Ei odlau serch a'u delw sydd*
*Ar ddihûn mewn oer ddeunydd.'*

*'I'w fyw ddwrn, os ufuddha,*
*Mae dawn i greu Madonna.'*

*'Cu'i elfen, grewr celfydd,*
*Ond ei faen heb enaid fydd.'*

*'O hen nwyf ei gŷn fe gaid*
*Y fun deg, Mair Fendigaid.'*

*Y GORAU*

*Dosbarth 1. - (CYHOEDDIR 11 O ENWAU)*

*Cyhoeddir y chwech englyn gorau gyda'i gilydd yn ein rhifyn nesaf gyda nodiad ar bob un ohonynt. Caiff y beirdd hefyd farnu rhyngddynt.*
*Yn y cyfamser, cânt bwyso a mesur yr englyn buddugol.*
*Dyma fe:*

*Myn angel o gêl galon - y garreg*
*I wirio'i freuddwydion;*
*Ac o ryfedd arwedd hon*
*Y dwg enaid â'i gynion.*

*'Eryr y Graig.'*

*Anfoned 'Eryr y Graig' ei enw priodol i mi, ar fyrder.*
*Anfoned hefyd ei lun i ofal Golygydd 'Y Cymro', Wrecsam.*
*Ar air a chydwybod,*
*DEWI EMRYS.*

*(Yr enillydd oedd J. Geufronydd Jones o Dywyn, Meirionydd).*

Gwelir felly bod gan Dewi safonau pendant iawn yn y gystadleuaeth hon ac yr oedd hyn yn wir am y Babell yn gyffredinol. Fe ddywedodd yn y Babell gyntaf un mai 'teilyngdod yn unig a egyr ei drws i'r neb a fynno amlygrwydd o'i mewn' ac nid oes amheuaeth na lynodd Dewi at y polisi hwn fel gelen. Gwelir o'r gystadleuaeth hefyd nad oedd yn swil o gwbl o gondemnio ymdrechion y beirdd hynny a anfonodd gynnyrch ansafonol ato ac yr oedd hyn hefyd yn wir am y Babell yn gyffredinol: yn wir, mae'r Babell yn frith o sylwadau ar feirdd nad oedd ganddynt lawer o syniad sut i fynd o'i chwmpas hi, sydd ar y gorau

efallai'n onest ond ar y gwaethaf yn medru bod yn ddigon cas. Wele rai enghreifftiau:

*J. E. (Llanasa). - Dymunaf ei galonogi ar ôl ei gynghori i ymwrthod â defnyddio geiriau ac ymadroddion yn ddibwrpas dan ormes y gynghanedd. Dyma'r unig englyn cymeradwy o'r cwbl a anfonodd. Ymadrodd anfoddhaol yw 'bol ystâd', er y gellir dirnad yr ystyr a roddir iddo. Cefais yn englynion J. E. wallau iaith, megis gwilio (yn lle gwylio) a gwallau cynghanedd megis 'Mewn eiliad o'i anelu' (y gytsain m heb ei hateb). Eithr gwaeth fyth y rhysedd a'r gybolfa a bentyrrir blith-draphlith ar arch y gynghanedd. Dengys ei lythyr nad dyn anneallus yw'r J. E. hwn. Eithr gofynnaf iddo, mewn difrif, a oes synnwyr o gwbl mewn pethau fel hyn:*

*'Pur ei dwyll, e piau'r dydd,*
*A'i rwbel i ni'n rybydd.'*

*Dyna'i ddisgrifiad o'r 'Anwir'. Fe wêl pob llenor y gwallau iaith: sillafu rhybydd yn anghywir a threiglo rh ar ôl yn (yn groes i'r rheol). 'I ni'n rhybudd' sy'n gywir, wrth gwrs, sef talfyriad o 'I ni yn rhybudd.' A dyma enghraifft arall o lol cynganeddol (i'r 'Fuwch' y tro yma):*

*'Fel cri babi i'r bobl*
*Na chudd frad, ac ni chwydd frol.'*

*Wel, ie mewn difrif!!*

*(30 Hydref 1943)*

*RICHIE ORRITT (Nantyr). - Dilynasoch wersi'r Babell am rai blynyddoedd bellach - yn ddigon hir i beri ichwi osgoi gwallau amlwg y pennill hwn:*

*'Mi gofia'r diwrnod tra fwyf byw*
*Cychwynais tua Ffrainc,*
*Fel sugna'i 'nhad ei getyn clai*
*Wrth eistedd ar y fainc,*
*A mam yn fûd yn gwasgu'm llaw,*
*A'r haul yn gwenu drwy y glaw.'*

*I ddechrau, 'y diwrnod cychwynais tua Ffrainc,' yn lle 'y cychwynais', etc. Yn ail, 'Fel sugnai 'nhad ei getyn', yn lle 'Fel y sugnai', etc. Yn drydydd, 'gwasgu'm llaw', yn lle 'gwasgu fy llaw', er cymaint a bregethwyd yn y Babell na ddylid sillgolli nac 'm nac 'th ar ôl berf. Amcan cromfach uwchben llafariad yw dangos i ddarllenydd mai sain hir a fwriedir, megis glân (clean) yn lle glan (bank). Dibwrpas hollol yw cromfach uwchben u yn y gair mud. Yr un mor ddibwrpas oedd ei gosod (yn yr ail bennill) uwchben u yn y geiriau prudd a grudd. A dyna 'tra fwyf', yn lle 'tra bwyf', a'r chwithigrwydd 'drwy y glaw', yn lle'r ymadrodd esmwyth 'drwy'r glaw'. Y mae'r ail bennill yn un tyner; ond yr oedd eisiau ail-lunio'r pennill cyntaf yn dost. Nid yw ennill mewn eisteddfod yn esgus yn y byd dros anfon i'r Wasg iaith wallus. Ymddengys i mi na fu'r feirniadaeth yn unrhyw fath o addysg i chwi.*

*(7 Gorffennaf 1944)*

*J. R. HUGHES (Lerpwl). - Hyderaf mai cymwynas â chwi fydd dywedyd wrthych mai'r hyn a wyddoch, ar hyn o bryd, am ofynion englyn yw dim fel yr eloch i brynu gwerslyfr ar y cynganeddion. Ni allodd neb erioed, syr, lunio englyn cyn iddo yn gyntaf ddysgu'r rheolau, sef y cynganeddion. Ceir un, ym mysg yr englynwyr a ymddengys yn y Babell heddiw, a anfonodd imi, ryw ddwy flynedd yn ôl, gawdel diamcan fel eich*

*ymgais chwi. Ar ôl ei rybuddio, mynnodd werslyfr cyfaddas. "Dos a gwna dithau yr un modd."*

*(7 Rhagfyr 1945)*

Yr oedd Dewi Emrys â 'basged' nid anenwog yn ei swyddfa ac i mewn iddi ar ei phen yr âi unrhyw ymgais farddol a oedd yn ei farn ef yn sothach llwyr ac yn gwbl anobeithiol. Er bod ei sylwadau uchod yn ymddangos braidd yn ansensitif, os nad creulon bron, mae'r ddau ddyfyniad isod yn dangos mai cas beth ganddo oedd beirdd 'diog' na thrafferthent i edrych mewn geiriadur hyd yn oed:

*....Medraf faddau i fardd ifanc ei ymadroddi chwithig, ei amleiriaeth, ei ormodedd a'i gystrawen wallus, a theimlo'n barod iawn i estyn help llaw iddo, hyd y gallaf; ond af yn grac chwilboeth o weld dernyn o farddoniaeth addawol yn dryfrith o wallau mewn sillafiaeth. Y mae peth felly'n hollol ddiesgus heddiw, heb ddim ond diogi a difaterwch yn cyfrif amdano. Dau lyfr yn unig sydd yn eisiau ar fardd ifanc heddiw i beri iddo sillafu'n gywir - Geiriadur Anwyl (yr argraffiad diwethaf, newydd ei gyhoeddi), a'r Orgraff Gymraeg (llyfryn y Brifysgol). Fe gostiodd addysg rhai ohonom ugeiniau o bunnoedd. Ai gormod yw disgwyl i fardd ifanc (a chaniatáu ei fod o ddifrif) wario ychydig sylltau er ei gynorthwyo'i hunan ac arbed trafferth i hyfforddwr sy'n barod i'w helpu ym mhethau trymaf y gyfraith, yn hytrach na'i fod ef yn disgwyl i hwnnw ddiwygio ffurf anghywir ei eiriau? Yn wyneb y cyfarwyddyd sydd wrth law am bris isel, y mae sillafiaeth rhai o'r beirdd yn warthus. Bron na ddywedwn wrthynt: "Os nad ydych yn fodlon eich helpu eich hunain yn hynny o beth, rhowch y gorau i farddoni yn hytrach na disgwyl i <u>ni</u> estyn ffyn baglau i chwi, a chymorth hawdd ei gael o fewn eich cyrraedd bob dydd o'r flwyddyn!!" Hyfrydwch i bob bardd sydd o ddifrif yw troi i lyfr safonol er sicrhau ffurf gywir i air nad yw'n sicr ohono. Wele i'r darllenydd enghreifftiau o'r sillafiaeth mewn gwahanol ganeuon sydd dan fy llaw y funud hon: Meusydd, hyny, wennoliaid, sonned, diffaethwch, anhawdd, pennyd, atcof, gauaf, malfoden, melus, blwyddi, etto, fflammog, fflamiau, troiog, boreu, goreu, geuafaidd, heyarn, cryd (am 'cradle'), heddyw, trwmgwsg, tyru, anghen, etc. Nid gormod yw dweud bod y gwallau hyn yn waradwydd ar y sawl sy'n euog ohonynt, a hynny am y gellid sicrhau ffurf gywir i bob gair yn y rhestr ond troi i eiriadur Anwyl. Goddefed y troseddwyr fy ngherydd; canys er budd iddynt y llefaraf, tan gofio, hefyd, ein bod oll yn chwannog i lithro. Dyma englynwr cyfrwys (Ben Davies, Trefeglwys, ger Caersws), yn ymhyfrydu braidd yn y llonyddwch a roed i'r beirdd yn ystod fy salwch, a'u rhybuddio i wylio fy fflangell wedi imi wella:*

*'Ysgrifau heb ysgrafell - ollyngwyd*
*Yn llengoedd o'r Babell.*
*A Dewi'n wael, daw yn well*
*I roi 'ffling' ar ei fflangell!'*

*Wel, y mae brath ffrewyll yn feddyginiaeth weithiau, ac yn rheitiach gweinidogaeth bob amser na'r sebon meddal y bu cymaint gwastraff niweidiol arno mewn colofnau barddol ledled ein gwlad. Ceir beirdd amlwg yn ddyledus heddiw am y "gwir plaen" a gawsant ar y dechrau dan ddisgyblaeth hen olygyddion barddol fel Llew Llwyfo, Dafydd Morgannwg,*

*Eilir, Brynfab, Ifano, ac eraill. Pa anrhydedd sydd i awenydd gwir lle bo crachfardd yn cael eistedd yn ei ymyl dan goron o sebon meddal? Ar y llaw arall, pa glod i fardd cyfarwydd yw lladd yn ddiachos ar fardd ifanc addawol? Na sathrer y fesen leiaf rhag digwydd bod ynddi dderwen a gyfyd yn y man yn ogoniant holl brennau'r maes.*

*(11 Rhagfyr 1937)*

*AT OHEBWYR Y BABELL. - Hysbys ydyw mai cyfansoddiadau cymeradwy yn unig a gaiff sylw yn ein nodiadau wythnosol. Oherwydd hynny, gofynnir yn barhaus paham nad eglurir y rheswm dros daflu cynhyrchion gwrthodedig i'r fasged; a dadleuir mai trueni yw gadael eu hawduriaid yn y tywyllwch.*

*Yr ateb yw mai cocosyddion a rhigymwyr moel, diawen yw mwyafrif mawr y gohebwyr a anwybyddir yn Y BABELL. Onid gwastraff ar ofod ac amser fyddai ceisio goleuo'r rhain? Am ail ddosbarth y rhai a wrthodir, traethwyd o'r cychwyn nad lle yw'r BABELL i ryw bethau lleol a phersonol na chodant ronyn yn uwch, o ran teilyngdod barddol, na chofnod neu baragraff o newyddion plwyf. Faint o les fyddai ceisio dangos i'r rhai hyn beth yw barddoniaeth neu afiaith bardd a gân am i awen ei gynhyrfu? Yn drydydd, dyna'r cyfansoddiadau sydd mor amherffaith, o ran iaith a chelfyddyd, er nad ydynt yn amddifad o awen, fel na ellid eu cyhoeddi heb ail-lunio adrannau helaeth a newid ansawdd y gwaith bron yn gyfangwbl. Golygai sylw i'r dosbarth hwn yn unig ddwyn llawer o ofod Y BABELL yn anfuddiol, heblaw trethu fy amser i a phorthi diogi nifer o ohebwyr na thrafferthant i edrych ar werslyfr, er mor aml a rhad y llyfrau sydd ar y farchnad heddiw at wasanaeth llenorion ieuainc. Mynych y derbyniaf oddi wrthynt geisiadau fel hyn: "Os nad yw'r dernyn hwn yn deilwng o'r BABELL, a wnewch chwi ei gywiro a'i ddychwelyd?" a hynny heb gymaint â stamp ceiniog a dimai i dalu am y cludiad, heb sôn am fy amser gwerthfawr i. Aeth pedwar o'r dosbarth hwn i'r fasged ddoe ddiwethaf; ac yno y mae eu lle. Parod wyf bob amser i ateb, hyd yn oed drwy'r post, ofyniadau disgyblion diwyd, addawol ac anrhydeddus; ac fe ddaw imi geisiadau parhaus oddi wrth ddisgyblion ac athrawon ysgolion nos. Un peth arall. Nid teg yw disgwyl imi gyhoeddi cyfansoddiadau na chawsant gymeradwyaeth beirniaid mewn gwahanol eisteddfodau. Daeth yma dwysged o englynion (difrif a digrif) heb sôn am gynhyrchion eraill, a anfonwyd i Eisteddfod Genedlaethol Dinbych. Mi garwn gyhoeddi dau neu dri ohonynt. Ond beth fyddai'r canlyniad? Cawod o bethau cyffelyb yn disgyn arnaf cyn pen ychydig ddyddiau. Nid mêl i gyd yw rhan golygydd! Un peth a wn: gwerth Y BABELL i'w haelodau yw'r ffaith bod ei phorth yn rhy gyfyng i ollwng i mewn iddi ymgeisydd na fedd hawl i eistedd ymysg etholedigion "yr awen wir."*

*(2 Rhagfyr 1939)*

Diddorol hefyd yw sylwi ar y dyfyniad isod o gofiant Eluned Phillips, Dewi Emrys, sy'n sôn amdano'n cydfeirniadu cystadleuaeth y Goron yn Eisteddfod Genedlaethol Llandybie ym 1944:

*....Gellid meddwl ei fod wrth ei fodd yn ymosod, ond gŵyr y sawl a'i hadnabu, mai triciau ymfflamychol i ddangos gwybodaeth, oedd fynycha' y tu ôl i hyn, rhagor na'r awydd i fod yn gas wrth gystadleuydd. Ei awydd oedd i helpu, er fod ei ddull o feirniadu, efallai, yn dueddol o godi*

*gwrychyn y sawl a gâi'r fflangell....*

Credaf fod Eluned Phillips wedi taro'r hoelen ar ei phen gyda'r geiriau uchod oblegid er gwaethaf yr holl ddwrdio a'r beirniadu cyson a fu yn y Babell ar hyd y blynyddoedd, a ymylai ar brydiau ar fod yn ffiaidd o blaen, byddai Dewi Emrys yr un cyntaf i annog y beirdd os gwelai fod gobaith ynddynt i wella'u crefft; yn yr un modd yr oedd yn fwy na pharod i ganmol unrhyw waith a oedd yn ei farn ef yn farddoniaeth o safon uchel, a hynny â geiriau o ganmoliaeth hael dros ben. Wele enghreifftiau ohono'n annog rhai o feirdd y Babell a oedd newydd gychwyn barddoni ac felly ymhell o fod yn feistri; yr oedd eu gwaith, er yn amrwd ar hyn o bryd, yn ddigon i berswadio Dewi bod ynddynt addewid mawr yn y dyfodol a'i bod hi'n werth iddo'u calonogi i ddyfalbarhau fel beirdd:

*GERALLT DAVIES (Roewen, Conwy). - Y mae'n hyfrydwch gennym gyhoeddi gwaith yr awenydd ifanc hwn nad yw eto'n un ar hugain oed. Dyma ddawn newydd ym myd y delyneg, a honno'n ddawn y bydd sôn amdani maes o law os cyflawnir yr addewid ddisglair a amlygir gan y ddwy delyneg a'r soned a ddaeth i'n dwylo - "ymdrechion cyntaf" yr awdur ifanc ar gyfer y Wasg, yn ôl ei dystiolaeth ef ei hun. Os felly, dyma ddarganfyddiadau hapusaf Golygydd 'Y Babell'. Nid syniad barddonol sy'n penderfynu gwerth cerdd mewn llenyddiaeth, ond syniad barddonol wedi ei fynegi mewn arddull gain. Er bod brychau ar waith y bardd ifanc hwn (a chyfrif y ddwy delyneg a'r soned), megis sillgolli ar ôl cytsain - 'I bridd y bedd'r ei heddiw', sgrifennu 'fferu' yn lle 'fferru', 'ca' ('fe ga'r teithiwr') yn lle 'caiff', 'ble orffwysa' yn lle 'ble y gorffwysa', 'hidil' yn lle 'hidl', a chynnwys yn chwechawd y soned odl a arferwyd yn yr wythawd ('ni-gri' yn y chwechawd, a 'lli-ni' yn yr wythawd), y mae'r awdur yn ymgyrraedd ym mhob llinell o'i eiddo at geinder ymadrodd yn hytrach na bodloni ar fynegiant ystrydebol; hynny'n profi bod iddo chwaeth lenyddol yn ogystal â chynneddf bardd. Y mae'n feddyliwr hefyd fel pob bardd o uchel radd. Tery nodyn cyrhaeddbell yn niweddglo effeithiol ei gerdd - nodyn telynegol, ond nodyn hefyd sy'n cyffwrdd i'r byw â phroblem gwynfyd yr enaid yn yr ystâd tuhwnt i'r llen:*

*'Os na chei gerdded ffyrdd y nef,*
*A fydd dy nef yn gryno?'*

*Dyna gwestiwn a ofynwyd lawer gwaith gan athronwyr yn eu ffordd eu hunain. Ond <u>bardd</u> sydd yn ei ofyn y tro hwn; ac fel bardd y sieryd, er mai fel athronydd y meddylia. Aed Gerallt Davies yn ei flaen gan ymroddi'n ddycnach i feistroli manion gramadeg, a bydd ei le yn sicr iddo ymysg beirdd gorau Cymru Fydd. Caiff y gweddill o'i waith ymddangos ar fyrder.*

*(16 Ionawr 1937)*

*AT Y BEIRDD. - Er bod llu ohonoch yn disgwyl eu tro yng nghyntedd Y BABELL, nid wyf yn ymddiheuro am roddi cymaint o sylw yr wythnos hon i dri o ddisgyblion addawol sy'n ceisio meistroli crefft yr englynwr.*

*Er bod Y BABELL yn gyfrwng cyhoeddusrwydd i waith cymeradwy a chynhyrchion beirdd cyfarwydd, un o'i dibenion pennaf yw cynorthwyo prydyddion myfyrgar sy'n astudio gwerslyfrau yn eu cartrefi heb gymorth athro profiadol. Cytunwyd â mi o'r dechrau mai buddiol, yn awr ac eilwaith, fyddai rhoddi mwy o le i wersi nag i farddoniaeth. Yn wir, prif werth Y BABELL i lawer o feirdd ieuainc yw'r ffaith ei bod yn Ysgol Farddol i werinwyr digoleg....*

*R. J. DANIELS (Blaenau Ffestiniog). - Soned ragorol drachefn. Fe wêl yr awdur inni newid gair neu ddau er gwell. Gair gwrywaidd yw 'caethiwed'. Felly, 'y caethiwed llym', nid 'y gaethiwed lem'. Hefyd, gwell na 'gwae dy garcharu' yw 'gwae o'th garcharu'. Prin y gellir ysgrifennu 'hwnt i'r barrau'. Ystyr 'hwnt', o'i gyfieithu, yw 'beyond'. 'Hwnt i'r môr' ('beyond the sea'). "Behind bars" y dywedir yn Saesneg, nid "beyond bars". Agosach i'r marc fyddai 'dy garcharu y tu mewn i farrau', neu 'y tu ôl i farrau'. Rhoddais air uchel eisoes i awen y bardd hwn a'i annog i drafferthu mwy ynglŷn â saernïaeth ei gyfansoddiadau. Dengys ei soned deilwng iddo werthfawrogi'r gwersi. Cawsom o leiaf un englyn da o'i eiddo yn Y BABELL, heb sôn am ei delynegion prydferth; ond nid yw'r bardd yn hollol sicr o'i gynghanedd eto. Y mae, er hynny, yn addo mor dda nes haeddu ei gynorthwyo. Wele englyn o'i eiddo a ddaeth i law gyda'r soned:*

*Y CURLAW.*

*O'r drum â'i garw dremyn, - draw edrych*
*Y rhaeadrau'n disgyn*
*Ag unlliw nôd, genlli gwyn,*
*Laith ymylwaith y Moelwyn.*

*Fe welir nad yw'r iaith na'r gynghanedd yn ddifai. Ni welaf fi fawr o ystyr i ymadrodd fel 'draw edrych y rhaeadrau'n disgyn.' Y mae'r gynghanedd, hefyd, yn wallus. Sylwer:*

*Draw edrych y rhaeadrau, etc.*
*dr dr r dr*

*Fe welir nad atebir y d gyntaf yn adran y Cyrch. Hefyd, o'r drwg, ym myd iaith, y mae'r ag yna ar ddechrau'r drydedd linell. 'Yn disgyn unlliw ôd' sy'n iawn. Ond y mae cynghanedd y llinell yn anafus. Sylwer:*

*Ag unlliw ôd, genlli gwyn.*
*g nll g nll g*

*Fe welir ar unwaith nad oes i'r g yn y gair 'gwyn' g yn cyfateb iddi ar ddechrau'r Orffwysfa, sef y gair 'ôd'. Felly, y mae'r llinell yn anghywir. Dyma linellau cywir:*

*1. Unlliw ôd ei genlli ef.*
*2. Unlliw gwêr ei genlli gwyn.*

*Dylid crybwyll, hefyd, mai geiriau unsillafog yw geiriau fel 'garw', 'berw', 'gweddw', etc., i gynganeddwr. Yn awr, fy nghyfaill, treiwch hi eto. "Dyfal donc a dyr y garreg."*

*(28 Hydref 1939)*

*R. O. GEORGE (Treuddyn). - Prydydd ifanc yw hwn. Er bod ei waith yn bur amrwd, ceir ynddo elfennau addawol. Cywirais ei wallau amlycaf gan hyderu y bydd i'r awdur fanteisio arnynt a mynd ati o ddifrif i astudio gramadeg a rhoddi sylw i ofynion ymadroddi cymen a chynnil. Nid Cymraeg yw pethau lledfegyn fel eis (yn lle euthum) a ces (yn lle cefais). Ysgrifennodd 'o fy mlaen' yn lle 'o'm blaen', a defnyddio'r un gair ddwywaith yn odl:*

*'A godai o fy mlaen.'*
*'A gobaith gwyn o'm blaen.'*

*Golygfeuydd yn lle golygfeydd; 'a'i gwêl' (am y gwenyn) yn lle 'a'u*

*gwêl'; 'i nhalon' yn lle 'i nghalon'. A dyma letchwithdod mynegiant:*

*'Daeth iechyd o'r awelon*
*Mor fwynaidd drosto chwyth.'*

*Fel hyn y sieryd y Cymro: "Daeth iechyd o'r awelon a chwyth mor fwynaidd drosto." Ychydig o syniad sydd gan yr awdur sut i gloi cân yn effeithiol. Bodlonodd ar ddiweddglo diafael a rhyddieithol fel:*

*'A gwn, os caf fy arbed,*
*Ei groesi eto wnaf*
*Fel caffwyf brofi eilwaith*
*O'i swyn, ryw hirddydd haf.'*

*Nid barddoniaeth yw peth fel yna. Wrth ddisgrifio golygfa brydferth, eled yr awdur i gymundeb dyfnach ag enaid prydferthwch yn hytrach na dal i ebychu bod y peth a'r peth yn hardd neu'n felys. Nid o lygad y bardd y daw barddoniaeth, ond o'i galon. Mynned y prydydd ifanc hwn werslyfrau cyfaddas, a bydd gobaith amdano.*

*(8 Mai 1943)*

*EDWIN JONES (Tregaron). - Er mai dechreuwr yw'r amaethwr ifanc hwn ym maes prydyddiaeth, ceir gwell graen ar ei waith y tro yma nag a gafwyd o'r blaen; eithr prentisaidd yw ei arddull ar y gorau, hyd yn hyn. Eto, amlygir elfennau addawol ganddo ym mhob dernyn o rigwm a ddaeth o'i law. Nid oes amheuaeth nad yw'n berchen awen. Ceir yn y delyneg hon gyffyrddiadau sy'n profi hynny. Cymhennais ychydig arni cyn ei throsglwyddo i ofal yr argraffydd. Gormod oedd disgwyl i mi oddef ymadrodd fel 'eu tegwch oll i gyd.' Y mae 'eu tegwch oll' neu 'eu tegwch i gyd' yn ddigon ar y tro. Cofiaf fod 'i gyd oll' yn y Beibl, - 'Pwy bynnag a gadwo y gyfraith i gyd oll' (Iago ii, 20). Rhaid i Edwin ddysgu sillafu'n gywirach. Tybiaf iddo weld y gair 'diflannu' mewn print lawer gwaith, ond 'diflanni' yw ei ffurf herfeiddiol ef, heb sôn am enghreifftiau eraill o'i annibyniaeth fel sillafwr! Eithr y mae hwn yn haeddu ei galonogi, oblegid y mae "gwreiddyn y mater ganddo." Trwy achlesu'r gwreiddyn hwnnw yn ddyfal â defnyddiau dysg, - a thrwy'r moddion hwnnw yn unig, - y cymhellir ef i fwrw allan geinciau bwydlawn a ffrwytho. Caiff telyneg 'Y Wawr' ymddangos ar ôl trwsio ychydig arni. Goddefaf y cyfuniad 'aur-Mair' yn odl, ond cam â'r iaith fyddai ei gymeradwyo. Dylid ei ochel fel gochel haint.*

*(1 Mehefin 1945)*

Ceir dwsinau o enghreifftiau eraill - yn wir, cannoedd dros y blynyddoedd - o Dewi Emrys yn canmol yn fwy uniongyrchol byth, ac yr oedd geiriau megis 'Rhagorol', 'Gwych', 'Hyfryd yn wir', 'Pert odiaeth' ac ati'n britho'r Babell yn rheolaidd iawn. Wele un enghraifft o ganmoliaeth uchel o'r fath:

*D. JACOB DAVIES (Llandysul). - Dyma un o'r telynegion mwyaf trawgar a gyhoeddwyd gennym. Fe'i dosberthir ymysg pethau gwerthfawrocaf Y BABELL. Dyma fardd ifanc (myfyriwr yng Ngholeg Abertawe, fel y gwyddom oll erbyn hyn), sydd wedi gwella'n anghyffredin, mewn crefft ac arddull, er pan ymddangosodd ei waith y tro cyntaf ymysg cynhyrchion Pabell Awen 'Y Cymro'. Y mae'n bleser gennyf ei longyfarch ar deilyngdod uchel y delyneg hon. Bu ei darllen yn hyfrydwch; ac fe erys yr un mwynhad i ddarllenwyr eraill a gâr farddoniaeth.*

Un o'r beirdd a ganmolid amlaf (a phwysleisiaf mai enghraifft arall yn unig yw ef o sawl bardd a ganmolid droeon) oedd T. Llew Jones o Bentrecwrt, Llandysul, gŵr a ddaeth yn un o Brifeirdd gorau Cymru'n ddiweddarach. Dyfynnaf y darn isod i ddangos tri pheth:

1. Mae'n enghraifft nodweddiadol eto o'r modd hynod gynhesol yr oedd Dewi Emrys, fel wrth drafod gwaith D. Jacob Davies uchod, yn medru canmol beirdd y Babell (cymharer hyn â'r modd digon brwnt yr oedd yn medru diystyru ambell fardd arall);
2. Mae'n enghraifft ohono'n rhoi gwers gynganeddu, rhywbeth arall cyffredin iawn yn y Babell;
3. Mae'n dangos y modd y llwyddai Dewi Emrys i ganmol ei lyfr ef ei hunan, <u>Odl a Chyghanedd</u> (a gyhoeddwyd ym 1938), gan bwysleisio iddo fod yn gymorth mawr i T. Llew Jones i wella'i grefft fel bardd. Yr oedd hyn hefyd yn beth hynod gyffredin yn y Babell, mor gyffredin yn wir fel ei fod yn ennyn gwên yn y darllenydd: wedi'r cyfan, nid oedd gostyngeiddrwydd a gwyleidd-dra ymysg cryfderau mwyaf Dewi!

> *T LLEW JONES (Pentrecwrt). - Bu darllen yr englynion swynol hyn yn hyfrydwch. Y maent yn glod mawr i'r awdur, yn enwedig pan gofiom mai crefft ddieithr iddo, ryw flwyddyn yn ôl, oedd cynganeddu. Gellir cynganeddu'n rheolaidd heb farddoni. Eithr nid diben yw'r Gynghanedd i T. Llew Jones, ond cyfrwng meddwl y bardd. Dwg yr englynion hyn ddelw yr awen bert sydd yn nodweddiadol o'i delynegion. Ni synnais ddim imi orfod unioni ei acen glodd unwaith neu ddwy. Yn wir, fy syndod oedd iddo fedru cynganeddu mor naturiol ac mor newydd mewn cyn lleied o amser; a gellir maddau i mi am deimlo'n falch o'r praw pellach hwn (ymysg llawer) bod fy ngwerslyfr, 'Odl a Chynghanedd', yn unol â thystiolaeth Dr. T. Gwynn Jones, "yn ateb yr alwad" amdano. Gan i nifer o gynganeddwyr ieuainc ofyn am wers o'r fath, budd iddynt fydd dadansoddi llinellau'r englynion hyn. Fe'u dadansoddir yn ôl y dosbarthiad a roddir i'r gwahanol gynganeddion yn y gwerslyfr dan sylw:*
>
> *1. 'Mae'n hafan glyd, raeanog.'*
> *an an*
>
> *Y Lusg Lefn.*
>
> *2. 'Yn hedd y gwyll rhydd y gog.'*
> *dd g dd g*
>
> *Y Draws o Gyswllt (acen ddyrchafedig); gwyll (Gorffwysfa) a gog (Prifodl) yn cydgordio, a'r gytsain dd o flaen yr Orffwysfa yn cael ei hateb o flaen y Brifodl gan yr dd ar ddiwedd y gair rhydd, a honno'n ffurfio cyswllt rhwng cynffon y gair rhydd â phen y gair gog. Goddefir peidio ag ateb yr n gyntaf mewn llinell, megis yn y gair Yn ar ddechrau'r llinell dan sylw.*
>
> *3. 'Ei henaid i Langrannog.'*
> *enaid annog*
>
> *Y Draws Gyferbyn Seml (acen ddisgynedig).*
>
> *4. 'Dwndwr dibaid ei wendon.'*

*D nd d nd*
*- wndwr (Gorffwysfa) yn cydgordio â wendon (Prifodl), a'r gytsain d ar ddiwedd y gair dibaid yn cysylltu â wendon i ateb d flaen y gair dwndwr. Y Draws o Gyswllt (acen ddisgynedig) yw hon.*

*5. 'A swyn dau yw swn y don.'*
*s n d s n d*
*Y Groes Rywiog.*

*6. 'Dau gymar ym myd gwymon.'*
*D g m d g m*
*Y Draws Gyferbyn gymhleth; yr Orffwysfa (gymar) a'r Brifodl (gwymon) yn cydgordio, a'r d o flaen y Brifodl yn ateb y d o flaen yr Orffwysfa.*

*7. 'Mae'r wylan uwch môr heli.'*
*M r l m r l*
*Y Draws Gyferbyn Gymhleth drachefn; wylan (Gorffwysfa) a heli (Prifodl) yn cydgordio, a'r cytseiniaid m r o flaen heli yn ateb yr m r o flaen wylan.*

*8. 'Rhag oerllais gwg mi geisiaf.'*
*ais eis*
*Y Lusg Wyrdro yw hon, sef y sain ai (yn y gair llais) yn troi'n ei yng ngoben y Brifodl geisiaf. Caniateir hyn pan fo ffurf wreiddiol y ddau air yn cyfateb, megis llais - gais yn y llinell dan sylw. Gellir amrywio ffurf yr un gair at bwrpas y gynghanedd hon, megis:*

*1. Hon ydyw ffair y ffeiriau.*
*air eir*
*2. Er fy mai, paod â'm beio.*
*ai ei*

*Y Draws Gyferbyn Seml (acen ddyrchafedig) yw'r llinell a ganlyn:*

*9. 'Ei draeth aur ar drothwy haf.'*
*dr th dr th*
*Gorffwysfa, aur; Prifodl, haf. Llafariad yw h i gynganeddwr. Felly, dyna aur a haf yn cydgordio, a'r cytseiniaid d r th o flaen y naill yn cael eu hateb o flaen y llall, yn ôl y gofyn. Yr oedd y llinell 'Swyno dau wna sŵn y don' (y Draws Gyferbyn Seml, acen ddyrchafedig) yn hollol gywir, er bod y mynegiant braidd yn gwmpasog. Y mae'n well fel hyn: 'A swyn dau yw sŵn y don' (y Groes Rywiog). Dengys y wers hon mai'n ofer y cais neb lunio englyn cyn dysgu'r cynganeddion.*

*(27 Gorffennaf 1940).*

Dyna wers fanwl yn y cynganeddion felly, ond nid y cynganeddion yn unig a gâi sylw Dewi Emrys gan y byddai unrhyw agwedd ar farddoni'n derbyn ei sylw yn y Babell. Dyma wers arall ganddo, y tro hwn ar y soned, wrth iddo feirniadu cystadleuaeth soned Y Cymro ar y testun 'Y Trothwy':

*....Wrth feirniadu, rhoddaf ystyriaeth i ddwy elfen bwysig ynglŷn â'r soned:*
*(1) Ei hadeiladwaith, sef ei ffurf allanol. (2) Ei hansawdd, neu 'ei chyflead mewnol', chwedl Parry-Williams yn ei 'Elfennau Barddoniaeth'. Felly, nid fy mympwy fy hun fydd sylfaen fy nedfryd derfynol, ond "nod angen" y soned ei hun. Wele ddadansoddiad o'r soned Shakespearaidd dan ddau bennawd, yn ôl ei ffurf allanol a natur ei chynnwys:*

*Ei Hadeiladwaith*

*1. Pedair llinell ar ddeg, a phob llinell yn ddeg sillaf.*
*2. Dwy adran arbennig - yr Wythawd a'r Chwechawd, a ffin bendant rhyngddynt, sef yr Wythawd yn terfynu mewn diweddnod.*
*3. Yr Wythawd hithau yn ymrannu'n ddwy adran, gyda saib ar ddiwedd y bedwaredd linell, megis er cymryd anadl; gwahannod (semi-colon) yn hytrach na'r stop bendant a geir ar derfyn yr wythfed linell.*
*4. Saib drachefn ar ddiwedd pedwaredd linell y Chwechawd, a chwpled cynhwysfawr yn ddiweddglo i'r pennill.*
*5. Trefn arbennig i'r odlau, fel hyn:*

*Wythawd.*

| | | |
|---|---|---|
| 1.............. | llwyn | a |
| 2.............. | tir | b |
| 3.............. | mwyn | a |
| 4.............. | clir; | b |
| 5.............. | haf | c |
| 6.............. | oed | ch |
| 7.............. | claf | c |
| 8.............. | coed. | ch |

*Chwechawd.*

| | | |
|---|---|---|
| 1.............. | maith | d |
| 2.............. | llon | dd |
| 3.............. | llaith | d |
| 4.............. | ton; | dd |
| 5.............. | nef | e |
| 6.............. | llef. | e. |

*Fe welir, wrth y braslun uchod, na ellir arfer yn y Chwechawd odl a ddigwydd yn yr Wythawd. A dylid gofalu hefyd am ddigon o wahaniaeth rhwng odlau ac odlau gwahanol a fyddo'n gymdogion iddynt. Er enghraifft, dolur i glust fyddai pethau fel hyn (a) llwyn (b) llwyd (a) mwyn (b) nwyd, a chaniatáu eu bod yn cynrychioli terfyniadau odlog pedair llinell olynol, y gyntaf yn odli â'r drydedd, a'r ail â'r bedwaredd.*

## *Ei Hansawdd*

*1. Telynegol yw ansawdd y soned; a gwir y dywaid Parry-Williams mai 'telyneg un pennill' ydyw. Y mae'n canlyn, felly, mai pethau dieithr iawn iddi yw arddull drymaidd, ryddieithol, a rhyw frawddegu cymhleth a llafurus. Yr un mor estronol iddi yw'r ymgais i athronyddu neu bregethu ar fydr. Hynny a wnaeth Milton, i raddau helaeth iawn, wrth fabwysiadu ffurf y soned Eidalaidd yn yr iaith Saesneg, a bardd llai yn ei efelychu ac andwyo ansawdd delynegol y patrwm gwreiddiol.*
*2. Gan mai telyneg yw'r soned, y mae'n amlwg y dylai rhediad y pennill godi at eithafbwynt tlws ag iddo awgrym cyrhaeddgar. Corfforir yr elfen hon yn y cwpled sy'n ddiweddglo mor nodweddiadol o'r soned Shakespearaidd.*
*3. Newid cywair rhwng yr Wythawd a'r Chwechawd. Dichon fod hyn yn fwy nodweddiadol o'r soned Eidalaidd. Yn wir, y mae'n hanfodol i'r soned Eidalaidd, yn bennaf am mai yn y mesur hwnnw y cenid yn fynych gydag offeryn cerdd. Ond, fel rheol, y mae Shakespeare hefyd yn gofalu am y cyfnewidiad hwn, yn enwedig yn ei sonedau rhagoraf. Ffwlbri a achosodd lawer o benbleth i sonedwyr ieuainc yw'r "eglurhad" (sic!) mai "symio i fyny" gynnwys yr Wythawd a wneir yn y Chwechawd, fel petai barnwr*

*diamwys yn y Chwechawd yn rhoi mynegiant cynnil i rywbeth y baldorddwyd yn amleiriog amdano yn yr Wythawd. Y gwir yw mai taro cywair gwahanol a wneir yn y Chwechawd, eithr canu i'r un testun hyd y diwedd. Mewn gair, trawsgyweiriad a geir rhwng y ddwy adran. Er enghraifft, y bardd yn yr Wythawd yn disgrifio gwrthrych ei gân fel rhywbeth o'r tu allan iddo, a throi wedyn yn y Chwechawd i sôn am ryw brofiad arbennig a gafodd yn ei ymwneud personol â'r gwrthrych hwnnw....*

*(27 Chwefror 1937)*

Byddai Dewi hefyd yn cywiro unrhyw iaith ac orgraff, a hynny â'r un manylder a welir uchod. Wele un enghraifft o wers iaith fanwl:

*Nid yw 'Disgybl' (Lerpwl) yn sicr pa bryd i ddefnyddio'r fannod yr mewn brawddegau arbennig, na pha bryd i'w gadael allan; a dyfynna frawddegau a rydd anhawster iddo yn hyn o beth. Er na fedraf fanylu ar y pwynt, oherwydd prinder gofod, nid anodd fydd cyfarfod â'i ofynion ef mewn ychydig eiriau. Mewn cysylltiadau fel y rhai y geilw ef sylw atynt, ynglŷn â berf y defnyddir y fannod. Ynglŷn ag enw ac ansoddair y mae ei gadael allan. Wele enghreifftiau sy'n ateb gofynion 'Disgybl':*

1. *Rhedeg yr oedd, nid sefyll.*
2. *Ceffyl oedd, nid buwch.*
3. *Melys oedd, nid hallt.*
4. *Gorffwys yr wyt, nid gweithio.*
5. *Caredig wyt, nid creulon.*

*Fe gofir imi gywiro telynegwr, yr wythnos ddiwethaf, am iddo gysylltu'r fannod â rhagenw fel hyn: ''Rwyt oerllyd', ''Rwyt greulon', yn lle ysgrifennu, fel y dylai, 'Wyt oerllyd' ac 'Wyt greulon'. Wrth reswm, yr un mor wallus fuasai 'Oerllyd yr wyt'; 'Creulon yr wyt', yn lle'r mynegiant cywir: 'Oerllyd wyt'; 'Creulon wyt'. Ond sylwer ar y ddwy frawddeg a ganlyn:*

1. *Ceffyl yn rhedeg oedd.*
2. *Bachgen yn hepian wyt.*

*Buasai 'Ceffyl yn rhedeg yr oedd' a 'Bachgen yn hepian yr wyt' yn wallus, er mai berf sy'n rhagflaenu oedd ac wyt yn uniongyrchol. Ceffyl yw gwrthrych y frawddeg gyntaf, (a bod yn fanwl), ceffyl yn rhedeg. Nid y weithred (o redeg) a ddynodir, ond y gwrthrych ei hun, a'r gwrthrych hwnnw yn enw. Felly, oedd, nid 'yr oedd'. Am yr un rheswm, - nad â'r weithred (o hepian) ond â'r gwrthrych y cysylltir wyt, - buasai 'yr wyt' yn wallus yn yr ail frawddeg. Wele frawddegau sy'n dynodi'r weithred, a'r ddwy, o ganlyniad, yn hawlio'r fannod o flaen y ferf:*

1. *Y ceffyl, rhedeg yr oedd.*
2. *Fy machgen, hepian yr wyt.*

*Hyderaf fod hyn yn ddigon o eglurhad i roi 'Disgybl' ar ben y llwybr; a diolchaf iddo am godi'r pwynt - pwynt sy'n dal i bigo rhai beirdd uchelgeisiol! Sylwer mor fynych y tynnir y pigyn hwn, bob blwyddyn, o gnawd prydyddion sy'n ymgiprys am goron a chadair yr Eisteddfod Genedlaethol.*

Ar y dudalen lythyrau yn rhifyn 6 Mehefin 1942 o'r Cymro, ymddangosodd y llythyr canlynol gan un o gyfeillion pennaf Dewi Emrys, J. W. o Lundain, yn mynegi anfodlonrwydd bod Dewi'n gorfod

cywiro'r un gwallau yn y Babell dro ar ôl tro. Pwysleisia nad yw'n anfodlon o gwbl â Dewi ei hunan ac mae'n canmol ei gywiriadau a'i gynghorion; nid yw'n deall yn hytrach pam bod y beirdd yn mynnu gwneud yr un camgymeriadau dro ar ôl tro, er gwaethaf ailadroddion parhaus Dewi:

*CYWIRO CYMRAEG*

*Y mae'n ddirgelwch i mi paham y mae'n rhaid i Ddewi Emrys adrodd yr un cywiriadau fyth a beunydd yn ei lithoedd yn 'Y Cymro' bob wythnos. Gellir dywedyd amdano ei fod yn iawn 99 o weithiau o bob cant, ond gorfyddir arno ail-adrodd yr un pethau o wythynos i wythnos. Dyna 'briallu' er enghraifft; dywedwyd 30 mlynedd yn ôl nad cywir yw 'brieill' na'r un ffurf arall ar luosog, ond 'briallu' fel y dywaid pawb ar lafar.*

*Yr un modd gyda chynghanedd, gellir dywedyd amdano ei fod yn gywir 97 o bob cant o'i osodiadau neu ei reolau, ac felly fe ddylai pawb sylwi ar ei ddysg. Y mae'n debyg mai disgyblion yr ysgolion sir ydyw'r mwyaf gwallus eu hiaith a'u cynghanedd trwy holl Gymru. Nid oes dim mor gywir a phendant yn y Wasg Gymreig heddiw â chyfarwyddiadau Dewi Emrys, a dylem fod yn ddiolchgar iddo ef a'r 'Cymro' am gyhoeddi ei lithoedd wythnosol.*

*J. W.*
*Llundain.*

Yn y Babell 15 Awst 1942 wele Dewi'n ateb J. W.:

*Gresynai fy hen gyfaill craff, J. W., Llundain, beth amser yn ôl, mewn llythyr yn 'Y Cymro', fy mod dan faich cywiro'r un gwallau beunydd a byth yn y Babell. Disgyblion newydd, gan amlaf, sy'n gyfrifol am hynny. Dywedid am hen athro i mi mai'r un nodiadau oedd ganddo i bob cenhedlaeth o fyfyrwyr a ddôi i'r coleg. Dyna'r gwir, ond odid, am fwyafrif ein hathrawon, a tho ar ôl to o ddisgyblion yn dyfod dan eu cyfarwyddyd....*

Crybwyllwyd eisoes bod Dewi Emrys yn medru annog y beirdd a'u canmol mewn modd hynod o gynhesol a chredaf fod y cynhesrwydd hwn i'w weld yn y Babell yn gyffredinol: yn wir, credaf mai un o'r prif resymau dros lwyddiant y Babell ar hyd y blynyddoedd oedd y ffaith bod Dewi'n trin y beirdd fel un teulu mawr ac yn gwneud iddynt deimlo'n gartrefol iawn ynddi. Wele enghreifftiau o'r modd yr oedd Dewi'n croesawu rhai o'r beirdd cynharaf i 'gylch y Babell', gan ddiolch iddynt yn ddiffuant am eu teyrnged iddi. Y mae hefyd yn pwysleisio eto nad 'llydan y[w'r] porth' i gael mynediad iddi, ffordd o argyhoeddi'r beirdd bod eu gwaith o safon uchel:

*Hymyr (Congleton). - Dyma'r tri darlun ar fur 'Y Babell'; a da yw edrych ar wynebau gwroniaid a naddwyd o ddeunydd mynyddoedd ein gwlad. Diolch am eich gwerthfawrogiad o'r Babell. Y mae'r frawdoliaeth yn dal i gynyddu; ac ni bydd darostwng ar y safon. Croesaw i'r cylch!*

*(17 Hydref 1936)*

*Y Prifardd Edgar Phillips (Coed Duon). - Dewch i mewn yn galonnog. Y mae yma frodyr a all fwynhau cywydd da. Galw yr ydych am 'Yr Hen Bwerau.' Y maent i'w clywed yn y cywydd hwn fel sŵn y môr yn yr ogof. Dyma'r hen broffwydi yn llefaru eto -*

*Gwŷr difeth a'u pregethau*
*Yn rhin a balm i'r hen bau.*
*Dawn y rhain dynnai'r anwir*
*O'i lety gwael at y Gwir*
*I weled ceinder eiloes*
*A mynnu grym yn y Groes.*

*Diolch am eich teyrnged i'r Babell.*

*(17 Hydref 1936)*

*Ifor Davies (Bow Street, Aberystwyth). - Cân swynol, a naws awenyddol iddi o'r dechrau i'r diwedd; a charwn i feirdd ieuainc 'Y Babell' sylweddoli mai cân ydyw, nid telyneg, am fod gwahanol brofiadau yn cael mynegiant ynddi. Newidiwyd peth ar y trydydd pennill am eich bod yn cymysgu amserau ynddo - 'caf' a 'dôi'. Ffurf ar 'deuai' yw 'dôi' (y trydydd person, unigol, amser amherffaith, o'r ferf 'deuaf', neu 'dôf'.) Diolch am eich gwerthfawrogiad o'r Babell. Da gennyf eich bod yn haeddu lle ynddi; canys nid llydan y porth.*

*(24 Hydref 1936)*

*R. Ll. Davies (Llanrwst). - Gwnewch le i'r hen brydydd hawddgar a dystia ei fod "ar drothwy'r pedwar ugeinmlwydd oed." Bardd y blynyddoedd a adawodd iddo gyneddf cân a chywreinrwydd crefft y bardd. Hawddamor iddo a chroeso cynnes.*

*(28 Tachwedd 1936)*

Nodwedd arall o'r Babell oedd bod Dewi, lle medrai, yn nodi ychydig o ffeithiau am y beirdd i hysbysu'r darllenwyr ynghylch rhywfaint o'u hynt a helynt: pwy oedd eu perthynasau a'u ffrindiau, beth oedd eu galwedigaeth, eu diddordebau, unrhyw wasanaeth a wnaent i'w cymunedau, unrhyw lwyddiannau eisteddfodol ac ati. Yr oedd hyn hefyd yn hanfodol bwysig i gynnal awyrgylch gynnes, bersonol, y Babell, gan fod Dewi'n amlwg yn eu gwerthfawrogi fel pobl o gig a gwaed yn hytrach na'u bod yn ddim ond beirdd 'mecanyddol' yn unig:

*Y Parch. E. Llwyd Williams (Rhydaman). - Telyneg drawgar gan un o awenyddion diweddaraf Dyfed. Fe ŵyr ei gofleidio eisoes gan freichiau cadeiriau barddol. Diolchaf am fy atgoffa iddo gael dwy gadair "dan*

*feirniadaeth Dewi Emrys." Diolched yntau iddo eu haeddu! Y mae diweddglo'r delyneg hon yn deilwng o'i awen ar ei gorau - ffordd bardd o awgrymu y bydd hiraeth a breuddwyd yn sicr o ddwyn yr alltud beunos yn nes i dref. Dwg clawr y gyfrol fach chwaethus, 'Cerddi'r Plant' (Gwasg Aberystwyth), ei enw ef ac enw Waldo Williams (bardd addawol arall o Ddyfed) fel cyd-awduron. Newydd gymryd gofal Ebenezer, eglwys y Bedyddwyr yn Rhydaman y mae Llwyd ar ôl symud o Faesteg lle'r ordeiniwyd ef. Pob llwyddiant iddo mewn tref sydd yn llawn o draddodiadau awen. Yno y cadwai Watcyn Wyn ei ysgol enwog, a Gwili ac Aman yn ei gynorthwyo ar y diwedd, a'i aelwyd yn gyrchfan beirdd y fro - Gwydderig ac eraill. Yno y trig Amanwy a Gwilym Myrddin heddiw.*

*(7 Tachwedd 1936)*

*Parch. J. D. Evans (Talybont). - Englynion cywrain a bachog gan ŵr y mae'r Gynghanedd yn wasanaethferch ufudd iddo. A chyda llaw, efe yw cadeirydd Pwyllgor yr Orsedd ynglŷn ag Eisteddfod Genedlaethol 1937, ym Machynlleth. Teimlwn yn falch o'i dystiolaeth bod 'Y Babell' "yn llenwi bwlch mawr yng Nghymru heddiw."*

*(21 Tachwedd 1936)*

*Dofwy (Cwmllinau, Machynlleth). - Dau englyn sydd yn ychwanegiad gwerthfawr at gyfoeth cynganeddol 'Y Babell'. Enillodd englyn 'Yr Eryr' y gamp yn Eisteddfod Talaith Gwynedd yn y flwyddyn 1885, pryd yr enillodd Dyfed y gadair am ei awdl, 'Noddfa'. Y mae hyn yn ein cymell i grybwyll mai yn Eisteddfod Talaith Gwynedd, yn y flwyddyn 1922 (os da y cofiwn) yr enillodd Golygydd 'Y Babell' y gadair am awdl 'Y Ddrycin'; ac fe gofir mai detholiad o'r awdl honno oedd y prif adroddiad yn Eisteddfod Genedlaethol Port Talbot yn 1932. Y mae Dofwy yn gyfaill i Geufronydd, buddugwr yr englyn yng nghystadleuaeth 'Y Babell', a daeth i ddosbarth y concwerwr yn yr ornest honno. Yn wir, croesodd y ddau gleddyfau lawer gwaith, y naill yn ennill heddiw, a'r llall yfory, a siglo dwylo wedyn. Aderyn bach cyfrwys a sibrydodd hyn wrthym!*

*(5 Rhagfyr 1936)*

*Gerallt Jones (Coleg y Brifysgol, Aberystwyth). - Cerdd goeth a chelfydd a'i diweddglo'n rhagorol....Mab y Cymro amryddawn, y Parch. Fred Jones, Talybont, yw awdur ifanc y gerdd hon, a'i waith eisoes yn profi iddo etifeddu medr awenyddol ei dylwyth athrylithgar. Fel ei ewythr, y Prifardd Simon B. Jones, hwyliodd yntau o borthladd i borthladd fel morwr cyn setlo i lawr yng Ngholeg Aberystwyth i ymbaratoi ar gyfer y weinidogaeth. Dymunwn iddo wynt teg ar ei yrfa newydd.*

*(9 Ionawr 1937)*

*Wm. Lewis Jones (Llanfairfechan). - Cyn-ringyll yn heddlu Caernarfon yw awdur y gân dyner hon; a da gennym ei groesawu i'r Babell am i fab deddf brofi ei fod hefyd, fel y diweddar Bedr Hir, yn fab awen. Y mae'n dwyn sêl mawr dros iaith ei dadau, fel plismyn llengar eraill y medrwn eu henwi; a'i hyfrydwch pennaf heddiw yw cymdeithas ei frodyr barddol. Da fyddai rhoi dan ei ddisgyblaeth ef bob cyd-wladwr lliprynnaidd nad yw'n parchu iaith a thraddodiadau ei genedl ei hun. Cymry felly, yn anad neb, sy'n gyfrifol am y Seisnigeiddiwch rhonc a afaelodd mewn cynifer o gartrefi ac ardaloedd yn ein gwlad.*

*(13 Chwefror 1937)*

*Owen Davies (Y Glôg, Penfro). - Dyma un o'r englynion mwyaf naturiol yn yr iaith, a'r ddau ansoddair ynddo yn ffitio i drwch y blewyn. Gair brodorion Dyfed am 'pletio' (plethu) yw 'pleto'. Lled nodweddiadol o'u tafodiaith fireinllais hwy yw troi'r terfyniad io yn o, megis 'hido' am 'hidio', 'swno' am 'swnio', etc. Dilledydd yw awdur llengar yr englyn, a'i siop yn gyrchfan beirdd a llenorion y fro, yn enwedig ddydd Sadwrn ar ôl i'r 'Cymro' gyrraedd.*

*(13 Chwefror 1937)*

Dyna ryw flas felly o'r modd yr oedd Dewi'n croesawu ei braidd i mewn i'r gorlan, ac yntau wedyn fel rhyw fugail yn gofalu amdanynt!

Ym Mhabell Awen 19 Mehefin 1937 ymddangosodd y nodyn canlynol:

*RHYBUDD*

*BYDD cyfarfod arbennig o wŷr Pabell Awen Y CYMRO ym Machynlleth yn ystod wythnos yr Eisteddfod. Cyhoeddir y manylion ymhen wythnos neu ddwy.*

*Dymunir ar y beirdd sy'n bwriadu bod yn bresennol anfon gair i Olygydd 'Y Babell' cyn gynted ag y byddo modd.*

*Ar hyn o bryd, ni ellir cyhoeddi amser y cyfarfod; ond gallwn roddi sicrwydd y bydd yn amser cyfleus i bawb.*

Erbyn yr wythnos ganlynol mae'n rhaid bod Dewi Emrys un ai wedi derbyn cwyn gan un o feirdd benywaidd y Babell, neu ei fod ef ei hunan neu un arall o staff Y Cymro wedi sylwi iddynt anwybyddu'r merched. Wrth geisio unioni'r cam ym Mhabell Awen 26 Mehefin 1937 ymddangosodd y frawddeg hon, sy'n hynod o ddoniol ac eironig yn ein hoes 'wleidyddol gywir' heddiw:

*At Feirdd y Babell. - Nid gwŷr 'Y Babell' yn unig a wahoddir i'r cwrdd ym Machynlleth, ond yr awenyddesau hefyd; a da fydd eu cael i estyn y te i'w brodyr barddol.*

Druan ohonynt! Ond er gwaethaf hynny, aeth y trefniadau yn eu blaen, ac meddid ym Mhabell Awen yr wythnos ganlynol eto:

*At y Beirdd. - Y mae Mr. J. Rhys Lewis, Ysgrifennydd Cyffredinol Eisteddfod Machynlleth, yn trefnu ystafell ar gyfer cyfarfod Undeb Beirdd y Babell Awen. Ceir yno rydd-ymddiddan a chwpanaid o de a theisen, a'r 'Cymro' yn talu am y lluniaeth. Cyn belled ag y gwelwn yn awr, prynhawn dydd Iau am bump o'r gloch y cyferfydd y cyfeillion; a bydd yn dda gennyf glywed oddi wrth yr awenyddion a'r awenyddesau sy'n*

*bwriadu bod yn bresennol. Ceir manylion pellach eto.*

Yr oedd y cynnig hwn yn agored i unrhyw un yr ymddangosodd ei gynnyrch (neu ei chynnyrch!) yn y Babell ers ei sefydlu, cyn belled ag y câi'r trefnwyr wybod ymlaen llaw faint o feirdd oedd am fod yn bresennol ar y prynhawn Iau er mwyn cael darparu'r swm cywir o luniaeth. Ond nid oedd prynhawn Iau wrth fodd pawb, fel y gwelir o Babell Awen 24 Gorffennaf 1937:

*Cyhoeddir y manylion terfynol yn ein rhifyn nesaf; ond bydd tocyn cyn hynny yn llaw pob un sy'n bwriadu bod yn bresennol. Y mae tri o feirdd y De yn achwyn am na threfnwyd ar gyfer dydd Mawrth, a hwythau'n gorfod gado'r Eisteddfod y noson honno. Boed hysbys mai prynhawn ddydd Mawrth, am bump o'r gloch, y cynhelir cyfarfod blynyddol yr Orsedd a Chymdeithas yr Eisteddfod. Dyna ddigon o reswm dros i feirdd 'Y Babell' gwrdd ar adeg wahanol. Y mae'n dyled yn fawr i Mr. Rhys Lewis, ysgrifennydd medrus yr Eisteddfod, am drefnu erom, ac i gyfeillion Capel Maengwyn am roi ystafell a llestri at ein gwasanaeth. A dyna'r boneddigesau caredig a addawodd ofalu amdanom wrth y byrddau. Cawn ddiolch iddynt yn yr ysgoldy. Dyna gyfle i rai o'r englynwyr; a pheidiwch ag anghofio perchenogion 'Y Cymro' am eu nawddogaeth i feirdd eu gwlad.*

Ac felly am bump o'r gloch ar brynhawn dydd Iau Eisteddfod Genedlaethol Machynlleth fe gynhaliwyd ymgomwest gyntaf Pabell Awen Y Cymro, gyda'r prif drefniadau yn llaw T. E. Nicholas, Aberystwyth. Wedi'r holl drefniadau, a'r holl edrych ymlaen ati, medrodd Dewi Emrys adrodd ym Mhabell Awen 14 Awst 1937 iddi fod yn llwyddiant aruthrol:

*Bu'r Ymgomwest yn llwyddiant hollol. Daeth rhyw hanner cant o'r brodyr ynghyd. Cafwyd byrddau yn llawn o bethau da, a chalonnau yn llawn o bethau gwell yn y gyfeillach a ddilynodd wledd y danteithfwyd. Da oedd clywed Gerallt Jones (mab y Parch. Fred Jones, B.A., B.D.) yn adrodd 'Pwllderi' yn acen soniarus Dyfed. Tystiai John Ellis Williams, y dramodydd (ac fe ddylai ef wybod), i Gerallt roi inni adroddiad celfydd ac effeithiol odiaeth. Amheuthun oedd clywed y beirdd - pob un yn barod yn ei dro - yn ymollwng i rigymu, a'r peiriant prydyddu wedi ei ireiddio'n drwyadl gan hufen a sudd ffrwythau, a melyster awen a brawdgarwch yn peri cynghanedd lwyr rhwng calon a chalon. Teimlai pawb yn ddiolchgar iawn i berchenogion 'Y Cymro' am amlygiad mor sylweddol o'u nawddogaeth i feirdd eu gwlad; a da oedd clywed mai'r bwriad oedd gwneud Ymgomwest Pabell Awen 'Y Cymro' yn rhan flynyddol o hyfrydwch y Brifwyl. Y mae'n dyled yn fawr i'n cyfaill awengar, Mr. T. E. Nicholas, Aberystwyth, am ei wasanaeth rhagorol fel prif drefnydd yr Ymgomwest. Ef a archebodd ddefnyddiau'r wledd a darparu popeth ymlaen llaw ar gyfer y brodyr; a rhan felys o'r gyfeillach oedd ei araith ffraethbert wedi'r te.*

*Cydymdeimlwn â'r diweddariaid a gyrhaeddodd ar ôl i'r tynnwr lluniau bacio'i daclau a diflannu. Gellir cael y llun yn uniongyrchol,*

*cymwys i'w fframio, ond anfon swllt i swyddfa'r 'Cymro', Wrecsam. Cydnebydd pawb a'i gwelodd ei fod yn ddarlun rhagorol. Pa ryfedd, a'r fath wynebau barddonol yn addurn iddo! Nid yw'r doniol a'r dawnus Wilym Deudraeth yn edrych mor heulog ag arfer, er iddo gipio'r wobr am gywydd y 'Dafarn Datws'. Tipyn o salwch corff oedd arno, a phawb yn teimlo'n siomedig iddo orfod cilio heb ein diddanu â'i englynion cyfrwysbert. Hyderwn yn fawr ei fod yn holliach erbyn hyn. Gwag oedd sedd Hymyr hefyd, er iddo fwriadu bod yn y gyfeillach. Diolchwn iddo am ei lythyr caredig; a bydd yn llawen ganddo glywed inni oll sylweddoli ei ddymuniadau da.*

(Mae'r llun rhagorol hwn o 'Feirdd y Babell' i'w weld yn yr atodiad lluniau ar ddiwedd y traethawd.)

Buan iawn felly y sylweddolwyd bod arbrawf 'Y Babell Awen' yn Y Cymro yn tyfu'n llwyddiant aruthrol, a'r niferoedd a ymatebai iddi uwchlaw pob disgwyl. Derbyniai Dewi Emrys yn ei swyddfa yn 20 West Square, Llundain, S. E. 11, deyrnged ar ôl teyrnged iddo ef a'i Babell ac nid oedd ef yn swil o ddweud hynny! Yn y Babell yn rhifyn 28 Awst 1937, flwyddyn union ar ôl ei sefydlu, meddai Dewi:

*....Ein bwriad yw cadw i fyny safon 'Y Babell' a pheri bod pawb a gaffo eisteddfa ynddi yn falch o'r anrhydedd. Cawsom air calonogol iawn y dydd o'r blaen oddi wrth Dr. T. Gwynn Jones yn ein llongyfarch ar y gwersi a roddwn yn 'Y Cymro' i feirdd ieuainc addawol. "Yr wyf yn sicr," ebr ef, "y bydd gennych yn fuan iawn do o ddisgyblion a rydd, yn eu tro, fywyd newydd mewn prydyddiaeth Gymraeg." Ar hynny y mae ein bryd, a'n llawenydd yn fawr inni ddarganfod cymaint o dalent newydd mewn cyn lleied o amser. Cofied y beirdd mor fawr yw eu dyled i berchenogion 'Y Cymro' am yr addysg a'r amlygrwydd a roddir iddynt o wythnos i wythnos, a hynny er mwyn diogelu ein hetifeddiaeth lenyddol fel cenedl.*

Ond er bod y Babell Awen ei hunan yn mynd o nerth i nerth, yn anffodus ni ellid dweud yr un peth am Dewi Emrys. Wele'r nodyn annisgwyl canlynol o Babell 6 Tachwedd 1937:

*RHAID cyhoeddi'r cyfraniadau i'r Babell Awen yr wythnos hon heb nod nac esboniad gan ei Golygydd, Dewi Emrys.*

*Nos Sadwrn bu'n rhaid cyrchu Dewi Emrys i un o ysbytai Llundain a bu dan law-weithred feddygol yno. Ei ofal cyntaf oedd am y Babell, ac ar gais a wnaeth, ar y ffordd i'r ysbyty, fe anfonodd yr awdurdodau deligram at gyfaill iddo yn ei alw i'r Brifddinas ar unwaith.*

*Yn fuan iawn wedi'r 'operation' ar Dewi Emrys sibrydodd wrth ei gyfaill y carai iddo ofalu am y 'Babell' yr wythnos hon rhag bod bwlch ynddi. Rhoddodd allwedd ei swyddfa i'w gyfaill a dywedodd wrtho ymha le i gael gafael ar y defnyddiau.*

*Da gennym hysbysu bod Dewi Ermys yn gwella'n foddhaol, a hyderwn y*

*bydd yn ôl wrth ei waith yn fuan.*

Ac felly y bu: cyhoeddi cynhyrchion y beirdd yn ôl yr arfer, ond heb y nodiadau arferol arnynt gan Dewi Emrys, tipyn o gamp ynddi'i hunan dan yr amgylchiadau a rhywbeth sy'n dangos mor bwysig oedd y Babell i'w Golygydd. Yr un oedd y patrwm yn y Babell Awen ddilynol, gyda'r nodyn hwn yn rhagflaenu cynhyrchion y beirdd:

*AT Y BEIRDD. - Fel cynrychiolydd Golygydd 'Y Babell', da gennyf dystiolaethu ei fod yn gwella'n araf. Medrodd glywed darllen cynhyrchion beirdd gwahanol ar gyfer y rhifyn hwn a chymeradwyo'r detholiad a argreffir heddiw. Trwsiwyd ambell linell yma ac acw ond y mae'n amhosibl manylu. Credaf y bydd Dewi Emrys yn alluog i ddelio'i hunan â gohebiaeth 'Y Babell' at yr wythnos nesaf, er mai gwely yn yr ysbyty fydd ei gadair olygyddol.*

*Wrth imi ddarllen iddo heddiw (Tach. 6) beth o gynnwys 'Y Babell' am yr wythnos ddiwethaf, sylwodd y Golygydd nad oedd gwŷs (summons) a dwys yn odli; eithr gwŷs - bys, dwys - pwys. Fe ddigwydd y bai yn ail bennill y delyneg 'Hiraeth' (y Parch. Joseff Jenkins). Y mae gwall argraff hefyd yn llinell gyntaf englyn 'Ffrydiau Henllan' (y Parch. J. D. Evans), sef gwybr, yn lle ewybr. Dyma'r llinell fel yr ysgrifennywd hi:*

*'Ewybr wynllif bri Henllan.'*

*Ystyr ewybr yw buan.*

*CYFAILL.*

Erbyn yr wythnos ganlynol da oedd gweld bod Dewi Emrys bellach wedi gwella'n ddigonol i ysgrifennu nodiadau'r Babell, er gwaethaf y ffaith ei fod yn parhau ar wastad ei gefn, prawf arall o'i ymroddiad a'i gariad at y Babell. Wrth gyflwyno'i nodiadau mae'n diolch i staff yr ysbyty ac i'r holl gyfeillion a fu mor garedig ag ymweld ag ef neu anfon eu dymuniadau ato yn ei waeledd; mae'n rhoi rhywfaint o oleuni hefyd ar natur y llawdriniaeth:

*O'R YSBYTY. - Yr wyf wedi dechrau ar fy nhrydedd wythnos yn yr ysbyty. Canlyniad gwasanaeth yn y fyddin oedd y trwbwl, er mai'n ddiweddar yr aeth yr anaf yn rhy ddrwg i'r moddion cyffredin. Byddaf yn ddyn newydd ar ôl gwella. Ofnwn beswch o'r blaen. Diolchgar iawn ydwyf am fedr y llawfeddyg a weithredodd arnaf ac am y gofal a gefais yn fy salwch. Cefais hefyd nerth yn ôl y dydd a hynawsedd cyfeillion cywir. Mynnodd amryw ohonynt ddarganfod fy nghyfeiriad presennol; a daeth yma ddymuniadau tyner a chymwynasau a fu'n ddiddanwch melys. Ymysg y rhai cyntaf a anfonodd ataf eu hewyllys da yr oedd Prif Olygydd a swyddogion 'Y Cymro', Hymyr, J. W. (Llundain), R. Williams-Parry, heb enwi deiliaid a dilynwyr 'Y Babell' y caf eto gyfle i ddiolch iddynt yn bersonol. Un o'r ymwelwyr cyntaf oedd D. R. Hughes, cyn-ysgrifennydd Cymdeithas yr Eisteddfod Genedlaethol, a fu'n gymaint ysbrydiaeth a*

*nerth i'r hen ŵyl am flynyddoedd. Dynesodd at fy ngwely â pherth o flodau yn ei ddwylo fel coelcerth haf; ond ei wyneb siriol oedd gogoniant y cwbl. Daeth gorau pob sir yng Nghymru i mewn i'r ystafell gyda'i bersonoliaeth hawddgar ef. Ar ei drywydd, dilynodd y Parch. M. H. Edwards, Falmouth Road - un o feibion disgleiriaf pulpud ein cenedl. Yn goron ar y cwbl, medd ddynoliaeth fawrfrydig sy'n fwrlwm o iechyd i ŵr claf. Nid rhyfedd ei fod mor ddwfn yn serch ei bobl. Da fyddai i ambell gennad wybod mor hawdd y gwêl y cleifion yma drwy'r ffurfioldeb offeiriadol nad yw'n ddim ond meddalwch mwswg ar wyneb craig. Diolch am weinidogion fel yr annwyl "M. H.". Rhyfedd oedd clywed iddo ef fynd trwy'r un brofedigaeth â minnau. Gwir yw'r gair mai'r dioddefwr yw'r diddanydd o hyd.*
*CYNHYRCHION YR WYTHNOS DDIWETHAF. - Yr wyf yn ddiolchgar iawn i'r cyfaill a ofalodd am 'Y Babell' yn ystod y brofedigaeth na chaniatâi imi godi llaw at ysgrifbin. Gwrandewais, megis, rhwng cwsg ac effro, ar ei ddarlleniad o'r farddoniaeth a gyhoeddwyd yr wythnos ddiwethaf, gan addo ychydig sylwadau ar y detholiad hwnnw yr wythnos hon. Dyma'r rhifyn diwethaf dan fy llaw, a minnau'n ddigon effro bellach (ar fy nghefn yn y gwely) i fedru gweld pob rhinwedd a phob brycheuyn....*

Ym Mhabell Awen 27 Tachwedd 1937 mae'n cyfaddef iddo dderbyn sawl rhybudd gan y meddygon a'r nyrsus mai annoeth oedd bod mor brysur yn paratoi'r Babell Awen o'i wely yn yr ysbyty, ond yn unol â'i natur ystyfnig eu hanwybyddu a wnaeth Dewi! Diddorol eithriadol hefyd yw'r cais a wnaeth y meddyg iddo:

*O'R YSBYTY. - Dal i wella'r wyf, er mai ar fy eistedd yn y gwely yr ysgrifennaf y sylwadau hyn. Cefais godi deirgwaith yn ystod yr wythnos i roi praw ar fy nghymalau; a medrais gerdded o fur i fur brynhawn ddoe yn weddol hwylus. Ysbeilio'r oriau a wneuthum yr wythnos ddiwethaf i baratoi copi'r Babell, a'r swyddogion yma, yn famaeth a meddyg, yn fy rhybuddio bob tro y digwyddent fy nal "yn trethu fy nerth", chwedl hwythau,; ond teimlaf yn falch iawn i mi, fesul tipyn, gwblhau'r gwaith, a hynny heb deimlo ronyn gwaeth. Peth rhyfedd yw grym ymarfer a disgyblaeth. Fe'm prentisiwyd yn argraffydd a newyddiadurwr, a bûm ynglŷn a'r Wasg am rai blynyddoedd cyn mynd i goleg a dechrau fy mywyd cyhoeddus, a'r hen ddisgyblaeth yn aros o hyd. Dwy reol fawr mewn swyddfa newyddiadur yw: (1) "Rhaid dilyn y copi - allan drwy'r ffenestr, os bydd eisiau!" (2) "Rhaid i'r papur ddyfod allan, deud a ddêl." Rhoir gofal adrannau arbennig i wahanol is-olygyddion; a gwae'r gŵr a esgeuluso'i dasg a gadael twll yn lle sylwedd pan ddibynner arno am fater ei adran ei hun. Nid syn, felly, mai osgoi bwlch yn 'Y Babell' oedd baich fy ngofal ar fy ffordd i'r Ysbyty. Ie, peth rhyfedd yw grym disgyblaeth; a balch iawn oeddwn pan ofynnodd fy meddyg i mi roi copi o'r 'Cymro' diwethaf yn anrheg i'r ysbyty....*

Ar ôl bod yno am fis i'r diwrnod cafodd Dewi Emrys ddod allan o'r Ysbyty a dychwelyd i'w Swyddfa yn West Square, Llundain, i baratoi'r Babell. Dyna ddiweddu felly bennod anhygoel yn hanes <u>Y Cymro</u>: paratoi ei cholofn farddol wythnosol mewn gwely yn un o ysbytai Llundai, a'r claf ymhell o fod mewn unrhyw gyflwr

corfforol i allu cyflawni ei dasg. Ond ei chyflawni a wnaeth, a hynny â'r un trylwyredd ag arfer, teyrnged fawr i ddycnwch (os nad ffolineb!) Dewi Emrys.

Er fy mod eisoes wedi rhoi sylw helaeth i'r bennod anhygoel hon yn hanes y Babell Awen, ni allaf beidio dyfynnu'r darn isod o Babell 11 Rhagfyr 1937 sydd yn fy marn i yn ysmala eithriadol ac yn dangos hiwmor Dewi Emrys ar ei orau un:

> *O'R SWYDDFA (Llundain). - Bu cryn lawer o ddyfalu ymysg fy nghymdogion claf yn yr ysbyty pa beth a allai fod diben yr holl ysgrifennu yn fy ngwely a'r chwilio a'r didoli di-ben-draw yng nghanol y cawdel papurau a orchuddiai'r cwrlid. Clywais awgrymu, fwy nag unwaith, mai "gwneud fy ewyllys" yr oeddwn, ond fy mod yn methu'n lân â rhoi pen arni! Tybiai eraill, a barnu wrth y modd tosturiol y syllent ar fy niwydrwydd, mai rhyw benwendid oedd arnaf - ysfa am erlid papurach yn ddibwrpas o un ochr i'r gwely i'r llall a rhwygo ambell dudalen yn ddi-drugaredd ar ôl edrych arni'n sarrug ofnadwy am ennyd neu ddwy. Medrwn egluro nad hawdd oedd ymddangos yn rhesymol iawn a chymaint o wallgofrwydd awen dan fy nwylo! Ond ymatal a wneuthum. Yr oedd fy ngwên foddhaus uwchben ambell ddarn o bapur yn gymaint dirgelwch iddynt â'm cuwch anfoddog uwchben dernyn arall. Medrwn egluro nad hawdd celu gwynfyd pan fo telyneg bert neu englyn trawgar yn goglais y galon. Ond ymatal a wneuthum drachefn am mai Sais oedd pob gŵr a lygadai arnaf....*

Doniol hefyd yw'r englyn hwn, a ddyfynnwyd eisoes, gan Ben Davies o Drefeglwys ger Caersws, sy'n ymhyfrydu mewn ffordd gellweirus am y llonydd a roed i'r beirdd yn ystod salwch Dewi:

> *Ysgrifau heb ysgrafell - ollyngwyd*
> *Yn llengoedd o'r Babell.*
> *Â Dewi'n wael, daw yn well*
> *I roi 'ffling' ar ei fflangell!*

Ni amharodd anhwylder Dewi ar y cynlluniau a oedd eisoes mewn grym i gyhoeddi detholiad o gynnyrch gorau'r Babell Awen. Meddai Dewi ym Mhabell 29 Ionawr 1938:

> *Casglaf, oddi wrth y mynych holi, fod disgwyl brwd am y gyfrol addawedig o farddoniaeth 'Y Babell', a chryn lawer o ddyfalu yn ei chylch. Gallaf sicrhau ein darllenwyr ein bod eisoes wedi dechrau didoli a phigo. Y mae cwmni'r Babell wedi tyfu y tu hwnt i'n disgwyliadau mewn cyn lleied o amser - llai na deunaw mis. Fe synnir, pan gyhoedder rhestr yr enwau, at nifer y beirdd a ddaeth i gylch Pabell Awen 'Y Cymro' oddiar dyddiad ei sefydlu - Medi 5ed, 1936. Aeth y fintai fechan yn dyrfa gref; ac ym mha wlad dan haul y gallai hynny ddigwydd ond yng Nghymru? Y mae ansawdd y canu, hefyd, wedi gwella'n fawr yn ddiweddar - beirdd ieuainc yn amlygu mwy o grefft a chwaeth*

*mewn canlyniad i ddilyn y gwersi'n gyson a rheolaidd, a beirdd mwy profiadol yn parhau i ddyfod i'r gyfeillach. Achosodd hyn inni oedi er mwyn sicrhau cyfrol o farddoniaeth aeddfetach nag y gellid ei chael yn ystod y misoedd cyntaf. Ein bwriad yw cyhoeddi cyfres o gyfrolau bychain; a gallaf addo heddiw y bydd y casgliad cyntaf yn un nodedig - yn braw y sylweddolir, yn y dyfodol agos, broffwydoliaeth galonogol Dr. T. Gwynn Jones, sef hon - y bydd i Babell Awen 'Y Cymro', "yn fuan iawn roddi bywyd newydd ym mhrydyddiaeth Cymru." Y mae'n sefyll i reswm na ellir cynnwys yn y gyfrol dan sylw y toreth pethau da a gafwyd yn 'Y Babell'. Rhaid dethol o fysg y cynhyrchion aeddfetaf, yn enwedig ar gyfer casgliad cyntaf, rhag i ormod cymysgedd andwyo blas y cawl! Eithr fe gyhoeddir yn y gyfrol honno restr gyflawn o'r beirdd a berthyn i'r frawdoliaeth, a chydnabod hefyd eu gwasanaeth i lenyddiaeth eu gwlad. Yn wir y mae pawb a ganodd ar lawr 'Y Babell' eisoes yn hysbys i'r cyhoedd, a'i gân yn rhan o gynysgaeth lenyddol y genedl.*

Er gwaethaf y geiriau uchod ni chafwyd manylion pendant ynghylch Beirdd y Babell am flwyddyn arall, hynny'n bennaf oherwydd prysurdeb Dewi a'i fympwy personol ef ynglŷn â chynllun y gyfrol; byddaf yn dychwelyd at hanes ei chyhoeddi yn y man.

Ym mis Awst 1938 cyfarfu llu o feirdd y Babell am yr eildro, y tro hwn yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd. Yn ei chofiant, Dewi Emrys, dengys Eluned Phillips i'r achlysur hwn, fel yr ymgomwest flaenorol ym Machynlleth, fod yn llwyddiant ysgubol; dengys hefyd bod golygydd Y Cymro, ymysg eraill, yn amlwg â meddwl uchel iawn o Dewi a'i Babell:

> ....Gellir tystio ar unwaith mai cyfeillach y bydd sôn amdani yn nyfodol prydyddiaeth Cymru, oedd Ymgomwest Pabell Awen 'Y Cymro', yng Nghaerdydd yr wythnos ddiwethaf; a gwir y dywedodd Caerwyn ei bod yn cynrychioli angel atgof ac angel gobaith - atgof am etifeddiaeth lenyddol y genedl, a gobaith am barhad yr etifeddiaeth honno mewn deiliaid newyddion y goleuwyd eu meddyliau ac y taniwyd eu serch at farddoniaeth eu gwlad drwy gyfrwng 'Y Babell'.
>
> Gwelai o'i gwmpas, ebr ef, gryn nifer o etifeddion y gorffennol - yn feirdd a llenorion. Eithr mwy calonogol oedd canfod o'i amgylch nifer mor addawol o greawdwyr y dyfodol - beirdd ieuainc disglair a ddaeth i'r amlwg oherwydd eu hudo o'r encilion dan ddylanwad golygydd barddol y 'Cymro'. Ar y cyfrif hwnnw, fe ystyriai ef y Prifardd Dewi Emrys yn un o brif gymwynaswyr y genedl heddiw. Nid peth hawdd oedd cyfuno'r hen oruchwyliaeth a'r newydd mewn hyfforddwr ym myd awen, a phriodi angerdd y gwerinwr di-goleg â diwylliant manwl yr ysgolor coeth; ond fe addefai pawb, erbyn hyn, fod yr elfennau hynny yn cyd-gyfarfod, mewn modd arbennig, yng ngolygydd barddol y 'Cymro'. Mawr oedd braint y beirdd ieuainc fod ganddynt ŵr mor gymwys i'w cyfarwyddo; a mawr oedd dyled y genedl iddo eisoes am i'w lafur a'i frwdfrydedd ddwyn cymaint ffrwyth heb sôn am gynhaeaf anweledig y dyfodol.

*Cafwyd hwyl yn y wledd yng Ngwesty'r Barry a phawb yn datgan eu diolch i berchenogion 'Y Cymro' am roddi "gofod at wasanaeth beirdd y*

*genedl a sicrhau golygydd mor gymwys i ofalu am yr adran farddol".*
*Dyma fel y canodd y Prifardd Trefîn i'r Ymgomwest a Dewi Emrys:*

Beirdd diddan o dan dô - a welais
Mewn hwyliau diguro;
Am y wledd bid mawl iddo,
Llyw ein hiaith a'n llên yw o.

*Mynnai Mr. Einion Evans, golygydd 'Y Cymro', ddatgan:*

....ei hyfrydwch o weld cwmni mor lluosog ac eiddgar yn bresennol. Talodd deyrnged uchel i wasanaeth Dewi Emrys fel golygydd barddol, ac ychwanegodd mai prif amcan 'Y Cymro' oedd uno calon wrth galon o blaid buddiannau aruchelaf ein cenedl. Calondid iddo oedd gweled arwyddion mor bendant fod yr amcan hwnnw yn cael ei werthfawrogi; a theimlai'n dra hyderus y byddai i'r 'Cymro' gefnogaeth helaethach yn y dyfodol agos....

Ym Mhabell Awen 11 Chwefror 1939 cyhoeddwyd y newyddion hir-ddisgwyliedig bod y gyfrol Beirdd y Babell ar fin cael ei chyhoeddi:

*Dyma i mi air heddiw oddi wth y cyhoeddwyr. Y bwriad yw dwyn allan gyfrol erbyn Dygwyl Dewi, a'i chyhoeddi ryw wythnos cyn hynny.*
*Yn wyneb yr hysbysiad hwn, caiff y manylion y bwriadwn eu trafod heddiw aros hyd yr wythnos nesaf. Ond gallaf ddweud yn awr y bydd yn gyfrol ddestlus wedi ei rhwymo'n hardd ac atyniadol. Eithr ei chynnwys teilwng, uwchlaw popeth, a rydd werth arni. Fe ddisgwyl pawb iddi fod yn gyfrol ddiddorol oherwydd na chyhoeddwyd casgliad cyffelyb erioed o'r blaen. Ond fe ellir sicrhau pob darllenydd ymlaen llaw y bydd ei chynnwys yn ychwanegiad gwerthfawr at drysorfa lenyddol ein gwlad. Ceir ynddi delynegion, englynion a sonedau na chynhyrchwyd mo'u gwell yng Nghymru; a gallaf ddweud am gryn nifer ohonynt na dderfydd y gwerthfawrogiad ohonynt gyda'r genhedlaeth hon.*

Ym Mhabell Awen yr wythnos ddilynol gwelwyd Dewi Emrys yn gwneud ei orau glas i geisio gwerthu'r gyfrol, nid yn unig trwy ganmol ei chynnwys i'r entrychion a dweud faint o fargen yw hi, ond hefyd trwy gynnig telerau arbennig i feirdd y Babell:

*Gellwch ddechrau archebu copïau ar unwaith rhag ofn i chwi golli eich cyfle ar y dwysged gyntaf o'r Wasg. Y mae gweiddi mawr am y gyfrol. Fe'i cyhoeddir gan Hughes a'i Fab, Wrecsam.*
*Y pris yw hanner coron - pris afresymol o fach am gyfrol sy'n cyfuno dau anhepgor llyfr y medrwch deimlo'n falch ohono, sef harddwch diwyg a chyfoeth cynnwys - tros bedwar ugain o delynegion (gan wahanol feirdd), tros gant o englynion, a deg ar hugain o sonedau, cynhyrchion aeddfetaf beirdd ieuainc gorau'r genedl ynghyd â detholion o gyfraniadau beirdd profiadol i BABELL AWEN 'Y Cymro'. Disgwyliad y cyhoeddwyr ydyw y bydd i amlder y copïau a werthir dalu'r ffordd iddynt am y pris isel a godir am flodeugerdd na chyhoeddwyd mo'i thebyg erioed*

*o'r blaen. Y mae'n sicr gennyf y dengys holl feirdd Y BABELL - gannoedd ohonynt bellach - eu gwerthfawrogiad o'r anturiaeth hon drwy wneuthur popeth a allont er sicrhau cylchrediad helaeth i'r gyfrol. Peidied neb ohonynt â dibynnu ar y llyfrwerthwyr am ddwyn y gwaith i sylw'r genedl ledled y wlad, eithr gweithredu eu hunain fel dosbarthwyr, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Eisoes fe'm sicrhawyd gan nifer o feirdd ieuainc y bydd iddynt archebu amryw o gopïau a'u gwerthu eu hunain i'w cyfeillion a'u cymdogion. Dyna'r ffordd amdani os ydynt yn chwennych i'w gwaith ennill poblogrwydd a dwyn mawr glod i'w henwau. Aeth y cyhoeddwyr i gost fawr i gynhyrchu'r gyfrol hon oherwydd teilyngdod uchel y casgliad a'u cred y bydd i'r beirdd eu hunain weithredu fel dosbarthwyr. Ceir enwau dros dri chant ohonoch ar ddiwedd y gyfrol. Yn sicr, y mae gan bob un ohonoch o leiaf bedwar cyfaill y medrech werthu copi iddo.*

*TELERAU ARBENNIG I FEIRDD Y BABELL.*

*Fe gewch chwi, feirdd Y BABELL, a chwi'n unig, bump o gopïau am bris pedwar o swyddfa'r cyhoeddwyr yn Wrecsam. Da chwi, manteisiwch ar y cyfle er eich mwyn eich hunain ac er mwyn eich cyfeillion llengar. "Clywaf adrodd fy llinellau drwy'r ardal er pan wyf yn aelod o BABELL AWEN 'Y Cymro'", ebr un bardd ifanc yr wythnos hon. Meddyliwch am yr hysbysrwydd a gewch drwy'r gyfrol. Y mae'n wir nad oedd modd cael gwaith pawb i mewn iddi. Rhaid oedd gadael allan gystal gwaith ag a ddetholwyd. Eithr ein bwriad, os bydd y gyfrol gyntaf yn llwyddiant, yw cyhoeddi ail gyfrol cyn hir, ac un arall drachefn maes o law, a chael cyfres a fydd yn gynrychiolaeth deg o waith gorau beirdd Y BABELL. Dylid egluro inni fedru cynnwys yn rhestr yr enwau ar ddiwedd y gyfrol rai enwau a ddaeth i law ar ôl cwblhau'r detholiad heb fedru cael lle i ragor o farddoniaeth. Fe ddaw cyfle'r cyfeillion diweddar yma yn y gyfrol nesaf. Rhyw dri chant ac wyth o enwau sydd i'r rhestr ar ddiwedd y gyfrol. Ond yn ystod y misoedd diwethaf yma, fe gyhoeddwyd gwaith cryn nifer o ddyfodiaid newydd i'r BABELL; a chredaf fod enwau beirdd Y BABELL erbyn hyn yn tynnu at dri chant a deugain. Cedwir yr enwau diweddaraf i gyd ar glawr; a bydd gwaith rhai o'r beirdd hyn yn sicr o le yn yr ail gyfrol. Ar gynnydd y mae poblogrwydd Y BABELL. Ond, yn well o lawer na hynny, ar i fyny y mae teilyngdod ei chynhyrchion. Y mae rhai a ddaeth iddi'n brentisiaid yn haeddu eu galw'n grefftwyr erbyn hyn. Yn awr, gyfeillion, ar eich gorau glân bob un i werthu'r gyfrol. Cofiwch mai eich cyfrol chwi ydyw.*

Ni fu'n hir cyn y manteisiodd y beirdd ar y telerau arbennig hyn a gofynnodd rhai ohonynt a fedrent werthu pump o gopïau yr eilwaith ar yr un telerau! Meddai'r cynhyrchwyr, Hughes a'i Fab, Wrecsam:

*Os bydd rhai o'r beirdd yn gallu gwerthu mwy nag un sypyn, ein dyletswydd ni yw rhoddi ychwaneg iddynt ar yr un telerau (sef pum copi am bris pedwar), a diolch iddynt am eu gweithgarwch a'u hewyllys da.*

Yr oedd y rhagolygon yn dda dros ben ar gyfer Beirdd y Babell, ac meddid drachefn ym Mhabell 11 Mawrth 1939:

*Y mae pawb, bid siŵr, yn falch o'i fargen. Bu medru rhoddi casgliad fel hwn i'r genedl yn fwy o hyfrydwch imi o lawer na chynnig iddi fy ngwaith fy hun.*

*Cydnebydd gwŷr blaenllaw nad oes amheuaeth am deilyngdod uchel y gwaith, o glawr i glawr. Yn ôl yr arwyddion, bydd eisiau ail argraffiad yn dra buan.*

Wedi ei chyhoeddi derbyniodd y gyfrol ganmoliaeth uchel; dyma sylwadau Dr. T. Gwynn Jones yn Y Cymro 1 Ebrill 1939:

*"DARLLENAIS waith 'Beirdd y Babell' i gyd eilwaith, ddoe gyda mawr bleser. Y mae'n gwbl sicr fod y casgliad hwn yn un rhagorol, na chafwyd ei gyffelyb o'r blaen yng Nghymru. Er mai gwaith rhai ieuainc yw gan mwyaf, a bod nid ychydig o'r testunau yn rhai y canwyd llawer arnynt o'r blaen o dro i dro, nid oes yma odid un cyfansoddiad na cheir ynddo wreiddioldeb a chynildeb amheuthun, symledd a naturioldeb ac ôl disgyblaeth. Y mae'r iaith yn lân iawn, a'r briod-ddull yn Gymreig, a'r argraff yn sicr ar ddyn fod prydyddiaeth newydd i'w chael yng Nghymru heddiw, heb y gwendidau (anhepgor, wrth gwrs), a fyddai i'w cael ynddi gynt. Credaf fod yma apêl newydd at ddosbarth na byddai'n darllen prydyddiaeth gynt. Da iawn yw gweled enwau merched ymhlith yr awduron, a graen da ar eu gwaith i gyd. Os gellir cadw'r diddordeb hwn, bydd gobaith cadw prydyddiaeth Gymraeg rhag y mympwyon sy'n bygwth hagru'r iaith fel na allo neb roi nemor bris arni mwy."*

Yn y gyfrol orffenedig cafwyd 83 o delynegion, 115 o englynion a 30 o sonedau, ac ar ei diwedd enwau 310 o feirdd y Babell, sef yr enwau cydnabyddedig a dderbyniwyd cyn gosod tudalennau diwethaf y gyfrol yn y peiriant argraffu (fel yr eglurir uchod gallesid ychwanegu rhai o'r enwau diweddaraf heb fedru cynnwys rhagor o farddoniaeth). Er bod hyn yn wych ynddo'i hunan, yr oedd Dewi Emrys yn amlwg yn gofidio na ellid cynnwys mwy o amrywiaeth o farddoniaeth yn y gyfrol, fel yr eglura yn ei ragair iddi:

*....Cofier mai o fysg cyfansoddiadau a gyhoeddwyd eisoes yn 'Y Babell', o'r cychwyn (Medi 5, 1936), hyd yn awr, y detholwyd pob llinell o brydyddiaeth ar gyfer y gyfrol hon. Mor lluosog ac amrywiol y cyfansoddiadau hynny fel y penderfynwyd cyfyngu'r casgliad i delynegion, englynion sengl a sonedau. Y mae'r penderfyniad hwnnw, er ei fod yn sicrhau undod cynllun i'r gyfrol, yn cau allan gryn nifer o gyfansoddiadau teilwng iawn o nodwedd wahanol, megis canigau, baledi (digrif a difrif), penillion, emynau, darnau o bryddestau, rhesi o englynion, byr-awdlau, hir a thoddeidiau, cywyddau, etc., nifer ohonynt yn gynhyrchion rhai o'n prifeirdd. Eithr, yn wyneb y fath helaethrwydd o farddoniaeth amrywiol, fe sylweddolir, ond odid, mai rhaid arnom oedd pennu ffin a dosbarth yn rhywle. Ein bwriad yw rhoddi cwmpas ehangach i'r detholiad nesaf, a chynnwys ynddo rai pigion y bu'n anodd gennym eu gadael allan o'r gyfrol hon....*

Mae gwewyr Dewi Emrys yn amlwg iawn felly, a dyma egluro i raddau helaeth iawn paham y bu cymaint o oedi cyn cyhoeddi'r gyfrol. Nid yw hyn, fodd bynnag, yn tynnu oddi ar y ffaith i Beirdd y Babell fod yn llwyddiant aruthrol, ac yn gyfrol o farddoniaeth a dderbyniodd groeso gwresog a chanmoliaeth uchel o sawl cyfeiriad.

Ond nid pawb a gafodd ei fodloni'n llwyr â'r gyfrol, fel y gwelir o'r adolygiad 'Prifeirdd Neu Feirdd?' gan Saunders Lewis, a ymddangosodd yn Y Faner 22 Mawrth 1939. Ar ôl ychydig frawddegau cyffredinol am y gyfrol, â Saunders Lewis ymlaen i sôn am yr 'hen sefydliad....yn y papurau wythnosol Cymraeg', sef colofn y beirdd, gan gyfeirio at yr hen arfer cyffredin o gynnwys llawer o waith y beirdd yng ngholofnau'r newyddion lleol. Cyfeddyf nad yw'n arbenigwr ar golofn y beirdd, ond meddai:

> *....y lled-argraff sydd ar fy meddwl yw bod colofn y beirdd ers talwm yn nes lawer iawn yn ei naws a'i thestunau at golofnau'r newyddion lleol nag yw hi bellach. Cerdd briodas hwn a hon, penillion marwnad hwn acw, penillion i groesawu wyres gyntaf yr hen nain yn y fan a'r fan, penillion i groesawu'n ôl o'r ysbyty weinidog neu flaenor ar eglwys, - dyna destunau oedd yn gyffredin unwaith, mi gredaf, yng ngholofnau barddol ein papurau lleol; fe'u darllenid gyda'r un diddordeb ag y darllenid y newyddion rhyddiaith am yr unrhyw ardaloedd. Yr oeddynt yn rhan o hanes yr ardal ac yn rhan o fywyd yr ardal, ac fel newyddion neu ddyfarniad priodol ar y newyddion y darllenid hwynt.*
>
> *Pwy oedd y beirdd hyn? Yr oedd rhagor nag un enw arnynt, megis ar y "swbach henllwyd bach" yng Ngweledigaeth Angau Ellis Wynne a elwid gan rai yn Rhywun a chan eraill yn Ffrind neu'n Frân. Gelwid hwythau gan rai yn feirdd y werin a chan eraill yn feirdd gwlad, neu efallai y gelwid ambell un, mewn dull pendantach, yn fardd y pentref. Yr un rhai oeddynt ag a gyfansoddodd y penillion marwnad sydd mewn fframiau duon yn addurno mur y stafell orau mewn llu o fythynnod Cymreig. Crefftwr neu ffarmwr oedd y bardd gwlad yn dilyn ei alwedigaeth yn y fro y ganed ef, yn adnabod pawb yn y gymdogaeth ac yn gwybod eu hachau oll, yn gwybod tafodiaith ei ardal hefyd a phob chwedl a helynt a choel, ac yn arfer dawn draddodiadol a chymdeithasol prydyddiaeth i ddiddanu teulu galarus neu i lonni gwledd briodas neu i gofnodi tro trwstan, ysmala, mewn dychan sir[i]ol faleisus. Yr oedd ei ddawn yn rhan normal o weddusrwydd a digrifwch cymdeithas wledig Gymreig, yn croniclo ei helyntion hi, yn addurno ei muriau a'i cherrig beddau, yn cofnodi ei chymeriadau a'i throeon a'i thristwch a'i llawenydd. Crefft oedd hi; traddodiadol oedd y mesurau a'r eirfa a'r clod a'r geiriau moes. Ni ofynnid iddi fod yn uchelgeisiol nac yn wahanol i'w chyfryw. Digon oedd iddi fod yn ôl y patrwm, yn briodol. Ac os mynnwch chwi ddarllen hanes cynharach y beirdd hyn a gwybod eu tras, y mae'r cwbl wedi ei ysgrifennu yn gampus odiaeth yn llyfr Mr. Tom Parry, 'Baledi'r Ddeunawfed Ganrif'. Ar y cychwyn ni wnaeth colofn farddol y papurau lleol Cymraeg ond lledaenu'n hwylus gylch gwasanaeth y crefftwyr hyn ....*

Dyna ddiffiniad Saunders Lewis o'r bardd gwlad felly, a'i swyddogaeth bwysig yn y gymdeithas. Yna rhydd enghraifft o gyfrol ddiweddar (1932) a gadwai at yr hen draddodiad hwn, sef Pitar Puw a'i Berthynasau gan Thomas Jones, Ysbyty Ifan, cyfrol o farddoniaeth sydd â'i theitl yn awgrymu'r union natur gymdeithasol y cyfeirir ato uchod. Gan ddyfynnu o ddwy gerdd o'r gyfrol hon fel enghreifftiau o farddoniaeth y bardd gwlad, meddai Saunders:

> *....Dyma'r hyn a ddymunwn i ei egluro: fod yr arddull hon yn ei geiriau a'i rhithmau yn dra gwareiddiedig, yn rhoi gwiwdeb ar rithmau a dulliau ymadrodd iaith lafar fyw, iaith pobl wrth eu gorchwylion beunyddiol, ac er hynny'n ddethol ac yn briodol i farddoniaeth. A'r ail bwynt sy gennyf yw bod yr arddull hon yn union y fath y mae barddoniaeth Ewropeaidd heddiw yn ymgeisio amdani unwaith eto, ac y gellir ei chymharu ag iaith Laforgue a'i ddilynwyr yn Ffrainc neu waith T. S. Eliot a'i ddilynwyr yntau yn Lloegr. Oblegid heddiw, cau'r adwy rhwng barddoniaeth a bywyd cymdeithas yw pennaf nod beirdd pwysicaf gwledydd y gorllewin. Y mae cyfnod unigoliaeth fwriadol ar ben am dro ym myd barddoniaeth yn Ewrop....*

Wrth droi'n fwy penodol at y gyfrol Beirdd y Babell fe â Saunders Lewis ati i ddadansoddi geiriau Dewi Emrys yn ei ragair iddi:

> *....Ei farn yw ei fod wedi ei osod yn athro i feirdd gwylaidd y wlad Gymraeg. Disgyblion ydynt hwythau. Ei orchwyl ef yw eu calonogi hwynt, eu harwain ar y ffordd a rhoi iddynt wersi mewn cystrawen, cynghanedd, mesur, arddull, priodoldeb ymadrodd, a'u tywys felly at ragoroldeb:*
>
> *'Fy nhâl mwyaf yw gwerthfawrogiad llawer o ddisgyblion sy'n dal i fynd ar gynnydd a sôn am Babell Awen 'Y Cymro' fel 'Coleg beirdd ieuainc gwerin Cymru.' Mynnwn iddynt sylweddoli fy mod yn cael y fendith o'm hyfforddi fy hun wrth geisio'u cyfarwyddo hwynt....'*
>
> *Yna'n ail, ei bolisi. Cred ef fod dau ddosbarth o feirdd yng Nghymru, sef y beirdd a'r prifeirdd. Ei amcan yntau yw dileu'r gwahaniaeth rhyngddynt drwy dywys y beirdd i ymberffeithio megis prifeirdd a phrofi fod eu cymwysterau'n gydradd:*
>
> *'Ceir yn y gyfrol rai telynegion na luniwyd erioed mo'u rhagorach yng Nghymru - cynhyrchion a rydd daw bythol ar yr ofergoeliaeth, os yw'n bodoli, mai hawlfraint ychydig 'brifeirdd' yw gorau cynhysgaeth delynegol ein cenedl....Credaf fod hoedl i rai ohonynt na dderfydd gyda'r genhedlaeth hon.'*
>
> *Fe welir nad oes dim eithriadol yn safbwynt Dewi Emrys. Diau mai syniadau tebyg sy gan ei gyd-olygwyr yn holl golofnau'r beirdd heddiw. Gan hynny, os byddaf innau'n beirniadu peth ar y safbwynt dealler mai rhedeg yr wyf ar dueddiad sy'n gyffredin drwy Gymru ac nid ar olygydd y gyfrol ddiddan hon.*
>
> *Athro sy'n dysgu beirdd i fod yn brifeirdd, dyna farn y golygydd ar ei swydd. Beth, gan hynny, yw prifardd? Wel, ysgrif ac nid llyfr a ysgrifennaf i'n awr, ac felly rhaid ateb yn gwta. Prifardd yw awdur telynegion cymwys i'w cynnwys yn 'Y Flodeugerdd Gymraeg' a gŵr ydyw*

*hefyd nad yw'n byw yn y man y ganed nac ymhlith pobl ei fro. Y mae ail gymal y disgrifiad yn esboniad ar y cymal cyntaf.*

*Y llyfrau pwysicaf eu heffaith ar farddoniaeth Gymraeg gyfoes yw'r llyfrau a astudir yn y dosbarthiadau Cymraeg yn yr ysgolion canol ac mewn dosbarthiadau eraill tebyg. 'Caniadau Cymru' oedd y cyntaf ohonynt; yna daeth 'Telyn y Dydd', ac yn awr 'Y Flodeugerdd Gymraeg'. Detholion o delynegion rhamantaidd yn bennaf yw'r tri. Hiraeth, medd un o'r golygyddion wrthym, yw eu testun, ac fe wyddom oll mai testun dyn yn ymglywed ag unigedd a choll yw hiraeth. Cais Dewi Emrys ym mhabell awen 'Y Cymro' wneud yr un gwaith ag a wna'r athro Cymraeg yn yr ysgol ganol a fo'n selog yn meithrin disgyblion ar batrwm telynegion y 'Flodeugerdd Gymraeg'. A'i ymffrost ef yw ei fod eisoes wedi cyrraedd y nod:*

*'Fe ddylai'r gyfrol hon fod ym mhob ysgol yn ein gwlad o Dŷ Ddewi i Fôn....'*
*Purion....*

Yn awr fe ddaw Saunders Lewis at ergyd ei adolygiad, sef dweud bod cyfrol Beirdd y Babell, er yn 'ddawn[us]' a 'phrydferth', wedi colli'r elfen bersonol a oedd yn arfer bod mor bwysig yn yr hen ganu gwlad, a'i bod o'r herwydd yn ddi-gymeriad. Mae ei frawddeg glo'n gondemniad llym iawn ar gyfrol a oedd cyn hynny i bob pwrpas wedi derbyn canmoliaeth unfrydol:

*....yr hyn y dymunwn i ei nodi'n awr yw hyn, fod y cyfryw nod a'r cyfryw bolisi yn chwyldro yng ngholofnau'r beirdd yn y papurau newydd Cymraeg, ac yn newid llwyr ar holl draddodiad a swydd y bardd gwlad. Fe geir telynegion rhamantaidd yma a thraw yn 'Pitar Puw a'i Berthynasau', ond nid hwynt-hwy sy'n rhoi eu blas ar y llyfr. Nid awdur telynegion a fu'r bardd gwlad, eithr awdur penillion a cherdd ac englyn. I mi peth trist yw sylwi nad oes pennill telyn na mesur carol na thriban yn y gyfrol hon o 'Feirdd y Babell', a thrist yw gweld mai dynion di-berthnasau yw'r beirdd hyn oll. Nid oes yma gân am briodas nac am eni baban, ac er bod yma lawer iawn o farwolaeth, ychydig sydd o ddynion yn marw. Adar y mynydd a'r enfys a'r unigeddau yw perthnasau'r beirdd hyn. Nid ydynt yn priodi nac yn rhoi mewn priodas, nid ydynt yn ffraeo nac yn gweld digon ar eu cymdogion i ganu dychan amdanynt, - "Wyddan' nhw ddim achau'r cythreuliaid", chwedl y wraig honno a droes yn fud o'i holl ffraeo wedi iddi fynd yn alltud o'i phentref i sir arall. Ac felly gyda beirdd y babell. Cydnabyddaf yn rhwydd eu dawn hwynt, a bod yn y gyfrol lawer darn prydferth. Ond prydferthwch yn ôl patrwm y prifeirdd ydyw, a galaraf innau am golli cymeriad hollol arbennig y bardd gwlad, y bardd a fyddai'n byw ymhlith ei bobl ac yn cyfansoddi barddoniaeth gwareiddiad a chyfannedd, - y bardd a gadwai yng Nghymru hyd yn ddiweddar iawn y peth y mae prifeirdd Ewrop heddiw yn ymbalfalu er dychwelyd ato. Carreg fedd y Bardd Gwlad, dyna yw 'Beirdd y Babell', ac un arall o fuddugoliaethau addysg ar wareiddiad.*

Yn dilyn hyn, ysgrifennodd Waldo barodi ar 'Bedd y Dyn Tylawd' gan Ioan Emlyn, yn dwyn y teitl 'Yr Hen Fardd Gwlad', sef ymateb ysgafn i'r adolygiad hwn gan Saunders Lewis; cyhoeddwyd hi yn y gyfrol gyntaf o'i gerddi, Dail Pren (1956):

# YR HEN FARDD GWLAD

*WRTH gortynnau'r babell eang*
*Twmpath gwyrddlas gwyd i'r lan*
*Fel i dderbyn er pob damsang*
*Unrhyw fawl a ddaw i'w ran.*
*Pasia llawer yn ddifeddwl*
*Ar eu taith tua Dewi Dad*
*Gan ddirmygu'r saith wyth dwbl -*
*Dyna fedd yr hen fardd gwlad.*

*Antholegwyr ac athrawon*
*A'i hebryngodd ef i'r fan*
*Dan saernïo telynegion*
*I'r briallu, tua'r llan.*
*'R ôl hir ganu am gymdeithas*
*Ni roed iddo ond sarhâd,*
*Wedi'r angladd ddi-berthynas*
*Dyma fedd yr hen fardd gwlad.*

*Mae casgliad Lefi, a'r fân lythyren*
*Rwymodd rhyw anghelfydd law*
*Cyn bod Dewi ei hun yn fachgen*
*Wedi hollti'n wyth neu naw.*
*Daw nos Sadwrn y papurau*
*Nid oes neb o'r babell fad*
*Yn rhoi parch a thywallt dagrau*
*Ar lwm fedd yr hen fardd gwlad.*

*Ond er hyn galara'r Awen*
*Ewropeaidd uwch ei lwch.*
*Hidla Eliot yn ei niwlen*
*Oleuedig eiriau trwch.*
*Ar ei gof rhoir bendith Garmon*
*Am na chodai'n uwch na'i stad.*
*Noddfa dawel rhag cyfeillion*
*Ydyw bedd yr hen fardd gwlad.*

Yr oedd Dewi Emrys yn edmygydd mawr o Saunders Lewis ond un o'i brif wendidau oedd na fedrai gymryd beirniadaeth o unrhyw fath: yr oedd gormod o falchder ynddo. Ni all rhywun felly ond dychmygu ei ymateb wrth iddo ddarllen adolygiad o'r fath! Meddai Eluned Phillips yn ei chofiant, Dewi Emrys:

> *....Ni fedrai Dewi Emrys dderbyn beirniadaeth. Gwae'r sawl a feiddiai wrthdaro yn erbyn ei syniadau, yn enwedig os oedd hwnnw yn ysgolhaig. Clywais ef droeon yn cynddeiriogi yn erbyn pobl academaidd, ac yn taro'n ôl yn styfnig a phendant....*

A dyna'n union a wnaeth Dewi yn dilyn yr adolygiad 'Prifeirdd neu Feirdd?': ceisio ateb y feirniadaeth trwy ddangos nad oedd Beirdd y Babell, yng ngeiriau Saunders Lewis, yn 'garreg

fedd y bardd gwlad'. Ym Mhabell Awen 22 Ebrill 1939 ymddangosodd y paragraff hwn yn ymateb i sylwadau Saunders Lewis:

> *LLADD BEIRDD GWLAD. - Oddi wrth ei beirniaid y daeth y gymeradwyaeth uchaf eto i wasanaeth Y BABELL, sef y cyhuddiad ei bod yn lladd y "beirdd gwlad". Os oes rhywbeth yn fwy nodweddiadol o'r Babell na'i gilydd, ei gwerinìaeth yw hwnnw. Beirdd gwlad yw mwyafrif mawr ei deiliaid, ond eu bod (drwy ddilyn gwersi'r Babell) wedi eu gweddnewid mor llwyr nes haeddu lle bellach ymysg beirdd y colegau. Dyna ddigon!*

Dyna Dewi Emrys felly, yn gyfrwys eithriadol, wedi llwyddo i droi beirniadaeth yn ganmoliaeth, ond serch hynny nid yw ei ddadl yn llwyddo'n argyhoeddiadol i ateb haeriadau Saunders Lewis: yn wir, mae'r ffaith mai paragraff a ysgrifennodd, yn hytrach na'r truth arferol wrth ateb ei feirniaid, yn dangos iddo gael ei gornelu, yn union fel ei gri 'Dyna ddigon!'. Y pwynt canolog yma yw'r diffiniad o 'fardd gwlad', a'r hyn mae'r term yn ei olygu i wahanol bobl, oblegid er bod Dewi Emrys yn llygad ei le wrth ddweud bod naws y Babell yn werinol, a'i fod yr un mor gywir, a bod yn deg ag ef, pan ddywed bod y beirdd gwerinol hynny (sef y 'beirdd gwlad' yn ôl ei ddiffiniad ef) wedi gwella'n sylweddol ers pan sefydlwyd y Babell, y gwir yw na roddir lle yn y Babell i'r 'beirdd gwlad' yn ôl diffiniad Saunders Lewis. Wele enghreifftiau o sylwadau Dewi Emrys yn y Babell Awen, a ymddangosodd cyn i Saunders Lewis ysgrifennu ei adolygiad ef, sy'n profi hynny:

> *E. HARKER (ISNANT). - Nid lle i sôn am eni, priodi a marw yw'r Babell, er mor anorfod y digwyddiadau hynny; a gwnaethum ddiofryd i gadw allan y rhigymwyr parod sydd wrth y crud, wrth yr allor ac wrth y bedd yn ôl fel y byddo galw am eu doniau hyblyg. Y mae'n rhyfedd fel y medrant wylo'r un odlau torcalonnus ar ôl pawb dim ond addo iddynt dipyn o inc argraffu yn gymysg â'u dagrau. Y mae porthor 'Y Babell' dan orchymyn i gnocio pob un felly ar ei glopa cyn iddo ddechrau ubain ei farwnadau crochddolefus yn y cyntedd. Ond bardd yn hiraethu o'i enaid am fardd arall a glywir yn yr hir a thoddaid hwn, a chryn lawer o eneiniad ar y llinellau. Felly, goddefer galargan yr awenydd; canys melys y delyn hyd yn oed pan fo trymder hiraeth ar ei thant....*
>
> *(24 Hydref 1936)*
>
> *E. P. JONES (Tumble). - Dyma rywbeth gwahanol iawn i'r rhigymau coffa a welir mor fynych mewn papurau lleol - pethau carbwl, cocosaidd nad ydynt yn glod i'r marw nac yn ddiddanwch i'r byw. Er inni benderfynu na chaffai rhigymau felly dywyllu dôr 'Y Babell', medrwn ddiolch am beth fel hyn - telyneg berffaith, a gwlith awen hiraethus yn eneiniad ar bob llinell. Y mae'n cyffwrdd ag eigion calon, a hynny am ei bod yn taro*

*nodyn dwys, cyrhaeddgar rhagor yr ymdrechu gwastraffus a geir yn gyffredin mewn caneuon coffa, a hwnnw mor debyg i hiraeth ag yw "tân shafins" i wir hwyl y pulpud....*

*(18 Medi 1937)*

*....Gair yn awr at y beirdd hynny sy'n gofyn i mi draethu fy marn am ddarnau a wrthodir. Pe gwnawn hynny, fe awn â gofod 'Y Cymro' yn gyfan-gwbl! Canys llawer yw y rhai na roddir iddynt olau dydd, nifer ohonynt nid am na feddant awen na chryn deilyngdod, ond fod eu darnau yn hollol amhwrpasol, ac eraill yn rhy faith. Wele i'r beirdd syniad am gyfansoddiadau nad oes iddynt groeso yn 'Y Babell'.*

1. *Penillion yn ymwneud ag amgylchiadau lleol, - priodasau, genedigaethau, gwibdeithiau'r Gymdeithas yma a'r Gymdeithas arall, cyfarfodydd, etc.*
2. *Penillion cyfarch i'r darlithydd yma a'r cadeirydd acw a rhywun lleol a gafodd wobr am y llo neu'r ebol gorau mewn arddangosfa anifeiliaid.*
3. *Rhyw hen ffraetheb wedi ei throi'n rhigwm, a honno ganwaith yn fwy blasus yn fyr a chryno fel y dywedwyd hi ar y dechrau nag yn llathenni o stwffiach ar lun prydyddiaeth. Dyma un (mi a'i clywais ryw ychydig oriau wedi fy ngeni): "Nid oes fawr o les mewn baco, William." William yn ateb: "Dyna paham yr wyf yn ei losgi." Eto, yr oedd yn werth gan brydydd da, y dydd o'r blaen, anfon i mi'r donioldeb yna wedi ei rigymu ganddo (a'i ddifetha, wrth gwrs), yn ddernyn hirfaith! Y fath wastraff ar amser! Fe ddylai pawb wybod bellach mai ysgol barddoniaeth bur yw'r 'Babell', ac eisteddfa awenyddion, nid man cyfarfod clecianwyr a rhigymwyr conglau'r heolydd.*

*(7 Mai 1936)*

*'J. J.' (Llangoed, Môn). - Fel y gwyddys bellach, nid wyf yn chwannog o gwbl i groesawu penillion coffa gan cymaint y lol ystrydebol, y dagrau gosod a'r hirwyntogrwydd di-eneiniad (fe drawai 'di-enaid' yn well) a geir ynddynt gan rigymwyr lleol led-led y wlad. Ond dyma ganu cynnil a glân sy'n haeddu lle yn 'Y Babell' yn rhinwedd ei deilyngdod ei hun fel dernyn o farddoniaeth delynegol a ddwg ddelw "yr awen wir"....*

*(14 Ionawr 1939)*

Dyna Dewi Emrys yn dangos yn gwbl eglur nad oedd ganddo lawer i'w ddweud wrth ganu'r 'beirdd gwlad' yn ôl fel y diffinia Saunders Lewis y term hwnnw, ond diddorol eithriadol yw sylwi ar y sylwadau canlynol gan Dewi Emrys a ymddangosodd yn y Babell Awen wedi cyhoeddi adolygiad Saunders, lle gwelir yn union pa fath o fardd yw 'bardd gwlad' i Dewi Emrys, a lle mae'n mynd allan o'i ffordd bron i ddweud bod y Babell wedi bod o werth amhrisiadwy i'r 'beirdd gwlad' yn ôl ei ddiffiniad gwahanol ef o'r term:

*DEWI GWYRFAI (Y Waunfawr). - Da iawn. "Bardd gwlad" y'i geilw ef ei*

*hun, a bardd gwlad o'r iawn ryw. Ni churodd bardd erioed yn ofer ar ddrws Y BABELL....*

*(29 Ebrill 1939)*

*JOSEPH HENRY (Drefach). - Dyma hen fardd gwlad (ie, bardd nid rhigymwr) y gŵyr darllenwyr 'Y Cymro' eisoes amdano fel englynwr cywrain a choeth....*

*(1 Gorffennaf 1939)*

*JOHN HUMPHREYS (Cwmllynnau). - Yng nghanol llawer o brydyddiaeth goegynnaidd ac aneglur a rydd ar dreth ar amynedd y neb a geisio ddatrys cymhlethdod ei "geiriau dethol", amheuthun yw canu naturiol a di-lol yr hen brydydd hwn - bardd a rydd fynegiant diymdrech i'w deimlad a'i ddychymyg mewn iaith urddasol a glân nad oes iddi na chysgod coegni nac arlliw mursendod.*

*Dyma un o'r hen "feirdd gwlad" y soniwyd cymaint amdanynt yn ddiweddar, sef un o'r beirdd hynny a'u diwylliodd eu hunain, ag iddynt, wrth reddf, chwaeth dda a chraffter beirniadol a'u dysg i adnabod y gwahaniaeth rhwng rhigwm anghelfydd a'r peth cyfrin hwnnw a elwir yn eneiniad. Pan fo awdur yn ffyddlon i gywair ei feddwl ac yn medru ei fynegi ei hun mewn ffordd a rydd fwynhad i arall, y mae iddo gynhysgaeth y gwir lenor er i'w eirfa gadw o fewn terfynau ei iaith lafar. Yn wir, nid o'i gydnabyddiaeth helaeth â'r geiriadur y daeth neb yn awdur llwyddiannus. Nid mewn pentyrru geiriau y mae grym y llenor, eithr mewn arfer geiriau a fo'n cyfleu i'r dim ei deimlad a'i brofiad ei hun. Ebr yr awdur hwn: "Ni chefais i awr mewn gramadeg erioed, heb sôn am gwrs." Cafodd fwy, sef calon i deimlo a llygad i weld; ac er iddo resynnu "na fuasai ysgol fel hon (Pabell Awen 'Y Cymro') i'r werin flynyddoedd yn ôl", dengys ei waith teilwng iddo fanteisio i'r eithaf ar y cyfleusterau o fewn ei afael....*

*(2 Medi 1939)*

*JOSEPH OWEN (Chwilog). - Beth yw ei oedran ef, nis gwn, ond fe nyddodd gerdd ddisgrifiadol sy'n enghraifft deg a dymunol iawn o ganu "bardd gwlad", os wrth hynny y golygir prydydd a'i diwylliodd ei hun yn ôl ei fanteision ac ymhyfrydu mewn prydyddiaeth heb ddilyn na mursendod beirdd yr "iaith ddethol" na dyfais y "beirdd clasur" na "thragwyddol heol" beirdd y mesurau penrhydd, eithr caffael ohoni ei batrymau mydryddol a'i arddull ym myd yr hen emynau Cymraeg.*

*Ni all fod amheuaeth am allu'r prydydd hwn. Fel yr hen feirdd, rhydd sylw i fanylion wrth ddisgrifio, a gallaf gredu iddo gerdded o gwmpas yr hen fynachlog lawer gwaith, gan graffu ar bob maen yn ei hadeiladwaith, cyn troi adref i brydyddu amdani. Mynnodd gofio, hefyd, fod ei cherrig nadd yn hŷn nag offer dur, rhag inni golli dim o'i ryfeddod ef. Bu darllen ei gerdd yn waith pleserus oherwydd y disgrifio pert a'r arddull gartrefol a chlir. Pethau fel hyn a ennynnodd ddiddordeb mewn prydyddiaeth drwy ardaloedd Cymru Fu; ac ar gefn hyn (ar ôl i Dr. Gwynn Jones ddweud yr un peth ar goedd, ac i Caradog Prichard ei ddweud yn y 'News Chronicle', a Moelwyn ei awgrymu yn y papur hwn), gellir tystio i BABELL AWEN 'Y Cymro' wneuthur mwy tuag at ail-ennyn y diddordeb hwnnw nag unrhyw gymdeithas na sefydliad yng Nghymru heddiw. Fe berthyn iddi, erbyn hyn, ryw 460 o aelodau, os nad rhagor. Dyna'r ffordd i gadw'r iaith yn fyw....*

*(23 Mawrth 1940)*

*LLAFAR (Dinas Mawddwy). - Dyma hen fardd gwlad a'n diddorodd droeau â'i englynion teilwng. Telyneg sydd ganddo heddiw am y tro cyntaf yn ei berthynas â'r Babell, a honno'n delyneg a ddengys iddo fedru dilyn camre'r beirdd ieuainc diweddar a'u dal hefyd yng nghyflawnder eu nerth a'u hoenusrwydd.*

*Hoffaf y delyneg hon yn fawr. Y mae'n ddarluniadol, yn ddwys, yn gynnil ac yn awgrymog dros ben ar y diwedd. Ceir ar y ffeil yma fynydd o lythyrau oddi wrth hen brydyddion yn diolch am wersi'r BABELL a gresynu na chawsant gyfarwyddyd o'r fath flynyddoedd yn ôl. Hyfrydwch mawr i mi yw gwerthfawrogiad yr hynafgwyr hyn. Eithr hyfrydwch mwy yw gweld rhai ohonynt yn ymwregysu megis o'r newydd, gan mai eu hawydd i ymloywi ac ymgydnabyddu â'r dulliau diweddaraf mewn barddoniaeth, a dyfod allan fel cewri i redeg gyrfa yn erbyn gwŷr ieuainc a gafodd y blaen arnynt. Nid lladd hen feirdd gwlad y mae'r BABELL, ond peri iddynt adnewyddu eu nerth a cherdded ysgwydd yn ysgwydd â bechgyn y colegau. Dyna un o ramantau mwyaf PABELL AWEN 'Y Cymro'....*

*(15 Mehefin 1940)*

Mae'r frawddeg olaf ond un uchod yn ateb haeriad Saunders Lewis ar ei ben, ond unwaith eto mae'n rhaid pwysleisio nad am yr un 'bardd gwlad' y sonia Dewi Emrys. Amhosibl felly yw dweud bod yr un ohonynt yn 'gywir' neu'n 'anghywir' yn y cyd-destun hwn: y ffaith syml amdani yw bod Saunders Lewis a Dewi Emrys yn amlwg yn gweld y 'bardd gwlad' trwy ddau lygad pur wahanol, ac er bod eu barn ar y mater yn gwahaniaethu, ar ddiwedd y dydd maent ill dau â phwyntiau dilys y gellid cytuno â hwynt. Cyn cloi â'r 'bardd gwlad', dyfynnaf o ddwy Babell Awen o 1944. Mae'r darn cyntaf yn nodi mai papur cenedlaethol yw'r Cymro, ac nad yw'r math o ganu y sonia Saunders Lewis amdano yn ei adolygiad yn addas iddo; mae'r ail ddarn yn pwysleisio unwaith eto bod y Babell â safonau uchel ac nad oedd y mwyafrif o ganeuon coffa a dderbyniai Dewi Emrys yn ei swyddfa yn ymgyrraedd ato, boed ynddynt apêl genedlaethol ai peidio:

*GARMON WYN (Llanberis). - Medrwn oll werthfawrogi ei ddarlun o'r hen of cyhyrog a ddadleuai mor frwd yn "seiat y llenorion" nes chwennych taro'i wrthwynebwyr megis yr ergydiai'r haearn poeth ar yr eingion; ond arnom ni, y darllenwyr cyffredinol ledled y wlad, yn fflat braidd y syrth ergyd y bardd yn niweddglo'i soned oherwydd mai diddordeb lleol yn unig sydd iddo. Bydd y cwpled hwnnw yn dderbyniol, ond odid, gan chwarelwyr Llanberis a adwaenai'r hen of tanllyd "a'i gyfaill Dan." Eithr nid peth i'w galonogi mewn papur cenedlaethol yw prydyddiaeth na fedd ddiddordeb i neb ond i bobl un ardal....*

*(6 Hydref 1944)*

*'Y PARCH. GWILYM MORRIS (Penydarren). - Yng nghwrs blwyddyn, derbyniaf bentwr o ganeuon coffa; ond ambell un yn unig a gyhoeddir. Y mae rheswm*

*da dros hynny. Tywalltiadau rhigymllyd yw'r mwyafrif ohonynt yn llifo'n ddeg neu ddeuddeg o benillion a'r rheini'n llawn o'r hen ystrydebau cynefin a gedwir wrth law megis cynifer o nwyddau parod. Rhaid i bawb a anfono'i gynnyrch i'r Babell ymostwng i'r prawf hwn: A yw ei gyfraniad yn waith y gellir ei gymeradwyo ar gyfrif ei deilyngdod fel dernyn o brydyddiaeth? Deil cyfraniad y Parch. Gwilym Morris y prawf hwnnw. Mid rhigymwr dagreuol a'i lluniodd, ond bardd a allodd beri i bawb ohonom werthfawrogi ei bortread o'i gyfaill Guto, a theimlo gydag ef yr hiraeth a'i dwysbigodd.*

Yn gyffredinol felly, fe dderbyniwyd Beirdd y Babell yn bur wresog, ac yr oedd y gyfrol yn brawf arall o lwyddiant digamsyniol y Babell Awen (heb sôn am fod yn bluen arall yn het Dewi Emrys!).

Erbyn y flwyddyn 1939 yr oedd cymylau duon yr Ail Ryfel Byd yn prysur dduo'r ffurfafen ac eisoes yr oedd cynnyrch y Babell Awen wedi cychwyn adlewyrchu'r sefyllfa ryngwladol argyfyngus. Mor bell yn ôl â 8 Hydref 1938 cafwyd dau englyn i 'Hitler' gan John Evans, y Tumble, ac yn rhifyn Nadolig 1938, sef y rhifyn arferol i gynnwys emynau, cafwyd 'Gweddi Dros yr Iddewon' gan J. Lewis Jones , Hen Golwyn, a 'Gweddi Dros Heddwch' gan Emlyn Roberts, Llanelwy. Ar ôl i'r Rhyfel dorri'n swyddogol ym mis Medi 1939 apeliodd Dewi Emrys ar i'r beirdd ganu 'yn felysach nag erioed' fel y byddo'r Babell yn arwydd o oruchafiaeth y pethau gorau mewn bywyd dros erchyllterau rhyfel:

*Torrwyd ar heddwch fy swyddfa fechan, fwy nag unwaith, gan oernad y corn rhybudd; eithr, hyd yn hyn, ni ddaeth arnom yr enbydrwydd a ddisgynnodd o'r cymylau ar drefydd eraill.*

*Y mae gennym ffydd yn ein hamddiffynfeydd, a ffydd gryfach drachefn yn y Gallu Anfeidrol na ad i orthrwm ac anghyfiawnder ddinistrio teyrnas y Gwirionedd. Felly, mewn gobaith tawel y gorffwyswn yng nghanol y dymestl, a'r "llef ddistaw fain" yn yr enaid yn siarad yn huotlach na'r digofaint a ysgwyd y ffurfafen. Cenwch, feirdd, yn felysach nag erioed gan roddi melodedd awen i'r oriau duaf; canys iddi hi, yn ei hiraeth a'i breuddwyd am etifeddiaeth well, y rhodded yr anadl nas diffoddir. Safed PABELL AWEN 'Y Cymro' yn gysegr cân yng nghanol yr ystorm ac yn arwydd arhosol o oruchafiaeth greddfau'r enaid ar ddyfeisiau melltigedig pob gallu materol.*

*Daeth yr englyn a ganlyn i'm llaw ychydig funudau cyn imi gau dôr Y BABELL am yr wythnos hon. Rhydd fynegiant i'r ysbryd a'r gred a ddylai lywodraethu pawb ohonom yn y dyddiau tywyll hyn. Oherwydd hynny, fe'i cysylltaf â'r nodiad hwn a chymeradwyo ei neges i sylw holl ddarllenwyr 'Y Cymro' lle bynnag y bônt:*

*YR ARGYFWNG*

*'Un Brenin yn ein bronnau, - un Ceidwad*
*A'n cadwo mewn nwyau.*
*Mil mwy yw Hwn, gwn na'r gau*
*Annibynnol unbennau.'*
*J. R. JONES.*
*Lerpwl.*

*(16 Medi 1939)*

Pythefnos yn ddiweddarach wele ddiolchgarwch y beirdd bod y Babell yn agored o gwbl mewn dyddiau pan y byddai ei chau wedi bod yn llawer haws:

*Yr wyf yn ddiolchgar iawn i'r beirdd, fintai ohonynt, a ysgrifennodd ataf i ddiolch i berchenogion 'Y Cymro' ac i minnau am gadw dôr Y BABELL yn agored yn wyneb cwtogi llawer ar ein breintiau arferol yn y dyddiau helbulus hyn.*

*Pa draddodiad godidocach a feddwn heddiw na'r ffaith inni gadw'r gân yn fyw yn wyneb y goresgyn a fu ar ein gwlad fechan, dro ar ôl tro drwy'r oesoedd? Daliasom rym galluoedd gelyniaethus a wersyllodd rhwng ein mynyddoedd heb golli'r tân Cymreig. Ni pheidiodd y bardd â nyddu breuddwyd yn gynghanedd pan siglodd y nen. Troes y telynor at ei linyn cysurlawn yn yr oriau duaf yn ein hanes. Aeth ei ddiddanwch dros Forfa Rhuddlan megis anadl oddi wrth y pedwar gwynt; ac fel enfys yn y cwmwl y llewyrchodd y gogoniant nas diffoddir. Lle peidiodd cân, pallodd ffydd a chiliodd y weledigaeth. Na ddigwydded hynny i "Gymru, gwlad y gân!"*

*(30 Medi 1939)*

Ym Mhabell Awen 28 Hydref 1939 cafwyd y cyfraniad cyntaf gan filwr oedd yn aelod o'r Babell, T. G. Hughes o Lanllyfni, sef englyn ar y testun amserol 'Y Wifren Bigog'. Yn ei lythyr diddorol, sydd yn nodweddiadol o lythyrau amryw o filwyr a ysgrifennodd i'r Babell yng nghyfnod y rhyfel, mae Mr. Hughes (y Gunner Hughes bellach) yn sôn mor bwysig oedd barddoni a chynganeddu i wŷr ifainc fel yntau am ei fod yn cynnig dihangfa iddynt, dros dro o leiaf, o'u sefyllfa argyfyngus. Mae Dewi Emrys, fel hen filwr, yn medru uniaethu ag ef, ac yn deall yn union mor bwysig oedd barddoni iddo:

*T. G. HUGHES (Llanllyfni). - "Rhywle yn Ffrainc" yw ei gyfeiriad presennol; ac fel Gunner Hughes (797499), S. R. Battery, Royal Artillery, yr adwaenir ef gan ei gymrodyr yn y fyddin. Eithr o dan englyn, ac yntau'n llanc ifanc yn astudio'r Mesurau Caeth, yr ymddangosodd ei enw, rai wythnosau'n ôl, yn Y BABELL; a pheroriaeth y gynghanedd yw ei ddiddanwch heddiw pan fo'r magnelau'n cyfarth. Wele ddyfyniad o'i lythyr cyntaf oddi wrth filwr sy'n aelod o'r BABELL: "Dyma fi yng nghanol heldrin arall na ŵyr neb amdani ond y rhai sydd*

*yma. Trwy'r cwbl, pan geir ychydig eiliadau o seibiant, bydd eich llyfr chwi, sef 'Odl a Chynghanedd', yn falm i liniaru'r rhywbeth hwnnw sydd tu hwnt i hiraeth - yr arswyd a feddianna bob dyn na ŵyr pa bryd y bydd yn wynebu Tragwyddoldeb. Y mae ceisio ymarfer â'r gynghanedd yn help i anghofio llawer o bethau....Edrychaf ymlaen, o wythnos i wythnos, am 'Y Cymro' a'r BABELL AWEN." Fel hen filwr, medraf gydymddwyn ag ef; a gallaf ei sicrhau y byddaf, fel eraill o hen feirdd Y BABELL, yn meddwl llawer amdano ac yn erfyn am ei ddiogelu a'i ddwyn yn ôl yn ddianaf i henfro'i febyd. Testun ei englyn heddiw yw 'Y Wifren Bigog'. (*) Sawl milwr a ddaliwyd ganddi hyd dranc yn y rhyfel mawr o'r blaen?....*

*(*) Gwe o rwd yn gaer ydyw, - ei cholyn*
*Gochelwch rhag distryw.*
*Astrus ei thro, llawn ystryw,*
*Aruthr ei brath, hir y briw.*

Yn rhifyn 2 Rhagfyr 1939 o'r Babell Awen cyhoeddwyd nodyn yn hysbysu'r darllenwyr bod Dewi Emrys wedi gorfod mynd i'r ysbyty unwaith eto:

*NODIAD AT Y BEIRDD. - Yn anffodus, fe ymyrrwyd â gwaith Y BABELL yr wythnos hon ar ddiwedd y wers uchod. Cymerwyd Golygydd Y BABELL yn bur wael ac aeth dan driniaeth y llawfeddyg yr eilwaith nos Wener. Mynnai gyhoeddi'r BABELL fel arfer ac erfyn ar i'r beirdd ddal ati. Fe gyhoeddir detholion heb nodiadau am y tro. Hyderwn y caiff Dewi Emrys ddychwelyd yn fuan; yn y cyfamser daliwch i ganu. Gwan iawn yw ei gyflwr ar hyn o bryd ond bydd teyrngarwch ei ddisgyblion yn nerth iddo yn y man.*

Ac felly am yr ail dro fe gymerwyd Dewi Emrys i un o ysbytai Llundain, ond unwaith eto, trwy ddyfalbarhad Dewi ynghyd â chydweithrediad llawn ei gyfeillion a staff Y Cymro, ni fethwyd cyhoeddi'r un Babell Awen yn ystod y mis a dreuliodd ar wastad ei gefn. Yng nghanol Rhyfel, braf eithriadol yw darllen sylwadau fel hyn sy'n dangos nad yw dyn yn ddrwg i gyd:

*O'R YSBYTY. - Fe ddichon y byddaf adref cyn i'r nodiadau a'r cynhyrchion hyn ymddangos. Cefais godi ddoe (Rhagfyr 18) i gadair freichiau wrth fy ngwely, ac yn y gadair honnno yr ysgrifennaf heddiw dan siars Golygydd 'Y Cymro' a ddeil i wasgu arnaf fod gwyliau Nadolig yn dibynnu ar dderbyn y cyfraniadau arferol yn gynnar yr wythnos hon ar gyfer rhifyn olaf y flwyddyn; a dyma finnau, rhwng breichiau'r gadair gysurus yma, yn ddigon cryf bellach i fedru ufuddhau iddo a pharatoi cynnwys Y BABELL am rifyn Rhagfyr 30 â'm dwylo fy hun, er mai'r bendro a gawn pe ceisiwn ddefnyddio fy nghoesau a cherdded o bared i bared ar y llawr llyfn yma y gwelais wŷr sionc yn llithro arno a syrthio ar wastad eu cefnau.*

*Bydd eisiau cryn lawer o ysbryd yr anturiaethwr, heb sôn am gadernid ffêr ac asgwrn, cyn mentro yfory ar fy mhererindod gyntaf ar lawr mor bechadurus o lithrig. Paham yr holl "bolisho" yma, bob awr o'r dydd bron, ar lawr coed na welaf fi arno na brycheuyn na chrychni, nis*

*gwn, os nad i roi praw teg ar sadrwydd pobl obeithiol fel myfi sy'n dechrau cerdded ar ôl eu cadw'n hir dan gwrlid y gwely. Rhoddir y praw hwnnw arnaf fi yfory wedi mis bron o orffwys ar fy nghefn. Os llwyddaf, bydd fy nghydymdeimlad yn fawr iawn â'r brodyr o'm cwmpas a fedr gyfrif oriau eu cyflwr gorweddog wrth y misoedd. Un peth a wn: fe lawenycha'r gwaelaf ohonynt yn fy muddugoliaeth. Rhyfedd fel y mae cyd-ddioddef yn ennyn cariad brawdol, hyd yn oed ym mysg diethriaid a ddaw at ei gilydd fel hyn.*

Un o nodweddion cryfaf personoliaeth Dewi Emrys oedd ei barodrwydd i leisio'i farn yn gryf ar unrhyw fater dan haul ac mae hyn i'w weld yn amlwg yn ei sylwadau yn y Babell Awen. Yn rhifyn 10 Chwefror 1940 o'r Babell mae Dewi'n anghytuno'n gryf iawn â'r rhai a ddadleuai bod y ffoaduriaid bach o Saeson a ddaeth i Gymru'n peryglu holl fodolaeth yr iaith Gymraeg a bywyd cenedlaethol Cymru; yn hytrach mae'n llawdrwm iawn ei feirniadaeth ar gynghorwyr a'u tebyg, 'nad ydynt ond Saeson rhonc ar eu haelwydydd eu hunain', am feiddio awgrymu'r fath beth, a dywed nad estroniaid, ond y Cymry eu hunain, sy'n peryglu bywyd cenedlaethol y wlad:

*RAY DAVIES (Llanybyther). - ....Ymgymerodd yr eneth ifanc hon â gwaith anodd. Pob clod iddi am fawrygu hen iaith gyfoethog ei gwlad ei hun ac amlygu cymaint medrusrwydd; a phob clod, hefyd, i Ysgol Sir Llandysul am y sylw a rydd i lenyddiaeth Gymraeg. Cynhyrchodd yr ysgol hon nifer o gynganeddwyr addawol ymysg ei disgyblion, a bu ei beirdd ieuainc yn fuddugwyr fwy nag unwaith yn Eisteddfodau'r Urdd. Y mae llafur cyson a diffwdan ysgolion o'r fath yn fwy o werth na'r holl glebran a geir heddiw mewn cynghorau a chynadleddau am gadw'r iaith yn fyw. Siaredir yn y cyrddau hyn gryn lawer o ffwlbri am beryglu'n hiaith a'n bywyd cenedlaethol gan y noddedigion bychain a ddaeth i Gymru. A yw plant Cymru gymaint â hynny'n wannach a mwy gwasaidd na phlant Lloegr? Gormod o fyw iddi ei hunan a fu hanes ein cenedl. Ffordd hunanladdiad yw honno fel y dengys hanes y genedl Iddewig a gredai mewn ymwadu'n llwyr â chenhedloedd eraill a'i chyfrif ei hunan yn etholedig Duw. Er gwaethaf pob anhwylustod ac anghaffael, helaethrwydd daioni fydd ffrwyth amlycaf y gyfathrach agos rhwng plant Cymru a Lloegr ar dir ein gwlad; a rhan o bwysigrwydd pobl ddi-weledigaeth yw'r cicio nyth cacwn a geir heddiw mewn cynghorau yma a thraw. Bu'r iaith Gymraeg fyw yn wyneb pwerau cryfach na dim sy'n ei bygwth heddiw. Y mae gennyf eto ddysgu mai ffwdan ychydig o bwyllgorwyr a'i cadwodd rhag trengi dan draed y Rhufeiniwr, y Norman a'r Saeson. Os na fedr bywyd cenedlaethol Cymru ddal sialens y llochesiaid bach cyfeillgar sydd yn ein gwlad heddiw, y mae'n haeddu marw. Ymhell y bo'r 'inferiority complex' cythreulig yma a fu'n fwy o felltith i Gymru na dim a wnaed i'w herbyn gan elynion o'r tu allan iddi. Hwnnw, pe sylweddolem y gwir plaen, yw gwreiddyn yr holl ffwdan cynadleddol a'r sôn am dranc ein hiaith a'n diwylliant oherwydd dyfod ymfudwyr Seisnig i'n plith - nid i'n lladd, cofier, nac i ymyrryd â'n sefydliadau cenedlaethol, eithr i dderbyn ein hewyllys da. A oes berygl i'r noddedigion Seisnig ddifetha dylanwad Ysgol Sir Llandysul (heb sôn am ysgolion eraill sy'n cynhyrchu Cymru ieuainc eiddgar) ar*

*blant y fro? Nid estroniaid sy'n peryglu bywyd cenedlaethol ein gwlad, ond ei thylwyth hi ei hunan. Rhoddir amlygrwydd ar y cynghorau ffwdanus yma i wŷr nad ydynt ond Saeson rhonc ar eu haelwydydd eu hunain, a nifer ohonynt na fedrant ysgrifennu cymaint â phwt o lythyr mewn Cymraeg cywir. Y mae ceidwaid ein bywyd cenedlaethol, fel y lefain yn y blawd, yn gweithio'n dawel a dirodres yn eu cylchoedd eu hunain; ac o'u llafur a'u dylanwad hwy y daw ymchwydd ein dyrchafael, a hwnnw'n ymchwydd na ostyngir mono heddiw nac yfory. Chwi, dadau a mamau Cymru, a chwithau athrawon ysgolion ein gwlad, cofiwch eich cyfrifoldeb, a byddwch deilwng o'r hen dywysogion gwlatgar a aeth o'ch blaen - tylwyth y Mabinogion, y Llyfrau Du a'r Llyfrau Coch, gwneuthurwyr eich cerddi a chyfieithwyr eich Ysgrythurau. Pendefigion oedd y rheini a roes anadl einioes i'ch iaith a'ch llenyddiaeth, nid cynffonwyr gwasaidd a lyfai'r llwch wrth draed estroniaid.*

Siaradodd â geiriau yr un mor gryf yn rhifyn 10 Awst 1940 o'r Babell, y tro hwn yn erbyn y dreth bwrcasu arfaethedig ar bapurau newydd, cylchgronau a llyfrau. Byddai'r dreth hon yn andwyol iawn i'r Wasg Saesneg ond yn eithriadol felly i'r Wasg Gymraeg; yn wir, gallasai fod yn ddigon i ladd y Wasg Gymraeg, os nad yr iaith ei hunan yn y pen draw:

*DANGOS Y GOLAU COCH. - Hynny a wnaeth 'Y Cymro' yr wythnos ddiwethaf wrth rybuddio'r wlad a dangos i gysgod angau ddisgyn ar y Wasg Gymraeg ac ar yr iaith ei hun yn y Dreth Bwrcasu a esyd y Llywodraeth ar bapurau newydd, cylchgronau a llyfrau.*

*Eisoes y mae Undeb Cyhoeddwyr a Llyfrwerthwyr Lloegr wedi codi ei lais yn erbyn y dreth hon oherwydd y perygl sydd ynddi i lenyddiaeth Saesneg. Ar dystiolaeth llyfrgellyddion a chyhoeddwyr, dangosodd yr 'Evening News' (Llundain) heno (nos Sadwrn, Awst 3), fod mwy o alw am lyfrau heddiw, yn enwedig storïau a barddoniaeth, nag a fu cyn y rhyfel; a gellir priodoli hynny i'r llu mawr o filwyr a gaiff eu diddanwch pennaf mewn darllen yn ystod oriau hamdden, heb sôn am y fagddu sy'n peri i deuluoedd lawer geisio'u hadloniant a'u cysur mewn llyfrau. Eithr beth am filwyr Cymru sy'n ymddiddori yng nghyhoeddiadau'r Wasg Gymraeg? Beth, hefyd, am gartrefi Cymru a gaiff gymaint diddanwch yn eu llenyddiaeth eu hunain? Os yw'r dreth dan sylw yn ergyd mor alaethus i'r Wasg Saesneg ac yn gymaint atalfa ar gyfraniadau beirdd a llenorion Lloegr, ni all y dreth honno lai na bod yn ergyd farwol i'r Wasg Gymraeg ac yn ddifrod i'r iaith sy'n dibynnu cymaint ar y gair argraffedig. Codwch, feirdd Y BABELL (dros bedwar cant a hanner ohonoch), a hynny ar unwaith, i wrthwynebu'r annhegwch drwy ysgrifennu, bob un ohonoch, at ei aelod Seneddol. Codwch chwithau, athrawon ac athrawesau Cymru, yn yr un modd. Chwithau'r Blaid Genedlaethol, dyma i chwi reswm da dros ganu eich cyrn a chrynhoi eich nerthoedd; canys dyma'r fynas berycłaf eto i'r annibyniaeth genedlaethol y soniwch gymaint amdani. Chwithau, Gyngor yr Eisteddfod (rai ohonoch yn aelodau Seneddol), syllwch ar y golau coch sy'n bygwth atal tramwyfa'r cerbyd a ddwg drysorau gwerthfawrocaf ein gwlad, a'r rheini'n drysorau a ymddiriedwyd i'ch gofal chwi. A chwithau'r pwyllgorwyr pererin a fu'n rhedeg o gynhadledd i gynhadledd rhag ofn i'r llocheswyr bychain o Loegr ladd yr iaith Gymraeg, dyma i chwi wir achos brawychu ac ymegnïo; canys pan dderfydd y Wasg Gymraeg, fe dderfydd mwy o lawer na'r cyhoeddusrwydd a fwynhewch, a chewch eistedd*

*ar adfeilion oer i alaru am i chwi hidlo cynifer o wybed a llyncu cynifer o gamelod! Chwithau, gymdeithasau Cymraeg, yng Nghymru a Lloegr, dyma i chwi reitiach gwaith na chlodfori eich gwlad, gwrando ar areithwyr achlysurol a gwresogi eich sêl Gymreig â berw'r dŵr a phethau cryfach yng ngwleddoedd Gŵyl Ddewi. Fe ddylid ffurfio dirprwyaeth ar unwaith, yn cynrychioli'r Wasg Gymraeg, ein llyfrwerthwyr, yr Eisteddfod, ein cymdeithasau cenedlaethol, ein colegau a'n hysgolion, i osod achos Cymru ynglŷn â'r dreth hon o flaen Canghellor y Trysorlys a'r Prif Weinidog. Yr wyf fi eisoes wedi siarad â chyfeillion personol sy'n cynrychioli Cymru yn y Senedd; a chredaf y bydd i holl olygyddion Cymru brocio'r aelodau Seneddol a'u dwysbigo, er mwyn aberth Cymru a'i theyrngarwch yn yr argyfwng presennol, ac er mwyn bywyd Cymru yfory, trannoeth a thrennydd. Nid cymwynas a geisiwn, eithr tegwch.*

Un arall o sgîl-effeithiau'r rhyfel oedd y dreth arfaethedig hon gan mai ei bwriad oedd codi arian i'r Llywodraeth a chyfyngu defnyddiau. Ond yr oedd y rhyfel hefyd yn effeithio'n uniongyrchol ar Dewi Emrys, ac fel y dengys Dilys Cadwaladr yn ei chyfres ysgrifau 'Taith yr Anialwch', yr oedd Dewi'n mynd â llythyrau beirdd y Babell gyda fo pan orfodid ef i lochesu rhag cyrchoedd awyr y 'blitz' ar Lundain:

*Y MAE elfen arwr ym mhob dyn. Ond fe'i cleddir mor aml dan gruglwyth mân ofidiau a chyfrifoldeb diramant fel nad hysbys i ddyn faint ei wroldeb nes dyfod prawf sydyn, a'r rhyddid a ddyry cyfyngder i enaid y lleiaf ohonom.*

*Os credodd Hitler y gallai gynhyrfu ysbryd arswyd drwy daro'n gyson am wythnosau ar dlodion yr Elephant, gwnaeth gamgymeriad mawr.*

*Yn wir, dyddiau ffug-hoenus oedd y dyddiau hynny. Mae'r Cocni'n debycach i'r Cymro nag i'r Sais a pho fwyaf twrf y bomiau, uchaf yn y byd ei chwerthin.*

*Ond yr oeddem i gyd yn talu'r pris. Teneuodd yr wyneb o eisiau cwsg a chyn bo hir daeth min amwyll i'r chwerthin.*

*Ychydig iawn o wahaniaeth a wnâi cyrsiau awyr y dydd i'n bywyd. Arhosai pawb wrth ei orchwyl gan fwngial y geiriau dwl: "If it's got yer name on it, yer gets it." Ond pan seiniai'r corn rhybudd cyn nos, ymarllwysai'r tai i gyd. Daeth llochesu'n gelfyddyd. Ar y dechrau, rhuthrai'r rhan fwyaf heb na chwrlid na gobennydd i orweddach yn anghysurus ar fainc neu lawr pridd drwy'r nos. Cerddai'r lleill, y doethion a'r proffwydi, gan gludo llyfryn neu daclau ysgrifennu. Ond ymhen wythnos darbwyllwyd pawb. Cysgu oedd yn bwysig, rhag llwyddo o'r gelyn yn ei bwrpas a'n difetha yn ein calonnau.*

*Stori arall, fodd bynnag, yw hanes Twm, Dic a Harri'r Elephant - stori hen-ffasiwn am gyfnod, nes dyfod hanesydd y dyfodol.*

* * *

*Syrthiodd bomiau yn rhy agos i'r lloches yng ngardd y llety a mynnai Emrys chwilio am well lle. Yr oedd yn rhy glós yn y lloches a threuliai ran helaeth o'r nos yn troedio'r ardd ac yn lladd chwilod. Ni chawn ymateb dyfnach ynddo o gwbl; ciliasai o'm gwydd i bellteroedd ei enaid, ddydd a nos. Ceisiwn ddilyn ei fyfyrdodau ond ffaelwn gael gafael arno. Cadwai draw rhag Dwynwen (*) i raddau fel petai ofn edrych arni.*

*Penderfynodd o'r diwedd mai'r ysgol ar gornel y sgwâr oedd y lle*

*gorau i ymochel ynddo. Tybiwn innau yr un fath. Llochesai rhai cannoedd o drigolion y cylch yn y selerydd o dan yr adeilad. Gorweddai rhai ohonom o gwmpas y peiriau dŵr poeth a'r lleill ar y silffoedd. Cafodd Dwynwen wely ar fwrdd y saer a chysgodd heb na si na sŵn am bedair awr bob nos.*

*Cludai Emrys fag glas yn cynnwys llythyrau beirdd y Babell a thaclau ysgrifennu. Rhai trysorau eraill hefyd, ynghyd â'r ewyllys, hwyrach. Arhosai'r cadeiriau barddol a'n dillad yn y tŷ i gymryd eu siawns....*

*( * Dwynwen yw merch Dewi Emrys)*

Ym mis Medi 1940 drylliwyd cartref a swyddfa Dewi Emrys yn y 'West Square' gan un o fomiau'r gelyn; meddai yn ei nodiadau yn rhifyn 5 Hydref 1940 o'r Babell Awen:

*DALIER SYLW. - Y mae ffenestri fy nhrigfan a'm swyddfa yn West Square, Llundain, yn gandryll gan effeithiau'r bomio cyson, a chynnwys yr ystafelloedd yn gruglwyth anial. Llwyddais i achub rhai o'm meddiannau cyn troi ymaith, yn eu plith gynhyrchion anghyhoeddedig y beirdd sy'n aros eu tro.*

*Hyd yn hyn, erys y tŷ ar ei draed. Felly, y mae gobaith am waredu pethau eraill rhag difrod. Yn y cyfamser, codais fy mhabell mewn pentref nad yw nepell o'r fan lle'm ganed; a'm cymdeithion beunyddiol ar hyn o bryd yw Cymry glân bro Ceredig, a'u gwefusau'n diferu peroriaeth hen iaith odidog eu tadau, a'm cyfaill hoff, Tom Stephens, prifathro'r ysgol leol, - gwladgarwr selog na ellir mesur maint ei wasanaeth fel amddiffynnydd popeth Cymreig, - yn frenin yn eu plith. Llyfrau Cymraeg sydd amlaf ar silffoedd llyfrgell ei ysgol, a'r detholiad yn un helaeth a chwaethus. Chwaer iddo yw Miss E. A. Stephens, un o aelodau'r BABELL, hithau'n rhannu gwybodaeth, yn un o ysgolion tref Caerfyrddin, a'r ddau yn blant tad galluog, sef y diweddar Mr. Dan Stephens, y gellir ei gyfrif yn apostol cerddoriaeth yn y cylchoedd hyn. Aflonyddir hyd yn oed ar yr ardal wledig; a chreithiwyd caeau cyfagos y nos o'r blaen gan eu crafangau tanllyd. Eithr tangnefedd Rhoddwr Mawr pob cynhaliaeth yw nodwedd amlycaf y fro hwsmonnaidd hon a'i phobl fucheddol. Y Saboth diwethaf pregethai dau o feirdd Y BABELL o fewn ei chyffiniau, sef Jacob Davies a D. Gwyn Evans, y ddau yn fyfyrwyr yng Ngholeg Presbyteraidd Caerfyrddin, a'r ddau'n pregethu'n dda. Yn yr ardal hon, bellach, y disgwyliaf am gyfraniadau'r beirdd. Arbedir traul a thrafferth wrth anfon yn uniongyrchol i mi bob gohebiaeth ynglŷn â'r BABELL. Dyma'r cyfeiriad:*

*Gwynfe,*
*Talgarreg,*
*Nr. Llandysul,*
*Cardiganshire.*

Dyna adael y 'West Square' yn Llundain felly, cyfnod hapus ym mywyd Dewi Emrys fel y tystia Dilys Cadwaladr mewn ysgrif arall o'r gyfres 'Taith yr Anialwch':

*....Ond hyn a wn ac a daeraf. Dyma flynyddoedd hapusaf Dewi Emrys. Ni ddaeth iddo yn West Square siomedigaethau diweddarach. Yr oedd y frwydr*

*yn lân a'r fuddugoliaeth yn sicr. Twymodd ei galon at ei bobl a chafodd wybod maint serch ei gyd-lenorion a chariad trwyadl y beirdd syml a'i cyfrifai'n dad iddynt yn y Babell.*

*Yn West Square, yr oedd ef yn rhydd ac yn ddi-ofid. Pan ddeuai tâl iddo am waith llafurus, yr oedd yn haws byw ar ychydig yno. Ymddiriedai gŵr y tŷ iddo a chadwodd ei air bob amser. Pan wynebai fethiant am gyfnod, lle cymwys ydoedd ei ystafell i lechu ac ail-feddwl. Nid oedd yno neb i ddannod a gwylio gan hanner gwenu pan anobeithiai am ennyd. Cymydog parchus ydoedd i drigolion cyson y sgwâr. Gŵr mawr ydoedd i'r hil gyfnewidiol a ymguddiai am ychydig wythnosau yn yr ystafelloedd cyfrin. Yr oedd ei enw'n ddigon da yn siopau prysur yr ardal a chafodd gyfeillion ymysg y dosbarth parchus yn y rhan hon o'r ddinas.*

*Ac nid peth hawdd yw ennill parch y Cocni. Mae'n ŵr craff ac nid hawdd taflu llwch i'w lygaid. Yr oedd "Mr. James" yn gymeradwy yn y parc ac ar yr heol. A daeth mwy nag un o'r Saeson ffraeth i wybod am y Babell - "the Babel" fel y galwent hi.*

*Gwelid Emrys yn rhuthro y funud olaf i bostio ei Babell i'r 'Cymro', a chwarddai ei gymdogion wrth ei weld yn troi'r gongl fel ewig y fforestydd.*

*Chwarddwn innau'n aml wrth feddwl am lenorion gwledig Cymru yn darllen y Babell gyda'r nos Sadwrn heb wybod dim am gomedi'r postio.*

Wrth sôn am arhosiad annisgwyl Dewi Emrys yng nghartref yr ysgolfeistr a'r bonheddwr hael Tom Stephens a'i wraig Maggie (a oedd yn berthynas i Dewi), mae Eluned Phillips yn ei chofiant, Dewi Emrys, yn dyfynnu'n gyntaf o eiriau'r Parch. Gwilym Morris yng nghyfrol deyrnged Tom Stephens, Y Gwron o Dalgarreg:

....Ni chafodd Dewi Emrys fwy o noddwr na Tom Stephens a'i briod annwyl, a phan symudodd Dewi i'r Bwthyn aeth llawer dodrefnyn o Dŷ'r Ysgol i wneud cartre'r bardd yn gyfaneddol. Yr oedd yn rhaid gofalu am Dewi Emrys mewn llawer ystyr, ac ni bu neb yn fwy gofalus ohono na Tom. Cynghorodd ef a'i geryddu pan oedd rhaid, a'i garu hefyd. Tom oedd y prif ysgogydd i'r Dysteb a gafodd y Bardd ar ddiwedd ei oes, a phan ddaw dydd cyhoeddi cofiant Dewi Emrys, nac anghofier nawdd teulu Gwynfe iddo hyd y diwedd.

*Ni wna neb a gafodd y fraint o adnabod Tom Stephens ei anghofio, nac yn sicr anghofio yr hyn a wnaeth dros Dewi Emrys. Dywed ei nith, Beti Griffiths, amdano:*

Meddylier amdano fel noddwr beirdd yn yr hen draddodiad. Fe roddodd loches i Dewi Emrys rhag y bomiau ac arswyd Llundain. Derbyniodd ef i'w gartref a chafodd hafan a hedd y wlad yn Nhalgarreg.

*Meddai Dwynwen:*

....Uncle Tom came nearer to the ideal of complete unselfishness than any man I have ever known. All his friends knew, and everyone in Talgarreg knew, that if they wanted any kind of help, or advice on anything under the sun, they had only to come to Tom Stephens; they would never be disappointed. Nobody was ever refused; nothing was ever too much, or too little, for this man to undertake. If anyone ever led a full life - in the true sense - he did.

*Trwy gymorth teulu Gwynfe, cafodd y bardd ei "awr bêr ym merw byd", ac yr oedd ardal Talgarreg yn falch o'i groesawu....*

Dyna deyrnged haeddiannol iawn i ŵr a gwraig a ddangosodd garedigrwydd eithriadol i Dewi Emrys yn ei gyfyngder, gan ei letya ac edrych ar ei ôl am chwe mis, ond er gwaethaf y caredigrwydd di-ben-draw hwn medrai Dewi fod yn eithriadol o ddifater fel y dywed Dilys Cadwaladr yn y dyfyniad isod. Diddorol iawn hefyd yw'r hyn a ddywed Dilys Cadwaladr am y modd y câi Dewi ei barchu gan bobl Talgarreg, fel yn wir y câi ei barchu gan bobl y 'West Square' yn Llundain; mae'n amlwg felly bod rhywbeth cynhenid yn ei gymeriad a oedd yn ennyn parch mawr gan eraill:

*....Fe'i tywyswyd gan ragluniaeth i Dalgarreg. Y mae rhywbeth yn awyrgylch y pentref bach hwnnw yn sir Aberteifi sydd yn gydnaws â bardd.*

*Daeth pobl Talgarreg yn annwyl i Ddewi. Y maent yn annwyl i minnau hefyd ac ni wn i am well lle ar y ddaear i gilio iddo wedi hir, ffwdanus oes.*

*Nid yw bardd yn cyfrif dim mewn ambell i bentref, ond yr oedd Talgarreg yn parchu Dewi. Ac yn ei garu fel y dylid caru bardd, nid am ei athrylith ond am ei hunan od, cariadus ac anniben.*

*Agorodd Tom Stephens, yr ysgolfeistr talentog, ei ddrws led y pen i'r bardd pan gyrhaeddodd hwnnw Dalgarreg o Lundain y 'blitz'. Nid cyfrifoldeb bach oedd rhoi cartref iddo. Yr oedd Emrys yn fonheddwr yn y tŷ ond bonheddwr anghyffredin ydoedd. Tŷ glân, trefnus, yw tŷ Mrs. Stephens, a daw pryd bwyd yn ei amser cyfaddas. Nid unwaith na dwywaith y llethwyd amynedd gwraig y tŷ gan ddifaterwch y bardd. Gwelais hi'n colli dagrau a gwenu'r un pryd o weld difetha ei chinio Nadolig tra erlidiai Emrys betris a chwningod yr ardal.*

*Yn Nhalgarreg daeth dyddiau ieuenctid yn ôl i'r bardd. Cerddai'n hoywach ar heol y pentref ac ysgafnodd ei gorff i ddilyn llwybrau'r cymoedd a'r moelydd. Dysgais innau saethu a physgota'r eilwaith yn ei gwmni. Yr oedd imi atgofion am Bont Nedd Fechan, ond diolchwn am asur clir y ffurfafen uwch Talgarreg, a'r llewych newydd yn llygaid fy nghyfaill. Yr oedd Emrys yn hŷn, wrth gwrs, ac yr oedd ei wallt yn llwydo ond diflanasai'r cysgod o'i ael a'r chwerwder o'i wefusau....*

Ar ôl hynny symudodd Dewi a Dwynwen i'r 'Bwthyn' yn Nhalgarreg gan orfodi beirdd y Babell i anfon eu cynnyrch i gyfeiriad newydd eto! Diddorol eithriadol yw'r dyfyniad isod o gofiant Eluned Phillips sy'n dangos fel yr oedd cymaint o drigolion Talgarreg yn gwneud eu rhan i sicrhau bod y Babell Awen yn ymddangos yn wythnosol yn Y Cymro:

*....Amser dedwydd, ond amser caled, hefyd, a fu'r blynyddoedd yn y Bwthyn. Nid yw symud tŷ a newid amgylchfyd yn rhoi siawns i gystadleuydd cydwybodol. Rhaid aros hyd 1943 i'r bardd gael ei wynt yn*

*ôl.*

*Y Babell Awen a gâi'r sylw blaenaf; a sylw go helaeth, hefyd, gan y byddai pendemoniwm yn yr ardal gyfan bob tro y deuai adeg postio'r cynhyrchion. Danfonai'r Prifardd deligram i Swyddfa'r 'Cymro' yn rheolaidd bob dydd Mawrth i hysbysu'r Golygyddion y byddai'r pecyn pwysig yn cyrraedd ar y dydd Mercher, a byddai pentrefwyr Talgarreg (a'r Capten Beaufort Williams wrth y llyw) bron i gyd yn cymryd rhan yn y broses o bostio. Cofiaf yn dda gyrraedd Sgwâr Talgarreg un tro a'i weld yn brasgamu'n wyllt ar ôl men y Post, a honno'n diflannu i'r pellteroedd, a'r gyrrwr, druan, yn hollol anymwybodol o'r cam dibrin a wnaethai â beirdd ei genedl. Rhaid oedd cludo'r athro ar frys i Synod Inn ar ei ôl - yna ymlaen i Aberaeron - ac ebychiad o fodlonrwydd y bardd wedi cyflawni ei ddyletswydd, yn ddigon o dâl am ennill y ras. Ie, ffwdan bob tro; ond, rhywun neu'i gilydd, trwy ryw ddirgel drefn, yno ar y funud argyfyngus....*

Yn y cyfamser yr oedd beirdd y Babell, yn cynnwys y rhai oedd dramor yn y lluoedd arfog, yn parhau i anfon eu cynhyrchion at Dewi mor rheolaidd ag erioed, ac anhygoel yw meddwl bod rhai o'r telynegion, englynion, sonedau ac ati a anfonwyd i Dalgarreg o bedwar ban byd wedi teithio cannoedd os nad miloedd o filltiroedd cyn y cyrhaeddent ben eu taith. Un o'r milwyr a anfonai gynnyrch yn rheolaidd iawn i'r Babell Awen oedd T. Llew Jones a oedd wedi'i leoli yn yr Aifft, ac mae'r darn isod o Babell 5 Medi 1942 yn dangos bod y broses o anfon ei gynhyrchion yr holl ffordd o'r Dwyrain Canol i'r bwthyn bach yn sir Aberteifi weithiau'n cymryd misoedd lawer ac yn fwy na thebyg yn gorfod mynd trwy bob math o anawsterau; fodd bynnag, yn ôl yr arfer yr oeddynt yn cyrraedd pen eu taith i gael ymddangos yn y Babell Awen yn y diwedd, rhywbeth sydd bron iawn yn wyrthiol:

*T. LLEW JONES (Pentrecwrt). - Cynefin yw cyfeillion y Babell â'i awen afaelgar ef. Bu'r cynhyrchion hyn o'i eiddo ar daith am fisoedd rhwng yr Aifft a Thalgarreg. Llesg yw'r gwynt ar dywod-fryniau'r diffeithwch pell. Eithr nid llesg yw awen y bardd, er ei dwysáu gan hiraeth. Duw a'i cadwo - awenydd ieuanc y gellir disgwyl llawer oddi wrtho, pan ddychwelo i "wlâd y gân". Ni wn i am neb a ddaeth yn gynganeddwr mor aeddfed mewn cyn lleied o amser; a gellir maddau imi am grybwyll mai'r gwerslyfr 'Odl a Chynghanedd' a fu ei hyfforddwr....*

Â'r Rhyfel bellach yn bedair blynedd oed yr oedd Eisteddfod Genedlaethol Bangor ym 1943 yn un arbennig iawn nid yn unig i Dewi Emrys ac i holl staff Y Cymro ond hefyd i unrhyw un a oedd â diddordeb yn hynt a helynt y Babell Awen. Meddid â balchder ar dudalen flaen Y Cymro 7 Awst 1943 wedi i Dewi ennill cadair arall gyda'i awdl 'Cymylau Amser':

Y GORON I'R DISGYBL - Y GADAIR I'R ATHRO

*CADEIRIO a choroni yn Eisteddfod Genedlaethol Bangor eleni - ond dim cadair na choron. A dim Lloyd George. Ymddengys fod Bangor yn lle anlwcus i Mr. Lloyd George; eisteddfodau cenedlaethol Bangor yw rhai o'r ychydig y methodd y Brenin Di-Goron â dod iddynt mewn cyfnod maith iawn ar brynhawn Iau. Eleni fe'i caethiwyd gan annwyd yn Churt.*

*Enillwyd y gadair ddydd Iau gan Dewi Emrys, golygydd y Babell Awen, y bu gwaith y bardd ifanc, Mr. Dafydd Owen, Dinbych, a enillodd y Goron, ddydd Mercher, ynddi.*

*Dyma drydedd cadair Dewi Emrys. Enillodd yn Lerpwl yn 1929 ar Dafydd ap Gwilym; yn Llanelli yn 1930 ar Y Galilead, a Choron Abertawe yn 1926 ar Y Ffordd Fawr....*

Dyna 'ddwbl' penigamp i'r Babell Awen felly, a chyfle ardderchog i Dewi Emrys gael clochdar ei lwyddiant yn ei ffordd wylaidd arferol! Meddai ym Mhabell Awen 21 Awst 1943:

*DIOLCHAF o galon i'r ugeiniau a anfonodd imi eu llongyfarchiadau ar fy llwyddiant yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni. Wele anerchiadau dau brydydd a'm cyfarchodd yn nefod y cadeirio:*

*Ei awdl bêr yn odlau byw - a ganodd*
*O geinion uchelryw.*
*Odiaeth o hapus ydyw,*
*A "hwrê" gwlad ar ei glyw.*

*Addas yw'r orsedd iddo, hwn o bawb,*
*Frenin beirdd ac athro.*
*Awen fyw ei eiddo fo,*
*Emrys yw haul "Y Cymro".*

*MYFYR MÔN.*

*Ar y blaen wele ŵr graenus - a bardd*
*Ddeil yn ben heb betrus;*
*Rhowch le yn yr uchel lys*
*I dalent mor hudolus.*

*Hawddamor i'n gororau - yn arwr*
*Y werin a'i doniau;*
*O'r drin boeth i'r dirion bau*
*Am eiliad o'r cymylau.*

*O ferw'r wlad i fôr o wledd - yn eilun*
*Hen Walia a'i Gorsedd.*
*A wêl hau o ddiliau hedd,*
*A erys yn dy fawredd.*

*GWYNGYLL.*

Fel hen filwr ei hunan cas beth gan Dewi oedd unrhyw un a ddirmygai'r milwr a'i aberth enfawr, fel y darganfu J. H. Bennett

o Lanidloes a fu'n ddigon ffôl i wneud hynny! Er ei bod hi'n amheus iawn gennyf a oedd Mr. Bennett wedi dirmygu'r milwr mor fwriadol a gwenwynllyd ag yr awgryma Dewi Emrys isod, mae'n amlwg o'r sylwadau a dderbyniodd yn ôl iddo bechu'n anfaddeuol gyda'r brawddegau a gyfansoddodd:

> *J. H. BENNETT (Llanidloes). - Gwneir defnydd effeithiol o'r byrdwn 'Aelwyd fach Treddôl', a gellir dywedyd i'r awdur amlygu cryn lawer o fedr yn y modd y cloir pob pennill â'r byrdwn hwnnw. Coll amlwg y gân fel cyfanwaith yw diffyg ymatal, ymollwng yn ddilywodraeth i ryw deimladrwydd cwynfanus a dagreuol nes troi hiraeth y milwr yn feddalwch plentynnaidd. Yr agoriad hwn, er enghraifft:*
>
> *'Heb gâr, na brawd na chyfaill,*
> *Ymhell dros donnog li,*
> *Heb obaith im' gael gweld gwên*
> *Fy Menna annwyl i.'*
>
> *Y mae rhywbeth allan o'i le ar filwr nad oes ganddo, ymysg ei gyfoedion yn y fyddin, na châr na chyfaill. Gan i mi fy hunan fod yn filwr, gallaf ddywedyd o brofiad mai'r cydymddwyn, galon wrth galon, yw'r un peth rhagorol sy'n gwneuthur cymrodoriaeth y fyddin yn batrwm i'r eglwys mewn cariad brawdol a chydweithgarwch. Carwn dynnu fy mhensel goch drwy linellau agoriadol y gân hon oherwydd eu bod yn enllib ar bob milwr gwerth ei halen. Ond rhwng y bardd â'i fater. Dengys pennill arall fod milwr y gân hon yn waeth na bod yn hen fabi mawr. Creadur anynad ydyw, fel nad yw'n rhyfedd yn y byd nad oes ganddo 'gâr na chyfaill' yn y fyddin. Dyma'r pennill:*
>
> *'Rwy'n treulio ambell orig*
> *Yn llesg o dan fy mhoen;*
> *Mae'r khaki sydd amdanaf fi*
> *Yn wenwyn ar fy nghroen.*
> *Disgwyliaf, hwyr a bore,*
> *Ymysg estroniaid ffôl,*
> *Am gael rhyddhad o'r bywyd hwn*
> *A myned i Dreddôl.'*
>
> *Pa les i gatrawd neu i wlad yw milwr o'r fath? A phwy yw'r 'estroniaid ffôl' sydd dan ei lach? Ai ei gydfilwyr? Ofnaf mai ym meddwl awdur y pennill y mae'r gwenwyn. Hyn a wn; nad bechgyn fel ei filwr dagreuol ac anfoddog ef sy'n dwyn gorfoledd heddiw i'r gwledydd a ryddhawyd ganddynt oddi wrth orthrwm bwystfilaidd y Natsïaid. Y mae arnynt oll ddolur calon am ryw aelwyd bell a garant. Y maent i gyd yn hiraethu am y dydd y cânt ddychwelyd iddi. Ond nid fel y creadur meddal a gwenwynllyd hwn y llefarant. Rhwng y bardd â'i fater eto. Wrth ddirmygu ei filwr, nid wyf yn gwarafun iddo ei syniadau ei hun. Eto, dyletswydd bardd yw bod yn "true to nature", chwedl Wil Bryan. Fe ddylai, hefyd, ymgadw rhag gwthio ei syniadau ei hunan ar bobl a ddisgrifir ganddo. Yn y gân hon, anhyfryd i'r eithaf yw'r dywediadau eithafol a briodolir i'r milwr hiraethus....*
>
> *(15 Medi 1944)*

Wrth gwrs, un o'r pethau anoddaf ynghylch bod yn filwr yw gorfod sylweddoli a derbyn y ffaith y gallai ei fywyd ddod i ben unrhyw bryd yr âi ar faes y gâd, a hynny'n aml iawn mewn poen

dychrynllyd. Mae hyn yr un mor anodd i rieni, teulu, perthnasau neu gariad y milwr gan mai hwy sy'n gorfod dygymod â'r brofedigaeth a'r golled enfawr pe digwydd iddo gael ei ladd. Yn rhifyn 6 Hydref 1944 daw holl erchylltra a gwastraff rhyfel yn fyw o flaen llygad y darllenydd pan ddarlleno am farwolaeth gŵr ifanc 24 oed a oedd yn un o feirdd y Babell Awen. Yn ei sylwadau gwelir sensitifrwydd Dewi Emrys wrth iddo gydymdeimlo'n gynnes a diffuant â rhieni'r bachgen anffodus; gwelir hefyd ei gred yn y delfryd Cristnogol o fywyd ar ôl marwolaeth, delfryd y mae'n ei gynnig fel cysur gwirioneddol i'r rhieni yn eu trallod poenus:

> *ER COF. - Torcalonnus, yn wir, yw'r newydd am farw disymwth y prydydd ieuanc James Ellis (Llanfairfechan), yn 24ain oed, argraffydd wrth ei alwedigaeth. Ymunodd â'r Awyrlu ryw ddwy flynedd yn ôl; ac mewn damwain erchyll yn y fyddin yr aeth i'w dranc. Nid oes ond ychydig amser er pan ymddangosodd ei englyn olaf yn y Babell. Derbyniais lythyr oddi wrth ei dad trallodus, a hwnnw'n cynnwys y geiriau tyner hyn: "Diolch o galon i chwi am eich caredigrwydd a'ch diddordeb mawr ynglŷn â'n hunig fab, James Ellis, R. A. F., a gollodd ei fywyd ar y 10fed o Fedi." Daeth imi lythyr arall oddi wrth y Parch. D. Arthur Morgan, Bangor, ac ynghanol fy nhristwch, hyfryd gennyf oedd darllen tystiolaeth Mr. Morgan i'r ymadawedig a ddisgrifir ganddo fel bachgen hawddgar, glân ei fuchedd a chrefyddol ei ysbryd. Cloir y llythyr â'r geiriau hyn: "Y mae'r aelwyd a'r ardal oll mewn hiraeth mawr ar ei ôl." Diolch am yr hiraeth hwnnw y sydd yn dyst mor huawdl i gymeriad hoffus y bardd ifanc a gipiwyd ymaith o derfysg byd i'r tangnefedd di-alar hwnt i'r llen. Afresymol yw tybio bod yr enaid, - hanfod personoliaeth, unig luniwr gwyrthiau awen, - yn mynd i lawr i'r llwch gyda'r corff a ddryllir. Dyna'r diddanwch mwyaf a allaf ei gynnig heddiw i dad a mam James Ellis ac i bawb sy'n galaru ar ôl anwyliaid a groesodd y ffin; a diddanwch yw hwnnw sy'n pwyso nid yn unig ar fy rheswm, ond ar addewid Un a ddioddefodd y farwolaeth greulonaf y gellir meddwl amdani. Dyrchefwch eich llygaid, rieni hiraethus! Ni allodd y pridd erioed garcharu enaid.*

Arwyddocaol uchod yw'r ffaith bod y rhieni hyn yn diolch yn bersonol i Dewi Emrys 'am eich caredigrwydd a'ch diddordeb mawr ynglŷn â'n hunig fab' gan eu bod yn amlwg yn ei weld fel rhyw fath o fugail a ofalai amdano. Yr oedd llawer o bobl eraill hefyd, neb yn fwy na'r milwyr eu hunain, a deimlai'n ddyledus iawn i Dewi am fod ei Babell Awen yn cynnig cysur gwirioneddol iddynt mewn cyfnod anodd ac felly yr oedd y Babell yn wasanaeth gwerthfawr tu hwnt i unrhyw Gymro a oedd yn ddigon anffodus i orfod mynd i'r Rhyfel i frwydro, fel yn wir yr oedd Y Cymro ei hunan yn wasanaeth gwerthfawr iddynt.

Ym mis Ionawr 1945 dangoswyd i'r cyhoedd mor gynhyrchiol

oedd y beirdd hyn a wasanaethai gyda'r lluoedd arfog pan ddarlledwyd rhaglen radio, wedi ei threfnu gan Dewi Emrys, o ddetholiad o'u cerddi. Meddai Dewi ym Mhabell Awen 2 Chwefror 1945:

*"CERDDI'R HOGIAU". - Ar y 15fed o'r mis diwethaf, darlledwyd detholiad o waith beirdd y Babell sy'n gwasanaethu gyda'r lluoedd arfog. Cafwyd yn y rhaglen gerddi bechgyn y sydd, ar hyn o bryd, mewn gwledydd tramor, a'u cyfeiriadau'n newid yn barhaus. Hysbys imi yw cartrefleoedd rhai ohonynt. Erys eraill yn anhysbys. Y mae cryn amser er pan glywais oddi wrth rai o'r beirdd y darlledwyd eu cynhyrchion; a gorfu arnaf fynd yn ôl dros rifynnau lawer o'r 'Cymro' i chwilio am eu cyfraniadau ar gyfer ail raglen "Cerddi'r Hogiau". Gan fod y B.B.C. yn chwennych estyn cydnabyddiaeth i'r beirdd dan sylw, y mae'n bwysig iawn fy mod yn cael cyfeiriad pob un ohonynt. Y peth mwyaf hwylus, - gan fod y bechgyn yn dal i symud o fan i fan, - fydd sicrhau cyfeiriad eu cartrefleoedd yng Nghymru. Felly, apeliaf am air buan oddi wrth berthynas agos i bawb o'r beirdd a ganlyn, neu, wrth gwrs oddi wrth y beirdd eu hunain os ydynt o fewn cyrraedd:*

*J. H. Evans, Blaenau Ffestiniog; Llewelyn Jones, Llanbadarn Fawr; R. G. Jones, Mynytho, Arfon; Gwyndaf Owen, Rhostryfan, Arfon; Howell Jones, Ponterwyd, Ceredigion; T. G. Hughes ("Glan Llifon"), Llanllyfni.*

Mae'r paragraff hwn o Babell 27 Ebrill 1945 yn dangos unwaith eto mor bwysig oedd barddoni i'r milwyr Cymreig hyn:

*MORGAN D. JONES (Porth, Rhondda). - Dyma fagnelwr yn cofio'n dyner am gyd-filwr a gollodd ei fywyd ar faes y drin. Wrth gyhoeddi ei englynion, fy nyletswydd yw dywedyd wrtho mai llinell heb iddi gynghanedd oedd hon: "Gwae'r arfau a ddwg yr ifanc", a'r Gymraeg, hefyd, yn bur chwithig heb y rhagenw â o flaen y ferf ddwg. Elfen amlwg ym mywyd y milwyr Cymreig heddiw yw eu cariad at brydyddiaeth. Hyfryd o beth yw gweld eu dyrchafu fel hyn o fyd mater i uchelfannau'r ysbryd. Cânt yno, ond odid, ddiddanwch a'u ceidw rhag canfod chwalu'r enaid pan ddryllier y corff gan beiriant rhyfel.*

Un elfen sy'n amlwg ym marddoniaeth y Babell Awen yw ysbryd gwrth-ymladd a gwrth-ryfel. Yn ei sylwadau grymus ar waith un o'r beirdd ym Mhabell 10 Awst 1945, yn nyddiau olaf y Rhyfel, pwysleisia Dewi Emrys mor falch ydyw o'r safiad cadarn hwn gan y beirdd:

*R. G. JONES (Mynytho). - Mynegiant o deimlad milwr a ddychwelodd o'r gad a'i gyfrif yn arwr gan bobl gysurus ei fro. Yntau, yn hytrach nag ymogoneddu, yn cofio chwerwder y profiad yr aeth drwyddo a synfyfyrio ar yr anhrefn a'r dioddefaint a erys pan dawo griddfannau maes y gad. Ymddengys iddo mai peth ofer yw hyd yn oed yr heddwch a brynwyd â chyrff drylliog ei gymrodyr. Dyna ddarlun effeithiol odiaeth yn gymaint a'i fod yn dinoethi'r hen ofergoel a ddyrchaif fwystfileiddiwch rhyfel*

*i uchelion arwriaeth. Y mae'n ffyddlonach i deimladau'r milwyr eu hunain na'r rhamant a'r anrhydedd a gysylltir â'u brwydro gwaedlyd gan y newyddiaduron a chan eraill na wyddant ddim am yr enbydrwydd y gorfu arnynt hwy fynd drwyddo yn enw gwladgarwch a rhyddid. Y gwir yw mai uffern yw rhyfel, yn enwedig heddiw, â'r peiriant dieflig yn cyfrif mwy o lawer na'r dyn sy'n ei drafod. O bryd i bryd, cyhoeddwyd yn y Babell nifer helaeth o gerddi a gyfansoddwyd gan fechgyn a ymunodd â'r lluoedd arfog. Eithr yn ofer y chwilir yn y cerddi hynny am gymaint â sillaf sy'n gogoneddu rhyfel, - ffaith arwyddocaol iawn, a ffaith gysurlawn iawn, hefyd. Am yr hiraeth a'r loes, y dwyster a'r artaith, - artaith ddyfnach na dolur cnawd, - y soniant oll. Nid oes ond pythefnos er pan dderbyniais lythyr oddi wrth filwr o Gymro, a aeth drwy lawer ysgarmes, yn tystio mor ddiflas gan y bechgyn eu hunain yw gweld eu clodfori am erchyllterau anochel y gorfydd arnynt eu cyflawni rhag eu trechu ar faes y gad. Wrth reswm, da o beth yw eu gwobrwyo am eu cyndynrwydd diollwng mewn ysgarmes; ond pa un ohonynt a ddewisai ei gyfrif yn arwr o flaen mwynhau'r cysuron a oedd iddo cyn ei alw i uffern y drin? Pwy yw'r uchaf eu clychau am arwriaeth maes y gad? Nid y bechgyn a ddwg faich yr aberth, ond y bobl gysurus sy'n ymgyfoethogi adref ar y prisoedd uchel a lif i'w coffrau. Diau cofio hyn oll yw achos prudd-der "Yr Arwr" a ddychwelodd i dangnefedd ei fro.*

Mae llawer o'r sylwadau a ddyfynnwyd eisoes yn cynorthwyo i'n goleuo ynghylch personoliaeth unigryw Dewi Emrys ond cyn cloi hoffwn ymhelaethu ar rai o nodweddion ei gymeriad nad ydynt yn amlwg iawn yn yr enghreifftiau uchod. Yn gyntaf wele dri dyfyniad sy'n dangos hiwmor byw Dewi, hiwmor sy'n gallu bod yn eithriadol o ysmala fel y gwelwyd o'i sylwadau yn yr ysbyty, a hiwmor a ddôi ag ysgafnder cynnes i'r Babell:

*J. W. (Llundain). - Dyma 'J. W.' â'i fedr arbennig ei hun, yn cynganeddu awgrym swyddogol a all droi'n orchymyn cyn hir. Ymddengys mai beirdd di-gynghanedd yw'r rheini na ofalant am gysondeb lliw a llun wrth ymbincio ym mhlu'r Orsedd ar gyfer ymddangos yn brydyddion unwaith y flwyddyn. Da gweld awdurdodau'r Orsedd yn ymdeimlo â gwedduster diwyg. Ofnwn, er hynny, nad wrth drwsio'r plu y dyrchefir urddas Gorsedd y Beirdd. Tybiodd cyfaill, beth amser yn ôl, iddo bwrcasu caneri. Ymhen ychydig, darganfu iddo brynu aderyn y to wedi ei baentio'n felyn! Maddeuer inni am lefaru fel hyn mewn damhegion. Ni ddylid goddef cymysgfa felly yn arddangosfa cethlyddion Cymru. Wrth gwrs, ceir elw wrth werthu paent!*

*(23 Hydref 1937)*

*DEWI O'R GLYN (Aberystwyth). - Cywydd bach tlws a phersain. Syndod meddwl mai Saesneg oedd iaith gyntaf yr awdur. Fe gofir iddo ddweud hynny wrthom ar goedd yn yr Ymgomwest ym Machynlleth. Nid yn unig y mae'n Gymro da, ond yn gynganeddwr medrus a swynol. Dyna waradwydd ar y boblach yma sy'n anfon imi "englynion" (sic!), a hwythau heb agor gwerslyfr ar y cynganeddion yn eu byw. Fe ddylid eu cloi i fyny heb ddim o'u blaen ond bara a dŵr a llyfr cawliog Iolo Morgannwg, 'Cyfrinach y Beirdd'....*

*(30 Hydref 1937)*

*PARCH. L. HAYDN LEWIS (Ton Pentre). - Cawsoch delyneg fach awgrymog gan yr aderyn adnabyddus a'ch llygad-dynnodd am ennyd â'i liwiau benthyg.*

*Rhaid maddau i chwi, dan yr amgylchiadau, am ysgrifennu* canfyddais *yn lle'r ffurf gywir* canfûm. *Diddorol fyddai gwybod yr ystyr a roddwch i'r gair* trwch *yn yr ymadrodd "lemon trwch". Ystyr cyffredin* trwch, *o'i ddefnyddio fel ansoddair, yw* broken. Broken leaves, *yw "dail trwch". "Dail yn drwch" yw'r Gymraeg am ddail yn dew ar goeden.* A broken wall *yw "mur trwch". Mur trwchus yw* thick wall. *Pery'r twyll a gawsoch imi gofio am y masiwn gwledig hwnnw, ar ei ffordd at ei waith ben bore, a ganfu aderyn dieithr yn llechu'n ddigyffro ar goeden ym min yr heol. Cyn i'r masiwn afael ynddo, ar ôl brwydro'n drafferthus yng nghanol y canghennau, "bore da", ebr yr aderyn - parot crwydr. "Begian pardwn, syr," meddai'r gweithiwr syn, gan lithro i'r llawr yn frysiog a brawychus, "fe gredes taw deryn o'ech chi."*

*(10 Rhagfyr 1938)*

Yr oedd ei sylwadau ar ymdrechion beirdd y Babell, fel ei hiwmor, yn dangos fod ganddo feddwl chwim, a dengys yr enghreifftiau isod fel y llwyddai i egluro ei bwyntiau â throsiadau a chymariaethau clyfar dros ben:

*LLANORFAB (Trebanos). - ....Y mae'n gynganeddwr cryf; a cheir yn ei gywydd linellau rhagorol. Gwell llacio'r gynghanedd na goddef i'w chywreinrwydd dreisio naturioldeb ymadrodd. Y mae gweithiau rhai o'r hen feirdd enwocaf yn llawn o'i henbydrwydd hi - ffrwyth ei charu'n rhy llwyr a mynd yn slafiaid iddi; troi'r gynghanedd yn ddiben yn hytrach na'i chyfrif yn gyfrwng mynegiant. Un o gymwynasau mwyaf ein diwylliant diweddar i lenyddiaeth oedd dirymu'r hen eilun-addoliaeth honno. Gwyn ei fyd y bardd a gaffo'r gynghanedd yn wasanaethferch; ond gwae'r neb a wnêl dduwies ohoni!*

*(10 Medi 1938)*

*MEIRIONFAB (Llanfaelog). - Croeso iddo yntau'n ôl i'w gadair yn y Babell, hen brydydd medrus a serchog. Wrth reswm, nid ef biau'r ymadrodd "bwrlwm o berlau", er bod ganddo gystal hawl iddo â neb arall. Fel y ffynnon ei hunan, y mae'n hen. Fel y ffynnon ei hunan, y mae'n newydd o hyd....*

*(6 Mawrth 1943)*

*ERNIE WILLIAMS (Llanbedrgoch). - Ebr ef: "Hoffwn i chwi ddeall nad oes yma fardd o gwbl, dim ond hogyn o'r wlad yn treio'i law." Hyn oll a ddywedaf: Pan gododd yr hogyn hwn ei law i daro nodyn effeithiol y delyneg hon, ni wyddai, - oherwydd prinder disgyblaeth, - faint ei nerth fel telynegwr. Nid cyn i mi ymarfer yn ddygn a rheolaidd am fisoedd y darganfûm, ar ôl dechrau chwarae golff, sut yr aeth fy mhêl mor bell y tro cyntaf y trewais hi! Dyna rybudd a chyngor i'r dechreuwr addawol hwn ym maes y delyneg....*

*(5 Chwefror 1944)*

Yn ogystal â barddoni a chynganeddu, un arall o ddiddordebau mawr Dewi Emrys oedd pysgota. Yr oedd yn bysgotwr brwd eithriadol ac yn arbenigwr i'r fath raddau fel y bu iddo, yn ystod y blynyddoedd, baratoi llyfr manwl ar y grefft; yn druenus iawn, fodd bynnag, aeth y llawysgrif ar goll ac ni chyhoeddwyd y llyfr erioed. Yn ogystal â'i arbenigrwydd ar bysgod a physgota, yr oedd hefyd â gwybodaeth doreithiog iawn am adar, anifeiliaid, pryfed, planhigion, a bywyd gwyllt yn gyffredinol, fel y gwelir yn y tri dyfyniad isod (yr oedd ar fin cyhoeddi cyfrol fanwl ar bryfed pan ddaeth ei farw annisgwyl ym 1952, ond yn drist iawn, ni chyhoeddwyd hon ychwaith):

*AWENYDD TYSUL (Nantyffyllon). - Telyneg y gellir ei chymeradwyo i sylw beirdd ieuainc ar gyfrif ei phatrwm - cyflead cynnil, glân yn gweithio i fyny'n gyson a dyfeisgar at y diweddglo bwriadedig. Ond ofnaf nad yw'r darlun yn "true to nature", chwedl Wil Bryan. Chwarae teg i'r arglwyddi hefyd. Ni bydd neb ohonynt yn saethu aderyn allan o dymor. A phwy a all feddwl am neb, chwaethach "arglwydd glwth", yn gwledda ar ffesant amser deori rhai bach? Fe ŵyr hyd yn oed y potsiar fod ffesant, neu betrisen, yn anfwytadwy yr adeg honno! Cofied Awenydd Tysul i mi gael fy magu ynghanol y wlad; a chofied pob bardd mai peth fflat yw effaith ffug-ddarlunio. Eler at Swinburne i weled cymhariaeth effeithiol. Eler at Wil Ifan i weld manyldeb cywir darluniwr natur.*

*(15 Ionawr 1938)*

*W. T. LLOYD (Resolfen). - Dyma gân o glod i edn bach dirodres, carwr yr encilion, na chafodd, hyd y gwn i, gymaint o'i glodfori erioed o'r blaen. Cafodd yr eos, y fronfraith a'r mwyalch lawer o foliant gan feirdd pob gwlad; a rhoddodd Cynan fri ar y nico bach wrth ei ddewis yn llatai a'i anfon yn gennad hiraeth o Facedonia i Fôn. Ond dyma ymwelydd bach cyson â'n glannau na chafodd gymaint sylw hyd yn oed â'r aderyn to. Y mae dau reswm da am hynny: 1. Nid yw'n uchel ei gloch. 2. Unigedd y garn a'r gweundir yw ei hoffter yn ein gwlad ni. Fe all deimlo'n falch o'r gân swynol hon er i'r bardd ei gamenwi. 'Tinwen', wrth gwrs (oherwydd gwynder ei gynffon), yw ei enw, nid 'Tynwen', er ei alw wrth enw mwy swnllyd, sef 'Clochdar y Cerrig' ('Stone-chat' yn Saesneg)....*

*(14 Hydref 1939)*

*W. R. JONES (Nantgwynant). - Englyn dymunol, a naturioldeb y mynegiant yn rhinwedd amlwg ynddo. Eithr 'Porth i Golwyn' sy'n gywir, nid i Colwyn. Y mae eich darlun o'r twrch daear ('badger') yn athrod ar y creadur gwasanaethgar a glanwaith hwnnw - 'o fochynnaidd elfen.' Dim o'r fath beth. Ceidw ei annedd yn hollol lân. Nid yw byth yn ymborthi, fel y llwynog, yn ei ystafell wely; a phe codech yn ddigon bore, caech ei weled yn gosod ei wely gwellt allan ar drothwy'r drws i'w awyru. O barch i un o ffrindiau gorau'r amaethwr, ac i greadur nad ymesyd ar neb ond mewn hunan-amddiffyniad, rhof eich englyn athrodus yn y fasged.*

*(14 Rhagfyr 1945)*

Mae'r sylwadau canlynol yn brawf o gydwybod gymdeithasol Dewi Emrys ac yn dangos ei fod â chydymdeimlad mawr â sefyllfa druenus gweithwyr cyffredin y wlad, pobl megis y glowyr. Unwaith eto, mae sylwadau Dewi'n gwbl ddi-flewyn-ar-dafod ac nid yw'n meddwl ddwywaith cyn beirniadu'r Llywodraeth yn hallt:

> *B. REES (Gelliwen). - Newidiwyd gair neu ddau yn y faled hon heb dorri ar rediad y meddwl. Dyma ddarlun torcalonnus o gyflwr y glowr heddiw; ac nid hawdd yw coledd hyder am lewych dyddiau gwell. Clywsom edliw i gryn nifer o lowyr wario'n rhy hael yn ystod y "fedel fawr", ac anghofio darbod ar gyfer y dydd blin. Mae'n wir i'r glowr ifanc fynnu adloniant helaeth heb grebachu ar ei enillion pan oedd pethau'n mynd yn dda. Yr oedd tywyllwch, caledi a pherygl ei oriau gwaith - heb sôn am eu meithder - yn rhesymau da iawn dros iddo geisio cymaint o adloniant ag y medrai ar ddydd gŵyl. Nid ar weithwyr ein gwlad y mae'r bai am yr enbydrwydd sy'n faich corff ac ysbryd iddynt heddiw. Y mae digon o arian yng nghoffrau'r Trysorlys i'w wario'n ddiwarafun ar arfau dinistr. Gresyn na sylweddolai'r Llywodraeth mai ei gofal cyntaf yw'r gweithwyr a wnaeth ddiwydiannau'r wlad yn ffynhonnau ei chyfoeth a'i nerth.*
>
> *(18 Rhagfyr 1937)*

Gwelwyd eisoes fel yr oedd Dewi'n cydymdeimlo'n ddiffuant iawn â rhieni gŵr ifanc a laddwyd mewn damwain yn yr Awyrlu ond i fod yn deg ag ef mae'n rhaid pwysleisio ei fod yn cydymdeimlo yr un mor ddiffuant <u>bob tro</u> yr oedd un o feirdd y Babell, neu unrhyw un arall a fyddai o ddiddordeb i'r darllenwyr, yn marw. Nid oes amheuaeth na fyddai gweld sylwadau addfwyn Dewi, a dalai deyrnged wresog i'r sawl a fu farw, mewn print mewn papur cenedlaethol, yn gysur mawr i berthnasau a chyfeillion yr ymadawedig (nifer ohonynt yn gyfeillion personol i Dewi) ac isod wele dair enghraifft, o sawl un bosibl, sy'n nodweddiadol o'r modd sensitif yr oedd Dewi'n cydymdeimlo â hwynt yn eu profedigaeth:

> *MARWOLAETH UN O FEIRDD Y BABELL. - Nid heb ei wlychu â dylif o ddagrau y darllenais y llythyr a ganlyn (dyddiedig Mehefin 17) oddi wrth Mr. D. R. Hughes, ysgrifennydd Cyngor yr Eisteddfod Genedlaethol: "Annwyl Gyfaill, - Gwn y bydd yn ddrwg iawn gennych glywed am farw un o feirdd Y BABELL, y cyfaill tirion a chymwynasgar, J. M. Edwards, Bermondsey, Llundain. Adwaenwn ef ers dros ddeugain mlynedd, ac anodd meddwl am ŵr mwy caredig. Yr oedd, hefyd, yn wir ddiwylliedig ac wedi ymddiddori yn llenyddiaeth orau Cymru a Lloegr. Dyna, yn wir, ei bleser mwyaf. Brodor o Flaenau Ffestiniog ydoedd, ac yr oedd yn flaenor yn Falmouth Road (Llundain) er 1915. Ar yr un adeg, pregethai (yn gynorthwyol) yn Eglwysi Henaduriaeth Llundain. Rhoddodd wasanaeth mawr, hefyd, i achosion cenhadol Seisnig yn Bermondsey. Bydd y byd yn wag iawn i mi hebddo. Cafodd ei anafu yn un o ymosodiadau y gelyn, a bu mewn ysbyty*

*yn Sutton am dair wythnos neu fis; ac yno fe aeth yn aberth i 'pneumonia' ar ôl cael dwy 'operation'. Bu farw ddydd Sadwrn (Mehefin 14), a chleddir ef ddydd Iau (Mehefin 19) yn Llundain."*

*Prin y medraf ddygymod â chynnwys y llythyr uchod gan mor annisgwyliadwy'r newydd alaethus; a gwaith anodd yw wynebu'r gwir a chredu fy mod wedi colli ffrind annwyl na chaf ei debyg eto ymysg meibion dynion. Bu'n fwy na brawd imi yn ystod y salwch a'm gyrrodd i'r ysbyty a'm gosod dan driniaeth y llawfeddyg. Dyma un o'r ychydig anwyliaid y medrais ymddiried ynddo fy holl galon a chael ynddo ddiddanwch. Os bu bonheddwr Cristnogol ar y ddaear erioed, J. M. Edwards oedd hwnnw. Yr oedd gwasgiad ei law yn foddion gras, a'i wyneb siriol yn heulwen a chwalai'r cwmwl duaf. Yr oedd yn graig o ffyddlondeb i ffrind; a lle barnai eraill wrth y chwyn ar yr wyneb, treiddiai ef at y wythïen aur odditanynt, a honno'n ymledu dan ddylanwad ei fawrfrydigrwydd.*

*Cyn dyfod i Dalgarreg, bûm yn Llundain am wyth mlynedd o'r bron, yn lletya yn yr unfan, heb fod ar daith yng Nghymru o gwbl ond fel areithiwr cyhoeddus neu eisteddfodwr (pwysleisiaf hyn am resymau a wneir yn fwy pendant cyn hir); ac yn ystod yr amser hwnnw, cefais gryn lawer o'i gwmni, a'i gyfeillach yn felys odiaeth. Y gyfeillach honno a enynnodd ynddo gariad at y cynganeddion; ac ar ôl cyhoeddi'r gwerslyfr 'Odl a Chynghanedd', aeth ati o ddifrif i ddysgu crefft yr englynwr. Os da y cofiaf, englyn i Syr Oliver Lodge oedd ei gyfraniad olaf i'r Babell; a dengys fy nodiadau ar ei waith na chafodd fwy o drugaredd gennyf nag eraill. Yn wir, nid trugaredd a geisiai, ond beirniadaeth ddi-dderbyn-wyneb. Fferyllydd ydoedd wrth ei alwedigaeth, a chanddo fusnes llwyddiannus yn Llundain. Gohebai â mi yn weddol gyson gan addo dyfod i'm gweld yn "Y Bwthyn" yn ystod gwyliau'r haf.*

*Ni chefais wybod dim am y niwed a ddaeth iddo; a disgwyliwn air oddi wrtho. Llythyr Mr. D. R. Hughes a dorrodd y distawrwydd a thorri dolen annwyl a gyfrifwn i yn gyfan o hyd. Llaith fy ngruddiau y funud hon o orfod credu fy mod wedi colli ffrind mor hoff a cholli'r cyfle i wasgu ei law dirion cyn i'w ysbryd ehedeg i fyd y gynghanedd dragwyddol. Nid yn erbyn cig a gwaed y cyfyd y genedl arfog na rydd werth ar saint fel hwn, ond yn erbyn Duw Ei Hun.*

*(28 Mehefin 1941)*

*Y DIWEDDAR J. W., LLUNDAIN. - Ymadawodd ef â'r fuchedd hon pan oeddwn yn unigeddau Gogledd yr Alban yn pysgota a chasglu nerth ar ôl gwaith caled misoedd y gaeaf a chryn dipyn o anhwylder; ac ni chlywais am ei farw nes dychwelyd i Gymru yn ystod y mis diwethaf. Nid oes eisiau i mi adrodd hanes ei yrfa. Manylwyd arno eisoes gan ohebwyr eraill; a chafwyd stori ei fywyd ganddo ef ei hun yn ei lyfr diddorol, 'Hynt Gwerinwr'. Fy nyletswydd i, a'm braint, yw talu fy nheyrnged bersonol i'w enw fel un a fu o'r cychwyn, yn un o gyfeillion cywiraf y Babell. Cyfrannodd iddi, o bryd i bryd, gryn nifer o englynion teilwng. Y mae'n hysbys, hefyd, iddo ddwyn mawr sêl drosti mewn tystiolaethau cyhoeddus. Ysgrifennai ataf yn bur gyson gan gymeradwyo fy ngwaith, a'm hannog i ddal ati "i oleuo gwerinwyr di-goleg." Yr oedd ef ei hun yn un o werinwyr mwyaf nodedig ei wlad yn gymaint ag iddo, yng ngrym ei ddyfalbarhad, ennill safle anrhydeddus yng nghylchoedd diwylliant ei genedl a dwyn gogoniant i'r hen graig ddi-addurn y naddwyd ef ohoni. Nid am ddim y glynodd y gair 'Llundain' wrth enw gwerinwr Cymreig a droes ymaith o'i fro yn chwarelwr ifanc anhyddysg i wynebu dieithrwch trefydd Lloegr. Dringodd i amlygrwydd ymysg masnachwyr y Brifddinas. Yn goron ar y cwbl, daeth yn oleuni ymysg ei bobl ei hun ym Mabylon Fawr. Golygodd 'Y Ddolen', cylchgrawn Cymry Llundain am flynyddoedd; ac erys*

*hanes ei wasanaeth ardderchog yn gofgolofn i'w enw. Gwisgai gochl o erwinder a guddiai elfennau hawddgaraf ei natur; a gallaf gredu bod cadernid clogyrnog hen fynyddoedd Arfon yn golygu mwy iddo na meddalwch mwsoglyd ei rhosydd. Ymgydnabu â rheolau prydyddiaeth; a barnai'n ddeddfol, yn ôl gofynion ei safon, - uniondra a chyfaddaster. Wrth yr un safon y mesurai goed a cherrig. Nid dyn trahaus mohono, ond dyn cyfiawn, - at eraill ac ato'i hun. Yn ddiymhongar y cynigiai ei englyn i Olygydd heb chwennych trugaredd. Gallai Cymru bwyso ar gryfder hwn. Yr oedd ei galon, bob modfedd ohoni, yn gwbl Gymreig, a honno'n llawn o dân gwladgarwr. Trysoraf ei lyfr a lawnodwyd ganddo cyn ei gyflwyno imi'n anrheg. Heddwch i'w lwch yn y fro a garodd.*

*(21 Gorffennaf 1944)*

*MARW MOELWYN. - Prin y mae eisiau argraffu ei enw yn llawn (J. G. Moelwyn Hughes) ac egluro mai gweinidog ydoedd gyda'r Methodistiaid Calfinaidd, a'i fod yn ddoethor mewn athroniaeth; oblegid un Moelwyn oedd yng Nghymru tra'r oedd ef ar dir y byw, a'r enw'n cynrychioli un o feddylwyr mwyaf ein cenedl, pregethwr yr uchelfeydd a bardd y gorwelion tanbaid. Wrth fardd golygaf un mwy o lawer na phrydydd medrus a ddysgodd holl foddau cywreinwaith ei grefft, sef un a fedd enaid bardd, â holl ddyfnderoedd ei natur yn farw gan angerdd gweledydd, yn aflonydd gan ysfa crëwr. Moelwyn, yn anad neb, a allodd roddi i athroniaeth hudlais Awen, ac i feddyliau proffwyd odidowgrwydd ymadrodd. Gorffwys cyfrol o'i bregethau, y funud yma, ar y bwrdd bach wrth fy ngwely, - bwrdd a lwythwyd gan y golud a gyfoethoga'r enaid. Rhof bris uchel ar eiriau cyfeillgar, o'r tu mewn i'r clawr, a ddwg ôl llaw na ddeil ysgrifbin mwy. Rhof bris uwch ar y diddanwch a gaf yng nghynnwys argraffedig y gyfrol: brawddegau sy'n wyrthiau o fireinder, a meddyliau toreithiog yn tarddu o ddyfnder a eilw ar ddyfnder. Oherwydd ei fod yn enaid mawr yr oedd Moelwyn yn ddyn mawr. Ychydig fisoedd cyn iddo ymadael â St. Clears, daeth i gapel Bethlem, yn y pentref hwnnw, i wrando arnaf yn pregethu. Yr oedd yn fy llety nos Sadwrn yn disgwyl amdanaf; ac erys y cymundeb a fu rhyngom, hyd wedi canol nos, yn un o brofiadau melysaf fy mywyd. Yn y sêt fawr, nos Sul, a'r capel yn llawn, sylwodd fy mod yn edrych braidd yn welw, a'r nerfau braidd yn derfysglyd ar ôl salwch yr aethwn drwyddo. Heb i mi yngan gair, daeth ymlaen ataf a sibrwd: "Aros di fan yna i orffwys a chasglu dy nerth at y bregeth", ac i fyny ag ef i'r pulpud i ddechrau'r gwasanaeth! Ie, dyn mawr oedd Moelwyn; a'i genadwri fawr ar hyd ei oes oedd annog pobl i wthio i'r dwfn yn lle "sefyllian ar y traeth". Casglodd y genadwri honno i bennill a erys, tra bo'r iaith, yn sialens odidocach i fentr enaid na holl utgyrn y cadluoedd:*

*'Efallai mai drylliau yn unig ddaw'n ôl,*
*Mai'r dyfnder a fydd d'obennydd;*
*Ond gwell mynd yn gandryll ar foroedd pell*
*Na phydru ar dywod y glennydd.*

*(28 Gorffennaf 1944)*

I derfynu'r 'atodiad' bychan hwn o sylwadau o'r Babell Awen sydd gobeithio'n rhoi darlun llawnach o gymeriad Dewi Emrys, dyfynnaf o Babell 23 Gorffennaf 1938 sy'n trafod marwolaeth yn fwy uniongyrchol ond sydd yr un mor gymeradwy o ran ei safbwynt:

*R. D. ROBERTS (Bedlinog). - Englyn da gan löwr sy'n ymhyfrydu mewn llenyddiaeth a chrefft y prydydd; ac nid dyma'r tro cyntaf i'w waith ymddangos yn Y BABELL. Rhaid iddo newid llinell olaf englyn 'Yr Unben'. Nid Cymraeg yw peth fel hyn:*
*'A marw'r sawl ymyrryd.'*
*'A marw i'r sawl sy'n ymyrryd', neu (a rhoi i'r meddwl amgenach mynegiant), 'A marw i'r sawl a ymyrro', sy'n gywir. Gwerthfawrogaf ei eiriau caredig am wersi'r BABELL a'i chynhyrchion. Trueni ei fod yn taro nodyn mor angharedig yn ei gân 'Sul y Blodau'. Nid wyf yn cofio imi ddarllen erioed bethau creulonach a mwy annaturiol o ran eu hysbryd na'r cwpledau a ganlyn:*
*1. 'Crwydro rhwng gwyrddion dwmpathau,*
*A dilyn hen arfer ffôl.'*
*2. 'Paham rhoi mynor i herio*
*Twmpath bach gwyrddlas di-lun?'*
*Pob rhyddid i'r awdur gredu yr hyn a fynno am ystâd y meirwon; canys nid oes a fynno cred â barddoniaeth fel y cyfryw; a phriodol y dadleuir bod gormod o wario ar y meirw, a rhy fach ar y byw (er nad dyna bwynt y gân hon); ond mi garwn i'r cyfaill yma sylweddoli bod popeth sy'n taro yn erbyn teimladau dwysaf y ddynoliaeth nid yn unig yn anweddusdra, ond yn drosedd yn erbyn celfyddyd. Nid 'arfer ffôl' mewn neb yw cyfrif yn gysegredig y fan lle gorwedd gweddillion hen ffrind. Y mae'n dda gennyf fi am y gŵr a rydd flodyn hyd yn oed ar lwch hen gi a fu'n gyfaill ffyddlon iddo. Nid i 'herio twmpath bach gwyrddlas di-lun' y rhoddir carreg ar fedd neb, ond o goffa da amdano; a chan nad amlygwyd inni eto beth a fyddwn, onid y peth lleiaf a fedrwn ei wneuthur â chymwynaswr yw cerfio'i enw uwch "man fechan ei fedd"? Gwaelod y fasged yw lle peth mor annynol â'r gân hon. Cam â'r ddynoliaeth fuasai ei galw yn baganaidd. Y mae hyd yn oed anwariaid y ddaear yn parchu llwch eu gwehelyth; ac nid oes a fynno hynny ddim â daliadau crefyddol (os treio amlygu ei glyfrwch fel materolwr y mae'r prydydd hwn); teyrnged cariad ydyw. Yr wyf fi'n codi fy het bob tro yr af heibio i gofadail y milwyr yn Whitehall. Ond meddwl yr wyf, yn bennaf, am Hedd Wyn. Melltith ar gythreuligrwydd y rhyfel a'i lladdodd; ond bendith ar y serch a fedr gyfrif hyd yn oed ei lwch pell yn rhan o Gymru Fach. 'Arfer ffôl', ai e? Ai arfer ffôl yw cariad?*

Ar ôl 1945 hwyliodd Dewi Emrys yn weddol ddi-helynt drwy flynyddoedd olaf ei fywyd ond yr oedd hi'n llwm iawn yn ariannol arno. Bu'n cynnal dosbarthiadau llenyddiaeth a barddoniaeth Gymraeg tan fudiad addysg oedolion a bu'r 'Bwthyn' yn Nhalgarreg yn gyrchfan boblogaidd i feirdd a llenorion; yr oedd pysgota yn un o'i brif ddiddordebau eraill fel yr oedd treulio amser yng nghwmni Dwynwen, cannwyll ei lygad. Yn Eisteddfod Genedlaethol Pen-y-bont ar Ogwr ym 1948 enillodd ei bedwaredd cadair gydag awdl 'Yr Alltud'.

Ym 1952 yn Eisteddfod Genedlaethol Aberystwyth, ac yntau'n henwr llesg erbyn hynny, derbyniodd Dewi dysteb ar ran beirdd y Babell Awen, a drefnwyd gan Tom Stephens gyda chymorth T. Llew Jones. Cyn pen deufis yr oedd yn dychwelyd i ysbyty'r dref ac yno

y bu farw yn ŵr 71 oed, gyda Phabell Awen Y Cymro wedi parhau hyd y diwedd un. Ychydig cyn iddo farw ysgrifennodd y geiriau hyn ar ddarn bach o bapur sy'n dweud cyfrolau am ei fywyd anghonfensiynol:

*Fy Meddargraff.*

*Melys hedd wedi aml siom,*
*Distawrwydd wedi storom.*

Y cwpled cofiadwy hwn sydd ar ei garreg fedd ym mynwent Capel Pisgah, ar y bryn uwchlaw'r 'Bwthyn' yn Nhalgarreg.

Yn ei chofiant, Dewi Emrys, mae Eluned Phillips yn sôn am ei angladd a thrist yw ei geiriau dyfynedig sy'n dweud iddo gael 'ei gladdu, fel y bu fyw, yn ŵr unig.' Yn unol â'r cwpled uchod dyma eiriau eraill sydd mewn ffordd gynnil yn dweud llawer am fywyd Dewi: yn gymysg â'r doniolwch yr oedd llawer o dristwch. Gwelir hefyd bod Eluned Phillips yn feirniadol iawn o 'ysgolheigion' y genedl a anwybyddodd ei angladd i raddau helaeth:

> *....Yr oeddwn ar fin cychwyn i'w weld yn yr Ysbyty yn Aberystwyth pan alwodd ei gyfaill Beaufort ar y ffôn i ddweud am ei farwolaeth. Rywsut yr oedd yn gwbl annisgwyl.*
> *Dyfynnaf o 'Deyrnged Prifardd', am ei angladd ym mynwent Capel Pisgah:*
>
> Hanner llawn oedd y Capel, a Dewi yn cael ei gladdu, fel y bu fyw, yn ŵr unig.
> Ychydig berthnasau, ychydig gyfeillion ac ychydig gymdogion. A'r rhai sy'n honni bod yn gynheiliaid llên a diwylliant Cymru, yn rhy brysur gyda'u pethau eraill i ddod ynghyd i ffarwelio ag un o'r tywysogion.
> Bydd y genedl yfory, efallai, yn galw am gwrdd coffa a thrannoeth am gofeb a threnydd am rali o deyrnged. Ond fe gladdwyd Dewi Emrys yr wythnos ddiwethaf ac ychydig a welodd eu ffordd yn gyfleus i ddod i'w gynhebrwng.
>
> *Dyma rai llinellau o Gywydd Coffa Trefîn iddo:*
>
> Herwhela yn nhir aliwn
> Yn friw a noeth fu rhan hwn,
> Ond troi'n ôl i'n tir a wnaeth
> O'i boenau yn wiw bennaeth.
> Mud yrhawg mewn amdo'r aeth
> Ar elor ei hir alaeth;
> Ond o'i ôl eco'i delyn
> Red yn glir o dwyn a glyn
> Tyr ei dant o erwau'i dir

A thristwch y maith rostir.

Byth y bydd ei gywydd gwin
A'i garol ar fin gwerin.

*Y werin a fu, hwyrach, yn fwy trugarog tuag ato nag ysgolheigion ei genedl.*

Ar dudalen flaen rhifyn yr wythnos o'r Cymro cafwyd y brawddegau canlynol o dan y pennawd syml DEWI a llun ohono:

*'DYMA ddrws 'Y Babell' bellach yn agored.*

*Amcenir ei gwneud yn fan cyfarfod prydyddion cyfarwydd, yn athrofa i brydyddion ieuainc ac yn frawdle diduedd ynglŷn â phynciau cerdd dafod.'*

*Felly ar Fedi 5, 1936 y gwahoddodd Dewi Emrys y beirdd i'w Babell Awen; felly yr addawodd; ac felly y cyflawnodd.*

*Un mlynedd ar bymtheg yn athro beirdd, yn gloywi Cymraeg y werin. Yn cywiro eu sillebu - ac yn fflamio darllenwyr proflenni 'Y Cymro'.*

*Llwyddodd yn ddigon da i fedru cyhoeddi llyfr o waith Beirdd y Babell; gwelodd goronau a chadeiriau cenedlaethol yn dod i hen ddisgyblion.*

*Ym mhopeth - ond barddoniaeth - yr oedd yn wrthryfelwr. Ond gwrthryfelwr bonheddig. Yr oedd yn gymeriad. Daeth troeon yr yrfa'n felys a chwerw i lanw bryd y gŵr a fu'n trampio'r heolydd ac yn gwisgo gwisgoedd ei ogoniant fel bardd y genedl.*

*Ni all bod Pabell Awen hebddo. Ef oedd y Babell Awen.*

*Ac yn awr, mae drws y Babell wedi cau, a'r porthor ar ei daith.*

Mesur llwyddiant y Babell

Erbyn diwedd 1945 yr oedd dros 600 o feirdd yn aelodau o'r Babell Awen, ffigwr uchel iawn sy'n rhyfeddod mewn gwirionedd yn wyneb y ffaith nad oedd Dewi Emrys yn fodlon cyhoeddi unrhyw gyfansoddiad nad oedd yn ei farn ef yn safonol a theilwng o'r Babell. Isod dyfynnaf sylwadau gan Dewi sy'n canmol llwyddiant y Babell, ond nid oherwydd y ffaith ei fod yn ei chanmol yr wyf yn eu dyfynnu (wedi'r cyfan, nid Dewi yw'r un mwyaf gwrthrychol i fesur llwyddiant y Babell a byddai'n beth od iawn pe na bai'n ei chanmol!); fe'u dyfynnaf yn hytrach am eu bod yn pwysleisio uwchlaw pob dim mai teilyngdod cynhyrchion y beirdd ac nid eu nifer oedd yn bwysig i Dewi, rhywbeth sy'n rhoi safon ac integredd i'r Babell:

> *....Bu perchenogion 'Y Cymro' yn ddigon haelfrydig i roddi inni bob rhyddid ynglŷn â golygiaeth yr adran farddol; ac ni all neb fy nghyhuddo o osod mwy o bwys ar rifedi nag ar ansawdd y gwaith a gyhoeddwyd o'r cychwyn hyd heddiw. Agorwyd porth Y BABELL ddydd Sadwrn, Medi 5, 1936, - ychydig dros dair blynedd a hanner yn ôl. Er mor lluosog yr aelodau heddiw (lawer ohonynt yn feirdd ieuainc a ddaeth i'r golwg oherwydd y cyhoeddusrwydd a gawsant yn Y BABELL), ni bu'r porth hwnnw erioed yn ddigon llydan i ollwng i mewn rigymwyr diawen. Eithr ni wrthodwyd cyfraniad neb a fedrai farddoni, er i'w iaith a'i grefft ddwyn diffygion y gellid eu priodoli naill ai i brinder dysg neu i anawsterau'r prentis dibrofiad; canys fe osodwyd i lawr ar y dechrau mai un o brif amcanion Y BABELL fyddai gweithredu fel Ysgol Farddol yn unol â'r safonau diweddaraf yn ein llenyddiaeth. Hynny, yn fwy na dim, sy'n cyfrif am ei llwyddiant eithriadol fel y clwb barddol mwyaf llewyrchus a welwyd erioed yn ein gwlad....*
>
> *(27 Ebrill 1940)*

> *Wrth eich cyfarch yn awyrgylch y Nadolig ac ar derfyn blwyddyn arall, diolchaf o galon i chwi am eich ffyddlondeb diollwng i'r Babell ac am eich gwerthfawrogiad eangfrydig o sylwadau wythnosol ei golygydd o'r cychwyn hyd yn awr. Gwyddoch, ond odid, na bu i'm beirniadaethau miniocaf na brath rhagfarn na cholyn pleidgarwch, eithr yr ystyriaeth gydwybodol honno a bair i ffisigwr feddwl mwy am gyflwr y claf nag am flas y moddion. Ar ben hynny, gallaf ddweud, yn hollol ddibetrus, na dderbyniwyd i'r Babell neb na welwyd ynddo arwyddion pur addawol er gwaethaf pob anaf; a lle llithrodd ambell un yn ôl i'r cysgodion, nid o brinder gallu y digwyddodd hynny, ond o ddiffyg dyfalbarhad ac amharodrwydd i fynd dan y driniaeth angenrheidiol. Gellid enwi beirdd a ddaeth i'r Babell ar y dechrau yn ddigon cymhercyn, ond sydd erbyn hyn yn delynegwyr, yn sonedwyr ac yn englynwyr llwyddiannus, a'u buddugoliaethau ym mhrif eisteddfodau'r wlad yn hysbys i'r werin. Cyhoeddodd rhai ohonynt lyfrau, un yn ddiweddar (G. Gerallt Davies, Roewen), dan y teitl 'Yn ieuenctid y dydd' (Gwasg Gomer, Llandysul), - casgliad o ganeuon perorus a thlws y ceir ynddo ddiddanwch i bawb a*

*garo iaith y delyneg. Perthyn i'r Babell heddiw dros bum cant o aelodau, - llwyddiant na bu hafal iddo yn hanes adran farddol unrhyw gyhoeddiad ynglŷn â'r Wasg Gymraeg. Ond er mor galonogol y rhif, ansawdd eu gwaith, yn enwedig y goreuon ohonynt, a wnaeth y Babell yn sefydliad a berchir gan brif lenorion ein cenedl; a balch ydym oll o dystiolaeth gyhoedd Dr. T. Gwynn Jones i safon uchel ei chynhyrchion ddiddymu hynny o amarch a gysylltid o'r blaen â "barddoniaeth papur newydd". Yn wir, un o ddibenion cyntaf sefydlu'r Babell (Medi 5, 1936) oedd dileu'r aflwydd hwnnw, ei gwneuthur yn goleg i'r werin lengar, yn foddion addysg ac amlygrwydd i feirdd ieuainc addawol ac yn gyfrwng cyhoeddusrwydd ledled y wlad i gynhyrchion prydyddion profiadol, yn enwedig yn wyneb tranc cyfnodolion poblogaidd fel 'Y Geninen', a roddai le helaeth gynt i gyfraniadau beirdd cyfoes....*

*(27 Rhagfyr 1941)*

Ond hyd yn oed os yw Dewi ei hunan o'r farn bod cyfansoddiadau'r Babell yn deilwng o'r safonau barddol uchaf, y 'prawf asid' yw barn arbenigwyr eraill arnynt, pobl sy'n fwy annibynnol a gwrthrychol eu barn. Un ffordd dda iawn o fesur safon cynnyrch y Babell yw sylwi bod y gyfrol Beirdd y Babell wedi derbyn sylwadau hael a chanmoliaethus gan nifer o arbenigwyr uchel eu parch yn y byd barddol (er enghraifft Dr. T. Gwynn Jones, y dyfynnwyd ei sylwadau eisoes yn y bennod hon). Er mai 'hufen' cynhyrchion y Babell yw cynnwys y gyfrol Beirdd y Babell mae'n rhaid cydnabod ei bod yn eithaf nodweddiadol o safon y Babell yn gyffredinol: mae'n dilyn felly os yw cynnwys y gyfrol yn cael ei ganmol gan Dr. T. Gwynn Jones a'i debyg, bod cynnwys cyffredinol y Babell o wythnos i wythnos yn cael ei ganmol yn yr un modd.

Yn gyffredinol caiff Pabell Awen Y Cymro ei hystyried nid yn unig y golofn farddol fwyaf cynhyrchiol a thoreithiog erioed yn hanes y Wasg Gymraeg ond hefyd yr un fwyaf safonol. Cyfeiriwyd ati gan aelodau Cymdeithas y Ford Gron ym Manceinion unwaith fel "Ysgol Farddol na bu ei rhagorach erioed ynglŷn â'r Wasg Gymraeg", sylwadau sy'n nodweddiadol o'r farn gyffredinol amdani, a dyma deyrnged gan Amanwy, un o feirdd y Babell, sy'n ymddangos yng nghofiant Eluned Phillips, Dewi Emrys/:

> ....Ef oedd y cymwynaswr mwyaf a welodd prydyddion Cymru. Bu ei golofn yn y 'Cymro' yn fwy o werth i ddiwylliant ein cenedl ni na dim byd tebyg ar a wn i amdani. Bu'n ysbrydiaeth i fardd gwlad a phentref ac i feibion y colegau hefyd. Llym oedd ei feirniadaeth ar dro ond ni chlwyfwyd neb yn fwriadol.

> Denodd gannoedd os nad miloedd ohonom i ymddiddori mewn llinell o gynghanedd a ffurf pennill, yr hen hoffterau a fu'n eiddo i werin ein gwlad fach ni drwy'r canrifoedd, yn wahanol i werin unrhyw wlad arall. O, ie, yn y Babell Awen y cyflawnodd Dewi Emrys ei waith gorau a mwyaf arhosol yn ei fywyd....

Arwyddocaol hefyd yw canmoliaeth hael Edwin Williams, un o gyd-olygyddion Y Cymro ar y pryd, a ysgrifennodd y dysteb hon ym 1941:

*Y Cymro Office.*
*Oswestry.*

*July 14, 1941.*

> *Mr. D. Emrys James (Dewi Emrys) has been Poetry Editor of Y Cymro for the past seven years. 'Y Babell Awen', which is his own idea, is not a feature of the ordinary kind associated with Welsh newspapers. It is recognised as the leading School of Instruction for Welsh bards, who vie with one another for a place of honour in its records. The very high standard set for the poetic compositions published, together with its Editor's unimpeachable authority, his lucid gift of imparting knowledge, and his efficient method of constructive criticism, coupled with his masterly understandig of the intricacies of Welsh grammar, has made 'Y Babell Awen' an institution which is recognised by the greatest Welsh scholars as the most authoritative poetry feature of the vernacular Press....*

Mae'r ffaith i gymaint o feirdd y Babell, nifer ohonynt erioed wedi barddoni o'r blaen, fynd ymlaen i gyhoeddi cyfrolau ac ennill mewn eisteddfodau lleol a chenedlaethol, yn brawf arall o'i safon fel colofn farddol ac yn brawf o dalent Dewi Emrys fel athro barddol.

Yn wyneb hyn oll gellir dod i gasgliad pur sicr i Babell Awen Y Cymro fod yn llwyddiant o ran swm a safon ei chynnyrch.

Mae'n rhaid canmol y cannoedd o feirdd, led-led Cymru a'r byd, am eu prysurdeb yn gwneud y Babell Awen mor gynhyrchiol a llwyddiannus, ond nid oes amheuaeth nad yr un a fu'n bennaf gyfrifol am y llwyddiant hwnnw o'r cychwyn cyntaf oedd Dewi Emrys ei hunan, gŵr a roddodd amser ac adnoddau personol anfesuradwy iddi ar hyd y blynyddoedd a gŵr a wnaeth ei orau glas, mewn amgylchiadau a oedd yn aml yn anodd iawn arno, i sicrhau bod y Babell yn un y gellid ymfalchïo ynddi.

Yn Y Cymro, 26 Medi 1952, yn dilyn marwolaeth Dewi Emrys cafwyd ysgrif yn sôn am ei fywyd ac yn talu teyrnged iddo am ei waith gyda'r Babell Awen. Mae teitl yr ysgrif, Mae Dewi yn Gorwedd Rhwng Dau Fardd Gwlad, yn cyfeirio at y ffaith i Dewi gael ei gladdu ym mynwent Pisgah rhwng y brodyr Joni a Jams Jones, dau werinwr diwylliedig a beirdd gwlad ac eisteddfodwyr pybyr; mae hefyd yn deitl arwyddocaol iawn o gofio am yr hyn a ddywedodd Saunders Lewis yn ei adolygiad 'Prifeirdd neu Feirdd?' yn dilyn cyhoeddi'r gyfrol Beirdd y Babell. Dyma a ddywed yr ysgrif am lwyddiant eithriadol y Babell Awen:

> *....Yr oedd 'Y Babell Awen' yn 'Y Cymro' yn rhywbeth mwy na'r golofn farddol draddodiadol. Beth oedd cyfrinach ei llwyddiant a'i phoblogrwydd?*
>
> *Ei agosatrwydd fel athro iaith a barddas a'i ddawn i ennill ymddiriedaeth y prentis. Canmolai bob cynnig cyntaf pa mor eiddil bynnag yr oedd gan newid a chywiro'r gwaith a'i gyhoeddi gyda gwers fach fuddiol uwch ei ben.*
>
> *Fel beirniad adrodd nid oedd yn dangos yr un mesur o amynedd a chydymdeimlad, a chyfrifid ef yn un parod â'i sgrafell ar lwyfan eisteddfod.*
>
> *Ond nid oedd un drafferth yn ormod iddo gyda'r bardd ifanc. Fe gofia un bardd ifanc a disglair amdano'n anfon ei gynnig cyntaf i'r Babell Awen. Credodd fod ganddo englyn er na wyddai ddim am gynghanedd. Ymhen llai nag wythnos dyma air personol oddi wrth olygydd y Babell Awen yn ei gymell i ddysgu'r cynganeddion. Amgaeodd wers hir wedi ei hysgrifennu. Canmolodd y cynnig a chymell i geisio eto. Dyna ddechreuad y bardd hwn, a dyna fesur amynedd Dewi gyda'r beirdd....*

Yr oedd gan Dewi, fel pob un arall ohonom, ei wendidau, ac oherwydd ei arddull a oedd ar brydiau'n rhy ymfflamychol, ynghyd â'r ystyfnigrwydd a'r balchder a'r diffyg gwyleidd-dra yn ei bersonoliaeth, yr oedd yn gallu ymddangos yn ben-galed os nad yn drahaus hyd yn oed. Ond i unrhyw un a ddarllenai'r Babell Awen ac ymddiddori ynddi'n wythnosol ar hyd y blynyddoedd, credaf mai eu prif argraffiadau o Dewi fyddai gŵr sensitif a theimladwy a oedd bob amser yn cydymdeimlo ag eraill, gŵr hefyd oedd yn eithriadol o ddiddorol, i'r graddau ei fod yn ecsentrig, ond gŵr hynod hoffus yn y bôn. Yn ychwanegol at hyn, fel y gwelir uchod, oedd y modd bugeiliol, tadol bron, yr âi ati i ofalu am ei ddisgyblion a nyddu eu crefft, a pha ryfedd felly i gynifer o feirdd a darpar-feirdd o bob oedran ac o bob cwr o Gymru a'r byd gael eu hudo i ymddiddori yn y Babell Awen bob wythnos gan ei gwneud y golofn farddol fwyaf llwyddiannus erioed mewn unrhyw gyhoeddiad Cymraeg.

Yn ngeiriau'r Cymro wedi marwolaeth Dewi, 'Ef oedd y Babell Awen.'

# Pennod 6: Hysbysebion yn Y Cymro

Yn ei ffurf symlaf un, mae'r gair 'hysbysebu' yn golygu 'tynnu sylw at rywbeth, neu roi gwybod am rywbeth i rywun'; gellir ei ddiffinio'n fwy cywir fel 'y modd neu'r cyfrwng yr ydym yn rhoddi ar ddeall i rywun bod gennym rywbeth i'w werthu neu i'w brynu.' Wrth gwrs, mae hyn yn gor-symleiddio proses sydd mewn gwirionedd yn eithriadol o gymhleth gan bod hysbysebu'n ymwneud nid yn unig â'r economi ac â'r gymdeithas, dau faes enfawr y gellid eu hastudio'n ddiderfyn i bob pwrpas, ond hefyd â seicoleg ac â'r modd y gellir manteisio ar gryfderau a gwendidau natur dyn er mwyn dylanwadu ar bobl a rhoi gwybodaeth iddynt a'u perswadio yn y modd mwyaf effeithiol posibl, ac yn aml iawn er mwyn defnyddio pobl a'u hecsbloetio.

Ffordd arall o'i ddiffinio yw bod 'hysbysebu'n cyflwyno'r neges werthu mwyaf argyhoeddiadol bosibl fel bo cynnyrch neu wasanaeth â'r rhagolygon gorau un, a hynny am y gost isaf bosibl.' Dyma ddiffiniad fwy proffesiynol, sef diffiniad y diwydiant hysbysebu ei hunan, a phwysleisir mai pwrpas hysbysebu yw cael y canlyniadau mwyaf am y costau lleiaf, neu, o'i roi mewn modd arall, pwrpas hysbysebu yw sicrhau effeithiolrwydd ariannol.

O ran y prynwyr neu'r cwsmeriaid gellir dweud bod 'hysbysebu'n cyflwyno gwybodaeth [iddynt] ynglŷn â chynnyrch neu wasanaeth penodol er mwyn iddynt allu penderfynu a ydynt yn dymuno prynu'r cynnyrch neu'r gwasanaeth hwnnw ac er mwyn iddynt allu cymharu rhagoriaethau a chostau un cynnyrch neu wasanaeth dros gynnyrch neu wasanaeth arall.' Mae hysbysebu felly'n elfen hanfodol mewn cymdeithas ddemocrataidd gan ei fod yn rhoi rhyddid i'r unigolyn benderfynu drosto'i hunan a yw'n dymuno prynu'r cynnyrch neu'r gwasanaeth a hysbysebir.

Dyna rai diffiniadau, yn dibynnu o ba safbwynt yr edrychir ar hysbysebu. Gellid ychwanegu sawl diffiniad arall, gan fod hysbysebu mewn rhyw fodd neu'i gilydd yn dylanwadu ar bob carfan o'r gymdeithas, ac ar bob unigolyn, a gellir dweud hefyd nad oes yr un diffiniad yn fwy cywir na'i gilydd gan fod pob gosodiad a dehongliad yn dibynnu ar sut mae hysbysebu'n effeithio ar wahanol bobl.

Yn naturiol, gan fod hysbysebu mor ganolog yn ein cymdeithas a'n heconomi ers cenedlaethau lawer, mae ei ddylanwad yn bellgyrhaeddol dros ben (ac oherwydd bod ei ddylanwad mor bellgyrhaeddol yn y lle cyntaf y mae hysbysebu mor ganolog yn ein cymdeithas a'n heconomi!). Yr ydym oll yn hoffi meddwl nad ydym yn cael ein dylanwadu gan yr holl hysbysebion a welwn ac a glywn o ddydd i ddydd, ond y gwir amdani yw fod hysbysebu'n gyfrwng eithriadol o bwerus sy'n dylanwadu ar bob un ohonom mewn modd llawer mwy pwerus nag y sylweddolwn. Gallwn ymateb i hysbyseb yn uniongyrchol, e.e. byddwn yn gweld hysbyseb i ryw gynnyrch mewn cylchgrawn neu bapur newydd ac yn penderfynu anfon i ffwrdd am y cynnyrch hwnnw; fel arfer fodd bynnag mae effaith hysbysebion yn fwy cynnil ac anuniongyrchol ac yn dylanwadu arnom yn gyfrwys drwy'r isymwybod heb inni hyd yn oed sylweddoli hynny, e.e. yr ydym lawer yn fwy tebygol o brynu powdrau golchi 'Persil' neu 'Ariel' neu 'Daz' sy'n cael eu hysbysebu'n gyson ar y teledu yn hytrach na phowdr golchi nad ydym erioed wedi clywed ei enw o'r blaen, er efallai bod y powdr hwnnw lawn cystal, os nad gwell, am olchi dillad, ac hefyd yn rhatach!

Wedi dweud hynny mae yr un mor wir dweud ein bod oll wedi hen syrffedu ar hysbysebion diflas a syrffedus 'Persil', 'Ariel' neu 'Daz' (ac yn enwedig 'Daz' gyda'i 'Doorstep Challenge'!) sy'n profi nad yw hyd yn oed yn rhaid i ni hoffi hysbyseb iddo gael effaith arnom: mae'r ffaith ein bod yn gweld ac yn clywed enw'r cynnyrch yn ddigon i'n hysgogi i'w brynu. (Dylid ychwanegu pwynt pwysig yma, sef bod powdr golchi'n gynnyrch sydd yn <u>rhaid</u> i bawb ei gael: mae cynhyrchion neu wasanaethau nad ydynt mor angenrheidiol, ac sydd felly'n fwy moethus o ran eu natur, yn gofyn am dechnegau hysbysebu clyfrach er mwyn ceisio perswadio rhywun y byddai ei fywyd yn well o brynu'r cynnyrch neu'r gwasanaeth hwnnw.) Pwynt hollol amlwg arall, ond un sy'n profi'n ddigamsyniol bod hysbysebu'n dylanwadu'n drwm ar bobl, yw'r ffaith na fyddai hysbysebwyr yn fodlon gwario'r symiau anferthol o arian yn y lle cyntaf pe na baent yn hollol sicr bod hynny o werth ariannol iddynt.

Mae dyn wedi defnyddio hysbysebion ar hyd y canrifoedd (darganfuwyd darn o bapur yn dyddio mor bell yn ôl â 3000 C.C. yn

cynnwys hysbyseb yn gofyn am ddychweliad caethwas oedd wedi dianc) ond dim ond yn y tri chan mlynedd diwethaf, ac yn arbennig felly yn yr ugeinfed ganrif, y datblygodd hysbysebu o ddifrif. Gellir dweud ymhellach bod ail hanner yr ugeinfed ganrif, gyda'i holl ddatblygiadau technolegol, wedi gweld twf aruthrol ym myd hysbysebu, ac erbyn heddiw nid yw'n bosibl i unrhyw un ohonom osgoi hysbysebion di-ri ym mhob agwedd ar ein bywydau.

Ond tra bo hysbysebu bellach wedi datblygu'n ddiwydiant enfawr sy'n effeithio ar bob un ohonom, bu arbenigwyr ar yr economi a'r gymdeithas, ynghyd â seicolegwyr ac athronwyr, ar hyd y blynyddoedd yn dadlau'n ffyrnig ar fanteision ac anfanteision hysbysebu. Nid wyf mewn cyflwyniad byr fel hyn am fanylu ar ddadleuon y gellid ymhelaethu llawer arnynt ond dyma grynodeb byr iawn o rai o'r dadleuon (nid o reidrwydd yn nhrefn eu teilyngdod) sy'n cael eu crybwyll dro ar ôl tro gan y ddwy ochr. Maent gobeithio'n rhoi rhyw argraff o gymhlethdod yr holl gysyniad o hysbysebu (sylwer fod yma ddadleuon economaidd, cymdeithasol, seicolegol a moesol) ac yn gymorth bychan i gychwyn dirnad sut mae hysbysebion yn gweithio a sut maent yn effeithio arnom fel unigolion ac fel cymdeithas:

<u>Y dadleuon dros hysbysebu</u>

1. Mae'n ddull effeithiol a rhad o gyflwyno gwybodaeth ynglŷn â nwyddau ac o symbylu galw eang amdanynt.
2. Mae wedi codi safon nwyddau gan ei fod yn gorfodi cynhyrchwyr i gydymffurfio â rheolau a safonau pendant.
3. Mae'n sefydlogi prisiau gan fod cynhyrchion sy'n cael eu hysbysebu'n cael eu gwerthu am brisiau penodedig yn hytrach na phrisiau a bennir ar hap yn ôl mympwy'r cynhyrchydd.
4. Drwy hysbysebion yn bennaf y daeth y defnyddiwr / prynwr i wybod am fodolaeth yr holl nwyddau a gwasanaethau y mae bellach yn eu mynnu.
5. Mae hysbysebu'n golygu bod nifer enfawr o bobl yn cael eu perswadio i brynu nwydd arbennig. Gall y cwmni sy'n cynhyrchu'r nwydd hwnnw wneud hynny ar raddfa fawr ac felly dorri ar eu costau, sy'n golygu na fydd yn rhaid i'r cwmni werthu'r nwydd am bris mor uchel. Oherwydd hyn gellir dadlau

bod hysbysebu'n gyfrifol am gadw prisiau nwyddau i lawr.

6. Gall hysbysebion ddod â nwydd neu wasanaeth newydd i sylw nifer fawr o bobl mewn mater o wythnosau neu ddyddiau (yn enwedig heddiw gyda chyflymder y dechnoleg ddiweddaraf).
7. Er y byddai nifer fawr o nwyddau newydd yn y pen draw'n ennill eu lle yn ein cartrefi heb hysbysebu, byddai'r holl broses yn cymryd llawer mwy o amser ac yn fwy na thebyg yn costio llawer mwy gan na fyddai cynhyrchwyr yn medru torri ar eu costau drwy gynhyrchu ar raddfa fawr mor fuan. Unwaith eto dyma ddadl bod hysbysebu'n gwneud nwyddau'n rhatach.
8. Ffactor arall sy'n gwneud nwyddau'n rhatach yw'r ffaith bod hysbysebu'n gorfodi gwahanol gynhyrchwyr a gwasanaethau i gystadlu'n erbyn ei gilydd: os yw cwmni A dyweder yn cynnig nwydd yn rhatach na chwmni B sy'n gwerthu'r un nwydd, yna nid oes gan gwmni B ddewis heblaw cynnig y nwydd am yr un pris os yw am fod yn gystadleuol.
9. Heb hysbysebu byddai cwmnïau a gwasanaethau'n gorfod dibynnu llawer mwy ar unigolion i fynd o gwmpas yn gwerthu'r nwydd neu'r gwasanaeth yn bersonol i bobl: byddai costau cyflogi felly'n cynyddu'n sylweddol ac felly'n gyfrifol am wneud y nwydd neu'r gwasanaeth yn ddrutach (yn y mwyafrif o achosion byddai'r costau'n codi i'r fath raddau fel y byddai hyn yn gwbl anymarferol).
10. Hysbysebu gan wahanol gwmnïau a chynhyrchwyr sydd wedi creu'r amrywiaeth eang o nwyddau a gwasanaethau sydd bellach ar y farchnad.
11. Hysbysebu fel arfer yw'r modd mwyaf effeithiol o symbylu ac ymateb i'r galw tymhorol am nwydd neu wasanaeth ar adegau penodol o'r flwyddyn: gan fod hysbysebwyr yn medru rhagweld y galw hwn ymlaen llaw gallant drefnu ymgyrchoedd marchnata effeithiol a chystadleuol, yn ogystal â rhagweld faint o stoc y byddant ei angen. Yn baradocsaidd, gall hysbysebu cyson drwy'r flwyddyn estyn y galw am nwydd neu wasanaeth fel bo pobl yn ei brynu neu ei ddefnyddio ar hyd y flwyddyn yn hytrach nag am dymor byr yn unig.
12. Hysbysebu yw un o'r ffyrdd gorau o sefydlu a chynnal enw da cwmni: mae cwmni sydd ag enw da fel arfer yn medru gwerthu ei nwydd neu ei wasanaeth yn rhwyddach, ac felly'n rhatach, na chwmni nad yw wedi hysbysebu mor helaeth ac nad yw felly ag

enw mor dda yng ngolwg y prynwyr / defnyddwyr.

13. Mae busnes sydd wedi sefydlu enw da yng ngolwg y cyhoedd hefyd yn annhebygol iawn o werthu unrhyw beth nad yw'n cadarnhau'r enw da hwnnw.
14. Mae'r prynwr yn cael mwy o foddhad o ddefnyddio cynhyrchion a ganmolir ac a gymeradwyir gan hysbysebion, e.e. bydd gŵr sy'n prynu siwt a hysbysebwyd fel un a wisgir gan bobl 'lwyddiannus' (yn ystyr faterol y gair) lawer yn fwy tebygol o deimlo fel gŵr 'llwyddiannus' ei hunan, er efallai nad oes mwy o bobl 'lwyddiannus' yn gwisgo'r siwt arbennig yna nag unrhyw fath arall o siwt.
15. Mae hysbysebu wedi codi safonau byw ym mhob sector o'r gymdeithas: mae wedi chwarae rhan amlwg iawn wrth gyflwyno peiriannau sy'n lleihau llafur yn y cartref (poptai, glanhawyr trydan ac ati) i sylw'r cyhoedd; mae hefyd wedi bod yn gyfrifol i raddau helaeth am yr holl amrywiaeth o nwyddau a gwasanaethau yr ydym bellach yn eu cymryd yn ganiataol.
16. Mae hysbysebu'n rhan hanfodol o gymdeithas ddemocrataidd sy'n rhoi gwerth uchel ar ryddid yr unigolyn.

Y dadleuon yn erbyn hysbysebu

1. Mae hysbysebu'n manteisio ar wendidau pobl ac yn ecsbloetio'r cyhoedd.
2. Yn aml iawn bydd pobl wedi cael eu dylanwadu gan hysbysebion i'r fath raddau fel eu bod yn prynu nwydd nad ydynt yn gallu ei fforddio neu nad ydynt ei angen.
3. Mae cwmnïau sydd â'r adnoddau i hysbysebu'n llwyddiannus â mantais dros gwmnïau sydd â llai o adnoddau: gellir dadlau felly bod hysbysebu'n gyfrifol am sefydlu monopolïau. Oherwydd nad oes cystadleuaeth ddigonol i gwmnïau sydd â monopolïau o'r fath yn aml iawn bydd y prynwyr / defnyddwyr yn talu mwy am y cynnyrch neu'r gwasanaeth.
4. Mae hysbysebion fel arfer yn tueddu i bwysleisio ansawdd nwydd neu wasanaeth yn hytrach na'i bris. Mae hysbysebu felly, er yn gyfrifol am godi safonau, hefyd yn gyfrifol am godi prisiau.
5. Mae canlyniadau unrhyw ymgyrch hysbysebu'n eithriadol o ansicr ac mae gwerthiant llwyddiannus unrhyw nwydd neu

wasanaeth yn dibynnu ar amrywiaeth o ffactorau, nid ar ba mor dda y'i hysbysebir yn unig. Weithiau mae llwyddiant hysbyseb yn ymddangos yn hap a damwain hollol, e.e. gall hysbyseb a gynlluniwyd yn ofalus am fisoedd ac am gost uchel gan asiantaeth hysbysebu broffesiynol brofi'n llai llwyddiannus o'r hanner na hysbyseb a wnaed am lawer llai o gost gan gwmni bychan; gall hysbyseb sy'n costio £1,000 mewn un papur newydd fod yr un mor effeithiol â hysbyseb sy'n costio £10,000 mewn papur arall; gall ymgyrch hysbysebu lwyddiannus eithriadol yn America brofi'n fethiant hollol ym Mhrydain, er mai'r un tactegau yn union a ddefnyddir.

6. Yn ogystal mae canlyniadau unrhyw ymgyrch hysbysebu'n anodd iawn, os nad yn amhosibl, i'w mesur yn llwyddiannus: ni fydd rhywun sy'n prynu math penodol o nwydd yn medru dweud yn bendant ai hysbyseb, neu rhyw ffactor arall, a'i hysgogodd i brynu'r nwydd penodol hwnnw; yn aml iawn hefyd mae ymgyrch hysbysebu'n cael ei chynllunio i hyrwyddo enw da cwmni'n hytrach na gwerthu nwydd neu wasanaeth penodol, sy'n golygu na ellir yn gywir fesur llwyddiant yr hysbysebu.
7. Mae ymgyrch hysbysebu'n aml yn cael ei sefydlu ar wybodaeth ac ystadegau anghywir ac anwyddonol, heb ystyried o ddifrif effeithiolrwydd yr ymgyrch. Yn aml hefyd bydd yr ymgyrch ei hunan yn cael ei chynllunio'n wael, e.e. bydd rhywun yn cofio rhyw slogan arbennig ond yn methu cofio beth mae'r slogan yn ei hysbysebu! Mae hysbysebu na chynlluniwyd yn ddigon gofalus felly'n hynod o wastraffus, o ran adnoddau'n ogystal ag arian.
8. Mae hysbysebu'n arwain at gystadleuaeth sydd ynddi'i hunan yn wastraffus, e.e. bydd un cwmni sigaréts yn cael ei orfodi i wario ffortiwn ar hysbysebu dim ond i gystadlu'n uniongyrchol â chwmni sigaréts arall sy'n gwario ffortiwn ar hysbysebu, er bod sigaréts y ddau gwmni i bob pwrpas yn unfath.
9. Yn aml iawn nid yw hysbysebion yn rhoi gwybodaeth ddigonol a dibynadwy ynglŷn â nwydd neu wasanaeth, neu ar y gorau gall hysbysebion fod yn gynnil, h.y. nid dweud celwydd fel y cyfryw ond dewis a dethol rhannau o beth sy'n wir er mwyn creu'r argraff orau ar y darpar gwsmer. Mae hysbysebion hefyd yn aml yn apelio at emosiwn pobl yn hytrach na'u rheswm, yn rhannol oherwydd ei fod yn fwy effeithiol ac yn rhannol

oherwydd ei bod hi'n eithriadol o anodd gyda rhai nwyddau a gwasanaethau i ddyfeisio unrhyw ddadleuon call dros eu prynu.

10. Defnyddir hysbysebion i berswadio pobl i dalu mwy am nwydd un cwmni nad yw fymryn gwell o ran ansawdd na'r un nwydd gan gwmni arall sy'n rhatach.
11. Mae hysbysebion ar y cyfan yn apelio at ochr faterol, egosentrig, hunanol y natur ddynol gan eu bod oll i bob pwrpas yn ensynio y bydd ein safonau byw'n uwch os prynwn y nwydd neu os gwnawn ddefnydd o'r gwasanaeth. Gellir dadlau felly bod hysbysebion yn darostwng safonau a moesau pobl ac felly'n darostwng safonau a moesau'r gymdeithas yn ei chyfanrwydd. Wedi dweud hynny, ni fuasai hysbysebwyr yn apelio'n uniongyrchol at fateroliaeth dyn pe na bai hynny'n llwyddiannus iddynt ac felly mae'n rhaid gofyn ai hysbysebion sy'n creu cymdeithas hunanol, faterol, neu ai natur hunanol, faterol dyn sy'n sicrhau bod hysbysebion o'r fath mor llwyddiannus. Mae'n debyg mai'r ateb i'r cwestiwn hwn yw bod y ddau beth yn bwydo ar ei gilydd, ac yn anffodus, er bod hysbysebu heb amheuaeth yn ecsbloetio gwendidau dyn, y gwir amdani yw mai ein natur ni ein hunain sy'n gyfrifol ein bod yn cael ein hecsbloetio a'n defnyddio yn y fath fodd.

Dyna drin a thrafod rhai agweddau ar hysbysebu, ac er mai dim ond crafu'r wyneb a wna'r dadleuon uchod, o leiaf maent yn rhoi rhyw syniad o gymhlethdod yr holl broses, a'r modd mae hysbysebu'n effeithio a dibynnu ar gymaint o wahanol ffactorau sydd ynghlwm â'i gilydd.

Gellir yn fras iawn ddosbarthu'r gwahanol gyfryngau a ddefnyddir i hysbysebu fel a ganlyn:

1. Y Wasg.
2. Teledu.
3. Radio.
4. Allanol: sy'n cynnwys posteri; hysbysebion o amgylch meysydd chwaraeon; hysbysebion ar grysau chwaraewyr; hysbysebion mewn cyngherddau roc; arwyddion y tu allan i siopau, swyddfeydd a busnesau; hysbysebion trydanol allanol e.e. Syrcas Picadili.
5. Trafnidiaeth: sy'n cynnwys tu mewn a thu allan bysus a threnau

cyhoeddus; tu mewn a thu allan gorsafoedd bysus a threnau cyhoeddus; ar ochrau faniau a lorïau busnesau a chwmnïau preifat.

6. Sinema.
7. Yn uniongyrchol drwy'r post: sy'n cynnwys taflenni; cynigion a samplau am ddim; unrhyw wybodaeth arall.
8. Arddangosfeydd: e.e. yr 'Ideal Home Exhibition'; y Sioe Foduro flynyddol; pob math o arddangosfeydd mewn sioeau amaethyddol a garddwriaethol.
9. Adwerthol: sy'n cynnwys arddangosfeydd mewn ffenestri siopau; bagiau siopau; posteri arbennig; cardiau hysbysebu; arddangosiadau; pacio a lapio e.e.bocsus, poteli a thuniau.

Ond mae'n rhaid pwysleisio eto mai dosbarthu bras iawn yw hyn, ac mewn gwirionedd mae hysbysebwyr yn defnyddio unrhyw gyfrwng y gallant feddwl amdano i hysbysebu eu cynnyrch neu eu gwasanaeth. O fynd o un pegwn i un arall gellir hysbysebu ar flychau matsis a hysbysebu ar falŵns mawr yn yr awyr, a miloedd o enghreifftiau eraill, sy'n dangos eto mor gyffredin yw hysbysebu ym mhob agwedd ar fywyd. Yn naturiol, yng ngyd-destun y traethawd hwn, edrychaf yn benodol ar y wasg fel cyfrwng hysbysebu.

Mae'r wasg wedi bod yn un o'r cyfryngau cynharaf un a ddefnyddiwyd gan hysbysebwyr ac ers ei sefydlu fe sylweddolodd hysbysebwyr ar unwaith ei botensial fel cyfrwng i werthu pob math o nwyddau a gwasanaethau. Mae'r rhestr isod yn nodi rhai o fanteision y wasg i hysbysebwyr a phrynwyr, ac yn anochel yn gwneud hynny trwy gymharu â chyfryngau eraill megis y radio a'r teledu. Er bod sôn am y radio a'r teledu'n ymddangos braidd yn amherthnasol mewn traethawd sy'n ymdrin â chyfnod cyn iddynt ddod yn gyfryngau pwysig a phoblogaidd (yn sicr, mae hyn yn wir yn achos y teledu), rhoddaf sylw iddynt fel hyn er mwyn ceisio dangos paham bod y wasg, er gwaethaf cyfryngau y gellid dadlau sy'n fwy 'bywiog a chyffrous', wedi parhau mor boblogaidd ar hyd y blynyddoedd, nid yn unig o safbwynt hysbysebwyr ond hefyd o safbwynt y rhai sy'n prynu'r cyhoeddiadau.

Mewn gwirionedd, yr hyn y ceisiaf ei wneud isod yw 'deall' y wasg o safbwynt hysbysebwyr a darllenwyr, sef gweld beth yw ei

nodweddion unigryw fel cyfrwng, yn fanteision ac anfanteision, ac mae lawer yn haws gwneud hynny os yw rhywun â chyfryngau eraill, megis radio a theledu, i gymharu â hwynt. Y pwynt canolog yma yw bod y wasg fel cyfrwng, er gwaethaf rhai newidiadau gyda datblygiad technoleg, yn ei hanfod wedi aros yr un fath ar hyd y blynyddoedd, boed hynny ym 1932 neu ar ddiwedd yr ugeinfed ganrif, ac felly mewn gwirionedd nid yw o bwys os y dewisir ei gymharu â chyfryngau mwy 'modern' os yw hynny'n gymorth i geisio deall natur y wasg fel cyfrwng.

Gellir rhestru'r pwyntiau isod fel rhai o brif fanteision y wasg yng nghyswllt hysbysebu:

1. Y wasg yw un o'r dulliau rhataf o gyrraedd nifer enfawr o gwsmeriaid dichonol. Gall y cwsmeriaid dichonol hyn fod mewn tref neu ardal arbennig, neu mewn gwlad arbennig: unrhyw le yn y byd mewn gwirionedd, yn dibynnu ymhle y gwerthir y papur.
2. Gellir llunio hysbysebion papurau newydd yn llawer iawn cynt na hysbysebion teledu, sinema a nifer o gyfryngau eraill: yn wir, gellir llunio hysbyseb papur newydd mewn ychydig oriau a'i gosod yn y papur erbyn y rhifyn canlynol. Mae hyn yn golygu y gall hysbysebion papurau newydd yn aml iawn fod yn fwy cyfoes na hysbysebion teledu, ffaith hynod eironig gan y gall teledu ddarlledu newyddion yn 'fyw' tra bo'r papurau newydd ar y gorau'n gorfod aros am ychydig oriau wedi'r digwyddiad cyn medru cyrraedd eu cynulleidfaoedd â'u newyddion hwy. Mae'r wasg felly, er yn gyfrwng statig, yn un hyblyg a hwylus iawn i hysbysebu ynddo: enghraifft o hynny yw mân-hysbysebion lle y gall pobl ffonio neu ffacsio'u hysbysebion yn uniongyrchol ac ar fyr-rybudd i swyddfa'r papur. Enghraifft arall o'i hyblygrwydd yw'r modd y gellir addasu hysbysebion mewn gwahanol rifynnau, fel y gall cwmni mawr cenedlaethol roi cyfeiriadau canghennau lleol mewn rhifynnau lleol o bapur newydd.
3. Pan fo'r darllenydd yn ymateb yn uniongyrchol i hysbyseb papur newydd trwy anfon i ffwrdd am lyfr neu am dâp, dyweder, gall yr hysbysebwr fesur llwyddiant ei hysbyseb yn uniongyrchol trwy ddefnyddio cwponau sydd â chôd arbennig arnynt. O ddadansoddi'r cwponau hyn gall wedyn gymharu'r ymateb a gawsai

gan ddarllenwyr gwahanol bapurau newydd a gweld pa gyhoeddiadau sy'n cynnig y gwerth hysbysebu gorau iddo. Bydd hyn yn ei gynorthwyo i lunio ymgyrchoedd hysbysebu yn fwy effeithiol yn y dyfodol.

4. Yn ymwneud yn agos iawn â'r pwynt blaenorol, un o fanteision pennaf hysbysebu yn y wasg yw ei fod yn galluogi hysbysebwyr i dargedu pobl yn benodol trwy hysbysebu mewn cyhoeddiadau y byddai'r bobl hynny'n fwyaf tebygol o'u darllen. Er enghraifft, byddai cwmnïau hadau planhigion yn debygol iawn o gael ymateb da pe baent yn hysbysebu mewn cylchgronau garddio, gwneuthurwyr paent mewn cylchgronau D.I.Y., ac ati.
5. Gellir cynnwys llawer iawn mwy o hysbysebion yn y wasg mewn cymhariaeth â hysbysebu ar y radio a'r teledu gan fod y ddau gyfrwng hwnnw'n cael eu rheoli gan gyfyngiadau amser. Meddylier er enghraifft am y nifer enfawr o hysbysebion y gellir eu cynnwys yn y wasg leol: maent fel arfer â thudalennau ar dudalennau o hysbysebion gan werthwyr tai, gwerthwyr ceir ac ati. Unwaith eto, dyma ddangos mor hyblyg yw'r wasg fel cyfrwng i hysbysebu ynddo: os yw'r golygydd yn dymuno cynnwys mwy o hysbysebion yn ei bapur yna yr unig beth sy'n rhaid iddo'i wneud yw cynyddu nifer y tudalennau.
6. Er bod bywyd papurau newydd yn fyr iawn, ac yn cael eu taflu ymaith yn fuan iawn ar ôl cael eu prynu, mae'n ddigon hawdd i ddarllenydd dorri ymaith ryw hysbyseb y mae â diddordeb arbennig ynddi a'i chadw ar gyfer y dyfodol. Mae rhai cyhoeddiadau yn y wasg, megis cylchgronau, sydd â bywydau hir iawn, yn cael eu cadw am wythnosau os nad misoedd ac yn cael eu pasio ymlaen i ddarllenwyr eraill. Nid yn unig hynny, gellir darllen hysbysebion mewn papurau newydd a chylchgronau fwy nag unwaith, sy'n golygu y gall y darllenydd eu hastudio a'u dadansoddi'n fanwl. Sylwer nad yw'r un o'r pwyntiau hyn yn berthnasol ar gyfer y radio a'r teledu: unwaith mae'r hysbyseb wedi cael ei ddarlledu mae wedi 'diflannu' am byth (er, wrth gwrs, bod yr hysbysebwr yn gobeithio nad yw wedi diflannu o gof pobl!).

Gellir crynhoi manteision y wasg felly mewn dau air, sef 'hwylus' a 'hyblyg'. Ac mae hynny yn ei wneud yn gyfrwng effeithiol ac economaidd iawn i hysbysebu ynddo, yn fwy

effeithiol o ran yr ymateb a geir i bob punt a werir na llawer o gyfryngau eraill. Dyma dair enghraifft wir o ba mor effeithiol y gall hysbysebu yn y wasg fod, er mewn gwirionedd mai cyfran fechan o hysbysebwyr sydd mor llwyddiannus â'r tri isod:

1. Gosododd deliwr stampiau o Lundain hysbyseb un golofn 6cm yn adran archebion drwy'r post rhifyn dydd Sadwrn o bapur newydd cenedlaethol Prydeinig, ac adeiladu ei holl fusnes ar yr un hysbyseb hwnnw. Yr oedd yr ymateb a gawsai i'w gynnig o amlenni diwrnod cyntaf o stampiau Nadolig Prydeinig wedi sicrhau bod ganddo gwsmeriaid rheolaidd ar gyfer amlenni diwrnod cyntaf yn y dyfodol; gallodd hefyd ddatblygu gwasanaethau ffilatelig eraill ar gyfer y cwsmeriaid hynny.
2. Lansiwyd gwasanaeth newydd ar gyfer y tŷ gyda hysbyseb arddangos dwbl 18cm yn y Daily Telegraph, ac o gwmni bychan o dri o ddynion sefydlwyd busnes cenedlaethol sydd erbyn hyn wedi datblygu'n fusnes rhyngwladol, a bellach yn cael ei efelychu gan lawer o gystadleuwyr. Dros chwarter canrif yn ddiweddarach, mae'r busnes yn parhau i chwilio am gwsmeriaid newydd trwy hysbysebu yn y wasg, ac yn defnyddio cyfryngau torfol megis y Radio Times.
3. Dymunai cwmni warws talu-a-chario ddenu mwy o gwsmeriaeth i'w 54 o ganolfannau hunanwasanaeth ac fe wnaeth yr asiantaeth hysbysebu argymell hysbyseb un dudalen liw yn y Daily Express ar gost o £10,000. Ar y pryd yr oedd trosiant gwerthu'r cwmni yn £40 miliwn y flwyddyn ond fe gynyddodd yr un hysbyseb hwnnw y masnach wythnosol o 17%.

Dyna enghreifftiau o ba mor effeithiol a phroffidiol y gall hysbysebion yn y wasg fod os cânt eu gosod yn y cyhoeddiadau cywir ac am y pris cywir: gall hysbyseb fechan ychydig o sentimedrau mewn adran mân-hysbysebion fod yn fwy proffidiol na hysbyseb fawr dwy dudalen sy'n costio ganwaith y pris; yn yr un modd gall hysbyseb mewn cyhoeddiad arbenigol â chylchrediad o 200,000, dyweder, fod yn fwy proffidiol na hysbyseb mewn papur cenedlaethol â chylchrediad o ddwy filiwn. Yn ogystal â hynny, mae hysbysebu mewn papur sydd â digon o amrywiaeth o ddarllenwyr, megis Y Cymro, fel arfer yn effeithiol sut bynnag gan bod digon o bobl yn ymateb i hysbyseb i'w wneud yn werth y gost i'r hysbysebwr: er efallai mai dim ond canran fechan iawn o holl

ddarllenwyr y papur sy'n ymateb i'r hysbyseb, mae hynny fel arfer yn ymateb sy'n fwy na digonol i'r hysbysebwr.

Mae'n rhaid pwysleisio bod anfanteision hefyd i hysbysebu yn y wasg, a dyma rai ohonynt:

1. Mae bywyd papur newydd yn fyr iawn, yn enwedig papur dyddiol neu bapur dydd Sul sy'n annhebygol iawn o oroesi am fwy na diwrnod: y rheswm syml am hynny yw nad yw pobl am ddarllen newyddion 'ddoe' sydd bellach yn hen beth. Gall bywyd papur newydd fod yn fyrrach na diwrnod hyd yn oed, megis gyda phapurau a ddarllenir wrth fynd a dod o'r gwaith.
2. Yn sicr yn oes Y Cymro yr oedd ansawdd yr argraffu ar bapurau newydd yn aml yn wael ac yn anodd ei ddarllen: yr oedd y print yn medru bod yn aneglur, ar brydiau mor fach bron fel bod angen chwyddwydr i'w ddarllen, a'r lluniau yn aml yn medru bod o ansawdd wael. Problem arall oedd bod inc o un ochr y dudalen yn tueddu i ymddangos ar yr ochr arall, unwaith eto'n cyfrannu at aneglurdeb y diwyg. Erbyn heddiw, gyda dyfodiad peiriannau argraffu modern, mae diwyg papurau newydd wedi gwella'n aruthrol ac mae'r print ar y cyfan yn gwbl glir ac yn hawdd ei ddarllen; anaml hefyd y daw inc o un ochr y dudalen i'r wyneb ar yr ochr arall. Datblygiad cyffrous arall yn y blynyddoedd diwethaf fu'r defnydd o liw mewn papurau newydd, ac erbyn hyn mae papurau dyddiol ac wythnosol, cenedlaethol a lleol fel ei gilydd yn medru argraffu lluniau lliw o ansawdd rhagorol, hyd yn oed o ryw newydd a ddigwyddodd ychydig oriau ynghynt ac yn unrhyw gwr o'r byd. Cafodd y peiriannau argraffu lliw ansawdd-uchel eu croesawu'n frwd gan hysbysebwyr yn ogystal â darllenwyr, gan eu bod bellach yn medru paratoi hysbysebion sy'n well o ran diwyg ac yn fwy trawiadol nag erioed o'r blaen: erbyn hyn gall papurau newydd gynnwys hysbysebion sydd lawn cystal o ran eu hansawdd â'r rhai sydd mewn cylchgronau.
3. Mae'r wasg yr hyn a elwir yn gyfrwng goddefol, sy'n golygu bod pobl yn gorfod gwneud ymdrech i ddarllen straeon, erthyglau a hysbysebion mewn papurau newydd. Cymharer hynny â chyfryngau y radio, y teledu a'r sinema, lle mae pobl yn cael eu 'bwydo' gan yr hyn a welant ac a glywant heb iddynt orfod ymdrechu'n galed i wneud hynny.

4. Mae hysbysebion mewn papurau newydd yn gorfod cystadlu â gweddill y papur am sylw a diddordeb y darllenwyr, yn wahanol i hysbysebion radio, teledu a sinema gan nad yw hysbysebion y tri chyfrwng hwnnw'n digwydd yr un pryd â'r rhaglen neu'r ffilm. Wedi dweud hynny, erbyn hyn, a ninnau yn oes y teclynnau rheoli-o-bell, mae'n rhaid i hysbysebion teledu a radio hefyd gystadlu'n frwd am sylw a diddordeb eu cynulleidfaoedd gan ei bod hi mor hawdd bellach i newid i ryw sianel arall am ychydig funudau fel ein bod yn gallu osgoi'r hysbysebion. Dyna pam ei bod hi mor bwysig bod hysbysebwyr, boed hwy'n hysbysebu yn y wasg neu mewn rhyw gyfrwng arall, yn cynllunio'u hysbysebion i fod mor apelgar â phosibl i'w gwahanol gynulleidfaoedd.
5. Mae'r wasg yn gyfrwng statig iawn ac yn methu cyfleu 'realaeth' bywyd fel ag y gwna sain a lluniau byw y radio a'r teledu a'r sinema. Er bod hysbysebion papurau newydd cyfoes yn fwy realistig nag erioed gyda'u lliw a'u manylder trawiadol, ni fyddant byth yn medru dod yn 'fyw' i'r darllenwyr fel ag y gall hysbysebion y cyfryngau eraill ei wneud.
6. Gall hysbysebion fod wedi eu cyflwyno'n wael mewn papurau newydd, e.e. gallant fod gyda'i gilydd yn un sypyn mawr fel nad yw'r darllenydd yn sylwi ar bob un ohonynt, onibai ei fod yn gwneud ymdrech benodol i chwilio am hysbyseb unigol. Gyda'r mwyafrif o gyfryngau eraill mae hysbysebion yn cael eu cyflwyno un ar y tro sy'n golygu y gellir sylwi ar bob un yn unigol.

Yn gyffredinol rhennir hysbysebion papurau newydd yn dri dosbarth, sef <u>hysbysebion arddangos</u> (display advertisements), <u>mân hysbysebion</u> (small / classified advertisements) a <u>hysbysebion lled-arddangos</u> (semi-display advertisements).

Mae <u>hysbysebion arddangos</u>, fel yr awgryma'r teitl, yn arddangos gwybodaeth am nwydd neu wasanaeth mewn modd deniadol ac apelgar i'r darllenwyr. Maent yn cynnwys amrywiaeth o deipiau a meintiau ac yn aml â rhyw fath o ddarluniau arnynt; nodwedd arall ohonynt yw eu bod yn tueddu i fod yn benawdau, yn osodiadau a sloganau yn hytrach na brawddegau cyflawn. Cânt eu gosod mewn lleoedd amlwg ymysg gweddill deunydd golygyddol y papur, a'u prif

swyddogaeth yw denu sylw darllenwyr nad ydynt yn chwilio am hysbysebion penodol. Fel arfer caiff hysbysebion arddangos eu gosod yn y papur gan gwmnïau neu gymdeithasau mawr, cenedlaethol, a hynny trwy gyfrwng asiantaethau hysbysebu proffesiynol. Telir am hysbysebion arddangos yn ôl eu maint.

Mae mân hysbysebion ar y llaw arall yn cael eu gosod ar dudalennau arbennig o'r papur ac yn cael eu dosbarthu yn ôl eu natur dan benawdau. Fel arfer byddant yn cael eu darllen yn unig gan bobl sydd â diddordeb arbennig yn y nwydd neu'r gwasanaeth, a'r rheswm y cânt eu dosbarthu yn ôl penawdau yw hwylustod i'r darllenwyr ganfod yr hysbysebion sydd o ddiddordeb penodol iddynt hwy. Yn wahanol i hysbysebion arddangos sy'n cael eu paratoi gan y cwmnïau mawr, cenedlaethol, caiff mân hysbysebion eu gosod yn y papur gan gwmnïau llai a mwy lleol eu natur, neu gan unigolion, a fydd yn paratoi'r hysbyseb eu hunain yn hytrach na chyflogi asiantaeth hysbysebu. Telir am fân hysbysebion yn ôl nifer y geiriau sydd ynddynt.

Gellir dweud felly bod mân hysbysebion yn hollol wahanol i hysbysebion arddangos yn yr ystyr nad ydynt wedi'u llunio mewn modd deniadol er mwyn denu sylw'r darllenydd yn y lle cyntaf. Er mai eu prif nod, yn naturiol, yw gwerthu nwydd neu wasanaeth (neu'n aml, yn achos mân hysbysebion, prynu nwydd neu wasanaeth), nid ydynt yn mynd o'u ffordd i geisio perswadio'r darllenydd yn yr un modd ag y gwna hysbysebion arddangos, ac yn aml iawn yr hyn a geir mewn mân hysbysebion yw gwybodaeth a ffeithiau moel. Gellir dweud hefyd bod mân hysbyseb yn ddim amgenach na hysbysiad sy'n rhoi gwybodaeth i garfan benodol o'r cyhoedd sydd â diddordeb yn y wybodaeth honno, ac oherwydd bod rhyw fath o ddiddordeb 'ar y cyd', fel petai, rhwng yr hysbysebwr a'r darllenydd, mae mân hysbysebu i bob pwrpas yn gyfathrebu rhwng cydraddolion: mae hyn yn arbennig o wir yn achos unigolion sy'n defnyddio mân hysbysebion.

Ceir trydydd math o hysbysebion, sef hysbysebion lled-arddangos, sydd hanner ffordd rhwng hysbysebion arddangos a mân hysbysebion. Mae rhain i'w gweld yn adran mân hysbysebion y papur, ond yn debyg i hysbysebion arddangos yn yr ystyr eu bod yn

cynnwys penawdau a gosodiadau, gwahanol deipiau a meintiau, a lluniau o bosibl.

Arolwg sampl o hysbysebion 'Y Cymro' rhwng 1932 a 1945

Gan y byddai'n gwbl anymarferol gwneud dadansoddiad manwl o hysbysebion bron i 700 o rifynnau o'r Cymro, dyma arolwg sampl o un ar ddeg o rifynnau sydd wedi'u dewis yn fwriadol er mwyn ceisio adlewyrchu amserau penodol ym mlynyddoedd cynnar y papur:

| Rhifyn | Pam dewis y rhifyn hwnnw |
|---|---|
| 03 Rhagfyr 1932 ................ | Y rhifyn cyntaf. |
| 25 Chwefror 1933 ............... | Ar ôl deuddeg rhifyn. |
| 02 Rhagfyr 1933 ................ | Ar ôl blwyddyn. |
| 06 Mehefin 1936 ................ | Unrhyw rifyn 'yng nghanol' cyfnod y Dirwasgiad. |
| 04 Rhagfyr 1937 ................ | Ar ôl pum mlynedd. |
| 02 Medi 1939 ................... | Toriad yr Ail Ryfel Byd. |
| 02 Rhagfyr 1939 ................ | Tri mis ar ôl toriad y Rhyfel. |
| 07 Medi 1940 ................... | Blwyddyn ar ôl toriad y Rhyfel. |
| 07 Mawrth 1942 ................. | Canol y Rhyfel. |
| 09 Chwefror 1945 ............... | Tri mis cyn diwedd y Rhyfel. |
| 11 Mai 1945 .................... | Diwedd y Rhyfel. |

Er, yn naturiol, nad yw sampl mor fach yn rhoi darlun llawn o hysbysebion Y Cymro yn y cyfnod penodol, mae'n rhoi syniad bras o'r math o hysbysebion a ymddangosai ynddo ac fel yr oeddynt yn amrywio yn y gwahanol gyfnodau. Mae'n ddiddorol iawn, er enghraifft, sylwi ar yr hysbysebion yng nghyfnod yr Ail Ryfel Byd, a'r modd yr oeddynt yn gwahaniaethu o'r cyfnod cyn y Rhyfel: nid yn unig y rhai swyddogol gan y Llywodraeth megis hysbysebion

ar gyfer Cynilion Cenedlaethol, ond hefyd yr hysbysebion bwyd, meddyginiaethol ac ati a oedd yn aml yn cyfeirio mewn rhyw fodd at y Rhyfel.

## Allwedd yr arolwg sampl

TUDALEN - Rhif y dudalen.

HYSBYSEBWR - Pa gwmni / cymdeithas etc. sydd wedi gosod yr hysbyseb yn y papur. Mae'r manylion yn cyfeirio at natur y nwydd neu'r gwasanaeth a hefyd yn dweud ym mhle y lleolir yr hysbysebwr os nodir hynny yn yr hysbyseb.

CYM. / PRYD. - A yw'r hysbysebwr yn Gymreig ynteu'n Brydeinig.

CYM. / SAES. - A yw'r hysbyseb drwy gyfrwng y Gymraeg ynteu drwy gyfrwng y Saesneg (neu'n gyfuniad o'r ddau efallai).

FFURF - Pa ffurf yw'r hysbyseb [A. = ARDDANGOS, M. = MÂN, LL.-A. = LLED-ARDDANGOS. Mae * o flaen y llythyren yn dynodi bod rhyw fath o lun yn yr hysbyseb].

MAINT - Maint yr hysbyseb [c = colofn. Mae pob colofn yn 40cm o hyd, ac yr oedd 5 colofn i bob tudalen ym mhob rhifyn hyd at 28 Tachwedd 1942, sef y naw rhifyn cyntaf yn y sampl isod. O 5 Rhagfyr 1942 ymlaen, sef y ddau rifyn olaf yn y sampl, yr oedd 6 cholofn i bob tudalen, hynny oherwydd prinder papur argraffu].

CANRAN (%) - Pa ganran o'r dudalen gyfan y mae'r hysbyseb yn ei chymryd.

FFYNHONNELL - O ba ffynhonnell y daw'r hysbyseb [ASIANT. = yn dynodi bod yr hysbyseb wedi dod trwy un o'r asiantaethau hysbysebu mawr Prydeinig: gellir cymryd bod hysbysebion pob cynnyrch a werthir mewn siopau ar hyd a lled Prydain, megis Persil, Oxo ac Ovaltine fel yr enghreifftiau mwyaf amlwg, yn hysbysebion a ddaeth trwy'r asiantaethau; LLEOL = yn dynodi bod yr hysbyseb wedi dod yn uniongyrchol gan fusnes neu gwmni lleol, Cymreig gan amlaf, ac nid trwy un o'r asiantaethau: un enghraifft o gwmni o'r fath yw Hughes A'i Fab].

MATH - Pa fath o hysbyseb ydyw. Yr wyf wedi dosbarthu'r hysbysebion i 13 o gategorïau, fel a ganlyn:

ADDYSG. - Hysbysebion addysgol, sef hysbysebion mannau addysg e.e. colegau a phrifysgolion.

AMAETH. - Hysbysebion amaethyddol, sef hysbysebion bwydydd anifeiliaid, gwrteithiau, pryfleiddiaid etc. Hefyd yn y categori hwn mae hysbysebion papurau newydd amaethyddol.

ARIAN. - Hysbysebion ariannol, sef hysbysebion banciau, yswiriannau etc.

BWYD. / DIOD. - Hysbysebion bwydydd a diodydd.

| | |
|---|---|
| CEIR / BEICIAU | - Hysbysebion yn nodi bod ceir neu feiciau ar werth. |
| DILL. / DOD. | - Hysbysebion dillad a dodrefn. |
| EW. DA | - Hysbysebion 'ewyllys da', sef hysbysebion gan gwmnïau yn rhifyn cyntaf Y Cymro yn dymuno'n dda i'r papur. |
| LLYFR. / CERDD. | - Hysbysebion llyfrau a hysbysebion cerddoriaeth argraffedig. |
| LLYW. RHYF. | - Hysbysebion gan y llywodraeth adeg yr Ail Ryfel Byd, sef hysbysebion cynilion cenedlaethol, hysbysebion gwybodaeth gan y Weinyddiaeth Fwyd etc. |
| MEDDYG. | - Hysbysebion meddyginiaethol, sef unrhyw hysbysebion tabledi, pils, tonicau etc. |
| P. GOL. / GLANH. | - Hysbysebion powdrau golchi a hysbysebion glanhawyr y cartref e.e. 'Vim'. |
| SEBON. / PAST D. | - Hysbysebion sebonau a phastiau dannedd. Hefyd yn y categori hwn mae hysbysebion coluron. |
| AMRYW. | - Unrhyw hysbysebion amrywiol eraill nad sy'n dod dan un o'r penawdau uchod. |

Yr wyf hefyd wedi gwneud tair is-sampl o'r mân hysbysebion yn Y Cymro, o rifynnau 3 Rhagfyr 1932, 2 Medi 1939 a 11 Mai 1945, ac un is-sampl o hysbysebion 'Bargeinion drwy'r Post' a ymddangosai yn chwe mis cyntaf y papur.

Allwedd yr is-samplau

| | |
|---|---|
| HYSBYSEBWR | - Fel manylion y prif samplau, cyfeirir at natur y nwydd neu'r gwasanaeth, ac ym mhle y lleolir yr hysbysebwr os nodir hynny yn yr hysbyseb. Gyda'r mân hysbysebion rhoddir y manylion dan benawdau, sef yr union benawdau a ddefnyddir yn adran mân hysbysebion Y Cymro. |
| CYM. / PRYD. | - A yw'r hysbysebwr yn Gymreig ynteu'n Brydeinig. |
| CYM. / SAES. | - A yw'r hysbyseb drwy gyfrwng y Gymraeg ynteu drwy gyfrwng y Saesneg (neu'n gyfuniad o'r ddau efallai). |
| FFURF | - Pa ffurf yw'r hysbyseb [A. = ARDDANGOS, M. = MÂN, LL.-A. = LLED-ARDDANGOS. Mae * o flaen y llythyren yn dynodi bod rhyw fath o lun yn yr hysbyseb]. |
| CANRAN | - Pa ganran o'r dudalen gyfan y mae'r hysbyseb yn ei chymryd. Gyda'r mân hysbysebion rhoddir y canrannau ar gyfer blociau o hysbysebion sydd dan benawdau yn hytrach na hysbysebion unigol. |

Rhifyn 3 Rhagfyr 1932

| TUDALEN | HYSBYSEBWR | CYM. / PRYD. | CYM. / SAES. | FFURF | MAINT | CANRAN (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 01 | Coleg y Brifysgol, Bangor | CYM. | CYM. | A. | 1c, 5.0cm | 2.5 |
| 01 | 'Baco'r Aelwyd' - E. Morgan A'i Gwmni, Amlwch | CYM. | CYM. | A. | 1c, 5.0cm | 2.5 |
| 01 | 'Ovaltine' | PRYD. | CYM. | *A. | 2c, 18.0cm | 18.0 |
| 02 | ------------------------------------------------------------ | | | | | |
| 03 | MÂN HYSBYSEBION: GWELER YR IS-SAMPL ISOD | | | | | 65.5 |
| 04 | 'George's Pile And Gravel Pils' - J. E. George M.P.S., Hirwaun, Morgannwg | CYM. | CYM. | A. | 1c, 5.0cm | 2.5 |
| 05 | 'Dr. Weiss Gland Treatment' - A. S. Howard, Romford | PRYD. | CYM. | A. | 1c, 5.0cm | 2.5 |
| 05 | 'Devon 3-Piece Suite' - S. Aston & Son, Ltd. - Canghennau Yng Nghymru A Lloegr | PRYD. | SAES. | *A. | 3c, 9.5cm | 14.0 |
| 06 | Cotiau - Hodges A'i Feibion (Dilladwyr) Cyf. - Canghennau Yng Nghymru | CYM. | CYM. | *A. | 2c, 18.5cm | 18.5 |
| 07 | ------------------------------------------------------------ | | | | | |
| 08 | ------------------------------------------------------------ | | | | | |
| 09 | 'Hughes's Blood Pills'- Jacob Hughes, Manufacturing Chemist, Penarth, Caerdydd | CYM. | SAES. | *A. | 2c, 10.0cm | 10.0 |
| 10 | Cerrig Ffyrdd 'Granomac' - Granomac House, Llansantffraid Glyn Ceiriog, Wrecsam | CYM. | CYM. | A. | 1c, 10.0cm | 5.0 |
| 10 | Triniaeth Asthma - Asthma Laboratories, Aberystwyth | CYM. | SAES. | A. | 1c, 6.0cm | 3.0 |
| 10 | Planhigion 'The Golden Lily Of Peru' - Shorthouse, Hampton, Middlesex | PRYD. | SAES. | A. | 1c, 2.5cm | 1.0 |
| 10 | Cerddoriaeth 'Deep Harmony' - Joshua Duckworth Ltd., Colne, Swydd Gaerhirfryn | PRYD. | SAES. | A. | 1c, 2.5cm | 1.0 |
| 11 | BARGEINION DRWY'R POST: GWELER YR IS-SAMPL ISOD | | | | | |

| FFYNHONNELL | MATH |
| --- | --- |
| LL. | ADDYSG. |
| LL. | AMRYW. |
| A. | BWYD. / DIOD. |

-----------------------------

| | |
| --- | --- |
| LL. | MEDDYG. |
| A. | MEDDYG. |
| A. | DILL. / DOD. |
| A. | DILL. / DOD. |

-----------------------------

-----------------------------

| | |
| --- | --- |
| A. | MEDDYG. |
| A | AMRYW. |
| A. | MEDDYG. |
| A. | AMRYW. |
| A. | LLYFR. / CERDD. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 12 | ------------------------------------------------------------------ | | | | | |
| 13 | ------------------------------------------------------------------ | | | | | |
| 14 | Hancesi - Robinson's & Cleaver's, Lerpwl | PRYD. | SAES. | *A. | 2c, 23.5cm | 23.5 |
| 15 | National Provincial Bank Ltd., Llundain | PRYD. | CYM. | A. | 1c, 15.0cm | 7.5 |
| 15 | Diodydd 'Corona' - Thomas & Evans Ltd. - Canghennau Yng Nghymru A Lloegr | PRYD. | SAES. | *A. | 3c, 14.5cm | 22.0 |
| 16 | Cyflenwyr Blociau Papur Newydd (a ddefnyddiwyd gan Y Cymro), Camerâu, Lampiau, etc. - Hunter Penrose Ltd., Llundain | PRYD. | SAES. | A. | 1c, 10.0cm | 5.0 |
| 16 | Papur Papur Newydd (Newsprint) - Hunter Penrose Ltd., Llundain | PRYD. | SAES. | A. | 1c, 12.0cm | 6.0 |
| 17 | ------------------------------------------------------------------ | | | | | |
| 18 | ------------------------------------------------------------------ | | | | | |
| 19 | Nwyddau Amrywiol - H. C. Smith, Ltd., Warehousemen, Birmingham | PRYD. | CYM. | A. | 1c, 2.5cm | 1.0 |
| 19 | Llafnau Rasel - The Joyboy Razor Co., Ltd., Llundain | PRYD. | SAES. | *A. | 1c, 12.0cm | 6.0 |
| 19 | Inc Papur Newydd - Parsons, Fletcher & Co. Ltd., Llundain | PRYD. | SAES. | A. | 2c, 7.5cm | 7.5 |
| 20 | Trydanwyr (defnyddiwyd gan Y Cymro i drydanu eu gwasg argraffu) - C. A. Newton & Co., Derby | PRYD. | SAES. | A. | 2c, 7.5cm | 7.5 |
| 20 | Metel Printio 'Fryotype' (a ddefnyddiwyd gan Y Cymro) - Fry's Metal Foundries, Ltd., Llundain | PRYD. | SAES. | A. | 2c, 12.5cm | 12.5 |
| 20 | Papur Papur Newydd (Newsprint) (a ddefnyddiwyd gan Y Cymro) - Peter Dixon & Son, Ltd., Llundain | PRYD. | SAES. | A. | 3c, 12.5cm | 19.0 |
| 20 | Llyfr 'Who's Who In Wales' - A. G. Reynolds & Co., Ltd., Llundain | PRYD. | SAES. | A. | 1c, 3.5cm | 2.0 |
| 21 | Llyfryn 'Music Made Easy' - | PRYD. | CYM. A | A. | 1c, 7.5cm | 4.0 |

----------------------------

----------------------------

| | |
|---|---|
| A. | DILL. / DOD. |
| A. | ARIAN. |
| A. | BWYD. / DIOD. |
| A. | EW. DA |
| A. | EW. DA |

----------------------------

----------------------------

| | |
|---|---|
| A. | AMRYW. |
| A. | AMRYW. |
| A. | EW. DA |
| A. | EW. DA |
| A. | EW. DA |
| A. | EW. DA |
| A. | LLYFR. / CERDD. |
| A. | LLYFR. / |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Rev. W. Hughes, Westbury, Wiltshire | | SAES. | | | | |
| 21 | Llyfrau Cymraeg - Morgan a Higgs, Abertawe a Llanelli | CYM. | CYM. | A. | 1c, | 10.0cm | 5.0 |
| 22 | ------------------------------------------------------------------- | | | | | | |
| 23 | ------------------------------------------------------------------- | | | | | | |
| 24 | Llyfrau - The Welsh Book Co., Lerpwl | PRYD. | CYM. A SAES. | A. | 1c, | 3.5cm | 2.0 |
| 24 | Sbectolau - Bonner Morgan Ltd., Caerdydd | CYM. | CYM. | A. | 1c, | 3.5cm | 2.0 |
| 24 | 'Oxo' | PRYD. | CYM. | *A. | 2c, | 27.5cm | 27.5 |

| | |
|---|---|
| | CERDD. |
| LL. | LLYFR. / CERDD. |

-----------------------------

-----------------------------

| | |
|---|---|
| LL. | LLYFR. / CERDD. |
| LL. | AMRYW. |
| A. | BWYD. / DIOD. |

## Is-sampl: Mân hysbysebion

| HYSBYSEBWR | CYM. / PRYD. | CYM. / SAES. | FFURF | CANRAN (%) |
|---|---|---|---|---|
| ADDYSGOL | | | | 12.0 |
| 1. Coleg Prifathrofaol Deheudir Cymru a Mynwy, Caerdydd | CYM. | CYM. | LL.-A. | |
| 2. Coleg Prifathrofaol Abertawe | CYM. | CYM. | LL.-A. | |
| 3. Coleg Crefft a Chelfyddyd, Wrecsam | CYM. | CYM. | LL.-A. | |
| EISTEDDFODAU | | | | 6.5 |
| 1. Eisteddfod Gadair Môn, Porthaethwy, Meh. 15 a 16, 1933 | CYM. | CYM. | LL.-A. | |
| 2. Eisteddfod Talaith Powys, Llanfyllin, Meh. 16 a 17, 1933 | CYM. | CYM. | LL.-A. | |
| 3. Eisteddfod y Sarn, Pwllheli, Rhag. 26, 1933 | CYM. | CYM. | LL.-A. | |
| HYFFORDDIANT MEWN CERDDORIAETH, etc. | | | | 3.0 |
| 1. John Williams, Bangor | CYM | CYM. | LL.-A. | |
| 2. J. Owen Jones, Wrecsam | CYM. | CYM. | LL.-A. | |
| 3. Rhiannon James, Abertawe | CYM. | SAES. | LL.-A. | |
| SWYDDI GWAG | | | | 5.0 |
| 1. Cogyddesau / Morynion etc. yn eisiau - Russells Registry, Wrecsam | CYM. | CYM. | M. | |
| 2. Llyfr 'John Noble's Want Organisers Of Weekly Clubs' - John Noble, Ltd., Manceinion | PRYD. | SAES. | M. | |
| 3. Asiantau te yn eisiau - Tea Exchange, Caerdydd | CYM. | SAES. | M. | |
| 4. Clerc yn eisiau - Bocs 100, Swyddfa'r 'Cymro', Wrecsam | CYM. | SAES. | M. | |
| TAI A THIROEDD AR WERTH | | | | 2.0 |
| 1. Tŷ sylweddol - Arthur James, Cyfreithiwr, Abertawe | CYM. | SAES. | M. | |
| LLETYAU GLAN Y MÔR, YSTAFELLOEDD, etc. | | | | 1.5 |
| 1. Llety yn Clacton-On-Sea | PRYD. | SAES. | M. | |

| LLÊN, LLYFRAU, etc. | | | | 2.5 |
|---|---|---|---|---|
| 1. Gwaith gan awduron yn eisiau - Stockwell, Ltd., Llundain | PRYD. | SAES. | M. | |
| 2. Gwerthwyr llyfrau - T. French Downie, Llundain | PRYD. | SAES. | M. | |
| 3. Gwerthwyr a phrynwyr llyfrau - Cymric Book Stores, Rhuthun | CYM. | SAES. | M. | |

| CEIR MODUR, BEISICLAU, etc. | | | | 2.0 |
|---|---|---|---|---|
| 1. Atgyweiriwyr a gwerthwyr offer - Taylors, Lerpwl | PRYD. | SAES. | M. | |
| 2. Gwerthwyr yswiriant a beiciau modur - Broceriaid, Southend | PRYD. | SAES. | M. | |

| AMRYWIOL | | | | 10.5 |
|---|---|---|---|---|
| 1. Clustogau - W. J. Gibbs, Clacton-On-Sea | PRYD. | SAES. | M. | |
| 2. Teisennau priodas - R. Bolland & Sons, Caer | PRYD. | SAES. | M. | |
| 3. Gwneuthurwyr sglodion tatws - Morgan, Lerpwl | PRYD. | SAES. | M. | |
| 4. Tlws penblwydd - 'Minden', Southport | PRYD. | SAES. | M. | |
| 5. Breichledau / Oriorau - Brook and Co., Wakefield, Swydd Efrog | PRYD. | SAES. | M. | |
| 6. Broetshis - Chiddingford, Surrey | PRYD. | SAES. | M. | |
| 7. Ffa neidio - F. Shearing & Co. - Llundain | PRYD. | SAES. | M. | |
| 8. Blancedi - Cook's, Leeds | PRYD. | SAES. | M. | |
| 9. Gwerthwyr 'overalls' yn eisiau - Maguire, Manceinion | PRYD. | SAES. | M. | |
| 10. Amlenni offrwm - Parkers Printing Works, St. Ives, Huntshire | PRYD. | SAES. | M. | |
| 11. Hancesi - Harry Maxwell, Lurgan, Gogledd Iwerddon | PRYD. | SAES. | M. | |
| 12. Plu hwyaid / gwyddau / ieir yn eisiau - Witton and Co., Birmingham | PRYD. | CYM. | M. | |

| OFFERYNNAU CERDD, CERDDORIAETH, etc. | | | | 3.0 |
|---|---|---|---|---|
| 1. Cerddoriaeth - W. J. Gibbs, Clacton-On-Sea | PRYD. | SAES. | M. | |
| 2. Cerddoriaeth - W. J. Gibbs, Clacton-On-Sea | PRYD. | SAES. | M. | |
| 3. Addysg ar gyfer arholiad - Dewi Williams, Aberystwyth | CYM. | CYM. | M. | |

| PEIRIANNAU, OFFER, etc. | | | | 5.0 |
|---|---|---|---|---|
| 1. Llif peirianyddol - Canadian Importers, Ltd., Bryste | PRYD. | SAES. | *LL.-A. | |
| 2. Weiren ar gyfer yr ardd - Greens Government Stores, Lytham | PRYD. | SAES. | M. | |
| 3. Ysgolion estyn - Metcalfe, Lamb & Co., Hartlepool | PRYD. | SAES. | LL.-A. | |

| MEDDYGOL | | | | 8.0 |
|---|---|---|---|---|
| 1. Pils rhwymedd - Mar-velle Chemical Company, Lerpwl | PRYD. | SAES. | M. | |
| 2. 'Davies's Cough Mixture' - Meistri Hugh Davies a'i Gwmni, Machynlleth | CYM. | CYM. | LL.-A. | |
| 3. Triniaeth ar gyfer epilepsi - J. Redfern, Ltd., Lerpwl | PRYD. | CYM. | LL.-A. | |

| DI-BENNAWD | | | | 3.5 (2.0+1.5) |
|---|---|---|---|---|
| 1. Polisïau Ceir - Invincible Policies Ltd., Caerdydd | CYM. | CYM. A SAES. | LL.-A. | |
| 2. Oriorau - P. Bradman & Co., Doncaster | PRYD. | SAES. | LL.-A. | |

Is-sampl: Bargeinion drwy'r post

| HYSBYSEBWR | CYM. / PRYD. | CYM. / SAES. | FFURF | CANRAN (%) |
|---|---|---|---|---|
| 1. Esgidiau - Lamdin's, Woking, Surrey | PRYD. | SAES. | *A. | 3.5 |
| 2. Argraffwyr - The Epwum Service, West Norwood | PRYD. | SAES. | A. | 2.5 |
| 3. Bateris traed - Johns & Co. - Llundain | PRYD. | SAES. | *A. | 2.5 |
| 4. Goleuwyr tân - Candida Co., Huddersfield | PRYD. | SAES. | *A. | 2.5 |
| 5. Conau tân - W. H. Conquest, Llundain | PRYD. | SAES. | *A. | 3.0 |
| 6. Tlws 'lwcus' - Imperial Trading Co., Llundain | PRYD. | SAES. | *A. | 3.0 |
| 7. Siwmperi - North British Mail Services, Prescot, Swydd Gaerhirfryn | PRYD. | SAES. | A. | 2.5 |
| 8. 'Joan the Wad' i ddod â 'lwc' - Joan's Cottage, Looe, Cernyw | PRYD. | SAES. | *A. | 3.0 |
| 9. Cymorth i glywed - Dent, Caerdydd | CYM. | SAES. | A. | 3.0 |
| 10. Defnyddiau - Casement Mfg. Co., Manceinion | PRYD. | SAES. | *A. | 2.5 |
| 11. Cit pynctsiar - Ostrich Puncture Proof, Llundain | PRYD. | SAES. | A. | 2.5 |
| 12. Miniwr llafnau rasel - Lavrou Trading Co., Hull | PRYD. | SAES. | *A. | 2.5 |
| 13. Bag llaw / siopa - J. Cowens & Co., Ltd., Newcastle-On-Tyne | PRYD. | SAES. | A. | 2.5 |
| 14. Gorchuddwyr llawr - A. Y. Hall & Co., Llundain | PRYD. | SAES. | *A. | 3.0 |
| 15. Clociau - K. P. Clock Co., Llundain | PRYD. | SAES. | *A. | 3.0 |
| 16. Gwneuthurwyr matiau yn eisiau - Arnolds Ltd., Wellingborough | PRYD. | SAES. | *A. | 2.5 |
| 17. Hosanau sidan - C. D. Jones & Sons, Wrecsam | CYM. | CYM. A SAES. | *A. | 2.5 |
| 18. Llyfryn ar berlysiau - H. Darwent, Wrecsam | CYM. | SAES. | A. | 2.5 |
| 19. Esgidiau - W. E. Miller & Co., Llundain | PRYD. | CYM. | *A. | 3.0 |
| 20. Capiau gwallt - Nu-Wa Co., Llundain | PRYD. | SAES. | *A. | 2.5 |
| 21. Cotiau Glaw - Wright's Corner, Wrecsam | CYM. | CYM. A SAES. | A. | 2.5 |
| 22. Bwrdd a sil lyfrau - Whitefields Utilities Co., Southport | PRYD. | SAES. | *A. | 3.0 |
| 23. Piliwr tatws - Vitreous Enamelling Works, Llundain | PRYD. | SAES. | *A. | 2.5 |
| 24. Dawnswyr magnetig - | PRYD. | SAES. | *A. | 3.0 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Hastings Patents Co., Llundain | | | | |
| 25. Esgidiau glaw - Lamdins, Woking, Surrey | PRYD. | SAES. | *A. | 3.0 |
| 26. Stensiliau metel - Tucker-Martin & Co., Llundain | PRYD. | SAES. | *A. | 2.5 |
| 27. Swît ddodrefn - Welsh Comforts Ltd., Caerdydd | CYM. | CYM. | *A. | 2.5 |
| 28. Esgidiau gardd - C. Aitchs, Llundain | PRYD. | SAES. | *A. | 3.0 |
| 29. Coed rhosod - Ragworth Nurseries, Ltd., Stockton-On-Tees | PRYD. | SAES. | A. | 2.5 |
| 30. Llyfr Mawr y Plant - Hughes a'i Fab, Wrecsam | CYM. | CYM. | A. | 3.5 |
| 31. Pelenni llyngyr defaid - L. Rowland & Co., Wrecsam | CYM. | CYM. | A. | 2.5 |

Dadansoddiad o rifyn 3 Rhagfyr 1932

| TUDALEN | CANRAN (%) |
|---|---|
| 01 | 23.0 |
| 02 | - |
| 03 | 65.5 |
| 04 | 2.5 |
| 05 | 16.5 |
| 06 | 18.5 |
| 07 | - |
| 08 | - |
| 09 | 10.0 |
| 10 | 10.0 |
| 11 | 100.0 |
| 12 | - |
| 13 | - |
| 14 | 23.5 |
| 15 | 29.5 |
| 16 | 11.0 |
| 17 | - |
| 18 | - |
| 19 | 14.5 |
| 20 | 41.0 |
| 21 | 9.0 |
| 22 | - |
| 23 | - |
| 24 | 31.5 |
| CYFARTALEDD | 17.0 |

| | |
|---|---|
| ADDYSGOL | 1 |
| AMAETHYDDOL | - |
| ARIANNOL | 1 |
| BWYDYDD / DIODYDD | 3 |
| CEIR / BEICIAU | - |
| DILLAD / DODREFN | 3 |
| EWYLLYS DA | 6 |
| LLYFRAU / CERDDORIAETH | 5 |
| LLYWODRAETH ADEG Y RHYFEL | - |
| MEDDYGINIAETHOL | 4 |
| POWDRAU GOLCHI / GLANHAWYR | - |
| SEBONAU / PASTIAU DANNEDD | - |
| AMRYWIOL | 6 |

| | |
|---|---|
| NIFER O DUDALENNAU | 24 |
| NIFER O HYSBYSEBION | 29 |
| CYFARTALEDD HYSBYSEBION I BOB TUDALEN | 1.2 |
| CANRAN SY'N HYSBYSEBION | 17.0 |
| CYMREIG / PRYDEINIG | 9 / 20 |
| CYMRAEG / SAESNEG | 13 / 16 |
| LLEOL / ASIANTAETHAU | 6 / 23 |

Rhifyn 25 Chwefror 1933

| TUDALEN | HYSBYSEBWR | CYM. / PRYD. | CYM. / SAES. | FFURF | MAINT | CANRAN (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 01 | Coleg y Brifysgol, Bangor | CYM. | CYM. | A. | 1c, 5.0cm | 2.5 |
| 01 | 'Baco'r Aelwyd' - E. Morgan A'i Gwmni, Amlwch | CYM. | CYM. | A. | 1c, 5.0cm | 2.5 |
| 02 | Llyfr 'Caneuon Y Cymry' - Hughes A'i Fab, Wrecsam | CYM. | CYM. | A. | 2c, 9.5cm | 9.5 |
| 03 | MÂN HYSBYSEBION | | | | | 63.0 |
| 03 | Baco 'Gwalia' / 'Cymro' / 'Cambrian' - E. M. Hughes A'i Gyf., Amlwch | CYM. | CYM. | A. | 1c, 10.5cm | 5.5 |
| 03 | 'Byddwch Yn Dalach!' - L. G. Ross, Height Specialist, Scarborough | PRYD. | CYM. + SAES. | *A. | 1c, 3.0cm | 1.5 |
| 03 | Cystadleuaeth Limerig - The Towy Valley Dairy Co., Caerfyrddin | CYM. | CYM. + SAES. | A. | 1c, 20.0cm | 10.0 |
| 03 | Ffisig annwyd 'Tudor Williams Balsam & Honey' | PRYD. | CYM. + SAES. | A. | 1c, 10.0cm | 5.0 |
| 04 | ------------------------------------ | | | | | |
| 05 | BARGEINION DRWY'R POST | | | | | 42.5 |
| 06 | ------------------------------------ | | | | | |
| 07 | ------------------------------------ | | | | | |
| 08 | ------------------------------------ | | | | | |
| 09 | Diodydd 'Corona' - Thomas & Evans Ltd. - Canghennau Yng Nghymru A Lloegr | PRYD. | SAES. | *A. | 3c, 18.5cm | 28.0 |
| 10 | ------------------------------------ | | | | | |
| 11 | 'George's Pile And Gravel Pils' - 'Ar Werth Gan Bob Fferyllydd' | PRYD. | CYM. | A. | 1c, 6.0cm | 3.0 |
| 12 | ------------------------------------ | | | | | |
| 13 | ------------------------------------ | | | | | |
| 14 | ------------------------------------ | | | | | |
| 15 | ------------------------------------ | | | | | |

| FFYNHONNELL | MATH |
|---|---|
| LL. | ADDYSG. |
| LL. | AMRYW. |
| LL. | LLYFR. / CERDD. |
| LL. | AMRYW. |
| A. | AMRYW. |
| LL. | AMRYW. |
| A. | MEDDYG. |
| ------------------------------ | |
| ------------------------------ | |
| ------------------------------ | |
| ------------------------------ | |
| A. | BWYD. / DIOD. |
| ------------------------------ | |
| A. | MEDDYG. |
| ------------------------------ | |
| ------------------------------ | |
| ------------------------------ | |
| ------------------------------ | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 16 | Llyfrau Newydd - Hughes A'i Fab, Wrecsam | CYM. | CYM. | A. | 3c, | 16.5cm | 25.0 |
| 17 | ------------------------------------------------------------------ | | | | | | |
| 18 | 'Davies's Cough Mixture' - Davies Machynlleth | CYM. | CYM. | A. | 1c, | 5.0cm | 2.5 |
| 19 | 'Armitage's Dry Chick Foods' - Armitage Bros. Ltd., Colwick, yn ymyl Nottingham | PRYD. | SAES. | *A. | 1c, | 5.0cm | 2.5 |
| 19 | Gwenwyn Tyrchod 'Molrat' - Hugh Davies & Co., Machynlleth | CYM. | CYM. | A. | 1c, | 5.5cm | 3.0 |
| 20 | Rhoddion 'Oxo' (ar ôl casglu amlenni) | PRYD. | CYM. | A. | 2c, | 17.5cm | 17.5 |

| | |
|---|---|
| LL. | LLYFR. / CERDD. |

-----------------------------

| | |
|---|---|
| LL. | MEDDYG. |
| A. | AMAETH. |
| LL. | AMAETH. |
| A. | BWYD. / DIOD. |

## Dadansoddiad o rifyn 25 Chwefror 1933

| TUDALEN | CANRAN |
|---|---|
| 01 | 5.0 |
| 02 | 9.5 |
| 03 | 85.0 |
| 04 | - |
| 05 | 42.5 |
| 06 | - |
| 07 | - |
| 08 | - |
| 09 | 28.0 |
| 10 | - |
| 11 | 3.0 |
| 12 | - |
| 13 | - |
| 14 | - |
| 15 | - |
| 16 | 25.0 |
| 17 | - |
| 18 | 2.5 |
| 19 | 5.5 |
| 20 | 17.5 |
| CYFARTALEDD | 11.0 |

| | |
|---|---|
| ADDYSGOL | 1 |
| AMAETHYDDOL | 2 |
| ARIANNOL | - |
| BWYDYDD / DIODYDD | 2 |
| CEIR / BEICIAU | - |
| DILLAD / DODREFN | - |
| EWYLLYS DA | - |
| LLYFRAU / CERDDORIAETH | 2 |
| LLYWODRAETH ADEG Y RHYFEL | - |
| MEDDYGINIAETHOL | 3 |
| POWDRAU GOLCHI / GLANHAWYR | - |
| SEBONAU / PASTIAU DANNEDD | - |
| AMRYWIOL | 4 |

| | |
|---|---|
| NIFER O DUDALENNAU | 20 |
| NIFER O HYSBYSEBION | 14 |
| CYFARTALEDD HYSBYSEBION I BOB TUDALEN | 0.7 |
| CANRAN SY'N HYSBYSEBION | 11.0 |
| CYMREIG / | 8 |
| PRYDEINIG | 6 |
| CYMRAEG / | 10½ |
| SAESNEG | 3½ |
| LLEOL / | 8 |
| ASIANTAETHAU | 6 |

Rhifyn 2 Rhagfyr 1933

| TUDALEN | HYSBYSEBWR | CYM. / PRYD. | CYM. / SAES. | FFURF | MAINT | CANRAN (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 01 | 'Baco'r Aelwyd' - E. Morgan A'i Gwmni, Amlwch | CYM. | CYM. | A. | 1c, 5.0cm | 2.5 |
| 01 | 'Ovaltine' | PRYD. | CYM. | *A. | 2c, 20.0cm | 20.0 |
| 02 | 'Morris Evans' Household Oil' - Morris Evans A'i Gwmni, Ffestiniog | CYM. | CYM. | *A. | 1c, 17.5cm | 9.0 |
| 03 | MÂN HYSBYSEBION | | | | | 51.0 |
| 03 | Dillad Ail-Law - N. Gordon, Blackburn, Swydd Gaerhirfryn | PRYD. | CYM. | A. | 2c, 6.0cm | 6.0 |
| 04 | ------------------------------ | | | | | |
| 05 | ------------------------------ | | | | | |
| 06 | ------------------------------ | | | | | |
| 07 | 'Oxo' | PRYD. | SAES. | *A. | 3c, 12.0cm | 18.0 |
| 08 | ------------------------------ | | | | | |
| 09 | ------------------------------ | | | | | |
| 10 | ------------------------------ | | | | | |
| 11 | ------------------------------ | | | | | |
| 12 | Cerddoriaeth newydd - Hughes A'i Fab, Wrecsam | CYM. | CYM. + SAES. | A. | 2c, 17.0cm | 17.0 |
| 13 | 'Geiriadur Charles' (Y Geiriadur Ysgrythyrol)- Hughes A'i Fab, Wrecsam | CYM. | CYM. | A. | 2c, 17.0cm | 17.0 |
| 14 | ------------------------------ | | | | | |
| 15 | 'George's Pile And Gravel Pils' - J. E. George, M.P.S., Hirwaun, Morgannwg | CYM. | CYM. | A. | 1c, 5.0cm | 2.5 |
| 16 | Baco 'Archer's Golden Returns' | PRYD. | CYM. | A. | 2c, 2.5cm | 2.5 |
| 16 | Midland Bank Ltd. - Llundain | PRYD. | CYM. | A. | 2c, 13.5cm | 13.5 |

| FFYNHONNELL | MATH |
|---|---|
| LL. | AMRYW. |
| A. | BWYD. / DIOD. |
| A. | MEDDYG. |
| A. | DILL. / DOD. |

-----------------------------

-----------------------------

-----------------------------

| | |
|---|---|
| A. | BWYD. / DIOD. |

-----------------------------

-----------------------------

-----------------------------

-----------------------------

| | |
|---|---|
| LL. | LLYFR. / CERDD. |
| LL. | LLYFR. / CERDD. |

-----------------------------

| | |
|---|---|
| A. | MEDDYG. |
| A. | AMRYW. |
| A. | ARIAN. |

Dadansoddiad o rifyn 2 Rhagfyr 1933

| TUDALEN | CANRAN |
|---|---|
| 01 | 22.5 |
| 02 | 9.0 |
| 03 | 57.0 |
| 04 | - |
| 05 | - |
| 06 | - |
| 07 | 18.0 |
| 08 | - |
| 09 | - |
| 10 | - |
| 11 | - |
| 12 | 17.0 |
| 13 | 17.0 |
| 14 | - |
| 15 | 2.5 |
| 16 | 16.0 |
| CYFARTALEDD | 10.0 |

| | |
|---|---|
| ADDYSGOL | - |
| AMAETHYDDOL | - |
| ARIANNOL | 1 |
| BWYDYDD / DIODYDD | 2 |
| CEIR / BEICIAU | - |
| DILLAD / DODREFN | 1 |
| EWYLLYS DA | - |
| LLYFRAU / CERDDORIAETH | 2 |
| LLYWODRAETH ADEG Y RHYFEL | - |
| MEDDYGINIAETHOL | 2 |
| POWDRAU GOLCHI / GLANHAWYR | - |
| SEBONAU / PASTIAU DANNEDD | - |
| AMRYWIOL | 2 |

| | |
|---|---|
| NIFER O DUDALENNAU | 16 |
| NIFER O HYSBYSEBION | 10 |
| CYFARTALEDD HYSBYSEBION I BOB TUDALEN | 0.6 |
| CANRAN SY'N HYSBYSEBION | 10.0 |
| CYMREIG / | 5 |
| PRYDEINIG | 5 |
| CYMRAEG / | 8½ |
| SAESNEG | 1½ |
| LLEOL / | 3 |
| ASIANTAETHAU | 7 |

Rhifyn 6 Mehefin 1936

| TUDALEN | HYSBYSEBWR | CYM. / PRYD. | CYM. / SAES. | FFURF | MAINT | CANRAN (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 01 | Rhestr Testunau Eisteddfod Genedlaethol Yr Urdd, Gwauncaegurwen, Mai 1937 - Hughes A'i Fab, Wrecsam | CYM. | CYM. | A. | 1c, 5.0cm | 2.5 |
| 01 | Llyfr 'Crwydro'r Cyfandir' - Hughes a'i Fab, Wrecsam | CYM. | CYM. | A. | 1c, 5.0cm | 2.5 |
| 01 | 'Sunlight Soap' - Lever Brothers | PRYD. | SAES. | *A. | 2c, 26.0cm | 26.0 |
| 02 | Cerddoriaeth - Crane £ Sons, Ltd., Wrecsam | CYM. | CYM. | A. | 1c, 20.5cm | 10.0 |
| 03 | MÂN HYSBYSEBION | | | | | 39.0 |
| 03 | Rhan-ganau i leisiau meibion - Hughes A'i Fab, Wrecsam | CYM. | CYM. + SAES. | A. | 2c, 17.5cm | 17.5 |
Diddorol eithriadol yw edrych ar y mathau o hysbysebion a geir yn Y Cymro ac mae tabl 2 isod yn nodi cyfansymiau niferoedd pob math o hysbyseb yn y sampl a'u canrannau o gyfanswm y sampl

cyfan, a hefyd yn nodi at bwy yr anelwyd yr hysbysebion. Mae'n rhaid cofio ein bod yn sôn yma am flynyddoedd y 1930au a hanner cyntaf y 1940au ac nad oedd y wraig bryd hynny wedi ennill ei lle cyfartal yn y gweithlu: y patrwm cyffredinol oedd mai'r gŵr a âi allan i ennill bara menyn y teulu tra mai'r wraig a arhosai yn y tŷ i ofalu am y plant a'r cartref. O'r herwydd, yr wyf wedi cymryd bod hysbysebion yn ymwneud â bwydydd a diodydd, dillad a dodrefn, sebonau, powdrau golchi ac ati wedi'u hanelu ar gyfer gwraig y tŷ. Yr wyf wedi cymryd bod unrhyw fath o hysbyseb nas anelwyd yn benodol at garfan arbennig o ddarllenwyr wedi'i anelu at 'y cyhoedd' yn gyffredinol:

Tabl 2: Cyfansymiau niferoedd pob math o hysbyseb a'u canrannau o gyfanswm y sampl cyfan, ac at bwy yr anelwyd y gwahanol fathau

( CYFANSWM NIFER YR HYSBYSEBION YN Y SAMPL CYFAN: 275 )

| MATH O HYSBYSEB | AT BWY YR ANELWYD YR HYSBYSEB | CYFANSWM NIFER YR HYSBYSEBION | CANRAN O GYFANSWM Y SAMPL CYFAN |
|---|---|---|---|
| ADDYSGOL | Y CYHOEDD | 2 | 1.0 |
| AMAETHYDDOL | YR AMAETHWR | 23 | 8.5 |
| ARIANNOL | Y CYHOEDD | 10 | 3.5 |
| BWYDYDD / DIODYDD | GWRAIG Y TŶ | 33 | 12.0 |
| CEIR / BEICIAU | Y CYHOEDD | 2 | 1.0 |
| DILLAD / DODREFN | GWRAIG Y TŶ | 6 | 2.0 |
| EWYLLYS DA | Y CYHOEDD | 6 | 2.0 |
| LLYFRAU / CERDDORIAETH | LLÊN-GARWYR A CHERDDORION / CANTORION | 33 | 12.0 |
| LLYWODRAETH ADEG Y RHYFEL | Y CYHOEDD | 13 | 4.5 |
| MEDDYGINIAETHOL | Y CLAF DIGLEFYD | 87 | 31.5 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| POWDRAU GOLCHI / GLANHAWYR | GWRAIG Y TŶ | 3 | 1.0 |
| SEBONAU / PAST DANNEDD | GWRAIG Y TŶ | 20 | 7.5 |
| AMRYWIOL | Y CYHOEDD | 37 | 13.5 |

O ychwanegu'r cyfansymiau a'r canrannau hyn at ei gilydd ceir y tabl canlynol:

Tabl 3: Cyfansymiau niferoedd y categorïau 'At bwy yr anelwyd yr hysbyseb' a'u canrannau o gyfanswm y sampl cyfan

| AT BWY YR ANELWYD YR HYSBYSEB | CYFANSWM NIFER YR HYSBYSEBION | CANRAN O GYFANSWM Y SAMPL CYFAN |
|---|---|---|
| Y CYHOEDD | 70 | 25.5 |
| YR AMAETHWR | 23 | 8.5 |
| GWRAIG Y TŶ | 62 | 22.5 |
| LLÊN-GARWYR A CHERDDORION / CANTORION | 33 | 12.0 |
| Y CLAF DIGLEFYD | 87 | 31.5 |

O edrych ar dabl 2 yn gyntaf gwelir bod canran uchel iawn o'r hysbysebion, 31.5%, sef bron i draean o holl hysbysebion y sampl, yn 'feddyginiaethol' eu natur, canran sy'n sylweddol uwch nag unrhyw fath arall o hysbyseb. Yr wyf yn fwriadol yn rhoi'r gair mewn dyfynodau gan bod llawer o'r hysbysebion hyn yn ymdebygu i'r hysbysebion 'cwac' cynnar ac yn mynd o'u ffordd yn fwriadol, gyda geirio clyfar a thechnegau eraill, i geisio argyhoeddi pobl eu bod yn dioddef o bob math o afiechydon ac anhwylderau. Am yr union reswm hwn hefyd fe ddywedaf bod yr hysbysebion hyn yn cael eu hanelu at y cleifion diglefyd, yr 'hypochondriacs', gan y byddai pobl o'r fath sy'n poeni am eu hiechyd yn barhaus yn debygol o gredu unrhyw gelwyddau ynglŷn â 'meddyginiaethau' a fyddai yn eu 'gwella'!

Gwelir bod hysbysebion bwydydd a diodydd, fel y byddid yn disgwyl, yn ymddangos yn gyffredin iawn ac â chanran uchel, 12.0%, o'r sampl, ond mae hysbysebion llyfrau a cherddoriaeth hefyd â chanran yr un mor uchel ac mae hyn yn bennaf oherwydd bod Hughes a'i Fab yn hysbysebu mor helaeth yn Y Cymro. Nid yw'n syndod ychwaith bod hysbysebion sebonau a phastiau dannedd yn gwneud 7.5% o'r sampl, ond diddorol iawn yw nodi bod canran yr hysbysebion amaethyddol yn y papur yn 8.5%, ffigwr uchel tu hwnt sy'n adlewyrchu natur gymdeithasol cynulleidfa'r papur. Mae'n werth nodi hefyd bod hysbysebion y llywodraeth yn amlwg iawn yn Y Cymro yn ystod blynyddoedd yr Ail Ryfel Byd, gyda ffigwr o 4.5% ar gyfer yr holl sampl: o gymryd ffigwr ar gyfer y rhifynnau yn y sampl ym mlynyddoedd y Rhyfel yn unig, gwelir bod 13 o hysbysebion allan o gyfanswm o 173, sef 7.5% ohonynt, yn hysbysebion gan y llywodraeth. Diddorol yw nodi yma bod Y Cymro, unwaith y torrodd y Rhyfel, yn llwyr gefnogi safiad milwrol y llywodraeth; yr oedd Y Faner, ar y llaw arall, er yn derbyn cryn dipyn o hysbysebion y llywodraeth yn ystod y Rhyfel, yn lladd ar bolisïau Churchill o wythnos i wythnos!

Mae tabl 3 yr un mor ddiddorol ac unwaith eto'n pwysleisio mor amlwg yw'r hysbysebion 'meddyginiaethol' a anelwyd at y cleifion diglefyd. Sylwer bod y ffigwr o 31.5% yn uwch hyd yn oed na chyfanswm y canrannau ar gyfer yr holl fathau o hysbysebion a anelwyd at y cyhoedd yn gyffredinol, 25.5%, sef y mathau hynny o hysbysebion nas anelwyd at ddarllenwyr penodol. O ychwanegu cyfansymiau canrannau'r holl fathau o hysbysebion a anelwyd yn benodol at wraig y tŷ fe geir ffigwr uchel iawn o 22.5%, sef bron chwarter yr holl hysbysebion: mae hyn yn cydfynd â phatrwm y wasg yn gyffredinol oedd yn derbyn llawer iawn o hysbysebion bwydydd, sebonau, powdrau golchi ac ati gan yr asiantaethau mawr.

Un peth eithriadol o ddiddorol yw dychwelyd at Dabl 1 a sylwi ar batrwm niferoedd yr hysbysebion 'meddyginiaethol' o rifynnau'r gwahanol flynyddoedd. Yn gyntaf, sylwer ar y mathau eraill o hysbysebion sydd yn y sampl a gwelir nad yw niferoedd yr un ohonynt yn newid yn ddramatig yn rhifynnau'r gwahanol flynyddoedd. Ond o edrych ar y golofn 'MEDDYGINIAETHOL' gwelir bod rhyw 2 - 5 hysbyseb o'r fath ym mhob rhifyn hyd at rifyn 7 Medi

1940 yn y sampl, sydd ddim yn ffigwr nodedig o uchel ac sy'n ddim mwy na'r ffigwr ar gyfer hysbysebion llyfrau a cherddoriaeth. Fodd bynnag, yn nhri rhifyn olaf y sampl gwelir bod niferoedd yr hysbysebion hyn yn codi'n sylweddol iawn: yn rhifyn 7 Mawrth 1942 gwelir bod 10 allan o gyfanswm o 30 o hysbysebion y rhifyn hwnnw, sef 33.5%, yn hysbysebion 'meddyginiaethol'; yn rhifyn 9 Chwefror 1945 ceir 28 o hysbysebion o'r fath allan o gyfanswm o 58, sef 48.5%, ac yn rhifyn 11 Mai 1945 ceir 22 o hysbysebion o'r fath allan o gyfanswm o 52, sef 42.5%. Yn wir, mae 60 o'r hysbysebion 'meddyginiaethol' hyn, allan o gyfanswm o 87 yn yr holl sampl, sef 69.0% ohonynt, i'w cael yn y tri rhifyn olaf, ac mae hyn yn dangos pam bod cyfanswm nifer a chanran hysbysebion o'r fath mor uchel ar gyfer y sampl cyfan.

Ond yr hyn sy'n fwyaf diddorol yw ei fod yn profi'n ddiamheuol bod yr hysbysebwyr ffisigau, pils, tabledi, tonicau ac ati wedi manteisio i'r eithaf ar gyflwr meddyliol bregus pobl adeg y Rhyfel i werthu eu cynhyrchion. Brawychwyd pobl bod eu hiechyd corfforol a meddyliol mewn perygl oherwydd y straen a roddwyd arnynt gan y Rhyfel ac yr oedd yn rhaid tawelu 'ofnau rhyfel' a 'nerfau blacowt' a chadw'r lluoedd cartref yn weithgar a siriol; dyna'r esgus perffaith felly i hysbysebwyr gael cyhoeddi i'r byd mor 'llesol' oedd eu cynhyrchion i'r corff a'r meddwl. Yr oedd y twf mewn hysbysebion o'r fath adeg y Rhyfel yn nodweddiadol o'r wasg yn gyffredinol ac mae'n dangos mor barod yw hysbysebwyr i ecsbloetio unrhyw sefyllfa, hyd yn oed rhyfel, i werthu mwy o'u nwyddau a thrwy hynny wneud mwy o elw.

# *Pennod 7: Lluniau yn Y Cymro*

Breuddwyd fawr Rowland Thomas oedd cael wythnosolyn Cymraeg poblogaidd i bobl Cymru, papur bywiog a diddorol a fyddai o ddiddordeb gwirioneddol iddynt, papur a fyddai'n diwallu eu hanghenion ac yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i'r gymdeithas a'r diwylliant Cymraeg, a phapur a fyddai'n gwerthu degau o filoedd o gopïau bob wythnos. I sicrhau gwerthiant o'r fath yr oedd hi'n gwbl angenrheidiol y byddai'r papur hwn yn apelio at bobl gyffredin mewn modd na wnaeth yr un wythnosolyn Cymraeg cyn hynny, ac i apelio atynt yr oedd Rowland Thomas o'r farn y dylai'r Cymro newydd edrych yn ddeniadol yn ogystal â bod yn ddiddorol i'w ddarllen.

Yr oedd nifer o bapurau wythnosol Cymraeg ar y farchnad yn barod, megis Baner ac Amserau Cymru, Y Genedl Gymreig, Yr Herald Cymraeg, Y Darian a'r Brython (papur Cymry Lerpwl a'r cylch), ynghyd â'r wythnosolion crefyddol megis Y Llan, Y Gwyliedydd, Y Goleuad (papur y Methodistiaid Calfinaidd), Seren Cymru (papur y Bedyddwyr), a'r Tyst (papur yr Annibynwyr). Er bod y rhain oll â'u darllenwyr ffyddlon a fyddai'n prynu'r papur bob wythnos, nid oedd ffigwr cylchrediad yr un ohonynt, o bell ffordd, yn golygu y gellid ei alw'n bapur 'poblogaidd' yn yr ystyr y breuddwydiai Rowland Thomas amdano, a chredai mai un ffactor a oedd yn gyfrifol am hynny oedd diwyg anniddorol y papurau o'u cymharu â'r papurau Saesneg.

Y gwendid mawr yn y papurau Cymraeg oedd eu bod yn tueddu i fod yn golofn ar ôl colofn o brint mân, heb benawdau trawiadol i ddenu llygad y darllenwyr, a heb lawer o luniau, os o gwbl mewn rhai ohonynt, i dorri undonedd y dudalen: yn wir, nid yw'n ormodiaith dweud mai'r unig beth a wnâi'r diwyg ychydig yn fwy diddorol mewn rhai o'r papurau Cymraeg oedd yr hysbysebion! A hyd yn oed yn y papurau a gynhwysai ambell lun yma ac acw, yr oeddynt yn brin iawn mewn gwirionedd ac yn tueddu i fod yn lluniau 'pen ac ysgwydd' yn hytrach na lluniau byw o newyddion gwirioneddol fel a welid yn y Wasg Saesneg: hynny yw, nid oedd y lluniau'n adlewyrchu digwyddiadau cyfoes y dydd.

Yr oedd Y Cymro felly am dorri tir cwbl newydd yn y farchnad bapurau Cymraeg trwy fod yn bapur a fyddai'n ddeniadol i'r llygad

ac yn un a gynhwysai amryw o luniau, nid yn unig y rhai 'pen ac ysgwydd' a geid yn y Wasg Gymraeg eisoes ond hefyd lluniau o newyddion 'go iawn': neu o leiaf, dyna oedd y bwriad. Yn y bennod hon yr wyf am geisio gweld i ba raddau y llwyddodd polisi lluniau'r Cymro, ac i ba raddau y gellid dweud bod y lluniau'n adlewyrchu newyddion cyfoes y dydd.

Arolwg sampl o luniau'r 'Cymro' rhwng 1932 a 1945

Fel gyda'r hysbysebion, byddai'n gwbl anymarferol gwneud dadansoddiad manwl o luniau bron i 700 o rifynnau o'r Cymro, ac felly dyma arolwg sampl tebyg o ddeg o rifynnau sydd unwaith eto wedi'u dewis yn fwriadol er mwyn ceisio adlewyrchu amserau penodol ym mlynyddoedd cynnar y papur ac, yn achos rhifyn 23 Ionawr 1937, wedi'i ddewis yn fwriadol am ei fod yn rhifyn arbennig:

| Rhifyn | Pam dewis y rhifyn hwnnw |
|---|---|
| 03 Rhagfyr 1932 ................. | Y rhifyn cyntaf. |
| 03 Mehefin 1933 ................. | Ar ôl chwe mis. |
| 02 Rhagfyr 1933 ................. | Ar ôl blwyddyn. |
| 07 Rhagfyr 1935 ................. | Ar ôl tair blynedd. |
| 23 Ionawr 1937 .................. | Rhifyn estynedig arbennig wedi achos Saunders Lewis, Lewis Valentine a D. J. Williams yn yr Old Bailey yn Llundain. Dewiswyd y rhifyn hwn yn benodol am ei fod yn cynnwys lluniau cyfoes o newyddion yr wythnos. |
| 09 Medi 1939 .................... | Wythnos ar ôl toriad yr Ail Ryfel Byd. |
| 07 Medi 1940 .................... | Blwyddyn ar ôl toriad y Rhyfel. |
| 07 Mawrth 1942 .................. | Canol y Rhyfel. |
| 10 Tachwedd 1944 ................ | Chwe mis cyn diwedd y Rhyfel. |
| 11 Mai 1945 ..................... | Diwedd y Rhyfel. |

## Allwedd yr arolwg sampl

TUDALEN - Rhif y dudalen

CYNNWYS - Cynnwys y llun

NATUR - Beth yw natur newyddiadurol y llun. Gweler y categorïau yn yr is-allwedd isod.

MATH - Pa fath o lun ydyw. Gweler y categorïau yn yr is-allwedd isod.

MAINT - Maint y llun [c = colofn. Mae pob colofn yn 40cm o hyd, ac yr oedd 5 colofn i bob tudalen ym mhob rhifyn hyd at 28 Tachwedd 1942, sef yr wyth rhifyn cyntaf yn y sampl isod. O 5 Rhagfyr 1942 ymlaen, sef y ddau rifyn olaf yn y sampl, yr oedd 6 cholofn i bob tudalen, hynny oherwydd prinder papur argraffu]. Sylwer fy mod yn cynnwys unrhyw bennawd sydd uwchben y llun, ac unrhyw ysgrifen sy'n disgrifio'i gynnwys, yn y mesuriad.

CANRAN (%) - Pa ganran o'r dudalen gyfan y mae'r llun (ac, o bosibl, y pennawd a'r ysgrifen ddisgrifiadol), yn ei chymryd.

### Is-allweddi

CATEGORÏAU 'NATUR'
Natur newyddiadurol y llun.

NEWYDD. - Llun o newyddion 'go iawn', sef llun o ddigwyddiad yn ystod yr wythnos flaenorol. Mae llun yn y categori hwn yn llun o'r digwyddiad yn union fel ag yr oedd ar y pryd, sef yr hyn y byddai'r Sais yn ei alw'n 'action photo', yn hytrach na'i fod wedi'i osod yn benodol ar gyfer y camera.

NEWYDD. GOSOD - Llun o newyddion yr wythnos, ond un a osodwyd yn benodol ar gyfer y camera yn hytrach na'i fod yn llun o ddigwyddiad fel ag yr oedd ar y pryd.

PERTH. I NEWYDD. - Llun sy'n berthnasol i newyddion yr wythnos ond un na thynnwyd yn yr wythnos flaenorol ac sydd felly wedi dod o lyfrgell luniau'r papur, e.e. llun o A.S. a fu'n siarad yn y Senedd yn ystod yr wythnos.

ARALL - Er na ellir galw lluniau yn y categori hwn yn 'newyddion' fel y cyfryw, eto maent o ddiddordeb i bobl, e.e. llun o rywun a fu'n flaenor ers 40 mlynedd, llun o gyngerdd, eisteddfod etc., sef y lluniau sydd mor gyffredin yn ein papurau bro cyfoes. Hefyd yn y categori hwn mae lluniau sy'n berthnasol i ryw ddigwyddiad yn y dyfodol, e.e. llun o unawdydd a fydd yn perfformio mewn cyngerdd yn y dyfodol agos.

PRIODAS - Llun o gwpl sydd newydd briodi.

MILWYR - Llun o filwr, peilot etc. sy'n gwasanaethu yn y Rhyfel.

CYFF. - Unrhyw lun cyffredinol nad sy'n dod i unrhyw un o'r categorïau uchod.

CATEGORÏAU 'MATH'
Pa fath o lun ydyw.

DIGWYDD. - Llun o ddigwyddiad yn union fel ag yr oedd ar y pryd yn hytrach na'i fod wedi'i osod yn benodol ar gyfer y camera, sef yr hyn y byddai'r Sais yn ei alw'n 'action photo' a llun a fyddai'n dod dan yr is-gategori 'NEWYDD.' uchod.

GOSOD - Unrhyw lun a osodwyd yn benodol ar gyfer y camera, a'r bobl yn sefyll yn ffurfiol ac yn edrych yn uniongyrchol i lygad y camera. Gall hynny olygu lluniau'n ymwneud â'r newyddion, e.e. llun o Saunders Lewis, Lewis Valentine a D. J. Williams yn sefyll yn ffurfiol gyda'i gilydd ac yn edrych tua'r camera; enghreifftiau eraill o luniau a osodwyd yn benodol ar gyfer y camera yw lluniau priodas, lluniau o gorau a enillodd wobrau mewn eisteddfodau, etc.

P. ac Y. - Lluniau 'Pen ac Ysgwydd', sef lluniau ffurfiol, bychain o ran maint, o ben ac ysgwyddau'r person dan sylw (a fawr ddim arall!), ac ef neu hi bron yn ddieithriad yn edrych tua llygad y camera.Yr wyf wedi cyfyngu'r term hwn ar gyfer lluniau o unigolion yn unig; mae unrhyw luniau lle ceir mwy nag un person, er efallai mai eu pennau a'u hysgwyddau'n unig a welir, yn dod dan yr is-gategori blaenorol, 'GOSOD'.

GOLYGFA - Llun o olygfa megis dyffryn, cae, afon etc. Hefyd yn y categori hwn mae adeiladau megis tai ac eglwysi.

ANIFAIL - Llun o aderyn, ci, cath etc. Gall yr anifail fod yn un a fegir ar fferm neu'n un sy'n byw'n naturiol yn y gwyllt.

GWRTH. - Llun o wrthrych nad oes 'bywyd' ynddo megis awyren, car, pladur etc.

INC - Llun a dynnwyd gydag inc neu bensil megis cartwnau a lluniau gan arlunwyr. Sylwer, fodd bynnag, nad wyf yn cynnwys cartwnau neu ddarluniau sydd i'w gweld ar Dudalen y Plant.

Rhifyn 3 Rhagfyr 1932

| TUDALEN | CYNNWYS | NATUR | MATH | MAINT | CANRAN (%) |
|---|---|---|---|---|---|
| 01 | D. R. Grenfell, A.S. Gŵyr | PERTH. I NEWYDD. | P. ac Y. | ½c, 4.0cm | 1.0 |
| 01 | Dr. G. A. Stephens, meddyg o Abertawe | PERTH. I NEWYDD. | P. ac Y. | ½c, 4.0cm | 1.0 |
| 02 | Robin Goch | CYFF. | ANIFAIL | 1c, 6.5cm | 3.5 |
| 03 | ------------------------ | | | | |
| 04 | E. M. Roberts, Porthaethwy, blaenor hynaf Môn | ARALL | P. ac Y. | ½c, 4.0cm | 1.0 |
| 04 | Côr Cymreig Birkenhead, wedi ennill un o'r prif wobrwyon yn Eisteddfod Gadeiriol Llundain | ARALL | GOSOD | 3c, 9.0cm | 13.5 |
| 04 | Mr. a Mrs. Thomas Roberts, Bethesda, sy'n briod ers 62 mlynedd | ARALL | GOSOD | 1c, 3.0cm | 1.5 |
| 04 | T. W. Jones, Ponciau, Sir Ddinbych, wedi ei ddewis yn ymgeisydd Seneddol Llafur dros Feirionnydd | PERTH. I NEWYDD. | P. ac Y. | 1c, 8.0cm | 4.0 |
| 05 | Llestri Brecwast | CYFF. | GWRTH. | 2c, 12.0cm | 12.0 |
| 05 | 'Y Mae Trydan Mor lân': llun o stôf | CYFF. | GWRTH. | 2c, 19.0cm | 19.0 |
| 06 | ------------------------ | | | | |
| 07 | Ffiord Fjoelands, Norwy: un o'r mannau ar fordaith yr Urdd | ARALL | GOLYGFA | 3c, 10.0cm | 15.0 |
| 07 | H. M. S. Orduna, llong yr Urdd | ARALL | GWRTH. | 2c, 7.5cm | 7.5 |
| 07 | Miss Betty Pugh, hyfforddwraig canu aelodau'r Urdd, canghennau Caerdydd | ARALL | P. ac Y. | ½c, 3.5cm | 1.5 |
| 08 | Y Glöyn Byw Trilliw Bach | CYFF. | ANIFAIL | 1c, 6.5cm | 3.5 |
| 09 | Pyrth Coleg Merton Rhydychen gan y gof D. J. Williams o Waith Brunswick, Caernarfon | ARALL | GWRTH. | 2c, 9.5cm | 9.5 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 10 | ------------------------------------------------------------ | | | | | |
| 11 | ------------------------------------------------------------ | | | | | |
| 12 | Rhys J. Davies, A.S.: 'Fy Un Mlynedd Ar Ddeg yn y Senedd': llun ohono wedi'i arosod o flaen llun o'r Senedd yn Llundain | ARALL | P. ac Y. + GOLYGFA | 4c, | 8.5cm | 17.0 |
| 13 | ------------------------------------------------------------ | | | | | |
| 14 | Y Parch. J. Penry Thomas, Caerdydd | ARALL | P. ac Y. | 1c, | 8.5cm | 4.5 |
| 15 | Dr. Wynn Davies, Rhos, llywydd newydd Sasiwn y Methodistiaid Calfinaidd | ARALL | P. ac Y. | 1c, | 8.0cm | 4.0 |
| 16 | Y Parch. D. Tecwyn Evans | ARALL | P. ac Y. | 1c, | 8.0cm | 4.0 |
| 17 | ------------------------------------------------------------ | | | | | |
| 18 | ------------------------------------------------------------ | | | | | |
| 19 | Tom Griffiths, pêl-droediwr yn chwarae dros Gymru | ARALL | INC | 1c, | 9.0cm | 4.5 |
| 20 | T. I. Ellis: adolygiad o lyfr | ARALL | P. ac Y. | 1c, | 8.0cm | 4.0 |
| 21 | ------------------------------------------------------------ | | | | | |
| 22 | D. Farr Davies, Dowlais, rheolwr cyffredinol yr Amalgamated Anthracite Collieries (Ltd.), a chadeirydd Cymdeithas Perchenogion Glo Deheudir Cymru a Mynwy: Rhif 1 yn y gyfres 'Arweinwyr Masnach Cymru' | ARALL | P. ac Y. | 1c, | 7.5cm | 4.0 |
| 23 | Moch | CYFF. | ANIFAIL | 2c, | 8.0cm | 8.0 |
| 24 | Organ yn sinema'r Plaza, Abertawe: bydd Tom Jenkins yn canu'r organ ar y radio ddydd Iau nesaf | ARALL | GWRTH. | 2c, | 11.5cm | 11.5 |

Dadansoddiad o rifyn 3 Rhagfyr 1932

| TUDALEN | NIFER O LUNIAU | CANRAN O'R DUDALEN (%) |
|---|---|---|
| 01 | 2 | 2.0 |
| 02 | 1 | 3.5 |
| 03 | - | - |
| 04 | 4 | 20.0 |
| 05 | 2 | 31.0 |
| 06 | - | - |
| 07 | 3 | 24.0 |
| 08 | 1 | 3.5 |
| 09 | 1 | 9.5 |
| 10 | - | - |
| 11 | - | - |
| 12 | 2 | 17.0 |
| 13 | - | - |
| 14 | 1 | 4.5 |
| 15 | 1 | 4.0 |
| 16 | 1 | 4.0 |
| 17 | - | - |
| 18 | - | - |
| 19 | 1 | 4.5 |
| 20 | 1 | 4.0 |
| 21 | - | - |
| 22 | 1 | 4.0 |
| 23 | 1 | 8.0 |
| 24 | 1 | 11.5 |
| | CYFANSWM 24 | CYFARTALEDD 6.5 |

'NATUR' Y LLUN

| | |
|---|---|
| NEWYDD. | - |
| NEWYDD. GOSOD | - |
| PERTH. I NEWYDD. | 3 |
| ARALL | 16 |
| PRIODAS | - |
| MILWR | - |
| CYFF. | 5 |

'MATH' O LUN

| | |
|---|---|
| DIGWYDD. | - |

| | |
|---|---|
| GOSOD | 2 |
| P. ac Y. | 11 |
| GOLYGFA | 2 |
| ANIFAIL | 3 |
| GWRTH. | 5 |
| INC | 1 |

Rhifyn 3 Mehefin 1933

| TUDALEN | CYNNWYS | NATUR | MATH | MAINT | CANRAN (%) |
|---|---|---|---|---|---|
| 01 | Ifan ab Owen Edwards yn derbyn saliwt yr Urdd yn Eisteddfod Genedlaethol Yr Urdd, Caerffili | ARALL | DIGWYDD. | 3c, 13.5cm | 20.5 |
| 02 | J. Chas. Mclean, un o'r beirniaid cerdd yn Eisteddfod yr Urdd | ARALL | P. ac Y. | 1c, 9.5cm | 5.0 |
| 02 | Miss Medeni Jones, disgybl yn Ysgol Sir Abermaw, Meirion, yn cael ei choroni yn Frenhines y Rhosynnau yn Abermaw ddydd Mercher nesaf | ARALL | P. ac Y. | 1c, 10.5cm | 5.5 |
| 03 | ------------------ | | | | |
| 04 | ------------------ | | | | |
| 05 | Bedyddio trwy drochi yn Eglwys Fair, Llanfair Talhaiarn, Sir Ddinbych | ARALL | GOLYGFA | 2c, 8.5cm | 8.5 |
| 06 | Gwisg syml 'voile' i eneth fach | CYFF. | GWRTH. | 2c, 16.5cm | 16.5 |
| 07 | ------------------ | | | | |
| 08 | Buddugwyr ac eraill o Eisteddfod yr Urdd, Caerffili: chwech o luniau gwahanol | ARALL | GOSOD | 5c, 18.0cm | 45.0 |
| 09 | ------------------ | | | | |
| 10 | ------------------ | | | | |
| 11 | Mudiad Mamau a Merched Cymru yn Eisteddfod yr Urdd | ARALL | GOSOD | 3c, 14.0cm | 21.0 |
| 12 | ------------------ | | | | |
| 13 | Côr Urdd y Seren Fore, Hebron, Caergybi | ARALL | GOSOD | 2c, 7.5cm | 7.5 |
| 14 | ------------------ | | | | |
| 15 | Ci a Chath | CYFF. | ANIFAIL | 2c, 13.5cm | 13.5 |
| 16 | ------------------ | | | | |
| 17 | ------------------ | | | | |
| 18 | ------------------ | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 19 | ------------------------------------------------------------------------ | | | | |
| 20 | Trefor Jones fydd yn canu ar y radio Nos Fawrth | ARALL | P. ac Y. 1c, | 9.5cm | 5.0 |

Dadansoddiad o rifyn 3 Mehefin 1933

| TUDALEN | NIFER O LUNIAU | CANRAN O'R DUDALEN (%) |
|---|---|---|
| 01 | 1 | 20.5 |
| 02 | 2 | 10.5 |
| 03 | - | - |
| 04 | - | - |
| 05 | 1 | 8.5 |
| 06 | 1 | 16.5 |
| 07 | - | - |
| 08 | 6 | 15.0 |
| 09 | - | - |
| 10 | - | - |
| 11 | 1 | 21.0 |
| 12 | - | - |
| 13 | 1 | 7.5 |
| 14 | - | - |
| 15 | 1 | 13.5 |
| 16 | - | - |
| 17 | - | - |
| 18 | - | - |
| 19 | - | - |
| 20 | 1 | 5.0 |

CYFANSWM 15 CYFARTALEDD 6.0

'NATUR' Y LLUN

| | |
|---|---|
| NEWYDD. | - |
| NEWYDD. GOSOD | - |
| PERTH. I NEWYDD. | - |
| ARALL | 13 |
| PRIODAS | - |
| MILWYR | - |
| CYFF. | 2 |

'MATH' O LUN

| | |
|---|---|
| DIGWYDD. | 1 |
| GOSOD | 8 |
| P. ac Y. | 3 |
| GOLYGFA | 1 |

| | |
|---|---|
| ANIFAIL | 1 |
| GWRTH. | 1 |
| INC | - |

## Rhifyn 2 Rhagfyr 1933

| TUDALEN | CYNNWYS | NATUR | MATH | MAINT | CANRAN (%) |
|---|---|---|---|---|---|
| 01 | ------------------------------------------ | | | | |
| 02 | ------------------------------------------ | | | | |
| 03 | ------------------------------------------ | | | | |
| 04 | Clustogau i'r Plant | CYFF. | GWRTH. | 2c, 9.0cm | 9.0 |
| 05 | ------------------------------------------ | | | | |
| 06 | ------------------------------------------ | | | | |
| 07 | ------------------------------------------ | | | | |
| 08 | Rhai o'r gweithwyr yn swyddfa'r Cymro ar achlysur pen blwydd y papur | ARALL | GOSOD | 3c, 10.0cm | 15.0 |
| 09 | Ci | CYFF. | ANIFAIL | 2c, 12.0cm | 12.0 |
| 09 | Diwrnod ffair yn Llanrhaeadr Ym Mochnant, Sir Ddinbych | CYFF. | GOLYGFA | 3c, 12.0cm | 18.0 |
| 09 | Y Golffiwr Bach ym Morfa Nefyn | CYFF. | GOSOD | 2c, 8.0cm | 8.0 |
| 09 | Cartref Pant y Brad ger Tonyrefail, Morgannwg, lle y dywedir y cadwyd y Brenin Iorwerth yr Ail yn 1326 | CYFF. | GOLYGFA | 3c, 13.5cm | 20.5 |
| 09 | Teiliwr yn Llundain gyda throwsus wyth troedfedd o hyd ar gyfer dyn sy'n mynd i gerdded ar briciau mewn sioe | CYFF. | GOSOD | 2c, 18.0cm | 18.0 |
| 09 | Trin y ffordd rhwng Rhydypandy a Thregaron | CYFF. | GOSOD | 3c, 12.0cm | 18.0 |
| 10 | ------------------------------------------ | | | | |
| 11 | ------------------------------------------ | | | | |
| 12 | ------------------------------------------ | | | | |
| 13 | ------------------------------------------ | | | | |
| 14 | ------------------------------------------ | | | | |
| 15 | ------------------------------------------ | | | | |
| 16 | ------------------------------------------ | | | | |

Dadansoddiad o rifyn 2 Rhagfyr 1933

| TUDALEN | NIFER O LUNIAU | CANRAN O'R DUDALEN (%) |
|---|---|---|
| 01 | - | - |
| 02 | - | - |
| 03 | - | - |
| 04 | 1 | 9.0 |
| 05 | - | - |
| 06 | - | - |
| 07 | - | - |
| 08 | 1 | 15.0 |
| 09 | 6 | 100.0 |
| 10 | - | - |
| 11 | - | - |
| 12 | - | - |
| 13 | - | - |
| 14 | - | - |
| 15 | - | - |
| 16 | - | - |

CYFANSWM 8 CYFARTALEDD 8.0

'NATUR' Y LLUN

| | |
|---|---|
| NEWYDD. | - |
| NEWYDD. GOSOD | - |
| PERTH. I NEWYDD. | - |
| ARALL | 1 |
| PRIODAS | - |
| MILWYR | - |
| CYFF. | 7 |

'MATH' O LUN

| | |
|---|---|
| DIGWYDD. | - |
| GOSOD | 4 |
| P. ac Y. | - |
| GOLYGFA | 2 |
| ANIFAIL | 1 |
| GWRTH. | 1 |

INC -

Rhifyn 7 Rhagfyr 1935

| TUDALEN | CYNNWYS | NATUR | MATH | MAINT | CANRAN (%) |
|---|---|---|---|---|---|
| 01 | Y Parch. T. Ehedydd Jones, Pumsaint, Caerfyrddin, a sefydlwyd yn weinidog ar Eglwys M.C., Pontrhydfendigaid, Ceredigion | ARALL | P. ac Y. | 1c, 10.0cm | 5.0 |
| 02 | Plas Garthewin, Llanfairtalhaiarn | CYFF. | GOLYGFA | 2c, 9.5cm | 9.5 |
| 03 | ------------------------------------------ | | | | |
| 04 | Dau aelod o Glwb Plant *Y Cymro* o Fryncrug, Towyn | CYFF. | GOSOD | 1c, 11.0cm | 5.5 |
| 05 | ------------------------------------------ | | | | |
| 06 | ------------------------------------------ | | | | |
| 07 | William Evans, Caergybi, a ymddiswyddodd fel Prif Beiriannydd Môr gyda'r L.M.S. ar ôl bod yn gwasanaethu ar longau am 35 mlynedd | ARALL | P. ac Y. | 1c, 10.0cm | 5.0 |
| 08 | ------------------------------------------ | | | | |
| 09 | Tamaid i'r Merlyn | CYFF. | GOSOD | 2c, 9.5cm | 9.5 |
| 09 | Plant yn Ysgol y Cyngor, Penrhyndeudraeth, Meirion, yn gwrando ar wersi'r radio | CYFF. | GOSOD | 3c, 10.5cm | 16.0 |
| 09 | Cofeb William Tell yn yr Yswistir | CYFF. | GOLYGFA | 2c, 13.5cm | 13.5 |
| 09 | Chwythu'r Balŵn | CYFF. | GOSOD | 3c, 12.5cm | 19.0 |
| 09 | Cwm Pennant | CYFF. | GOLYGFA | 4c, 14.5cm | 29.0 |
| 09 | Ffrindiau - merch fach a chi | CYFF. | GOSOD | 1c, 14.5cm | 7.5 |
| 10 | ------------------------------------------ | | | | |
| 11 | ------------------------------------------ | | | | |
| 12 | ------------------------------------------ | | | | |
| 13 | ------------------------------------------ | | | | |
| 14 | Dora a Twm y stalwyn | CYFF. | GOSOD | 2c, 8.5cm | 8.5 |
| 15 | ------------------------------------------ | | | | |

16

-----------------------------------------------------------------------

Dadansoddiad o rifyn 7 Rhagfyr 1935

| TUDALEN | NIFER O LUNIAU | CANRAN O'R DUDALEN (%) |
|---|---|---|
| 01 | 1 | 8.0 |
| 02 | 1 | 9.5 |
| 03 | - | - |
| 04 | 1 | 5.5 |
| 05 | - | - |
| 06 | - | - |
| 07 | 1 | 5.0 |
| 08 | - | - |
| 09 | 6 | 100.0 |
| 10 | - | - |
| 11 | - | - |
| 12 | - | - |
| 13 | - | - |
| 14 | 1 | 8.5 |
| 15 | - | - |
| 16 | - | - |
| | CYFANSWM 11 | CYFARTALEDD 8.5 |

'NATUR' Y LLUN

| | |
|---|---|
| NEWYDD. | - |
| NEWYDD. GOSOD | - |
| PERTH. I NEWYDD. | - |
| ARALL | 2 |
| PRIODAS | - |
| MILWYR | - |
| CYFF. | 9 |

'MATH' O LUN

| | |
|---|---|
| DIGWYDD. | - |
| GOSOD | 6 |
| P. ac Y. | 2 |
| GOLYGFA | 3 |
| ANIFAIL | - |
| GWRTH. | - |

INC -

Rhifyn 23 Ionawr 1937

| TUDALEN | CYNNWYS | NATUR | MATH | MAINT | CANRAN (%) |
|---|---|---|---|---|---|
| 01 | Y dorf yn aros i lys yr Old Bailey yn Llundain agor fore dydd Mawrth diwethaf, diwrnod achos llosgi Penyberth | NEWYDD. | DIGWYDD. | 3c, 11.0cm | 16.5 |
| 02 | Y Barnwr Charles | PERTH. I NEWYDD. | P. ac Y. | 1c, 8.0cm | 4.0 |
| 02 | Mr. W. N. Stable. K.C., a gynrychiolai'r erlyniad | PERTH. I NEWYDD. | P. ac Y. | 1c, 8.0cm | 4.0 |
| 03 | Y Prif Weinidog, Mr. Baldwin: ymwelodd dirprwyaeth ag ef yn dadlau yn erbyn symud y prawf i Lundain | PERTH. I NEWYDD. | P. ac Y. | 1c, 8.5cm | 4.5 |
| 04 | Tri aelod o Glwb Plant _Y Cymro_: un o Laniestyn, Pwllheli, un o Dregarth, Bethesda ac un o Gwm Cynfal, Ffestiniog | CYFF.<br>CYFF.<br>CYFF. | P. ac Y.<br>P. ac Y.<br>P. ac Y. | 1c, 8.5cm<br>1c, 9.0cm<br>1c, 6.5cm | 4.5<br>4.5<br>3.5 |
| 05 | ---------- | | | | |
| 06 | ---------- | | | | |
| 07 | ---------- | | | | |
| 08 | Saunders Lewis | PERTH. I NEWYDD. | P. ac Y. | 1c, 7.5cm | 4.0 |
| 09 | ---------- | | | | |
| 10 | ---------- | | | | |
| 11 | Y Parch. L. E. Valentine | PERTH. I NEWYDD. | P. ac Y. | 1c, 8.0cm | 4.0 |
| 12 | Saunders Lewis, Lewis Valentine a D. J. Williams ar eu ffordd i'r llys yng Nghaernarfon, gyda J. E. Jones, ysgrifennydd y Blaid Genedlaethol, ac E. V. Stanley Jones, a ymddangosai ar ran y diffynyddion | NEWYDD. | DIGWYDD. | 3c, 15.0cm | 22.5 |
| 13 | Gosod bomiau bychain ar awyren | CYFF. | GOSOD | 3c, 14.5cm | 22.0 |
| 13 | Gweirful, merch fach y Parch. L. E. Valentine | CYFF. | GOSOD | 2c, 14.5cm | 14.5 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 13 | Paratoi'r bomiau i'w gosod yn yr awyren | CYFF. | GOSOD | 2c, 12.0cm | 12.0 |
| 13 | Porth Neigwl a Thrwyn Cilan, Llŷn | CYFF. | GOLYGFA | 3c, 12.0cm | 18.0 |
| 13 | Un o'r awyrennau a welir maes o law yn hofran uwch broydd tawel Llŷn | CYFF. | GWRTH. | 5c, 10.5cm | 26.5 |
| 14 | Y Parch. D. H. Jones, Pentraeth, Môn, a dderbyniodd alwad eglwysi Bethel a Charmel, Llanrwst | ARALL | P. ac Y. | 1c, 9.0cm | 4.5 |
| 15 | Y tri chenedlaetholwr o flaen y gwesty yn Llundain | NEWYDD. GOSOD | GOSOD | 2c, 10.0cm | 10.0 |
| 15 | Tu allan i'r Old Bailey, Llundain: yn y llun mae nifer o Gymry a deithiodd i Lundain dros nos i fod yn bresennol yn y Llys | NEWYDD. | DIGWYDD. | 3c, 7.0cm | 10.5 |
| 16 | Y dorf o amgylch gorsaf yr heddlu ym Mhwllheli, yn aros ymddangosiad y tri chenedlaetholwr a gyhuddwyd o losgi'r ysgol fomio | PERTH. I NEWYDD. | DIGWYDD. | 4c, 16.0cm | 32.0 |
| 16 | E. V. Stanley Jones, a ymddangosai ar ran y diffynyddion | PERTH. I NEWYDD. | P. ac Y. | 1c, 8.0cm | 4.0 |
| 17 | ---------------------------------------------- | | | | |
| 18 | ---------------------------------------------- | | | | |
| 19 | ---------------------------------------------- | | | | |
| 20 | Herbert Edmund Davies, a ymddangosai ar ran D. J. Williams yn yr achos yng Nghaernarfon | PERTH. I NEWYDD. | P. ac Y. | 1c, 7.5cm | 4.0 |
| 20 | Saunders Lewis, Lewis Valentine a'u gwragedd yn cael te ar ôl y prawf yng Nghaernarfon | NEWYDD. | DIGWYDD. | 2c, 9.5cm | 9.5 |
| 20 | Y Barnwr Lewis, y barnwr yng Nghaernarfon | PERTH. I NEWYDD. | P. ac Y. | 1c, 8.5cm | 4.5 |
| 20 | D. J. Williams | PERTH. I NEWYDD. | P. ac Y. | 1c, 8.5cm | 4.5 |
| 21 | ---------------------------------------------- | | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 22 | Mynd i'r ffair | CYFF. | GOSOD | 2c, | 8.0cm | 8.0 |
| 23 | ------------------------------------------------------------------------ | | | | | |
| 24 | Llys Canol y Troseddwyr, Old Bailey, Llundain | PERTH. I NEWYDD. | GOLYGFA | 2c, | 9.5cm | 9.5 |

## Dadansoddiad o rifyn 23 Ionawr 1937

| TUDALEN | NIFER O LUNIAU | CANRAN O'R DUDALEN (%) |
|---|---|---|
| 01 | 1 | 16.5 |
| 02 | 2 | 8.0 |
| 03 | 1 | 4.5 |
| 04 | 3 | 12.5 |
| 05 | - | - |
| 06 | - | - |
| 07 | - | - |
| 08 | 1 | 4.0 |
| 09 | - | - |
| 10 | - | - |
| 11 | 1 | 4.0 |
| 12 | 1 | 22.5 |
| 13 | 5 | 100.0 |
| 14 | 1 | 4.5 |
| 15 | 2 | 20.5 |
| 16 | 2 | 36.0 |
| 17 | - | - |
| 18 | - | - |
| 19 | - | - |
| 20 | 4 | 22.5 |
| 21 | - | - |
| 22 | 1 | 8.0 |
| 23 | - | - |
| 24 | 1 | 9.5 |
| | CYFANSWM 26 | CYFARTALEDD 11.5 |

'NATUR' Y LLUN

| | |
|---|---|
| NEWYDD. | 4 |
| NEWYDD. GOSOD | 1 |
| PERTH. I NEWYDD. | 11 |
| ARALL | 1 |
| PRIODAS | - |
| MILWYR | - |
| CYFF. | 9 |

'MATH' O LUN

| | |
|---|---|
| DIGWYDD. | 5 |
| GOSOD | 5 |

| | |
|---|---|
| P. ac Y. | 13 |
| GOLYGFA | 2 |
| ANIFAIL | - |
| GWRTH. | 1 |
| INC | - |

Rhifyn 9 Medi 1939

| TUDALEN | CYNNWYS | NATUR | MATH | MAINT | CANRAN (%) |
|---|---|---|---|---|---|
| 01 | Robert Richards, A.S., Dirprwy Gomisiynydd Adrannol dros Gymru (Amddiffyn Dinesig) | PERTH. I NEWYDD. | P. ac Y. | 1c, 10.0cm | 5.0 |
| 02 | ------------------------------------------------ | | | | |
| 03 | Dau aelod o Glwb Plant _Y Cymro_: un o Nantlle, Arfon, ac un o'r Groeslon, Arfon | CYFF.<br>CYFF. | GOSOD<br>P. ac Y. | 1c, 11.0cm<br>1c, 8.0cm | 5.5<br>4.0 |
| 04 | Disgyblion a fu yn Ysgol Haf yr Ysgol Sul yng Ngholeg Harlech | ARALL | GOSOD | 2c, 15.5cm | 15.5 |
| 04 | John Roberts, Deiniolen, Arfon, a fu'n gweithio yn chwarelau Dinorwig am 54 mlynedd, a John Hughes, Deiniolen, Arfon, a fu'n gweithio yn y chwarelau am yn agos i 40 mlynedd; mae Mr. Hughes hefyd yn aelod o Gôr Eglwys Llandinorwic ers 52 mlynedd | ARALL | GOSOD | 2c, 10.5cm | 10.5 |
| 04 | Priodas Morris John Thomas, Blaenau Ffestiniog, rheolwr y mudiad cydweithredol ym Maentwrog, a Miss Dilys Roberts, Blaenau Ffestiniog | PRIODAS | GOSOD | 1c, 13.5cm | 7.0 |
| 04 | W. T. Williams, Glasgoed, Caernarfon, sy'n taro canu yn yr eglwys yno ers 23 mlynedd ac yn flaenor yno ers 18 mlynedd. Bu'n gweithio yn chwarelau Dinorwig am 52 mlynedd; mae hefyd yn fardd o fri dan yr enw 'Coedgas' | ARALL | P. ac Y. | 1c, 13.5cm | 7.0 |
| 04 | R. Temple Hughes, Tregarth, Bangor, sydd newydd ymddiswyddo ar ôl bod yn taro canu yn eglwys Annibynwyr Chwarelgoch, ger ei gartref, am 49 mlynedd | ARALL | P. ac Y. | 1c, 13.5cm | 7.0 |
| 04 | Richard Jones, Mynydd Llandegai, Bethesda, a basiodd Arholiadau'r Uwch Dystysgrif a Bwrdd Canol Cymru | ARALL | P. ac Y. | 1c, 10.0cm | 5.0 |
| 04 | Y Parch. Griffith Rees o sir | ARALL | P. ac Y. | 1c, 6.0cm | 3.0 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Aberteifi a benodwyd yn athro yng Ngholeg y Bala | | | | |
| 04 | Pedwar o Gymry yng ngerddi'r Swyddfa Lafur Gydwladol yn Genefa, lle y buont yr haf hwn yn astudio yn y cwrs blynyddol a drefnir gan Fudiad Addysg y Gweithwyr | ARALL | GOSOD | 2c, 10.5cm | 10.5 |
| 04 | John Michael Thomas, criïwr tref Bethesda, yn cyhoeddi gorchymyn o eiddo Cyngor Dosbarth Dinesig Bethesda | ARALL | GOSOD | 2c, 12.5cm | 12.5 |
| 04 | Priodas Miss Ann Catherine Williams, Y Bala, a Richard Jones, Talsarnau | PRIODAS | GOSOD | 1c, 13.0cm | 6.5 |
| 04 | Miss J. E. Roberts, Maentwrog, Blaenau Ffestiniog, a enillodd bum gwobr gyntaf a dwy ail wobr yn sioe ardd Maentwrog a'r cylch | ARALL | P. ac Y. | 1c, 11.0cm | 5.5 |
| 05 | ------------------------------------------------------------ | | | | |
| 06 | Dau o ffoaduriaid ieuanc iawn a adawodd gartref am ddiogelwch yng Nghymru | NEWYDD. GOSOD | GOSOD | 1c, 10.5cm | 5.5 |
| 06 | Dau o blant Lerpwl yn cael eu croesawu i'w thŷ gan Mrs. Robert Price, Bethesda | NEWYDD. | DIGWYDD. | 2c, 13.5cm | 13.5 |
| 06 | Llochesiaid ieuainc yn cario mygydau nwy | NEWYDD. | DIGWYDD. | 2c, 10.0cm | 10.0 |
| 07 | 'Gelynion y Cristion': darlun o'r <u>Catholic Herald</u> yn cynrychioli'r nerthoedd Anghrist sy'n awr yn cerdded yn Ewrob, sef y llywodraeth Nazi a'r llywodraeth Soviet | CYFF. | INC | 2c, 15.0cm | 15.0 |
| 08 | ------------------------------------------------------------ | | | | |
| 09 | R. Hughes, Llanfairpwll, Môn, sef "Gwyngyll", bardd ac eisteddfodwr selog ac aelod o Orsedd Beirdd Môn | ARALL | P. ac Y. | 1c, 6.5cm | 3.5 |
| 09 | R. R. Jones, Amlwch, a etholwyd i gadair Cyfarfod Misol Môn am hanner blwyddyn | ARALL | P. ac Y. | 1c, 5.0cm | 2.5 |
| 09 | Dau lun o'r hyn a wneir mewn gwahanol fannau i amddiffyn y | PERTH. I NEWYDD. | DIGWYDD. | 3c, 12.5cm | 19.0 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | bobl rhag peryglon rhyfel: dynion a bechgyn yn gosod i fyny gydau llawn o dywod yn rhagfur; dynion yn torri ffos i wneud amddiffynfa rhag niwed o'r awyr | | | | |
| 09 | Agor ysgol newydd ym Metws Gwerfil Goch, Meirion | NEWYDD. GOSOD | GOSOD | 2c, 11.0cm | 11.0 |
| 09 | Edward Belton a'i fab Gwilym, 17 oed, o Wilkesbarre, Pennsylvania, oedd ar fwrdd y llong Athena a suddwyd gan suddfad y gelyn nos Sul | PERTH. I NEWYDD. | GOSOD | 2c, 10.5cm | 10.5 |
| 10 | 'Ymborth y genedl YFORY. Rhaid ei ddiogelu HEDDIW.' : llun o'r cynhaeaf ochr yn ochr ag erthygl yn sôn am y newidiadau a ddaw yn sgîl y Rhyfel | PERTH. I NEWYDD. | DIGWYDD. | 2c, 12.5cm | 12.5 |
| 11 | -------------------------------------------------------------------- | | | | |
| 12 | Y Capten Geoffrey Crawshey, Dirprwy Gomisiynydd Adrannol dros Gymru a fu'n ymweld â Gogledd Cymru yr wythnos hon, sy'n ymwneud â threfniadau Amddiffyn y Bobl, yn enwedig y trefniadau ynglŷn â'r ffoaduriaid | PERTH. I NEWYDD. | P. ac Y. | 1c, 8.5cm | 4.5 |

Dadansoddiad o rifyn 9 Medi 1939

| TUDALEN | NIFER O LUNIAU | CANRAN O'R DUDALEN (%) |
|---|---|---|
| 01 | 1 | 5.0 |
| 02 | - | - |
| 03 | 2 | 9.5 |
| 04 | 11 | 90.0 |
| 05 | - | - |
| 06 | 3 | 29.0 |
| 07 | 1 | 15.0 |
| 08 | - | - |
| 09 | 6 | 46.5 |
| 10 | 1 | 12.5 |
| 11 | - | - |
| 12 | 1 | 4.5 |
| | CYFANSWM 26 | CYFARTALEDD 17.5 |

'NATUR' Y LLUN

| | |
|---|---|
| NEWYDD. | 2 |
| NEWYDD. GOSOD | 2 |
| PERTH. I NEWYDD. | 6 |
| ARALL | 11 |
| PRIODAS | 2 |
| MILWYR | - |
| CYFF. | 3 |

'MATH' O LUN

| | |
|---|---|
| DIGWYDD. | 5 |
| GOSOD | 10 |
| P. ac Y. | 10 |
| GOLYGFA | - |
| ANIFAIL | - |
| GWRTH. | - |
| INC | 1 |

Rhifyn 7 Medi 1940

| TUDALEN | CYNNWYS | NATUR | MATH | MAINT | CANRAN (%) |
|---|---|---|---|---|---|
| 01 | W. Stanley Owen, Llanddaniel, Môn, sydd wedi penderfynu derbyn galwad i fugeilio eglwys Annibynnol Jerusalem, Cricieth | ARALL | P. ac Y. | 1c, 10.5cm | 5.5 |
| 01 | Priodas Miss Eluned Mason, Caernarfon, a Dr. A. Rees Pritchard, Bethesda | PRIODAS | GOSOD | 2c, 9.5cm | 9.5 |
| 01 | Tri o luniau: 2nd Radio Officer Glyn Roberts, Blaenau Ffestiniog, a oedd ar fwrdd y llong 'British Fame' a suddwyd gan long danfor yr Eidal; Sapper David Roberts, Blaenau Ffestiniog, a laddwyd pan oedd gyda'i waith fel 'dispatch rider' yn Lloegr; Morris Roberts, Talwaenydd, sy'n gwasanaethu'r wlad ers rhai misoedd | MILWYR | P. ac Y. | 2c, 9.0cm | 9.0 |
| 02 | Dau frawd, Evan Samuel Williams a Caradoc B. Williams, Bodvean, sy'n gwasanaethu'r wlad, un gyda'r R.W.F. yng Nghymru a'r llall gyda'r South Staffordshires yn Lloegr | MILWYR<br>MILWYR | P. ac Y.<br>P. ac Y. | ½c, 8.0cm<br>½c, 8.0cm | 2.0<br>2.0 |
| 02 | Hugh Eric Hughes, Bodvean, sydd gyda'r Gwarchodlu Cymreig yn Lloegr, a Robert Owen Thomas, Bodvean, sydd gyda'r R.A.S.C. yn Lloegr | MILWYR<br>MILWYR | P. ac Y.<br>P. ac Y. | ½c, 6.5cm<br>½c, 6.5cm | 1.5<br>1.5 |
| 03 | ------------------------------------------------------------ | | | | |
| 04 | Syr George Stapledon, a ryddhawyd gan adran Amaethyddiaeth Prifysgol Cymru, Aberystwyth, i arolygu'r gwaith o sefydlu Gorsaf Gwella Tir Glas, yn ymyl Stratford-On-Avon | PERTH. I NEWYDD. | P. ac Y. | 1c, 7.0cm | 3.5 |
| 04 | Moses Griffith, Cyfarwyddwr Tiroedd y Cynllun Gwella yn Cahn Hill, ger Aberystwyth, a benodwyd yn ymgynghorwr ar Dir Glas yng Nghymru | PERTH. I NEWYDD. | P. ac Y. | 1c, 8.0cm | 4.0 |
| 05 | ------------------------------------------------------------ | | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 06 | Hugh Thomas, Llanddona, Môn, fydd yn hwylio i Awstralia i'w ordeinio yno i waith y weinidogaeth eglwysig | ARALL | P. ac Y. | 1c, | 7.5cm | 3.5 |
| 06 | Olwen Williams, Llanfairpwll, Môn, a enillodd ysgoloriaeth i Ysgol Sir Biwmares | ARALL | P. ac Y. | 1c, | 7.0cm | 3.5 |
| 06 | H. P. Morris, Llanddaniel, Môn, sy'n gwasanaethu gyda'r R.A.M.C. yn Iwerddon | MILWYR | P. ac Y. | 1c, | 7.5cm | 4.0 |
| 06 | Owen Hughes, Bryngwran, Môn, sydd gyda'r "Welsh Guards" | MILWYR | P. ac Y. | 1c, | 7.0cm | 3.5 |
| 06 | Lance Corporal Iorwerth John Jones, Biwmaris, sydd gyda'r R.W.F. | MILWYR | P. ac Y. | 1c, | 5.5cm | 3.0 |
| 06 | Pump o'r un teulu, sef tad a'i bedwar mab, o Gaergybi, sy'n gwasanaethu'u gwlad yn y Fyddin: bu'r tad hefyd yn gwasanaethu yn Rhyfel Mawr 1914-1918 | MILWYR | GOSOD | 2c, | 9.5cm | 9.5 |
| 06 | Tri o luniau: Pte. John Thomas a Pte. Sam Thomas, dau frawd o Langoed, Môn, sy'n gwasanaethu eu gwlad; Pte. Jack Williams, Llangoed, sydd hefyd yn gwasanaethu ei wlad ac wedi priodi chwaer i'r ddau frawd | MILWYR | P. ac Y. | 2c, | 8.0cm | 8.0 |
| 06 | Miss Grace Rowlands, sydd yng Ngoleg Llysfasi, Rhuthun, ac a fu am gyfnod ym Mryntwrog Isaf, Llanerchymedd | ARALL | P. ac Y. | ½c, | 3.5cm | 1.0 |
| 07 | Dr. Thomas Williams, Gwalchmai, cyn-lywydd Cymdeithasfa Methodistiaid Calfinaidd Cymru, a Llywydd y Gymanfa Gyffredinol yn awr | ARALL | P. ac Y. | 1c, | 8.0cm | 4.0 |
| 07 | Cwmni drama Gwalchmai, dan ofal y Parch. T. Arthur Jones, a fu'n un o'r rhai mwyaf llwyddiannus yn y sir am gyfnod maith: llun a dynnwyd ar ddiwedd perfformio 'Aelwyd Angharad' rai blynyddoedd yn ôl | ARALL | GOSOD | 3c, | 11.0cm | 16.5 |
| 07 | Dosbarth darllen Eglwys M.C. Gwalchmai, pan oedd y Parch. | ARALL | GOSOD | 3c, | 8.0cm | 12.0 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | T. Arthur Jones yn weinidog yno | | | | | |
| 07 | Mr. a Mrs. J. P. Williams, a gynrychiolai fywyd cymdeithasol Gwalchmai ar un adeg | ARALL | GOSOD | 1c, | 9.5cm | 5.0 |
| 07 | Y diweddar Barch. Dr. Thomas Charles Williams, Porthaethwy | ARALL | P. ac Y. | 1c, | 9.0cm | 4.5 |
| 07 | Y Parch. R. J. Parry, gweinidog St. Paul's a Glanadda, E.F., Bangor, a ymneilltuodd o'r weinidogaeth | ARALL | P. ac Y. | 1c, | 10.5cm | 5.5 |
| 08 | ------------------------------------------------------------ | | | | | |
| 09 | ------------------------------------------------------------ | | | | | |
| 10 | ------------------------------------------------------------ | | | | | |
| 11 | ------------------------------------------------------------ | | | | | |
| 12 | Heddwyn Pughe, Abergynolwyn, a basiodd arholiad yr Uwch Dystysgrif o Fwrdd Canol Cymru | ARALL | P. ac Y. | 1c, | 10.5cm | 5.5 |
| 12 | Jack V. Hughes yn cwrdd â'i fam, Mrs. Hughes, gynt o Ddolgellau, ond yn awr yn byw yn Nhowyn, Meirionnydd, ar ôl ugain mlynedd heb weld ei gilydd: ymfudodd Jack i Awstralia pan oedd yn 16 oed ond daeth yn ôl i Gymru fel aelod o fyddin y diriogaeth Brydeinig | ARALL | GOSOD | 2c, | 10.5cm | 10.5 |
| 12 | Priodas A. W. Pritchard, o Lyfrfa'r Methodistiaid Calfinaidd, Caernarfon, a Miss A. E. Pritchard, Fourcrosses ger Pwllheli | PRIODAS | GOSOD | 2c, | 10.5cm | 10.5 |
| 12 | Priodas Miss Enid Griffith, Blaenau Ffestiniog, a John Edwards, Tanygrisiau | PRIODAS | GOSOD | 1c, | 13.0cm | 6.5 |
| 12 | Priodas y Llyngesydd Robert Williams, Llanberis, a Miss Annie Owen, Caernarfon | PRIODAS (ond lluniau unigol ohonynt) | P. ac Y.<br>P. ac Y. | ½c,<br>½c, | 7.0cm<br>7.0cm | 2.0<br>2.0 |
| 12 | Evan Morris, Llanbedr gynt, 'hynafgwr heini' ac yn 'hynod o sionc' er ei fod yn 82 oed | ARALL | P. ac Y. | 1c | 10.0cm | 5.0 |

## Dadansoddiad o rifyn 7 Medi 1940

| TUDALEN | NIFER O LUNIAU | CANRAN O'R DUDALEN (%) |
|---|---|---|
| 01 | 5 | 24.0 |
| 02 | 4 | 7.0 |
| 03 | - | - |
| 04 | 2 | 7.5 |
| 05 | - | - |
| 06 | 10 | 36.0 |
| 07 | 6 | 47.5 |
| 08 | - | - |
| 09 | - | - |
| 10 | - | - |
| 11 | - | - |
| 12 | 7 | 42.0 |
| | CYFANSWM 34 | CYFARTALEDD 13.5 |

'NATUR' Y LLUN

| | |
|---|---|
| NEWYDD. | - |
| NEWYDD. GOSOD | - |
| PERTH. I NEWYDD. | 2 |
| ARALL | 13 |
| PRIODAS | 5 |
| MILWYR | 14 |
| CYFF. | - |

'MATH' O LUN

| | |
|---|---|
| DIGWYDD. | - |
| GOSOD | 8 |
| P. ac Y. | 26 |
| GOLYGFA | - |
| ANIFAIL | - |
| GWRTH. | - |
| INC | - |

Rhifyn 7 Mawrth 1942

| TUDALEN | CYNNWYS | NATUR | MATH | MAINT | CANRAN (%) |
|---|---|---|---|---|---|
| 01 | Priodas Aur Mr. a Mrs. John Jones, Dwyran, Môn; Mr. Jones yw "Iolo Môn" | ARALL | GOSOD | 1c, 8.5cm | 4.5 |
| 01 | 'Pe deuai Dewi Sant yn ôl': cartŵn gan J. R. Lloyd Hughes | CYFF. | INC | 3c, 14.0cm | 21.0 |
| 02 | ------------------------------ | | | | |
| 03 | ------------------------------ | | | | |
| 04 | Yr Henadur Thomas Charles Lewis, Penmaenmawr, a fu farw yn 86 oed: ef a arwyddodd bapur enwi cyntaf Lloyd George fel ymgeisydd dros Fwrdeisdrefi Arfon | ARALL | P. ac Y. | 1c, 5.5cm | 3.0 |
| 05 | ------------------------------ | | | | |
| 06 | Miss Catherine M. Roberts, Penrhyndeudraeth, sy'n gwasanaethu gyda'r W.A.A.F. | MILWYR | P. ac Y. | 1c, 4.0cm | 2.0 |
| 06 | Priodas Miss Bessie Williams, Trawsfynydd, a'r Awyrenwr Ieuan Roberts, Trawsfynydd | PRIODAS | GOSOD | 1c, 8.5cm | 4.5 |
| 06 | Richard Parry, Talysarn, gŵr amlwg iawn ym myd cerdd | ARALL | P. ac Y. | ½c, 4.0cm | 1.0 |
| 06 | Jack Llewelyn Thomas, Talsarnau, sy'n gwasanaethu gyda'r Royal Corps of Signals yn y Dwyrain ers dros flwyddyn | MILWYR | P. ac Y. | 1c, 4.5cm | 2.5 |
| 06 | Gohebydd Arbennig Y Cymro a ysgrifennodd erthygl 'Cinio Am Lai Na Swllt [mewn unrhyw westy Prydeinig]' | CYFF. | P. ac Y. | ½c, 4.0cm | 1.0 |
| 06 | Priodas Miss S. Hughes, Ffestiniog, a Richard Howard, Southport | PRIODAS | GOSOD | 1c, 9.0cm | 4.5 |
| 06 | Y Milwr Richard Hughes, Talsarnau, Meirion, sy'n gwasanaethu gyda'r R.A.F. | MILWYR | P. ac Y. | 1c, 4.5cm | 2.5 |
| 06 | Yr Awyrenwr Bobbie Hughes, Talsarnau, Meirion, a'i ddiweddar wraig, wedi iddynt briodi yn Birmingham | MILWYR | GOSOD | 1c, 8.5cm | 4.5 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 06 | Corpl. Ronnie Jones, Porthmadog, a Signaller W. Morris, Prenteg, sy'n gwasanaethu yn y Dwyrain gyda'r Royal Corps of Signals | MILWYR | GOSOD | 1c, 10.0cm | 5.0 |
| 07 | Y Milwr E. Emrys Hughes, Llanllyfni, sy'n gwasanaethu gyda'r R.A.S.C. | MILWYR | P. ac Y. | 1c, 4.0cm | 2.0 |
| 07 | Miss Annie B. Roberts, Llanystumdwy, sy'n gwasanaethu gyda'r W.A.A.F. | MILWYR | P. ac Y. | 1c, 4.0cm | 2.0 |
| 07 | Priodas Owen Lewis, Caergybi, sydd yn adran ymborth catrawd peirianwyr, a Miss M. Roberts, Llanrug, sydd hefyd yn gwasanaethu'r wlad | PRIODAS | GOSOD | 1c, 8.5cm | 4.5 |
| 07 | Y Milwr Hughie T. Rees, Garn Dolbenmaen, a gollodd ei fywyd tra'n gwasanaethu ei wlad | MILWYR | P. ac Y. | 1c, 4.0cm | 2.0 |
| 07 | Robert John Jones a Hugh Watcyn Hughes, y ddau o Bistyll ger Nefyn, a'r ddau yn yr Awyrlu | MILWYR<br>MILWYR | P. ac Y.<br>P. ac Y. | ½c, 7.0cm<br>½c, 7.0cm | 2.0<br>2.0 |
| 07 | Thomas D. Davies, Nefyn, y daeth y newydd ei fod ar goll pan ymosodwyd ar ei long yn y Dwyrain Pell | MILWYR | P. ac Y. | 1c, 4.0cm | 2.0 |
| 08 | ------------------------------------------------------- | | | | |
| 09 | ------------------------------------------------------- | | | | |
| 10 | ------------------------------------------------------- | | | | |
| 11 | ------------------------------------------------------- | | | | |
| 12 | Priodas y Milwr Nimrod O. Pugh, R.A.S.C., Caerdydd, a Miss Katie Watkins, Hirwaun, Aberdâr | PRIODAS | GOSOD | 1c, 8.5cm | 4.5 |
| 12 | Y Prifathro J. Morgan Jones, y gŵr gwadd yng nghyfarfod a swper Gŵyl Dewi Cymrodorion Bae Colwyn | ARALL | P. ac Y. | 1c, 7.0cm | 3.5 |
| 12 | Mrs. A. Lloyd, A.L.C.M., Lerpwl, sydd wedi ei dewis yn drysorydd eglwys y M.C.; hi hefyd yw organyddes yr eglwys ers 33 mlynedd | ARALL | P. ac Y. | 1c, 4.5cm | 2.5 |

## Dadansoddiad o rifyn 7 Mawrth 1942

| TUDALEN | NIFER O LUNIAU | CANRAN O'R DUDALEN (%) |
|---|---|---|
| 01 | 2 | 25.5 |
| 02 | - | - |
| 03 | - | - |
| 04 | 1 | 3.0 |
| 05 | - | - |
| 06 | 9 | 27.5 |
| 07 | 7 | 16.5 |
| 08 | - | - |
| 09 | - | - |
| 10 | - | - |
| 11 | - | - |
| 12 | 3 | 10.5 |

CYFANSWM 22 CYFARTALEDD 7.0

'NATUR' Y LLUN

| | |
|---|---|
| NEWYDD. | - |
| NEWYDD. GOSOD | - |
| PERTH. I NEWYDD. | - |
| ARALL | 6 |
| PRIODAS | 4 |
| MILWYR | 11 |
| CYFF. | 1 |

'MATH' O LUN

| | |
|---|---|
| DIGWYDD. | - |
| GOSOD | 7 |
| P. ac Y. | 14 |
| GOLYGFA | - |
| ANIFAIL | - |
| GWRTH. | - |
| INC | 1 |

Rhifyn 10 Tachwedd 1944

| TUDALEN | CYNNWYS | NATUR | MATH | MAINT | CANRAN |
|---|---|---|---|---|---|
| 01 | Evan Hughes, Llansantffraid, llywydd cangen Croesoswallt a'r cylch o Undeb yr Amaethwyr, yn trosglwyddo siec am £3,500 i R. F. Watkins, cynrychiolydd Cymru o Gronfa Amaethyddol y Groes Goch (a Gohebydd Amaethyddiaeth Y Cymro) | ARALL | GOSOD | 2c, 7.0cm | 6.0 |
| 01 | Bechgyn o Gymru yn aelodau o'r Clwb Cymraeg yn Baghdad, Irac | ARALL | GOSOD | 4c, 10.5cm | 17.5 |
| 02 | ---------- | | | | |
| 03 | ---------- | | | | |
| 04 | ---------- | | | | |
| 05 | ---------- | | | | |
| 06 | Dau lun: Guardsman Dennis Jones, a glwyfwyd yn yr Eidal ac yn awr mewn ysbysty yn y wlad honno, a'i frawd, yr Awyrenwr Peter M. Jones, sy'n gwasanaethu ar y Cyfandir; y ddau ohonynt o Eglwys Bach | MILWYR<br>MILWYR | P. ac Y.<br>P. ac Y. | ½c, 6.0cm<br>½c, 6.0cm | 1.5<br>1.5 |
| 06 | Sapper T. E. Owen, Llanddulas, sy'n gwasanaethu yn yr India | MILWYR | P. ac Y. | 1c, 4.0cm | 1.5 |
| 06 | Y Milwr John A. Hughes, Bethesda, sydd yn y fyddin ers yn agos i bum mlynedd: anafwyd ef yn yr Iseldiroedd ac y mae ar hyn o bryd mewn ysbyty yng Nghymru | MILWYR | P. ac Y. | 1c, 4.0cm | 1.5 |
| 06 | Y Milwr Lewis T. Owen, Nant Gwrtheyrn, sy'n gwasanaethu yn Ffrainc | MILWYR | P. ac Y. | 1c, 4.0cm | 1.5 |
| 07 | Miss Gwen Rees Roberts, Cricieth, sy'n mynd i'r India i fod yn genhades | ARALL | P. ac Y. | 1c, 7.0cm | 3.0 |
| 07 | Pilot Officer Stanley Jones, Bethesda, sydd wedi derbyn y D.F.C. am ei ddewrder mewn gweithredoedd peryglus ar Ynysoedd Cos a Leros ym Môr yr Aegean | MILWYR | P. ac Y. | ½c, 4.0cm | 1.0 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 07 | Y Milwr Eifion Roberts, Tregarth, sy'n garcharor rhyfel yn Yr Almaen | MILWYR | P. ac Y. | 1c, 4.0cm | 1.5 |
| 08 | ------------------------------------------------------------------- | | | | |
| 09 | Corlan Drochi Defaid Newydd yn Llangynog | ARALL | GOSOD | 2c, 10.0cm | 8.5 |
| 10 | ------------------------------------------------------------------- | | | | |
| 11 | ------------------------------------------------------------------- | | | | |
| 12 | ------------------------------------------------------------------- | | | | |

## Dadansoddiad o rifyn 10 Tachwedd 1944

| TUDALEN | NIFER O LUNIAU | CANRAN O'R DUDALEN (%) |
|---|---|---|
| 01 | 2 | 23.5 |
| 02 | - | - |
| 03 | - | - |
| 04 | - | - |
| 05 | - | - |
| 06 | 5 | 7.5 |
| 07 | 3 | 5.5 |
| 08 | - | - |
| 09 | 1 | 8.5 |
| 10 | - | - |
| 11 | - | - |
| 12 | - | - |

CYFANSWM 11 CYFARTALEDD 4.0

'NATUR' Y LLUN

| | |
|---|---|
| NEWYDD. | - |
| NEWYDD. GOSOD | - |
| PERTH. I NEWYDD. | - |
| ARALL | 4 |
| PRIODAS | - |
| MILWYR | 7 |
| CYFF. | - |

'MATH' O LUN

| | |
|---|---|
| DIGWYDD. | - |
| GOSOD | 3 |
| P. ac Y. | 8 |
| GOLYGFA | - |
| ANIFAIL | - |
| GWRTH. | - |
| INC | - |

Rhifyn 11 Mai 1945

| TUDALEN | CYNNWYS | NATUR | MATH | MAINT | CANRAN (%) |
|---|---|---|---|---|---|
| 01 | Aelodau Cymdeithas Gymraeg Lanca, Colombo | ARALL | GOSOD | 3c, 8.0cm | 10.0 |
| 02 | ------------------------------- | | | | |
| 03 | ------------------------------- | | | | |
| 04 | ------------------------------- | | | | |
| 05 | ------------------------------- | | | | |
| 06 | Yr Awyrenwr O. R. Griffiths, Llithfaen, Arfon, yn Ceylon yn gwasanaethu ers tair blynedd | MILWYR | P. ac Y. | 1c, 4.0cm | 1.5 |
| 06 | Priodas Nyrs E. Myra Jones, Garn Dolbenmaen, a'r Milwr Charlie W. Jones, Penmaenmawr | PRIODAS | GOSOD | 1c, 9.0cm | 4.0 |
| 06 | Priodas y Petty Officer Mary Hughes, W.R.N.S., Amlwch, a'r Morwr Godfrey C. Pask | PRIODAS | GOSOD | 3c, 7.5cm | 9.5 |
| 07 | Y Milwr Thos. L. Jones, Aberffraw, yn y fyddin ers dechrau'r rhyfel, ac wedi gwasanaethu yn y Dwyrain Canol | MILWYR | P. ac Y. | 1c, 4.0cm | 1.5 |
| 07 | Y Milwr Robert Thomas Parry, Llanllyfni, a gollodd ei fywyd yn y brwydro yn yr Almaen | MILWYR | P. ac Y. | 1c, 4.0cm | 1.5 |
| 08 | ------------------------------- | | | | |
| 09 | ------------------------------- | | | | |
| 10 | ------------------------------- | | | | |
| 11 | ------------------------------- | | | | |
| 12 | ------------------------------- | | | | |

## Dadansoddiad o rifyn 11 Mai 1945

| TUDALEN | NIFER O LUNIAU | CANRAN O'R DUDALEN (%) |
|---|---|---|
| 01 | 1 | 10.0 |
| 02 | - | - |
| 03 | - | - |
| 04 | - | - |
| 05 | - | - |
| 06 | 3 | 15.0 |
| 07 | 2 | - |
| 08 | - | - |
| 09 | - | - |
| 10 | - | - |
| 11 | - | - |
| 12 | - | - |

CYFANSWM 6 CYFARTALEDD 2.5

'NATUR' Y LLUN

| | |
|---|---|
| NEWYDD. | - |
| NEWYDD. GOSOD | - |
| PERTH. I NEWYDD. | - |
| ARALL | 1 |
| PRIODAS | 2 |
| MILWYR | 3 |
| CYFF. | - |

'MATH' O LUN

| | |
|---|---|
| DIGWYDD. | - |
| GOSOD | 3 |
| P. ac Y. | 3 |
| GOLYGFA | - |
| ANIFAIL | - |
| GWRTH. | - |
| INC | - |

Tabl cyflawn o ganlyniadau'r arolwg sampl

| Rhifyn | 03Rha 1932 | 03Meh 1933 | 02Rha 1933 | 07Rha 1935 | 23Ion 1937 | 09Med 1939 | 07Med 1940 | 07Maw 1942 | 10Tac 1944 | 11Mai 1945 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| NIFER O DUD. | 24 | 20 | 16 | 16 | 24 | 12 | 12 | 12 | 12 | 12 |
| NIFER O LUNIAU | 24 | 15 | 8 | 11 | 26 | 26 | 34 | 22 | 11 | 6 |
| CANRAN O'R DUD. | 6.5 | 6.0 | 8.0 | 8.5 | 11.5 | 17.5 | 13.5 | 7.0 | 4.0 | 2.5 |
| 'NATUR' Y LLUN | | | | | | | | | | |
| NEWYDD. | - | - | - | - | 4 | 2 | - | - | - | - |
| NEWYDD. GOSOD | - | - | - | - | 1 | 2 | - | - | - | - |
| PERTH. I NEWYDD. | 3 | - | - | - | 11 | 6 | 2 | - | - | - |
| ARALL | 16 | 13 | 1 | 2 | 1 | 11 | 13 | 6 | 4 | 1 |
| PRIODAS | - | - | - | - | - | 2 | 5 | 4 | - | 2 |
| MILWYR | - | - | - | - | - | - | 14 | 11 | 7 | 3 |
| CYFF. | 5 | 2 | 7 | 9 | 9 | 3 | - | 1 | - | - |
| 'MATH' O LUN | | | | | | | | | | |
| DIGWYDD. | - | 1 | - | - | 5 | 5 | - | - | - | - |
| GOSOD | 2 | 8 | 4 | 6 | 5 | 10 | 8 | 7 | 3 | 3 |
| P. ac Y. | 11 | 3 | - | 2 | 13 | 10 | 26 | 14 | 8 | 3 |
| GOLYGFA | 2 | 1 | 2 | 3 | 2 | - | - | - | - | - |
| ANIFAIL | 3 | 1 | 1 | - | - | - | - | - | - | - |
| GWRTH. | 5 | 1 | 1 | - | 1 | - | - | - | - | - |
| INC | 1 | - | - | - | - | 1 | - | 1 | - | - |

Casgliad

O edrych ar ganlyniad yr arolwg sampl yn ei gyfanrwydd gwelir bod 24 o luniau mewn 24 tudalen yn y rhifyn cyntaf, sef un i bob tudalen ar gyfartaledd, ond flwyddyn yn ddiweddarach nad oedd ond 8 o luniau mewn 16 tudalen, sef un i bob dwy dudalen ar gyfartaledd. Ar doriad yr Ail Ryfel Byd yn y sampl cafwyd 26 o luniau mewn 12 tudalen, cyfartaledd uchel o dros ddau lun i bob tudalen, cyn codi i 34 llun mewn 12 tudalen, sef cyfartaledd uchel iawn o dri llun i bob tudalen, erbyn diwedd blwyddyn gyntaf y Rhyfel. Yng nghanol y Rhyfel yn y sampl cafwyd 22 o luniau mewn 12 tudalen, unwaith eto'n rhoi cyfartaledd uchel o ryw ddau lun i bob tudalen, ond erbyn diwedd y Rhyfel yn y sampl nid oedd ond cyfanswm o 6 o luniau mewn 12 tudalen, sef dychweliad i'r cyfartaledd isaf o ddim ond un llun i bob dwy dudalen.

O sylwi ar y golofn 'MILWYR' mae'n amlwg iawn bod lluniau o filwyr, peilotiaid ac ati wedi cyfrannu'n sylweddol iawn at y cyfanswm uchel o luniau ym mlynyddoedd yr Ail Ryfel Byd. Fodd bynnag, mae'n werth nodi na wnaeth y canran o'r dudalen gyfan y mae'r llun yn ei gymryd godi yn ôl yr un raddfa â'r cyfanswm o luniau, a'r rheswm am hyn oedd mai lluniau pen ac ysgwydd, bychan o ran maint, oedd bron iawn y cyfan o'r lluniau 'MILWYR' hyn.

O edrych ar y golofn 'NEWYDD.' gwelir mai dim ond chwech o luniau yn y categori hwnnw a gafwyd yn y sampl cyfan, a phedwar o'r chwech hynny i'w cael yn rhifyn arbennig achos Penyberth, a ddewiswyd yn benodol oherwydd hynny. Ond mae'n rhaid gwneud y sylw pellach bod achos Penyberth wedi'i drefnu ymlaen llaw, fel ag yr oedd trefniadau'r llochesiaid wedi'u trefnu ymlaen llaw, sef y ddau lun yn rhifyn 9 Medi 1939 sy'n dod dan y categori 'NEWYDD.'. Dyma ddangos yn gwbl eglur felly nad oedd Y Cymro yn bapur ac ynddo luniau o newyddion fel yr oeddynt 'yn torri' a bod unrhyw luniau o newyddion yr wythnos yn lluniau o newyddion yr oedd pobl yn gwybod ymlaen llaw eu bod am ddigwydd, megis yr achos llys yn Llundain.

Mae'r lluniau yn y golofn 'PERTH. I NEWYDD.' hefyd yn brin iawn ar y cyfan, ar wahân i rifyn arbennig yr achos yn Llundain, ac

mae hyn braidd yn siomedig. Gall rhywun werthfawrogi arafwch a chyfyngiadau technolegol y cyfnod i fedru cynnwys lluniau o newyddion 'byw' yn rhifyn yr wythnos ddilynol o'r papur, yn enwedig i bapur megis Y Cymro a chanddo incwm cymharol isel mewn cymhariaeth â'r Wasg Saesneg. Fodd bynnag, byddai rhywun yn disgwyl i'r papur fedru cynnwys mwy o luniau a oedd yn berthnasol i newyddion yr wythnos ond nad oedd yn rhaid eu tynnu ar gymaint o frys, megis lluniau o Aelodau Seneddol a ffigyrau cyhoeddus amlwg eraill a oedd yn y newyddion yn gyson, yn enwedig ym mlynyddoedd olaf y sampl wrth i lyfrgell luniau'r papur gychwyn ehangu fel y câi'r papur ei draed oddi tano.

Wedi dweud hynny sylwer bod pob rhifyn yn y sampl yn cynnwys o leiaf un llun sy'n dod dan y categori 'ARALL', sef y math o luniau a gawn yn ein papurau bro heddiw (cyngherddau, eisteddfodau ac ati), gyda dau rifyn yn cynnwys 13 o luniau yn y categori hwn, a'r rhifyn cyntaf yn cynnwys 16 o luniau. Byddai lluniau o'r fath wedi bod o ddiddordeb mawr i ddarllenwyr yr oes (yn union fel y maent o ddiddordeb mawr i ddarllenwyr cyfoes), ond y pwynt pwysig i'w gofio yw nad oedd lluniau fel hyn yn y Wasg Gymraeg yn flaenorol: dyma welliant sylweddol o'r ddarpariaeth a oedd yn bodoli eisoes yn y Wasg Gymraeg felly, a cham mawr ymlaen i alw papur Cymraeg yn bapur lluniau newyddion, er na chynhwysid yn Y Cymro cynnar newyddion fel yr oeddynt 'yn torri'.

Er mai papur cenedlaethol i Gymru oedd Y Cymro a gynhwysai lawer o luniau y byddem ni heddiw yn eu hystyried yn amherthnasol mewn papur o'r fath (e.e. llun o ryw eisteddfod fechan ym Môn nad sydd o lawer o ddiddordeb i rywun yng nghymoedd y De), y pwynt canolog yw bod lluniau o'r fath yn gam mawr ymlaen mewn Gwasg Gymraeg lle nad oedd unrhyw luniau o'r fath yn bodoli o gwbl; gellid dadlau hefyd y byddai llun o ryw eisteddfod fechan ym Môn mae'n debyg yn creu diddordeb i ddarllenwyr yr oes a oedd yn byw yn rhannau eraill o'r wlad, am y rheswm syml bod lluniau o'r fath yn rhywbeth hollol newydd yn y Wasg Gymraeg ac felly bod unrhyw lun o ddiddordeb iddynt!

O ran categorïau 'math' o lun, mae'r patrwm yn dilyn y

patrwm uchod, gydag ychydig iawn o luniau o ddigwyddiadau o newyddion 'byw' yr wythnos, a'r mwyafrif helaeth yn lluniau a osodwyd yn benodol ar gyfer y camera a llawer iawn hefyd o luniau pen ac ysgwydd a oedd eisoes i'w gweld yn rhai o gyhoeddiadau'r Wasg Gymraeg.

Mae'n rhaid bod yn gwbl deg â'r Cymro hefyd a nodi ei fod yn bapur a oedd yn gyson yn cynnwys llawer o luniau o Eisteddfodau Cenedlaethol yr Urdd ac Eisteddfodau Cenedlaethol Cymru, gyda rhai rhifynnau yn cynnwys lluniau a fyddai'n cymharu'n ffafriol iawn â'r Wasg Gymraeg heddiw (nid oes rhifynnau o'r fath yn y sampl uchod). Dylid nodi hefyd ei fod yn aml yn cyhoeddi lluniau o fardd y Gadair neu'r Goron ar lwyfan yr Eisteddfod Genedlaethol. Dyma ddangos felly bod y papur yn medru bod yn un gwirioneddol genedlaethol o ran apêl ei luniau, rhywbeth na welwyd erioed o'r blaen yn y Wasg Gymraeg a ffaith sy'n sicr yn cyfiawnhau dweud bod darpariaeth luniau'r Cymro yn gam enfawr ymlaen o'r hyn a fodolai eisoes.

Un pwynt diddorol yw na chyhoeddid enwau ffotograffwyr Y Cymro yn ei flynyddoedd cynnar, yn wahanol i flynyddoedd diweddarach: yn y cyfnod dan sylw ni chafwyd unrhyw wybodaeth i ddweud pwy oedd wedi tynnu'r lluniau (ac eithrio lluniau a dynnwyd gan aelodau o'r cyhoedd).

I gloi, dof i'r casgliad bod dyfodiad Y Cymro wedi bod yn ddatblygiad pwysig a chwyldroadol yn yr ystyr bod ynddo lawer mwy o luniau nag a gafwyd erioed o'r blaen yn y Wasg Gymraeg a bod ei ddiwyg felly'n wahanol iawn i bapurau Cymraeg blaenorol; byddai darllenwyr yr oes mae'n debyg wedi rhyfeddu at safon y lluniau. Er bod lluniau o newyddion byw yr wythnos yn brin iawn ynddo, y gwir amdani yw y gellid galw unrhyw luniau o gyngherddau, eisteddfodau ac ati yn 'newyddion' fel y cyfryw oherwydd bod y digwyddiadau'n gyfoes ac yn parhau'n fyw ym meddyliau pobl. Oherwydd hyn credaf y gellid dweud o ddifrif mai'r Cymro yw'r papur lluniau newyddion Cymraeg cyntaf.

# *Casgliad*

Yn y pen draw mae unrhyw bapur newydd yn ddibynnol iawn ar y nifer o ddarllenwyr sydd ganddo gan mai hwy sy'n prynu'r papur ac yn dod ag incwm i goffrau'r cyhoeddwyr; yn gyffredinol hefyd, po fwyaf yw cylchrediad y papur yna mwyaf deniadol yw'r papur hwnnw i hysbysebwyr, sy'n ffynhonnell incwm arall. Ond os yw'r darllenydd yn mynd i brynu papur newydd yn y lle cyntaf mae'n rhaid i'r papur hwnnw apelio ato a bod o ryw werth iddo.

Mae nifer o resymau pam y bydd darllenydd yn dewis prynu papur newydd: y rheswm amlycaf, wrth gwrs, yw er mwyn darllen y newyddion sydd ynddo, ond gall fod nifer o resymau eraill, e.e. am ei fod yn hoffi adroddiadau chwaraeon y papur, am ei fod yn cytuno â daliadau gwleidyddol y papur, am ei fod yn mwynhau rhyw golofnydd arbennig, am ei fod yn hoffi gwneud y croesair, ac ati.

Efallai bod y gosodiadau hyn yn ymddangos yn or-amlwg ond maent yn arwain at bwynt pwysig iawn yng nghyd-destun y traethawd hwn: os yw darllenydd yn prynu papur newydd mae'n amlwg yn teimlo fod ganddo 'rywbeth yn gyffredin' â'r papur hwnnw, neu ni fuasai'r papur yn apelio ato yn y lle cyntaf. O roi'r ddadl hon mewn ffordd arall gellir dweud bod y papur yn adlewyrchu rhyw nodwedd neu nodweddion yng nghymeriad a phersonoliaeth y darllenydd, sy'n golygu <u>ei bod hi'n bosibl dadansoddi natur y darllenydd trwy ddadansoddi natur y papur.</u>

Ym Mhrydain heddiw mae yna amrywiaeth mawr iawn o newyddiaduron Saesneg sy'n golygu bod yna amrywiaeth mawr iawn o ddarllenwyr: mae natur darllenwyr y <u>Sun</u> a'r <u>Mirror</u>, er enghraifft, ar y cyfan yn wahanol iawn i natur darllenwyr y <u>Times</u> a'r <u>Telegraph</u>. Ond o astudio'r rhychwant eang o bapurau newydd Saesneg ym Mhrydain fel un cyfanwaith mawr, yn bapurau dyddiol ac wythnosol, yn bapurau cenedlaethol a lleol, ac astudio natur darllenwyr yr holl bapurau unigol hynny ar lefel dorfol, mae'n bosibl dadansoddi natur a chymeriad y gymdeithas Brydeinig yn ei chyfanrwydd: ei gwerthoedd newyddion, ei diddordebau, ei diwylliant, ei safonau moesol ac ati.

Ar yr olwg gyntaf mae sôn am y Wasg Saesneg yn amherthnasol yng nghyd-destun <u>Y Cymro</u> ond mae'n rhaid cofio mai'r un yw'r

egwyddor gyda'r Wasg Gymraeg: o edrych ar y rhychwant o bapurau Cymraeg a gyhoeddir ac a werthir yng Nghymru mae'n bosibl dadansoddi natur a chymeriad y gymdeithas Gymraeg. Wrth gwrs, mae natur y Wasg newyddiadurol Gymraeg yn hollol wahanol i natur y Wasg newyddiadurol Saesneg o ran yr adnoddau sydd tu ôl iddi, o ran nifer y papurau a gyhoeddir, o ran maint ei chynulleidfa ac ati, ac er bod cymharu'r ddwy Wasg mewn gwirionedd yn gwbl annheg, yr un yw'r egwyddor, sef ei bod hi'n bosibl dod i adnabod natur y gymdeithas Gymraeg trwy ddod i adnabod natur ei Gwasg. Dychwelaf at hyn yn y man.

Bwriad Rowland Thomas wrth sefydlu'r Cymro oedd creu newyddiadur 'go iawn' yn yr iaith, papur a fyddai'n ymdrin â'r straeon diweddaraf yng Nghymru a thu hwnt, papur deniadol a diddorol a fyddai'n boblogaidd yng ngwir ystyr y gair, papur a fyddai'n gwerthu yn ei filoedd, papur a fyddai'n adlewyrchu diddordeb a dyheadau Cymry Cymraeg cyffredin yr oes, papur a fyddai'n cynrychioli barn a safbwynt y Cymry Cymraeg hynny, papur a fyddai â dylanwad mawr ar bob agwedd o fywyd Cymru, a phapur a fyddai'n gallu cystadlu'n uniongyrchol, ac yn llwyddiannus, â'r papurau Saesneg. Ond gellid dadlau mai dyna'n union oedd bwriad Thomas Gee wrth sefydlu ei Faner ef ym 1859, a bod Y Faner i raddau helaeth wedi cyflawni'r bwriadau hynny. Felly beth oedd newyddwch Y Cymro yn ei farchnad?

Efallai mai'r ateb gorau i hynny yw nad y syniad ei hunan, sef papur Cymraeg poblogaidd, oedd yn newydd, ond yn hytrach yr amgylchiadau cymdeithasol y sefydlwyd Y Cymro ynddynt. Pan sefydlwyd Baner Thomas Gee ym 1859 yr oedd nifer helaeth o'r Cymry yn siaradwyr Cymraeg uniaith, yn syml yn methu siarad na darllen Saesneg; os oeddynt felly am ddarllen am newyddion y byd mewn papur newydd nid oedd ganddynt ddewis ond troi at bapur Cymraeg megis Y Faner. Ond yn dilyn Deddf Addysg fawr 1870 dysgwyd Saesneg yn yr ysgolion i holl blant Cymru ac o'r flwyddyn honno ymlaen lleihau'n raddol a wnaeth nifer y Cymry uniaith Gymraeg; erbyn 1932, blwyddyn sefydlu'r Cymro, dim ond ychydig o bobl hynaf Cymru a oedd yn parhau'n ddi-Saesneg.

Bu Deddf Addysg 1870 yn drobwynt yn hanes popeth sy'n

ymwneud â'r iaith Gymraeg, ei newyddiaduron yn gymaint â dim. Byth oddi ar gyflwyno'r Ddeddf cyflyrwyd y Cymry gan eu haddysg Saesneg i feddwl bod popeth Cymraeg yn israddol, gyda'r canlyniad i'r werin yn gynyddol droi at lenyddiaeth Saesneg: hanes llenyddiaeth Saesneg a ddysgent yn yr ysgolion yn hytrach na hanes llenyddiaeth Gymraeg, gan olygu mai buan y collasant eu parch cynhenid at ddeunydd darllen Cymraeg. Edrychid ar y Ddeddf fel cyfle i'r werin Gymraeg ddysgu Saesneg a chodi'i statws yn y byd, rhywbeth digon canmoladwy yn y bôn; yr hyn a wnaeth, fodd bynnag, oedd dyrchafu'r Saesneg uwchlaw'r Gymraeg ym meddyliau'r Cymry gan olygu bod unrhyw ddeunydd darllen Saesneg yn 'well' na deunydd darllen Cymraeg, meddylfryd sydd wedi parhau byth oddi ar hynny ac sydd bellach wedi'i wreiddio mor ddwfn yn y Cymry fel mai amhosibl bron yw ei ddiddymu.

Dylanwad mawr arall ar batrymau darllen y Cymry oedd lansio Daily Mail Northcliffe ym 1896, newyddiadur chwyldroadol yn ei ddydd a osododd y cynsail ar gyfer y papurau newydd poblogaidd Saesneg a ddaeth yn rhan mor amlwg o'r wasg newyddiadurol Brydeinig yn ystod yr ugeinfed ganrif. Yn sgîl dyfodiad y Daily Mail dechreuodd Cymry Cymraeg, yn raddol ond yn gynyddol, ddarllen papur dyddiol Saesneg yn eu miloedd; erbyn 1932, blwyddyn sefydlu'r Cymro, yr oedd yr arfer o ddarllen papur newydd dyddiol Saesneg wedi'i hun sefydlu ei hun ymysg y Cymry Cymraeg.

Profodd hyn yn drychinebus i'r Wasg Gymraeg gan i'r Cymry ddod i feddwl yn isymwybodol mai Saesneg yw iaith papurau newydd; unwaith y plannwyd y syniad hwn yn eu meddyliau yr oedd hi am fod yn anodd iawn i unrhyw gyhoeddiad Cymraeg ennill ei le yn y farchnad. Efallai, pe bai rhywun wedi bod â'r weledigaeth ddigonol i lansio papur newydd dyddiol Cymraeg poblogaidd yn y cyfnod tyngedfennol ar ddechrau'r ganrif, y gellid bod wedi ennill y farchnad ac achub y sefyllfa cyn iddi fynd yn rhy hwyr; ni wnaed hynny, fodd bynnag, a byth ers hynny mae'r wasg newyddiadurol Gymraeg wedi dioddef yn drwm.

Seisnigeiddiwyd a Phrydeineiddiwyd y Cymry ymhellach gyda dyfodiad y Rhyfel Byd Cyntaf, carreg filltir fawr arall yn hanes

dirywiad yr iaith Gymraeg, ac yng nghanol yr holl bropaganda gwladgarol Prydeinig ar y pryd anghofiodd llawer o'r Cymry sut i feddwl yn genedlaethol Gymreig; fe'u cyflyrwyd yn eu miloedd i feddwl yn Brydeinig ac i dderbyn y system Brydeinig gan olygu nad oedd papur newydd Cymraeg ei iaith, na Chymreig ei naws hyd yn oed, am apelio atynt.

Gwelir felly i Rowland Thomas ym 1932 sefydlu Y Cymro yn erbyn llanw cryf o Seisnigrwydd a Phrydeindod a ysgubodd dros Gymru, llanw a oedd mor bwerus nes iddo adael y wlad yn hollol wahanol i'r hyn ydoedd ym 1859 pan sefydlwyd Baner Thomas Gee. Ym 1932, yn wahanol i 1859, yr oedd mwyafrif helaeth pobl Cymru'n medru darllen Saesneg ac wedi hen sefydlu'r arfer o ddarllen papur Saesneg yn rheolaidd; Y Cymro felly oedd y newyddiadur Cymraeg cyntaf a sefydlwyd nid yn unig i fod yn un 'poblogaidd' ymysg y Cymry, rhywbeth digon anodd ynddo'i hunan, ond hefyd i gystadlu'n uniongyrchol yn y farchnad â'r Wasg boblogaidd Saesneg, rhywbeth anoddach o lawer.

Yr oedd yn rhaid i'r Cymro geisio ennill ei le ymysg pobl a estroneiddiwyd cyn belled ag yr oedd eu gwasg gynhenid yn y cwestiwn, ond ni chawsant eu hestroneiddio i'r fath raddau nad oedd Gwasg Gymraeg yn bodoli o gwbl. Dim o'r fath beth. Yr oedd nifer o newyddiaduron Cymraeg a oedd eisoes ar y farchnad pan sefydlwyd Y Cymro ym 1932 ac yn eu plith yr oedd yr wythnosolion enwadol sef Y Tyst (Annibynwyr), Y Goleuad (Methodistiaid Calfinaidd), Seren Cymru (Bedyddwyr), Y Gwyliedydd Newydd (Wesleaid) a'r Llan (yr Eglwys Esgobol), yr wythnosolion bychain lleol megis Y Clorianydd (Môn), Y Dydd (Dolgellau), Y Rhedegydd (Blaenau Ffestiniog), Y Seren (Y Bala), Yr Udgorn (Pwllheli) a'r Brython (Lerpwl), a'r wythnosolion cenedlaethol megis Y Faner, Yr Herald Cymraeg a'r Genedl Gymreig; crynodeb bras o'r wythnosolion yn unig yw hyn ac nid yw'n crybwyll, er enghraifft, y cylchgronau Cymraeg a gyhoeddid bryd hynny.

O amcangyfrif yn fras gellir dweud bod yr holl wythnosolion a enwyd, rhyngddynt, yn gwerthu tua 40,000 o gopïau bob wythnos, sy'n gyfanswm sylweddol iawn; yr oedd nifer o ddarllenwyr y papurau hynny hefyd yn eu darllen ers blynyddoedd, h.y. yn

ddarllenwyr 'sefydlog' iawn. Mae'n bwysig sylweddoli felly nad oedd marchnad yr wythnosolion Cymraeg yn un newydd: yr oedd hi'n bodoli ers blynyddoedd maith. Golygai hynny bod yn rhaid i'r Cymro dorri drwodd a gwneud lle iddo'i hun mewn marchnad a oedd wedi'i hen sefydlu ei hunan.

Yr her fawr a wynebai sefydlwyr Y Cymro oedd creu papur a allai gystadlu nid yn unig â'r papurau Cymraeg eraill ond hefyd â'r papurau poblogaidd Saesneg. Yr oedd y farchnad honno yng Nghymru wedi'i sefydlu i'r fath raddau erbyn hynny, gyda'r Cymry bellach wedi hen arfer â darllen papurau Saesneg, fel y byddai'n rhaid i'r Cymro newydd un ai fod mor wahanol i'r papurau Saesneg fel y byddai'r Cymry'n ei brynu'n ychwanegol at y papurau hynny, neu'n cyflawni'r un swyddogaeth â'r papurau Saesneg fel y byddai pobl yn dewis prynu'r Cymro yn hytrach na'r papurau hynny.

Fodd bynnag, mae'n hunanamlwg na allai'r Cymro gyflawni'r un swyddogaeth â'r papurau Saesneg: wedi'r cyfan, papur wythnosol oedd Y Cymro tra mai dyddiol oedd y rhan fwyaf o'r papurau Saesneg, sy'n golygu na allai'r Cymro gystadlu â'r papurau hynny o ran newyddwch ei newyddion. Os felly, yr oedd yn rhaid i'r Cymro o'r cychwyn cyntaf gynnwys newyddion na fuasid yn ei gael yn y papurau Saesneg, sef newyddion Cymreig.

Gwelwyd yn yr astudiaeth hon fod Y Cymro wedi rhoi llawer o sylw i straeon cenedlaethol Cymreig, sef y straeon na chaent sylw yn y Wasg Saesneg, ac yr oedd hynny'n amlwg yn bolisi gan y papur; yr oedd arwyddair Y Cymro, 'Papur Cenedlaethol Cymru', hefyd yn cadarnhau bod ei sefydlwyr am iddo fod yn bapur oedd â theimlad Cymreig.

Ond yr hyn sy'n ddiddorol yw bod Y Cymro hefyd â pholisi pendant iawn o roi llawer o sylw i newyddion rhyngwladol yr oes (mae'r ffaith bod cymaint o'i dudalennau blaen wedi'u neilltuo i adrodd hynt a helynt yr Ail Ryfel Byd yn profi hyn), ac i raddau llai newyddion Prydeinig (megis adroddiadau o'r Senedd). Hynny yw, yn ogystal â'i fod yn bapur a gynhwysai newyddion Cymreig, sef y newyddion nad oedd i'w gael yn y Wasg Saesneg, yr oedd yna ar yr un pryd elfen fawr yn Y Cymro o gystadlu â'r Wasg Saesneg

trwy gynnwys ynddo newyddion o'r tu allan i Gymru. Yr oedd sefydlwyr y papur yn amlwg felly'n credu y byddai'r Cymry Cymraeg yn dymuno darllen am newyddion Prydeinig a rhyngwladol yn yr iaith Gymraeg.

Bwriadai sefydlwyr Y Cymro iddo fod yn bapur poblogaidd yng ngwir ystyr y gair, yn gwerthu degau o filoedd o gopïau bob wythnos: fe gofir i 80,000 o gopïau o'r rhifyn cyntaf gael eu hargraffu ac yr oedd ei sefydlwyr yn gobeithio o ddifrif am gylchrediad o amgylch 50,000, ffigwr uchelgeisiol iawn a oedd mewn gwirionedd yn gwbl afrealistig gan ei bod hi'n amheus a oedd y Western Mail, hyd yn oed, yn gwerthu llawer mwy. Wedi'r ychydig wythnosau cyntaf yr oedd hi'n edrych yn debygol y gallai'r Cymro, yn anhygoel, gyrraedd y nod: gwerthwyd tua 50,000 o'r rhifynnau cyntaf yn dilyn ymgyrch hysbysebu a oedd yn amlwg yn un effeithiol. Fodd bynnag, disgyn yn frawychus a wnaeth ei gylchrediad ar ôl yr wythnosau cyntaf hyn a chredir iddo lefelu ar tua 7,000.

Yr oedd cylchrediad Y Cymro felly bellter yn is na'r hyn y gobeithiwyd amdano i gychwyn (gan gofio unwaith eto bod y gobeithion hynny wedi bod yn or-uchelgeisiol) ac yn y man byddaf yn ceisio ystyried paham nad oedd y papur yn gwerthu mwy. Fodd bynnag, mae'n rhaid pwysleisio bod Y Cymro ymhell o fod yn fethiant gan ei fod yn gwerthu mwy nag unrhyw bapur Cymraeg arall yn ei ddydd (fel y gwnaeth byth wedyn, o ran hynny) ac am y rheswm hwnnw mae'r papur yn llwyr deilyngu'r teitl o fod y 'prif bapur newydd Cymraeg.'

I fod yn deg â'r Cymro, hyd yn oed o ddiystyru'r ffaith ei fod yn gwerthu mwy nag unrhyw newyddiadur Cymraeg arall, credaf ei fod yn haeddu'r teitl o fod y prif bapur newydd Cymraeg gan ei fod yn fwy cynhwysfawr ac yn fwy amrywiol nag unrhyw newyddiadur Cymraeg arall. Nid yn unig yr oedd ynddo bob math o newyddion: lleol, Cymreig, Prydeinig a rhyngwladol; yr oedd hefyd yn 'llawnach' papur nag unrhyw un o'r newyddiaduron Cymraeg eraill yn yr ystyr ei fod ag amrywiaeth mawr ynddo (soniaf yn benodol yma am newyddiaduron: yr oedd Y Ford Gron, er enghraifft, yn gylchgrawn Cymraeg amrywiol iawn): er enghraifft ceid erthyglau

nodwedd, tudalen i'r merched, tudalen i'r plant ac ati. Yr oedd Y Cymro o ran ei gynnwys yn fwy ym mowld y papur Saesneg poblogaidd nag unrhyw gyhoeddiad Cymraeg cyn hynny, rhywbeth sy'n cadarnhau'r hyn a ddywedwyd uchod ynghylch Y Cymro yn ceisio cystadlu'n uniongyrchol yn erbyn y Wasg Saesneg.

Datblygiad newydd arall yn Y Cymro oedd ei fod yn cynnwys llawer mwy o luniau nag a wnaeth unrhyw newyddiadur Cymraeg o'i flaen, a'i fod yn gwneud defnydd helaeth o benawdau ac is-benawdau trawiadol. Mae'n amlwg felly bod cynllunio mawr wedi bod ar ddiwyg y papur, cysyniad newydd mewn papurau Cymraeg a oedd cyn hynny wedi bod yn brin iawn o luniau, a dyma weld eto bod Y Cymro yn fwy ym mowld y papur Saeseg poblogaidd nag unrhyw bapur Cymraeg o'i flaen.

Nid oes amheuaeth felly na wnaed ymdrech wirioneddol i wneud Y Cymro yn bapur a apeliai at bawb, yn bapur eang ei gynnwys a fyddai'n gwerthu yn ei filoedd a thrwy hynny ddod yn 'boblogaidd' yng ngwir ystyr y gair. Yr oedd mawr angen am bapur Cymraeg o'r fath: wedi'r cyfan, yr oedd yn rhaid cael rhywbeth poblogaidd i frwydro'n erbyn y Wasg Saesneg a fu mor niweidiol i'r iaith Gymraeg dros yr hanner canrif flaenorol, ac os nad oedd y Wasg Gymraeg am gael ei mygu a'i lladd unwaith ac am byth dan ddylanwad y Wasg Saesneg yna yr oedd hi'n hollbwysig cael papur poblogaidd yn yr iaith Gymraeg.

Cawsai'r Cymro ei lansio yn y lle cyntaf er mwyn bod yn bapur poblogaidd a apeliai at drwch y boblogaeth Gymraeg, sef y gymdeithas Gymraeg yn ei chyfanrwydd: cysyniad, yn rhyfeddol, na feddylid amdano'n gyffredinol yng Nghymru. Yr oedd newyddiaduron Cymraeg eraill y dydd yn tueddu i fod wedi'u hanelu at bobl o ryw enwad crefyddol arbennig a phobl a goleddai ddaliadau gwleidyddol penodol a phobl ardaloedd neilltuol, ac yr oedd mawr angen am bapur newydd Cymraeg a anelwyd at y farchnad yn gyffredinol, sef Cymro a Chymraes gyffredin y dydd.

Dof yn awr at bwynt pwysig a diddorol. Soniwyd uchod ei bod hi'n bosibl dod i adnabod natur y gymdeithas Gymraeg trwy ddod i adnabod natur ei Gwasg. Fodd bynnag, gan mai'r Cymro oedd prif

bapur newydd ei ddydd mewn Gwasg Gymraeg a oedd mor fychan ei maint, a'r unig bapur newydd Cymraeg a geisiai fod yn un gwirioneddol boblogaidd i gystadlu â'r Wasg Saesneg, ac a anelwyd at y gymdeithas Gymraeg yn gyffredinol yn hytrach na rhyw garfan benodol ohoni, mae'n gwbl deg a rhesymol dadlau bod Y Cymro yn well adlewyrchiad nag unrhyw bapur arall o wir natur cymdeithas Gymraeg y cyfnod, a'i fod mewn gwirionedd yn faromedr rhagorol o hinsawdd Cymru Gymraeg ei oes.

Papur a anelwyd at Gymro a Chymraes gyffredin y dydd oedd Y Cymro, sy'n golygu ei fod i raddau helaeth yn bapur sy'n adlewyrchu Cymro a Chymraes gyffredin y dydd. Mae'r Cymro felly nid yn unig yn hynod o ddiddorol i unrhyw ddarllenydd cyfoes; mae ar yr un pryd yn ffynhonnell hanesyddol amhrisiadwy o werthfawr i unrhyw un sy'n dymuno gwneud astudiaeth o'r oes.

Yr hyn sy'n rhyfeddol o'r astudiaeth hon yw sylweddoli cymaint y mae'n gwlad a'n cenedl wedi newid ers cyfnod Y Cymro cynnar, rhywbeth a amlygir dro ar ôl tro. Ar bob lefel, yn ieithyddol, yn ddiwylliannol, yn wleidyddol, yn economaidd, yn gymdeithasegol, yn foesol, yn grefyddol ac ati, yr ydym yn edrych ar Gymru Gymraeg sydd bron yn anadnabyddadwy erbyn heddiw, Cymru Gymraeg a fuasai ymhen amser, heblaw am gofnodion ysgrifenedig megis Y Cymro, yn cael ei hanghofio am byth.

Yn sicr, un o'r pethau amlycaf o'r astudiaeth hon yw cymaint yn fwy Cymreig, a chymaint yn fwy Cymraeg, oedd Cymru'r 30au a'r 40au, a'r modd yr oedd papur newydd Y Cymro yn adlewyrchu hynny. Yr oedd rhyw fwrlwm mawr yn bodoli yng Nghymru yn y cyfnod rhywsut, bwrlwm sy'n anodd iawn ei ddisgrifio mewn geiriau heddiw gan ei fod yn gweithredu ar sawl lefel a'r lefelau hynny'n ymblethu i'w gilydd ym mhob agwedd ar fywyd, ond bwrlwm serch hynny sy'n cael ei gyfleu'n rhagorol yn adroddiadau ac ysgrifau'r Cymro.

Ar lefel ddiwylliannol, er enghraifft, mae'n gwbl ryfeddol fel yr oedd Cymry Cymraeg yn yr Aifft adeg yr Ail Ryfel Byd â'r awydd a'r brwdfrydedd i gynnal Eisteddfod yn Cairo a chyhoeddi Seren y Dwyrain mor bell o'u cartrefi, prawf pendant iawn o

ddyfnder eu cariad at iaith a diwylliant eu gwlad. Ac ar lefel wahanol iawn, sef ar lefel wleidyddol, gwelir yr un bwrlwm hwn yn y modd yr unai'r Aelodau Seneddol Cymreig, o bob plaid, a phapur Y Cymro gyda hwynt, gyda brwdfrydedd ac egni i ymgyrchu am Ysgrifennydd i Gymru a thegwch i'r iaith Gymraeg yn y llysoedd, rhywbeth na fyddid yn ei gael gan yr Aelodau Cymreig heddiw.

O gymharu â heddiw, yr oedd llawer mwy o Gymry'r oes yr hyn y byddai rhywun yn ei alw'n 'ddiwylliedig': pobl werinol, gyffredin, o gefndir gweithiol fel arfer, a oedd â diddordeb byw ym mhob agwedd ar y diwylliant Cymraeg. Yr oedd eisteddfodau, er enghraifft, yn bwysig iawn i bobl o'r fath, gyda'r gwahaniaeth mawr sylfaenol bod yr eisteddfodau bach, lleol, megis eisteddfod y capel ac eisteddfod y chwarel, lawn cyn bwysiced iddynt, ac yn bwysicach, nag yw'r Eisteddfod Genedlaethol i ni heddiw. Mae'n rhaid pwysleisio yma bod llawer o Gymry'r oes nad oeddynt yn 'ddiwylliedig', ac i'r Cymry hynny yr oedd treulio noson yn y dafarn yn apelio tipyn mwy nag unrhyw eisteddfod, ond nid yw hynny'n tynnu dim oddi ar y ffaith bod llawer mwy o Gymry cyffredin yr oes yn 'ddiwylliedig' ac yn ymddiddori yn y 'pethe' Cymraeg, nag sydd o Gymry heddiw.

Yr oedd Cymry diwylliedig o'r fath yn aml yn ddarllenwyr brwd ac yn cymryd diddordeb dwfn yn y pethau 'uchaf': llenyddiaeth, gwleidyddiaeth, cerddoriaeth, byd natur, diwinyddiaeth, athroniaeth ac ati: meddylier, er enghraifft, am drafodaethau hynod ddysgedig rhai o'r chwarelwyr yn eu 'seneddau' amser cinio. Mae'r ffaith bod cymaint o bobl yr oes mor hoff o ddarllen yn cael ei adlewyrchu yn adroddiadau maith, manwl a chynhwysfawr Y Cymro: yn wahanol i lawer o ddarllenwyr cyfoes nad ydynt yn fodlon darllen adroddiad sy'n fwy nag ychydig baragraffau o hyd, yr oedd pobl yr oes â'r amynedd a'r amser i ddarllen adroddiadau hirfaith o'r fath.

Un ffactor amlwg iawn a adlewyrchir yn nhudalennau'r Cymro yw crefyddolder llawer o Gymry Cymraeg yr oes, rhywbeth sydd ar drai ers degawdau bellach ac sy'n prysur ddiflannu'n llwyr o'n cymdeithas. Ceir cyfeiriadau mynych iawn yn Y Cymro at y capel, yr Ysgol Sul, y Seiat, y gwahanol enwadau crefyddol ac ati, gyda

bywyd cymdeithasol y bobl hyn i raddau helaeth iawn yn troi o amgylch y capel: mewn oes cyn dyfodiad y teledu yr oedd pobl angen rhywbeth i'w wneud gyda'r nosau, ac yr oedd y capel yn fan cymdeithasu poblogaidd iawn. Gwelir hefyd mor sanctaidd oedd y Sabath Cymreig i'r Cymry ac yr oeddynt yn medru bod yn ffyrnig o wrthwynebus, er enghraifft, i'r syniad o agor y tafarnau neu'r darlundai ar y Sul. Mae'n amlwg bod crefydd yn rhywbeth cynhenid i Gymry Cymraeg y cyfnod, fel yr oedd yn gynhenid i olygyddion ac ysgrifenwyr Y Cymro: ar achlysur diwedd yr Ail Ryfel Byd, er enghraifft, cafwyd salm, a dim arall, yn ysgrif flaen y papur.

Elfen sydd â chysylltiad agos iawn â chrefyddolder y Cymry Cymraeg, ac sy'n hanu o'r un gwreiddyn yn y bôn, sef y Beibl, yw eu teimlad o foesoldeb: yr hyn sy'n iawn ac yn weddus mewn unigolyn a chymdeithas. Yr oedd parch mawr yn bodoli yn yr oes at bob dim rhywsut: parch at werthoedd y Beibl, parch at y capel a'r Sabath, parch at wlad ac iaith a diwylliant, parch at gymdeithas, ac yn y pen draw, hunan-barch, a dyma rywbeth arall a adlewyrchir yn gyson yn nhudalennau'r Cymro. Ar un lefel 'agored', gwelir y papur, fel y gwnâi llawer o Gymry Cymraeg yr oes, yn gwrthwynebu diodydd meddwol, ar y sail eu bod yn gwneud dim byd heblaw drwg a dinistr i unigolyn a chymdeithas; ond ar lefel fwy 'cuddiedig' hefyd, sef y teimlad cyffredinol a geir trwy'r papur, ceir yr argraff bod y genhedlaeth hon â syniad greddfol bron o'r hyn oedd yn 'weddus' ac yn 'gyfiawn'.

Wedi dweud hynny, dyma'r genhedlaeth fwyf afradus o fywyd a fu erioed yn hanes y ddynolryw oherwydd dyma'r genhedlaeth a arweiniodd ei hunan, i raddau helaeth iawn, i'r ddau ryfel mwyaf a welwyd erioed. Ar y naill law dywedai pobl gyffredin eu bod yn 'ffieiddio' rhag Rhyfel ac na fuasent fyth, dan unrhyw amgylchiad, yn mynd i ryfela, ond ar y llaw arall yr union bobl hynny, yn fwy nag arweinwyr y wlad, oedd yn gofyn am ryfela a phan dorrodd Rhyfel allan o ddifrif yr oeddynt yn barod yn eu miliynau i fynd i ladd eu cyd-ddyn.

Yr oedd rhyw ragrith mawr ym mhobl yr oes, bron iawn na ellir dweud bod yna ddeuoliaeth sgitsoffrengig ynddynt, yn 'barchus' iawn ar un lefel ond eto'n dangos y diffyg parch mwyaf

o fywyd, a'r hyn sy'n rhyfeddol yw bod agwedd ein cymdeithas wedi gweld trawsnewidiad llwyr yn y degawdau diwethaf: er bod fandaliaeth, dwyn, trais ac ati, sef yr hyn y byddai rhywun yn syml yn ei alw'n 'ddiffyg parch', wedi cynyddu'n aruthrol, eto i gyd yr ydym fel pobl bellach yn llawer mwy cyndyn o fynd i ryfel nag oedd ein tadau a'n teidiau.

Mae holl agwedd Y Cymro at Ryfel yn adlewyrchu'n hollol y meddylfryd deuol hwn: ym mlynyddoedd cynharaf y papur mae'n fwy brwd na neb dros Heddwch ac yn dweud yn gyson yn ei ysgrifau blaen bethau megis 'mae Rhyfel yn warth ar ddynoliaeth', 'ni ddylid ymladd dan unrhyw amgylchiadau' ac ati; ond buan iawn y newidia ei diwn gyda thoriad yr Ail Ryfel Byd ac ar ôl hynny dywed 'rhaid trechu Hitler ar bob cyfrif' ac 'ni allwn ddeall agwedd y gwrthwynebydd cydwybodol'! Y fath anghysonder!

Yn rhyfeddol, llwydda'r Cymro, fel cymaint o bobl yr oes, i 'gyfiawnhau' yr Ail Ryfel Byd gyda safbwynt sy'n 'foesol' iawn yn y bôn. Er gwaethaf y ffaith bod rhyfela'n golygu lladd a dioddefaint a dinistrio ar raddfa anfesuradwy, mae'r papur yn edrych ar y Rhyfel fel un 'cyfiawn' gan ei fod yn 'ddaioni yn erbyn drygioni', 'goleuni yn erbyn tywyllwch', 'cyfiawnder yn erbyn anghyfiawnder', 'rhyddid yn erbyn gormes a thrais' ac ati, sef yr union safbwynt 'moesol' a ddefnyddir hyd heddiw i 'gyfiawnhau' rhyfeloedd.

Yn naturiol, mae'r Cymro hefyd yn adlewyrchu hinsawdd weithiol ac economaidd yr oes, ac mae caledi'r Dirwasgiad, a dycnwch cyffredinol y Cymry yn wyneb tlodi mawr, yn llinyn cyswllt cyffredin trwy lawer o'r adroddiadau a'r ysgrifau. Un peth sy'n amlwg o'r cychwyn yw bod Y Cymro yn amlwg yn ceisio apelio at weithwyr cyffredin y wlad, megis yr amaethwyr, y chwarelwyr a'r glowyr, nid yn unig trwy troi sylw cyson i unrhyw faterion a oedd yn ymwneud â'r diwydiannau hynny ar dudalennau blaen y papur, a darparu tudalennau penodol ar gyfer masnach ac amaeth, ond hefyd trwy siarad yn gyson o'u plaid yn ei ysgrifau blaen.

Addas iawn yma yw cyfeirio'n benodol at 'Y Fainc 'Sglodion',

colofn wythnosol J. W. Jones, sy'n cwmpasu nifer o'r pwyntiau y sonnir amdanynt uchod. Os oes un agwedd o'r Cymro sy'n adlewyrchu cymeriad uchel Cymro cyffredin gwerinol Cymraeg y cyfnod yn fwy nag unrhyw agwedd arall o'r papur, ei Gymreigrwydd, ei ddiwylliant, ei grefyddolder, ei foesoldeb a'i ddycnwch, 'Y Fainc 'Sglodion' yw honno. Credaf ei bod yn glasur o'i bath sydd yr un mor werthfawr, os nad yn fwy gwerthfawr, o'r safbwynt hanesyddol nag unrhyw beth arall yn Y Cymro. Llwyddodd, yn gwbl anfwriadol, i ddal blas gwirioneddol oes a ffordd o fyw eithriadol o gyfoethog a fyddai fel arall yn prysur fynd yn anghofiedig.

Elfen ddiddorol iawn arall ym mhapur newydd Y Cymro yw ei wleidyddiaeth, a'r modd yr oedd yn adlewyrchu gwleidyddiaeth gyffredinol Cymry'r oes. Fel y gwelir o bennod y Tudalennau Blaen a phennod yr Ysgrifau Blaen, papur y consensws poblogaidd oedd Y Cymro, papur a gynrychiolai farn wleidyddol y mwyafrif o bobl Cymru. Yn y bôn, yr oedd yn bapur Rhyddfrydol: wedi'r cyfan, Rhyddfrydwr oedd Rowland Thomas a gwelir bod Y Cymro y cefnogwr mwyaf brwd dan haul i Lloyd George; mae'n ddiddorol, fodd bynnag, mai dim ond adeg Etholiad Cyffredinol 1945 y mae'r papur yn cefnogi'r Rhyddfrydwyr yn benodol ar draul y pleidiau gwleidyddol eraill, ac yn gyffredinol gwelir bod ei deyrngarwch yn tueddu i hollti rhwng gwerthoedd democrataidd y Blaid Ryddfrydol a gwerthoedd sosialaidd y Blaid Lafur. Y mae hyn yn cydfynd yn hollol â gwleidyddiaeth Cymru yn y cyfnod, a oedd ar y pryd yn mynd trwy broses o drawsnewidiad o Ryddfrydiaeth i Lafuriaeth.

Yr oedd Y Cymro, fel pobl Cymru yn gyffredinol, yn wrthwynebus iawn i'r Blaid Doriaidd Brydeinig, ond yr oedd ar yr un pryd yn Brydeinig iawn ei agwedd mewn sawl ystyr, rhywbeth arall sy'n nodweddiadol o hinsawdd wleidyddol yr oes yng Nghymru. Er ei fod yn bapur a gredai'n gryf iawn yng Nghymru fel gwlad unigol a chanddi ei hawliau cynhenid ei hun, ac yn bapur a hyrwyddai hawliau'r Cymro a'r iaith a'r diwylliant Cymraeg bob cyfle a gâi, eto i gyd yr oedd yn llwyr o'r farn bod Cymru yn wlad a berthynai'n gadarn i Brydain a'i Hymerodraeth ac yr oedd yn falch iawn o hynny.

Nid oes ond angen sylwi ar lein Y Cymro adeg yr Ail Ryfel

Byd unwaith eto i weld fel yr oedd y papur, fel y rhan helaethaf o'r gymdeithas Gymraeg, yn Brydeinig iawn ei agwedd: yr oedd Y Cymro yn amlwg o'r farn mai dyletswydd Cymru, os nad ei braint hyd yn oed, oedd cynorthwyo Prydain yn ei hymdrech ryfel. Rhywbeth arall sy'n dangos 'Prydeindod' y papur yw ei gefnogaeth i'r Frenhiniaeth: fe wnaeth sbloets fawr ar y dudalen flaen adeg Jiwbilî'r Brenin, er enghraifft.

Y ffaith hon bod Y Cymro yn gredwr mor gryf yng Nghymru fel rhan o Brydain yw'r rheswm hefyd paham yr oedd, fel mwyafrif llethol Cymry'r oes, yn gwrthwynebu'n llwyr y Blaid Genedlaethol Gymreig, plaid a ystyriai'n gwbl eithafol ei hagwedd a phlaid ym marn y papur a oedd nid yn unig yn amherthnasol i wleidyddiaeth Cymru ond a oedd mewn gwirionedd yn beryglus i'r wlad. Gellir diffinio safbwynt y papur, fel safbwynt y wlad yn gyffredinol, fel un cenedlaethol Gymreig ond nid un Cenedlaethol Gymreig, h.y. yr oedd y cefnogwr mwyaf brwd posibl i Gymru fel gwlad ond cyn belled â'i bod yn wlad a oedd yn rhan o Brydain. Yn hyn o beth yr oedd Y Cymro yn cyferbynnu'n hollol â phapur newydd Y Faner: ochrodd y papur hwnnw yn gynnar iawn â Saunders Lewis a'r Blaid Genedlaethol Gymreig.

Er bod Y Cymro yn bapur a oedd yn ddigon parod i leisio'i farn yn ddi-flewyn-ar-dafod pan deimlai'n ddigon cryf ar ryw safbwynt, a hynny'n gyson ar hyd y blynyddoedd ac ar nifer o bynciau amrywiol, yr oedd ar yr un pryd yn bapur teg ac yn gyffredinol yn llwyddo i beidio ymosod yn bersonol ar neb. Yr oedd, fodd bynnag, yn medru siarad yn ffiaidd o gryf yn erbyn aelodau'r Blaid Genedlaethol, a Saunders Lewis yn benodol, gan ddangos cymaint yr anghytunai â'u daliadau gwleidyddol.

Un arwydd o degwch Y Cymro yw ei agwedd at losgi'r ysgol fomio. Er cymaint yr oedd yn gwrthwynebu Saunders Lewis a'r Blaid Genedlaethol, yn dilyn llosgi Penyberth yr oedd yn deg a gwrthrychol ei agwedd, a'r agwedd honno unwaith eto'n cyd-fynd ag agwedd llawer iawn o Gymry'r oes: er nad oedd Y Cymro yn cytuno â gweithred y llosgi ei hunan, eto i gyd yr oedd yn medru deall y rhesymeg tu ôl i'r weithred ac yr oedd yn cydymdeimlo â daliadau'r tri gŵr a'i cyflawnodd; yr oedd hefyd yn edmygu'r tri

am eu dewrder a'u haberth yn cymryd y fath safiad ac yn cydnabod iddynt ddeffro teimlad mawr o genedlaetholdeb trwy'r wlad. Yr oedd Y Cymro hefyd gant y cant y tu ôl i safiad y tri dros yr iaith Gymraeg yn y llysoedd.

Yn sicr, y mae'r Cymro yn ymddangos yn ddrych eithaf cywir o Gymru Gymraeg ei oes ac mae hynny'n ei wneud yn ffynhonnell hanesyddol werthfawr tu hwnt i ni heddiw. Fodd bynnag, os oedd yn ddrych cywir o'i oes, ac yn bapur a adlewyrchai bobl gyffredin y cyfnod, mae'n rhaid gofyn y cwestiwn: Paham na fu Y Cymro cynnar yn fwy llwyddiannus nag ydoedd, h.y. paham nad oedd ei gylchrediad yn uwch?

Fel y gwelir ym mhennod gyntaf y traethawd hwn, y mae Robbie Thomas yn ei lyfryn The Advertizer Family yn ymdrin â rhai o'r rhesymau dros werthiant siomedig Y Cymro yn ei ddwy flynedd gyntaf, gan enwi'n benodol y rhwydwaith dosbarthu aneffeithiol, y ffaith bod hysbysebion yn anodd i'w denu gan nad oedd gan y papur un dref neu ddinas gartref, a'r ffaith bod cymaint o Gymry'n cael trafferth i ddarllen Cymraeg. Mae Robbie Thomas hefyd yn sôn am rai o'r 'rhesymau' ym marn John Eilian:

> *....J. T. Jones resigned. Bitterly he blamed the failure of the sales campaign on excessive costs and incompetence in South Wales and the failure of advertisement revenue on there being nobody with a knowledge of Welsh "or the slightest interest in Wales" in a department already over-extended....*

Mae dau baragraff dilynol Robbie Thomas yn The Advertizer Family yn eithriadol o ddiddorol ac arwyddocaol:

> *....Rowland Thomas replied that he was sorry that what they had set out to achieve had fallen so short of the mark. He pointed out that the slump had intervened. The contents, he felt, had been all that could be hoped for "given the lack of news objectives, political, national and religious".*
> *He added significantly: "The fact that Y Cymro has not secured the sale that we hoped for is not due to incompetence in South Wales but to the fact that, whatever the reason, the people do not want to buy it in sufficient quantities or could not afford to buy it...."*

Dyma eiriau dadlennol iawn: yn gyntaf, mae Rowland Thomas yn awgrymu nad oedd yna amcanion newyddiadurol digon pendant yn Y

Cymro; yn ail, dywed yn blwmp ac yn blaen nad oedd digon o bobl Cymru â diddordeb yn y papur.

Felly dyma godi'r pwynt sylfaenol: A oedd pobl Cymru eisiau papur newydd cenedlaethol Cymraeg wythnosol, i'r graddau bod digon ohonynt â diddordeb mewn papur o'r fath i'w brynu a'i wneud yn llwyddiant masnachol i'r cyhoeddwyr?

Efallai mai'r ateb syml i'r cwestiwn hwn yw nad oedd digon o bobl Cymru'n dymuno darllen newyddiadur cenedlaethol Cymraeg wythnosol, ond go brin mai dyna'r holl wirionedd. Y gwir amdani, mae'n debyg, yw bod digon o bobl Cymru a fyddai wedi dymuno darllen papur o'r fath pe bai'r papur hwnnw wedi apelio digon atynt yn y lle cyntaf: cofier bod tua 50,000 wedi prynu rhifynnau cyntaf y papur, sy'n golygu bod 50,000 wedi rhoi cynnig arno o leiaf; am ryw reswm, fodd bynnag, penderfynodd llawer ohonynt yn fuan iawn nad oedd y papur yn werth ei brynu mwyach.

Mae hyn yn arwain yn naturiol at y casgliad anochel nad oedd Y Cymro fel ag yr oedd yn apelio at ddigon o bobl Cymru i'w wneud yn llwyddiant masnachol. Efallai bod gosodiad o'r fath yn ymddangos yn hallt, a chreulon hyd yn oed yn wyneb y gwaith diflino a wnaeth John Eilian a gweddill staff Y Cymro i geisio gwneud y fenter yn un lwyddiannus, ond ni ellir gwadu bod ynddo elfen gref o wirionedd, ac felly mae'n rhaid gofyn ymhellach, paham nad oedd Y Cymro fel ag yr oedd yn apelio at ddigon o ddarllenwyr?

Yn gyntaf, mae'n rhaid cofio unwaith eto yr effaith a gafodd Deddf Addysg 1870, lansio'r Daily Mail ym 1896, a'r Rhyfel Byd Cyntaf, ar y Cymry, i'r graddau eu bod bellach yn genedl o bobl a oedd i raddau helaeth yn anfodlon darllen eu mamiaith eu hunain, ffaith sy'n wir yn gymaint â'i bod yn eironig a thrist. Erbyn 1932 yr oedd cymaint o bobl Cymru wedi arfer cyhyd â darllen newyddiaduron Saesneg a pheidio darllen newyddiaduron Cymraeg fel nad oeddynt erbyn hynny eisiau darllen newyddiadur Cymraeg. Er efallai nad yw'r Cymry Cymraeg yn Geidwadol yn wleidyddol, yn sicr mae rhywbeth yn geidwadol iawn yn eu natur ac yn gyffredinol maent yn amharod iawn i newid eu harferion a'u traddodiadau; yn

anffodus erbyn 1932 yr oedd yr arfer o ddarllen papurau Saesneg wedi'i hen sefydlu'i hun ym mysg y Cymry a'r gwir plaen amdani yw bod lansio wythnosolyn Cymraeg megis Y Cymro wedi bod yn ormod o ysgytwad diwylliannol iddynt.

Yr oedd Y Cymro dan anfantais fawr hefyd am ei fod yn bapur wythnosol yn hytrach na phapur dyddiol. Yr oedd hi'n bolisi o'r cychwyn ei fod yn cynnwys newyddion Prydeinig a rhyngwladol ond yr oedd llawer o'r newyddion hynny am fod yn hen erbyn ei ddiwrnod gwerthu am y rheswm syml mai wythnosolyn oedd Y Cymro ac y byddai nifer o'i ddarllenwyr eisoes wedi darllen newyddion o'r fath yn eu papurau dyddiol Saesneg! Mewn oes mor gyffrous, yn enwedig adeg y Rhyfel pan newidiai'r sefyllfa o ddydd i ddydd, yr oedd pobl yn awyddus i'w papurau fod mor gyfamserol ag oedd yn bosibl fel y gallent fod â'u bysedd ar bŷls y digwyddiadau diweddaraf.

Yn sicr, yr oedd bwriadau a chymhellion sefydlwyr Y Cymro yn gymeradwy a diffuant, sef papur newydd Cymraeg a fedrai drin a thrafod holl ddigwyddiadau'r byd trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg, ond y gwir amdani yw nad oedd neb yn dymuno darllen am newyddion a oedd efallai'n wythnos a mwy oed, a hwnnw yn fwy na thebyg yn newyddion yr oeddynt eisoes wedi darllen amdanynt yn y Wasg Saesneg.

Yn dilyn y ddadl hon, efallai y dylasai'r Cymro fod wedi canolbwyntio mwy ar newyddion cenedlaethol Cymreig: wedi'r cyfan, o leiaf ni fyddai'r gynulleidfa wedi darllen am newyddion o'r fath yn y Wasg Saesneg. Yn sicr, yr oedd digon o fwrlwm gwleidyddol yng Nghymru'r oes a digon o newyddion Cymreig y gellid ysgrifennu amdano, ond mae'n rhaid bod yn onest a gofyn, a oedd y Cymry, mewn gwirionedd, gan gynnwys y Cymry Cymraeg, eisiau darllen am Gymru mewn gwirionedd? Onid y gwir amdani yw bod llawer ohonynt a oedd bellach mor Brydeinig eu hagwedd fel bod yn well ganddynt ddarllen am Brydain na Chymru?

Mae ffactor y newyddion cenedlaethol Cymreig yn codi sawl pwynt diddorol arall. Yn gyntaf, nid oedd Y Cymro, er yn proffesu bod yn 'Bapur Newydd Cenedlaethol Cymru', yn bapur gwirioneddol

genedlaethol fel y bwriedid iddo fod o'r cychwyn, a'r hyn ydoedd mewn gwirionedd oedd tipyn o newyddion cenedlaethol wedi ei gymysgu â thalp go dda o newyddion lleol, gyda phwyslais y newyddion lleol hynny yn gryf iawn ar Ogledd Cymru (a gorllewin Gogledd Cymru yn benodol), sy'n egluro efallai paham bod ei werthiant yn siomedig yn Ne Cymru.

Wedi dweud hynny, mae'n debyg mai'r eironi mawr amdani yw nad oedd digon o newyddion lleol yn Y Cymro bryd hynny i apelio at y werin Gymraeg, a phe bai wedi cynnwys mwy o newyddion lleol y byddai ffigwr ei gylchrediad wedi bod yn llawer uwch! Mae'n rhaid cofio ein bod yn sôn am oes cyn y daeth trwch y boblogaeth yn berchenogion ceir, sy'n golygu mai ychydig iawn o deithio a wnâi pobl gyffredin; tueddent i aros mewn cymunedau clós yn eu hardaloedd eu hunain heb lawer o gysylltiad uniongyrchol ag ardaloedd eraill, hyd yn oed, heb sôn am y byd mawr tu allan.

A chofier hefyd ein bod yn sôn am oes cyn dyfodiad y teledu, un o wyrthiau'r ugeinfed ganrif ond y ddyfais fwyaf anghymdeithasol a grewyd erioed. Pan sefydlwyd Y Cymro nid oedd gan y bobl setiau teledu i'w diddanu gyda'r nos sy'n golygu eu bod yn chwilio am ddiddanwch o fath gwahanol; yr oedd y bobl felly'n llawer mwy tebygol o fynd allan o'u tai i gymdeithasu a mwynhau cwmni'i gilydd, boed hynny yn y capel neu'r dafarn neu unrhyw le arall y gallent gyd-gyfarfod, ffactor arall a olygai bod y bobl yn glós iawn i'w gilydd.

Ond nid yn unig fe newidiodd y teledu ein patrymau cymdeithasol, fe newidiodd hefyd ein meddylfryd fel pobl. Cyn dyfodiad y teledu ni fedrai'r bobl 'weld' y byd mawr tu allan a thrwy hynny ddod yn rhan mor uniongyrchol ohono. Mae'n wir bod gan bobl Cymru ar gychwyn y 30au bapurau newyddion Saesneg, ynghyd â'r radio erbyn hynny, i roddi gwybodaeth iddynt am ddigwyddiadau yng ngweddill Prydain a'r byd, dau gyfrwng a wnaeth lawer iawn i 'agor' meddyliau pobl gyffredin a'u cael i sylweddoli bod yna bethau'n digwydd yng ngweddill y byd, nid dim ond yn eu cymunedau bychain eu hunain! Mae'n wir hefyd bod pobl Cymru erbyn hynny wedi profi erchylltra Rhyfel Byd, rhywbeth a ddangosodd iddynt unwaith ac am byth fel y gall digwyddiadau ym

mhellteroedd y byd effeithio ar gymunedau yng Nghymru. Ond dim ond gyda dyfodiad y teledu y daethpwyd â gweddill y byd yn uniongyrchol i gartrefi pobl gan eu cyflyru o ddifrif i deimlo'n 'rhan' o weddill y byd; ehangodd y teledu orwelion pobl ac 'agor' eu meddyliau i'r fath raddau (proses a gychwynnwyd eisoes gyda dyfodiad y Wasg a'r radio) fel nad oeddynt fyth eto am feddwl mewn termau lleol yn unig.

O gyplysu'r holl ffactorau hyn â'i gilydd, gwelir mai mewn newyddion lleol i raddau helaeth yr oedd prif ddiddordeb pobl pan sefydlwyd Y Cymro, yn hytrach na newyddion mwy cenedlaethol a rhyngwladol. Er eu bod yn datblygu'n gyflym iawn ac yn llawer mwy goleuedig ynghylch y byd mawr na'r Cymry a ddarllenai Faner Thomas Gee, mewn oes pan nad oedd y car a'r teledu wedi gwneud eu marc yn gymdeithasol byddai'r bobl yn anorfod am fod â mwy o ddiddordeb mewn newyddion lleol.

Yr oedd Y Cymro felly, trwy fod yn fwy cenedlaethol a rhyngwladol o ran cynnwys, yn amddifadu darllenwyr o lawer o'r newyddion lleol yr oeddynt â'u diddordeb naturiol ynddynt. Pe bai'r papur wedi medru cyflogi gohebydd ym mhob ardal yng Nghymru, a chael colofn neu hyd yn oed dudalen o newyddion bywiog o bob un o'r ardaloedd hynny yn y papur bob wythnos, nid oes amheuaeth na fuasai wedi apelio mwy o lawer at y werin Gymraeg. Er y buasai hynny wedi golygu mwy o dudalennau, ac felly fwy o gostau papur papur newydd *(newsprint)*, nid yn unig y buasai'r papur wedi gwerthu llawer mwy yn y lle cyntaf ond buasai hefyd wedi medru denu mwy o hysbysebwyr lleol i dalu am hysbysebu ynddo. Ni fuasai hynny ychwaith wedi golygu hepgor y newyddion cenedlaethol a rhyngwladol a oedd yn rhan mor bwysig o'r Cymro gan y gellid bod wedi eu cynnwys, yn ôl yr arfer, ar dudalennau eraill y papur.

Mae'n werth sôn yma am lwyddiant ysgubol y papurau bro Cymraeg, rhywbeth sy'n dangos bod newyddion plwyfol, lleol, yn denu darllenwyr. Gellir amcangyfrif bod y papurau bro, rhyngddynt, yn gwerthu tua 60,000 i 70,000 o gopïau bob mis, sy'n llawer uwch na ffigwr cylchrediad Y Cymro pan oedd ar ei uchaf un yng nghyfnod John Roberts Williams. Er bod newyddion y papurau

hyn yn aml iawn wedi digwydd wythnosau, a misoedd weithiau, ymlaen llaw, a'r newyddion hwnnw'n afreal o berffaith ar sawl ystyr (yn wahanol iawn i lawer o ddeunydd y Wasg Saesneg boblogaidd, sy'n gwerthu papurau yn eu miliynau, nid oes unrhyw sôn am ddyn yn cysgu gyda gwraig rhywun arall yn y papur bro!), ynghyd â'r ffaith bod y papurau eu hunain yn cael eu cynhyrchu gan lafur cariad amaturiaid yn hytrach na newyddiadurwyr proffesiynol, eto i gyd mae'r papurau bro yn gwerthu yn eu miloedd ac yn denu llawer o ddarllenwyr na fyddent yn meddwl darllen unrhyw gyhoeddiad Cymraeg fel arall.

Dyma brofi'n bendant bod pobl â diddordeb brwd mewn newyddion lleol ac yn awyddus iawn i ddarllen am bobl y maent yn dod i gysylltiad beunyddiol â hwy yn eu bywydau bob dydd yn hytrach na dim ond gwleidyddion a 'phwysigion' eraill. Dyma brofi hefyd ei bod hi'n bosibl cael pobl na wnaethant erioed ddarllen unrhyw ddeunydd Cymraeg yn flaenorol, i'w ddarllen a'i fwynhau os yw'r cynnwys yn apelio digon atynt.

I ddychwelyd at Y Cymro, gellid gwneud y sylw ei fod, trwy geisio bod mor amrywiol, wedi 'ei saethu ei hun yn ei droed' yn yr ystyr ei fod efallai'n rhy amrywiol. Fel yr oedd yr oedd yn ormod o gymysgfa o newyddion, erthyglau nodwedd, tudalen i'r plant, tudalen i'r merched, tudalen fasnach, tudalen amaeth, tudalennau crefyddol, 'Y Babell Awen' gan Dewi Emrys ar gyfer y beirdd, colofnau gan ysgrifenwyr rheolaidd eraill, rhyw bwt o chwaraeon yn achlysurol, ac ati. Hynny yw, efallai bod Y Cymro wedi ceisio plesio pawb a thrwy hynny fod yn gyhoeddiad poblogaidd a fyddai'n gwerthu'n dda ond ei fod mewn gwirionedd, trwy fod yn gymaint o gymysgfa, wedi plesio neb yn y diwedd.

Ffactor arall, efallai, a oedd yn gyfrifol am ei apêl siomedig oedd ei ddiffyg barn ac arweiniad ar faterion a oedd o bwys ac o ddiddordeb i bobl; soniaf yn benodol yma am wythnosau a misoedd cynharaf y papur, sef y cyfnod allweddol hwnnw pan oedd y cyfle yno i fachu'r darllenydd rheolaidd trwy leisio barn gref ar bynciau'r dydd. Cafwyd yn ddiweddarach, i fod yn deg, lawer mwy o arweiniad ac asgwrn cefn yn ysgrifau blaen Y Cymro, megis yn ymgyrch yr iaith Gymraeg yn y llysoedd ac ymgyrch Ysgrifennydd i

Gymru lle gwelwyd y papur yn cymryd rhan flaenllaw ac uniongyrchol yn yr ymgyrchu cenedlaethol, ynghyd â nifer o ysgrifau blaen cryfion eraill ar bob math o bynciau perthnasol; yn yr wythnosau a'r misoedd cyntaf fodd bynnag yr oedd ei ysgrifau blaen yn eithriadol o wan ac yn dweud dim byd o werth mewn gwirionedd a chredaf fod hynny yn un rheswm pendant paham na lwyddodd Y Cymro i gadw diddordeb mwy o'r 50,000 o bobl a fentrodd ei brynu yn y lle cyntaf.

Ynglŷn â safbwyntiau'r ysgrifau: yn sicr, ni allasai barn Y Cymro fod yn amhoblogaidd ymhlith y werin Gymraeg; dangoswyd uchod bod gwleidyddiaeth a safbwyntiau'r Cymro i bob pwrpas yn cyd-fynd yn union â gwleidyddiaeth a safbwyntiau'r gymdeithas Gymraeg yn y cyfnod. Ond efallai, yn eironig, bod hynny hefyd yn rheswm paham nad oedd y papur yn apelio at bobl: wedi'r cyfan, mae ein natur fel pobl yn golygu ein bod yn hoffi darllen rhywbeth sy'n ennyn ymateb cryf ynom, hyd yn oed os nad ydym o reidrwydd yn cytuno â'r hyn a ddarllenwn, am ei fod yn llawer mwy diddorol na barn ofalus, ragweladwy; nid oes ond angen edrych ar y Wasg Saesneg boblogaidd heddiw i sylweddoli mor wir yw hyn.

Nid oes amheuaeth hefyd bod diffyg ysgafnder yn Y Cymro, y math o ddarllen a oedd mor boblogaidd yn Saesneg ar y pryd ac a gynigiai i bobl ddihangfa o ddiflastod a thristwch eu bywydau go iawn. Mewn oes greulon eithriadol o ddau Ryfel Byd a Dirwasgiad enbyd yr oedd pobl yn dyheu am ddeunydd darllen y gallent ymgolli ynddo mewn difyrrwch ac anghofio am y realiti o'u cwmpas, deunydd ysgafn a diddorol a fedrai dywys eu dychymyg i fyd y ffantasi, a deunydd doniol, dychanol a chrafog a wnâi adfer gwên i'w hwynebau. Yr oedd y Wasg Saesneg yn darparu ar gyfer ei darllenwyr gyda digonedd o ddeunydd o'r fath, gan gynhyrchu miloedd o lyfrau a chylchgronau ysgafn, doniol a difyr; yr oedd y papurau newydd Saesneg hefyd, yn enwedig y rhai poblogaidd, yn cynnwys digon o ddeunydd dihangdod o'r fath. Ychydig iawn o ysgafnder oedd yn Y Cymro, fodd bynnag, mewn oes lle y byddai'r darllenwyr wedi gwerthfawrogi'r ysgafnder hwnnw.

Diau y gellir rhoi'r bai am hynny i ryw raddau ar y traddodiad Piwritanaidd Cymreig, a'r feddylfryd a wreiddiwyd mor

ddwfn yn y Cymry, eu bod yn bobl barchus, grefyddol, nad oeddynt i fod i drafod na darllen unrhyw beth ysgafn a dadlennol, meddylfryd sydd hyd yn oed heddiw, ar ddiwedd yr ugeinfed ganrif, yn parhau i fodoli yng Nghymru. Ond dangosodd llwyddiant Y Ford Gron cymaint yr oedd y Cymry'n gwerthfarogi deunydd darllen ysgafn a difyr yn yr iaith Gymraeg; y trueni mawr oedd i Rowland Thomas benderfynu ei hymgorffori yn Y Cymro am y credai fod cylchrediad Y Cymro yn dioddef, gan ladd cylchgrawn a oedd nid yn unig yn boblogaidd iawn ym mhlith y Cymry ond a oedd hefyd ym marn amryw y cylchgrawn Cymraeg gorau a gyhoeddwyd erioed.

Gallesid mynd ymlaen fel hyn yn ddiddiwedd i ddamcaniaethu ynghylch 'aflwyddiant' ffigwr cylchrediad Y Cymro; y gwir amdani yw na fyddwn fyth yn gwybod yn iawn paham nad oedd mwy o Gymry Cymraeg yr oes eisiau prynu wythnosolyn cenedlaethol Cymraeg. Sylwer fy mod yn ofalus iawn yn rhoi'r gair 'aflwyddiant' mewn dyfynodau oblegid aflwyddiant cymharol oedd y papur yn wyneb disgwyliadau cychwynnol Rowland Thomas a'r sefydlwyr eraill: yn sicr nid oedd yn fethiant.

Mae'n wir bod Y Cymro wedi gwneud colledion ariannol trwm i'r cwmni yn y blynyddoedd cynnar a bod ei werthiant yn y cyfnod hwn yn isel; ym mis Mawrth 1939, fodd bynnag, fel y gwelwyd eisoes yn y bennod gyntaf, gellid adrodd bod Y Cymro, am y tro cyntaf erioed, wedi gwneud elw yn ystod y flwyddyn flaenorol. Gwelwyd hefyd fel y bu blynyddoedd yr Ail Ryfel Byd, yn eironig iawn, yn rhai llewyrchus yn hanes y papur, gan ei fod erbyn hynny nid yn unig yn gwneud elw sylweddol ond hefyd yn cynyddu'n gyson yn ei werthiant. Ac ar ôl yr Ail Ryfel Byd, gyda John Roberts Williams bellach wrth y llyw, gwelodd Y Cymro, gyda chyfuniad o lawer mwy o newyddion, marchnata llawer gwell, heb sôn am y cystadlaethau 'Ble Mae'r Bêl?' a 'Pwy yw'r Berta?', ei gyfnod mwyaf llewyrchus erioed, gyda'r papur ar ei uchafbwynt ym 1949 yn gwerthu tua 26,000 i 28,000 o gopïau bob wythnos. O leiaf yr oedd hyn yn profi ei bod hi'n bosibl cynhyrchu papur Cymraeg 'poblogaidd' ac mae'n sicr hefyd yn gwrthddweud y gosodiad y bu sefydlu'r Cymro yn 'fethiant'.

I ddychwelyd at gyfnod penodol yr astudiaeth hon, ni fuaswn

ychwaith yn dweud bod Y Cymro cynnar yn 'fethiant' o ran ei gynnwys a'i apêl. Fel y gwelwyd uchod, yr oedd ganddo ei wendidau sylfaenol, ond nid yw hynny'n tynnu dim oddi ar y ffaith ei fod hefyd â chryfderau a rhagoriaethau lu. Yr oedd ei adroddiadau newyddiadurol yn wych ar y cyfan: yn ddiddorol, yn fanwl ac wedi'u hysgrifennu mewn iaith goeth; yr oedd nifer o'r colofnau rheolaidd hefyd yn rhagorol, nid yn unig y rhai ffeithiol, megis colofn amaethyddol R. T. Watkins, 'Y Ffermwr Wrth Ei Waith', ond hefyd y colofnau eraill, megis 'Rhyngom Ni a'n Gilydd' John Aelod Jones, 'Y Fainc 'Sglodion' J. W. Jones ac 'Y Babell Awen' Dewi Emrys; datblygodd ei ysgrifau blaen, ar ôl cychwyn difrifol o simsan, i fod yn un o gryfderau mwyaf y papur, nid yn unig oherwydd bod Y Cymro yn fodlon mynegi'i farn yn gryf a di-flewyn-ar-dafod ac yn fodlon ymgyrchu'n uniongyrchol dros Gymru a'i phobl, ond hefyd oherwydd bod y mwyafrif llethol ohonynt, mae'n rhaid cyfaddef, yn siarad llawer iawn o synnwyr; hefyd, cafwyd am y tro cyntaf yn yr iaith Gymraeg bapur newydd a oedd yn edrych yn ddiddorol i'r llygad, gyda defnydd helaeth o luniau a phenawdau trawiadol, datblygiad hynod o dderbyniol ac un a oedd yn hir-ddisgwyliedig.

Yn sicr, ni ellir gwadu bod y bwriadau a'r dyheadau ynghylch papur newydd Y Cymro yn gyfiawn a chanmoladwy o'r cychwyn cyntaf: yr oedd angen newyddiadur poblogaidd yn yr iaith Gymraeg. Ni ellir gwadu, ychwaith, bod John Eilian, Percy Ogwen Jones, Einion Evans, Edwin Williams, J. R. Lloyd Hughes a'r llu o bobl eraill a gyfrannodd mewn unrhyw fodd at fenter Y Cymro, wedi ymdrechu'n eithriadol o galed i geisio cynhyrchu papur newydd safonol Cymraeg a fyddai'n dderbyniol ac yn boblogaidd ymhlith y Cymry. Ni bu eu hymdrech yn ofer: nid yn unig fe gafodd darllenwyr yr oes (cynifer ohonynt a drafferthai ei brynu a'i ddarllen) newyddiadur, er â'i wendidau, a oedd yn gaboledig ar sawl ystyr; fe gafodd cenedlaethau'r dyfodol hefyd ddarlun hynod o werthfawr o oes ddiddorol iawn, oes a oedd yn hynod gyfoethog ym mhob ystyr i'r gair heblaw'r ystyr ariannol, ac oes, mae'n rhaid cofio unwaith eto, a fyddai heblaw am dystiolaeth ysgrifenedig megis Y Cymro, yn cael ei hanghofio am byth.

Wrth gloi, mae'n rhaid talu teyrnged arall i Rowland Thomas,

y gŵr di-Gymraeg a wnaeth gymaint o ymdrech dros yr iaith ond a gafodd gyn lleied o gydnabyddiaeth am ei ymdrechion. Ei weledigaeth fawr ef a fu'n gyfrifol am sefydlu papur newydd Y Cymro yn y lle cyntaf; ef, hefyd, i raddau helaeth a ysbrydolodd Ifan ab Owen Edwards i sefydlu Urdd Gobaith Cymru. Yr ydym ar hyd y canrifoedd fel Cymry Cymraeg wedi bod yn cwyno ynghylch effaith niweidiol y Saesneg ar ein hiaith a'n diwylliant; yr eironi mawr, fodd bynnag, yw bod gŵr di-Gymraeg wedi gwneud cymaint i geisio achub ein hiaith.

# *Llyfryddiaeth*

# CYFROLAU O NEWYDDIADURON

Y Cymro (Bangor) 1848.

Y Cymro (Lerpwl) 1890.

Y Cymro (Dolgellau) 1914.
" " 1931.

Y Ford Gron 1931.
" " 1932.

Y Cymro (Wrecsam) 1932-33.
" " 1934.
" " 1935.
" " 1936.
" " 1937.
" " 1938.
" " 1939.
" " 1940.
" " 1941.
" " 1942.
" " 1943.
" " 1944.
" " 1945.

Baner ac Amserau Cymru 1939.
" " " 1942.

Y Ddraig Goch 1942.

Y Cymro 1952.
" 1953.
" 1957.
" 1959.
" 1982.

## LLYTHYRAU A DEFNYDDIAU LLAWYSGRIF ERAILL

Casgliad o lythyrau personol Percy Ogwen Jones, sy'n eiddo i'w fab, Mr. Geraint Percy Jones, Bangor.

A/280a(i), Papurau E. Morgan Humphreys, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth.

## TRAETHODAU YMCHWIL

Jenkins, Bethan Teify, 'Arolwg o'r Wasg Gyfnodol Gymraeg yn yr Ugeinfed Ganrif', M.A. Prifysgol Cymru, 1977.

Jôb, Aled Gwyn, 'Agweddau ar Syniadau Cymdeithasol a'r Farn Gyhoeddus ym Môn Rhwng y Ddau Ryfel Byd', M.Phil. Prifysgol Cymru, 1990.

Thomas, Richard Maldwyn, 'Y Wasg Gyfnodol yn Nhref Caernarfon hyd 1875, gyda sylw arbennig i Argraffwyr a Chyhoeddwyr', M.A. Prifysgol Cymru, 1979.

## LLYFRAU, ERTHYGLAU AC YSGRIFAU

Adamthwaite, Anthony P. The Making of the Second World War (Llundain, 1977).

Aitchinson, James, Writing for the Press: An Introduction (Llundain, 1988).

Bagnall, Nicholas, Newspaper Language (Rhydychen, 1993).

Bassett, Thomas, Braslun o Hanes Hughes a'i Fab, Cyhoeddwyr Wrecsam, atodiad i'r Journal of the Welsh Bibliographical Society (Croesoswallt, 1946).

Bebb, William Ambrose, Calendr Coch (Aberystwyth, 1946).

Bell, Philip Michael Hett, The Origins of the Second World War in Europe (Llundain, 1986).

Bennett-England, Rodney, gol., Inside Journalism (Llundain, 1967).

Blythe, Ronald, The Age of Illusion; England in the Twenties and Thirties 1919-40 (Llundain, 1963).

Bryder, Linda, 'The King Edward VII Welsh National Memorial Association and its Policy Towards Tuberculosis', Cylchgrawn Hanes Cymru 13 (1986).

idem, Below the Magic Mountain: A Social History of Tuberculosis in Twentieth Century Britain (Rhydychen, 1988).

Cadwaladr, Dilys, 'Taith yr Anialwch', cyfres o ysgrifau, Y Cymro, 27 Chwefror - 7 Awst 1953.

Carr, William, Poland to Pearl Harbour: The Making of the Second World War (Llundain, 1985).

Campbell, John, Lloyd George: The Goat in the Wilderness, 1922-31 (Llundain 1977).

Chapman, Theodore Robin, W. J. Gruffydd (Caerdydd, 1993).

idem, W. Ambrose Bebb (Caerdydd, 1997).

Clarke, Tom, My Northcliffe Diary (Llundain, 1931).

Cranfield, Geoffrey Alan, The Press and Society from Caxton to Northcliffe (Llundain 1978).

Cynan, Wedi Storom: Cyfrol Goffa Dewi Emrys (Llandysul, 1965).

Davies, Aneirin Talfan, Darlledu a'r Genedl (Llundain, 1972).

Davies, D. Hywel, The Welsh Nationalist Party, 1925-1945: A Call to Nationhood (Caerdydd, 1983).

Davies, D. J. a Noelle, Cymoedd dan Gwmwl (Aberystwyth, 1938).

Davies, Ebenezer Thomas, Religion in the Industrial Revolution in South Wales (Caerdydd, 1965).

Davies, George M. Ll., Pererindod Heddwch (Dinbych, 1943).

Davies, Geraint Talfan Davies, Darlledu a'r Genedl (Darlith radio flynyddol BBC Cymru, 1972) (Llundain, 1972).

idem, Darlledu a'r Celfyddydau yng Nghymru (Bangor, 1994).

Davies, Gwilym, Y Byd - Ddoe a Heddiw: Trem ar y Cefndir Cydwladol (Aberystwyth, 1938).

Davies, John, 'Y Gydwybod Gymdeithasol yng Nghymru Rhwng y Ddau Ryfel Byd', Cof Cenedl IV, gol. Geraint H. Jenkins (Llandysul, 1989).

idem, Hanes Cymru (Llundain, 1990).

idem, Broadcasting and the BBC in Wales (Caerdydd, 1994).

Davies, Pennar, Gwynfor Evans (Abertawe, 1976).

Davies, Picton, Atgofion Dyn Papur Newydd (Lerpwl, 1962).

Davies, Rhys John, Seneddwr ar Dramp (Lerpwl, 1934).

Davies, William Anthony (Llygad Llwchwr), gol. J. Ellis Williams, Berw Bywyd (Llandysul, 1968).

Dewey, Peter E., War and Progress: Britain 1914-1945 (Llundain, 1997).

Dodge, John a Vidner George, gol., The Practice of Journalism (Llundain, 1963).

Edwards, Huw T., Tros y Tresi (Dinbych, 1956).

idem, Troi'r Drol (Dinbych, 1956).

Evans, Dyfed, Bywyd Bob Owen (Caernarfon, 1977).

Evans, Eric J., The Contentious Tithe (Llundain, 1976).

Evans, Gwynfor, Rhagom i Ryddid (Bangor, 1964).

idem, Aros Mae (Abertawe, 1971).

idem, 'Hanes Twf Plaid Cymru 1925-1995', Cof Cenedl X, gol. Geraint H. Jenkins (Llandysul, 1995).

Evans, R. Alun, Stand By!: Bywyd a Gwaith Sam Jones (Llandysul, 1998).

Falls, Cyril, The Second World War, a Short History (Llundain, 1948).

Ferris, Paul, The House of Northcliffe, The Harmsworths of Fleet Street (Llundain, 1971).

Foot, Michael, Aneurin Bevan I (1897-1945) a II (1945-1960), Llundain (1962-73).

idem, 'The Case for Beelzebub: Beaverbrook', Debts of Honour (Llundain, 1981).

George, William, Atgof a Myfyr (Wrecsam, 1948).

idem, My Brother and I (Llundain, 1958).

Gilbert, Martin, Second World War (Llundain, 1989).

Graves, Robert ac Alan Hodge, The Long Weekend: A Social History of Great Britain, 1918-1939 (Llundain, 1941).

Griffith, R. E., Urdd Gobaith Cymru, Cyf. 1, 1922-45 (Aberystwyth, 1971).

Griffiths, James, Pages From Memory (Llundain, 1969).

idem, Glo (Lerpwl, 1945).

Griffiths, Thomas Elwyn, Seren y Dwyrain: Hanes Dechreuad y Cylchgrawn a'r Bywyd Cymreig yn y Dwyrain Canol (Y Bala, 1955).

Gruffydd, W. J., Owen Morgan Edwards: Cofiant (Aberystwyth, 1937).

Gunther, John, Inside Europe (Llundain, 1936).

Hall, George M., gol., How to Write a Paper (Llundain 1994).

Hammond, John Lawrence, C. P. Scott of the Manchester Guardian (Llundain, 1934).

Hart, Basil Henry Liddell, History of the Second World War (Llundain, 1970).

Hartley, John, Understanding News (Llundain, 1982).

Hincks, Rhisiart, E. Prosser Rhys: 1901-45 (Llandysul, 1980).

Hornby, Robert, The Press in Modern Society (Llundain, 1965).

Howard, James Henry, Which Jesus?: Young Britain's Choice (Dolgellau, 1926).

idem, Winding Lanes: A Book of Impressions and Recollections (Caernarfon, 1938).

Hudson, Derek, British Journalists and Newspapers (Llundain, 1945).

Hughes, Mathonwy, 'Atgofion Cydweithiwr', Cyfrol Deyrnged Kate Roberts, gol. Bobi Jones (Dinbych, 1969).

Humphreys, Edward Morgan, Cymru a'r Wasg (Traethodau'r Deyrnas - 10) (Wrecsam, 1924).

idem, David Lloyd George (Llandebie, 1943).

idem, Y Wasg Gymraeg ('Cyfres Pobun' Rhif 3), gol. E. Tegla Davies (Lerpwl, 1945).

idem, Gwŷr Enwog Gynt I & II (Gwasg Aberystwyth, 1950, 1953).

Humphreys, Robin, Lloffion o Ddyddiaduron Ambrose Bebb: 1920-1926 (Caerdydd, 1996).

James, David Emrys (Dewi Emrys), Odl a Chynghanedd: Gwerslyfr ar Reolau Barddoniaeth (Llundain, 1938).

idem, Beirdd y Babell (Wrecsam, 1939).

Jenkins, Dafydd, Tân yn Llŷn: Hanes Brwydr Gorsaf Awyr Penyberth (Aberystwyth, 1937).

Jenkins, David Clay, Welsh Rural Communities, gol. Elwyn Davies ac Alwyn D. Rees (Caerdydd, 1960).

Jones, Aled Gruffydd, Press, Politics and Society: A History of Journalism in Wales (Caerdydd, 1993).

Jones, Bedwyr Lewis, 'Blynyddoedd Mawr John Eilian 1930-34', Y Faner, 29 Mawrth 1985.

Jones, Beti, Newsplan: Adroddiad ar Gynllun Newsplan yng Nghymru (Aberystwyth, 1993).

idem, Etholiadau'r Ganrif; 1885-1997 (Talybont, 1999).

Jones, Dafydd Glyn, 'Aspects of His Work', Presenting Saunders Lewis, gol. Alun R. Jones a Gwyn Thomas (Caerdydd, 1973).

Jones, Glyn Penrhyn, Newyn a Haint yng Nghymru a Phynciau Meddygol Eraill (Caernarfon, 1963).

Jones, Gwilym R., 'Cwrs y Byd', Saunders Lewis, Ei Feddwl a'i Waith, gol. Pennar Davies (Dinbych, 1950).

idem, 'Kate Roberts a'r Faner', Cyfrol Deyrnged Kate Roberts, gol. Bobi Jones (Dinbych, 1969).

idem, Rhodd Enbyd: Hunangofiant Gwilym R. Jones (Y Bala, 1983).

Jones, Ieuan Wyn, Y Llinyn Arian: Agweddau o Fywyd a Chyfnod Thomas Gee (1815-1898) (Dinbych, 1998).

Jones, Ifano, A History of Printing and Printers in Wales to 1810, and of Successive and Related Printers to 1923. Also, a History of Printing and Printers in Monmouthshire to 1923 (Caerdydd, 1925).

Jones, John Edward, Tros Gymru (Abertawe, 1970).

Jones, John Elwyn, Pum Cynnig i Gymro: Anturiaethau Carcharor Rhyfel (Y Bala, 1971).

Jones, John Herbert, O'r Mwg i'r Mynydd (Lerpwl, 1913).

idem, Swp o Rug (Lerpwl, 1920).

idem, Moelystota (Lerpwl, 1932).

idem, Gwin Y Gorffennol (Wrecsam, 1938).

Jones, John Tudor (John Eilian), 'Genedigaeth y Ford Gron - yna'r Cymro', Y Casglwr, Awst 1977.

idem, '"Barddoniaeth yw Curiad y Galon"', Barn 264 (Ionawr 1985).

Jones, John William, Y Fainc 'Sglodion (Blaenau Ffestiniog, 1953).

Jones, Pryderi Llwyd, Lewis Valentine yr Heddychwr (Caernarfon, 1986).

Jones, Tegwyn, 'Etholiad y Brifysgol 1943', cyfres o ysgrifau, Y Faner, 2 Medi - 23 Medi 1977.

Jones, Thomas, Lloyd George (Llundain, 1951).

Jones, Thomas Artemus, Without my Wig (Lerpwl, 1944).

Jones, Thomas Gwynn, Cofiant Thomas Gee (Dinbych, 1913).

Jones, Thomas Morris, Llenyddiaeth fy Ngwlad: sef Hanes y Newyddiadur a'r Cylchgrawn Cymreig yng Nghymru, America, ac Awstralia, ynghyd â'u dylanwad ar fywyd cenedl y Cymry (Treffynnon, 1893).

Jones, Thomas William, Fel Hyn y Bu (Dinbych, 1970).

Jones, Tommy Eyton, Cyw o Frid: Atgofion Newyddiadurwr (Dinbych, 1985).

Junor, Penny, Newspaper (Llundain, 1979).

Kimball, Warren F., Forged in War: Curchill, Roosevelt, and the Second World War (Llundain, 1997).

Lewis, Saunders, 'Prifeirdd neu Feirdd?', Baner ac Amserau Cymru, 22 Mawrth 1939.

Lloyd, David Tecwyn, 'T. E. Nicholas', Gwŷr Llên: Ysgrifau Beirniadol ar Weithiau Deuddeg Gŵr Llên Cyfoes, gol. Aneirin Talfan Davies (Llundain, 1948).

idem, 'Llenyddiaeth Cyni a Rhyfel', Ysgrifau Beirniadol IV (Dinbych, 1967).

idem, 'The Welsh Language in Journalism', The Welsh Language Today, gol. Meic Stephens (Llandysul, 1973).

idem, 'Newyddiaduraeth', Y Traddodiad Rhyddiaith yn yr Ugeinfed Ganrif (Llandysul, 1976).

idem, Gysfenu i'r Wasg Gynt (Llundain, 1980).

idem, Llên Cyni a Rhyfel a Thrafodion Eraill (Llandysul, 1987).

idem, John Saunders Lewis, y Gyfrol Gyntaf (Dinbych, 1988).

idem, 'Newyddiaduraeth yng Nghymru', Barn 121, 122, 123 (Tachwedd 1972 - Ionawr 1973).

Loades, Judith, gol., The Life and Times of David lloyd George (Bangor, 1991).

Llwyd, Alan, 'Colli John Eilian - Newyddiadurwr a Bardd', Barddas 97 (Mai 1985).

MacDonald, Gordon, Atgofion Seneddol (Llundain, 1949).

McLachlan, Donald, In the Chair: Barrington-Ward of The Times (Llundain, 1971).

Morgan, Dyfnallt, gol., Babi Sam yn Dathlu Hanner Can Mlynedd o Ddarlledu o Fangor, 1935-1985: Atgofion a Gobeithion Pen Blwydd (Caernarfon, 1985).

Morgan, Herbert, 'Diwydiant yng Nghymru', Traethodau'r Deyrnas 3 (Wrecsam, 1924).

Morgan, Kenneth O., Modern Wales: Politics, Places and People (Caerdydd, 1995).

idem, David Lloyd George: Welsh Radical as World Statesman (Caerdydd, 1963).

idem, The Age of Lloyd George (Llundain, 1971).

idem, Wales in British Politics, 1868-1922 (Caerdydd, 1980).

idem, David Lloyd George, 1863-1945 (Caerdydd, 1981).

idem, Rebirth of a Nation: Wales 1880-1980 (Efrog Newydd, 1981).

idem, The Red Dragon and the Red Flag: The Cases of James Griffiths and Aneurin Bevan (Aberystwyth, 1988).

Morgan, T. J., W. J. Gruffydd (Cyfres Writers of Wales) (Caerdydd, 1970).

Morris, William, gol., Tom Nefyn (Caernarfon, 1926).

Mowat, Charles Loch, Britain Between the Wars, 1918-1940 (Llundain, 1955).

Muggeridge, Malcolm, The Thirties: 1930-1940 in Great Britain (Llundain, 1940).

Owen, Frank, Tempestuous Journey: Lloyd George, His Life and Times (Llundain, 1954).

Owen, Glyn Russell, Stori Dda: Atgofion Newyddiadurwr o Lŷn (Talybont, 1984).

Owen, John Dyfnallt, Ar y Tŵr: Cyfrol i Ddathlu Chwarter Canrif Golygu'r 'Tyst' (Abertawe, 1953).

Parker, Robert Alexander Clarke, Struggle for Survival: The History of the Second World War (Rhydychen, 1989).

idem, Chamberlain and Appeasment: British Policy and the Coming of the Second World War (Basingstoke, 1993).

Parry, Cyril, David Lloyd George (Dinbych, 1984).

Parry, Thomas, Hanes Llenyddiaeth Gymraeg Hyd 1900 (Caerdydd, 1944).

Peate, Iorwerth C., W. J. Gruffydd: Astudiaeth (Llandybie, 1966).

Pelling, Henry, Britain and the Second World War (Llundain, 1970).

Pemberton, Max, Lord Northcliffe, a Memoir (Llundain, 1922).

Phillips, Luned, Dewi Emrys (Llandysul, 1971).

Pretty, David A., Rhyfelwr Môn: Y Brigadydd-Gadfridog Syr Owen Thomas, A.S., 1858-1923 (Dinbych, 1989).

Price, Emyr, Cymru a'r Byd Modern ers 1918 (Caerdydd, 1979).

idem, Megan Lloyd George (Caernarfon, 1983).

idem, Lloyd George y Cenedlaetholwr Cymreig: Arwr Ynteu Bradwr? (Llandysul, 1999).

Prichard, Caradog, Afal Drwg Adda : Hunangofiant Methiant (Dinbych, 1973).

Revill, Lindsay a Colin Roderick, The Journalist's Craft (Llundain, 1965).

Robbins, Alan Pitt, Newspapers To-day (Llundain 1956).

Roberts, Brynley F. ac E. D. Jones, gol., Y Bywgraffiadur Cymreig 1951-1970 Gydag Atodiad i'r Bywgraffiadur Cymreig Hyd 1940 a'r Bywgraffiadur Cymreig 1941-1950 (Llundain, 1997).

Robson, Walter, The Second World War Era (Rhydychen, 1993).

Roshwald, Aviel, Estranged Bedfellows: Britain and France in the

Middle East During the Second World War (Efrog Newydd, 1990).

Smith, Harold L., War and Social Change: British Society in the Second World War (Manceinion, 1986).

Smith, Robert, 'Y Papur a Afaelodd yn Serchiadau'r Bobl: John Roberts Williams a'r 'Cymro' 1945-62' (Aberystwyth, 1996).

Soames, Jane, The English Press (Llundain, 1963).

Steed, Wickam, The Press (Middlesex, 1938).

Stephens, Meic, gol., Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru (Caerdydd, 1986).

Stevens, Catrin, Iorwerth C. Peate (Caerdydd, 1986).

Stevenson, John, Social Conditions in Britain Between the Wars (Llundain, 1977).

idem, British Society, 1914-45 (Harmondsworth, 1984).

idem a Chris Cook, The Slump Society and Politics During the Depression (Llundain, 1977).

idem a Chris Cook, Britain in the Depression: Society and Politics, 1929-1945 (Llundain, 1994).

Taylor, Alan John Percivale, The Origins of the Second World War (Llundain, 1961).

idem, Churchill, Four Faces and the Man (Llundain, 1969).

idem, Beaverbrook (Llundain, 1972).

idem, The History of England 1914-1945 (Rhydychen, 1992).

Thomas, Robbie, The Advertizer Family: A History of North Wales Newspapers Limited (Croesoswallt, 1988).

Thomson, Malcolm, David Lloyd George: The Official Biography (Llundain, 1948).

Valentine, Lewis, Lewis Valentine yn Cofio: Y Cyfweliad Rhwng Lewis Valentine a John Emyr, gol. John Emyr (Dinbych, 1983).

Watkins, Percy Emerson, A Welshman Remembers: An Autobiography (Caerdydd, 1944).

Williams, Francis, Press, Parliament and People (Llundain, 1946).

Williams, Griffith John, Y Wasg Gymraeg Ddoe a Heddiw (Y Bala, 1970).

Williams, John Ellis, Inc yn fy Ngwaed (Llandybie, 1965).

Williams, John Roberts, Gemau Y Cymro 1932-1959 (Croesoswallt, 1959).

idem, Annwyl Gyfeillion (Llandysul, 1975).

idem, Dros fy Sbectol (Penygroes, 1984).

idem, 'John Eilian - Y Gloyn Byw', Y Casglwr, Pasg 1985.

idem, O Wythnos i Wythnos, gol. Guto Roberts (Penygroes, 1987).

idem, Nos Wener, Bore Sadwrn, gol. Guto Roberts (Penygroes, 1989).

idem, Yr Eiddoch yn Gywir (Penygroes, 1990).

idem, Pum Munud i Chwech, ac i Wyth: John Roberts Williams yn Edrych Dros ei Sbectol (Caernarfon, 1993).

idem, Mil a Mwy: y Pumed Detholiad o Sgyrsiau Dros fy Sbectol (Penygroes, 1996).

Williams, Tom Nefyn, Yr Ymchwil (Dinbych, 1949).

Williams, Waldo, **Dail Pren** (Aberystwyth, 1956).

Wilmot, Chester, **The Struggle for Europe** (Llundain, 1952).

Wrench, John Evelyn, **Geoffrey Dawson and our Times** (Llundain, 1955).

# *Atodiad Lluniau*

Gobeithiaf fod y dyfyniadau yn y traethawd hwn, nifer ohonynt yn adroddiadau ac ysgrifau cyfain, wedi rhoi blas pur dda i'r darllenydd o naws Y Cymro yn y cyfnod dan sylw; ni fyddai unrhyw astudiaeth o'r papur yn 'gyflawn', fodd bynnag, heb roi syniad yn ogystal o'i ddiwyg, a'i ddefnydd o luniau. Ystyrir Y Cymro fel y newyddiadur lluniau Cymraeg cyntaf: dylid cofio bod Rowland Thomas o'r cychwyn eisiau cael papur a fyddai'n ddeniadol i'r llygad yn ogystal â bod yn ddifyr i'w ddarllen. Yn yr atodiad hwn felly ceisiaf roddi blas o naws gweledol Y Cymro, gyda chyfres o lungopïau o dudalennau'r papur o'r cyfnod dan sylw; ar y diwedd hefyd ceir lluniau o rai o'r prif bobl a fu'n ymwneud ag ef yn ei flynyddoedd cynnar.

Mae rhan helaethaf yr atodiad yn cynnwys 79 o lungopïau o'r Cymro, mewn trefn gronolegol ac oll wedi'u rhifo: mae pedwar ohonynt o argraffiadau o'r Cymro cyn dyfodiad Cymro Wrecsam ym 1932, un o'r Cymro o 1959 yn dilyn marwolaeth Rowland Thomas, a'r 74 sy'n weddill o gyfnod yr astudiaeth hon, sef rhwng 1932 a diwedd 1945. Tudalennau blaen cyfain yw'r rhan fwyaf ohonynt, yn dangos fel yr adlewyrchodd Y Cymro rai o brif ddigwyddiadau'r oes yng Nghymru, Prydain a'r byd (straeon sydd oll wedi derbyn sylw yn y penodau blaenorol); hefyd ceir tudalennau sy'n rhoi blas ar agweddau eraill o'r papur, megis 'Y Babell Awen' gyntaf, 'Y Fainc 'Sglodion' gyntaf, tudalennau o hysbysebion, tudalennau o luniau ac ati, gyda'r bwriad o roi'r darlun mwyaf cyflawn bosibl i'r darllenydd o ddiwyg Cymro'r oes. Yn ogystal â thudalennau cyfain ceir rhai lluniau unigol a ymddangosodd yn y papur, megis lluniau o'r rhifyn arbennig a ymddangosodd ym mis Ionawr 1937 yn dilyn achos y tri chenedlaetholwr a losgodd yr ysgol fomio, yn yr Old Bailey yn Llundain.

Ar y cyfan mae'r lluniau'n siarad drostynt eu hunain a phrin bod angen i mi ychwanegu dim; yr unig beth a geir yn y 'rhestr gynnwys' isod yw ychydig o wybodaeth ychwanegol amdanynt. Ychydig iawn o wybodaeth a geir yn y rhestr ynghylch dyddiadau'r lluniau, a'u tudaleniad yn Y Cymro, oherwydd bod y manylion fel arfer i'w gweld yn y llungopïau eu hunain; rhoddir manylion ynghylch rhai lluniau unigol, fodd bynnag, nad sy'n dangos dyddiad na thudaleniad.

Ar ddiwedd y lluniau hyn ceir cyfres o ddeuddeg o luniau ychwanegol yn dangos wynebau'r prif bobl a fu'n ymwneud â'r Cymro yn ei flynyddoedd cynnar ac y soniwyd amdanynt yn y traethawd hwn.

Hoffwn ddiolch i staff Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, am eu cymorth wrth lunio'r Atodiad Lluniau hwn.

Rhestr gynnwys

Rhif y Llun

| | |
|---|---|
| 1 | Rhifyn cyntaf Cymro Bangor. |
| 2 | Rhifyn cyntaf Cymro Lerpwl. |
| 3 | Rhifyn cyntaf Cymro Dolgellau. |
| 4 | Rhifyn olaf Cymro Dolgellau yn cyhoeddi dyfodiad Cymro Wrecsam. |
| 5 | Rhifyn cyntaf Cymro Wrecsam. |
| 6 | Negeseuon lwc dda i'r Cymro newydd gan rai o ffigyrau cyhoeddus amlycaf y genedl. |
| 7 | Colofn gyntaf 'Oddi wrth Ferch at Ferch' gan M. E. |
| 8 | Colofn gyntaf 'Papur y Plant' gan Gwyn ap Nudd. |
| 9 | Tudalen o hysbysebion yn rhifyn cyntaf Y Cymro. |
| 10 | Colofn gyntaf 'Y Byd Heddiw' gan J. H. Howard. |
| 11 | Colofn gyntaf 'Y Ffermwr wrth ei Waith' gan R. F. Watkins, gohebydd amaethyddiaeth Y Cymro. |
| 12 | Hanes diddorol methiant Ocsiwn Ddegwm ar fferm ger Wrecsam; hon oedd y dudalen flaen gyntaf i gynnwys lluniau o newyddion yr wythnos flaenorol. |
| 13 | Rhifyn canol-wythnos arbennig Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam 1933. |
| 14 | Llun gwych o'r crefftwyr Tsieineaidd a gerfiodd Gadair hardd Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam. |
| 15-18 | Cyfres o dudalennau lluniau nodweddiadol o ganol pedwar rhifyn dilynol o'r Cymro; yr oedd y dudalen luniau hon (lluniau amrywiol, cyffredinol, nifer ohonynt gan y darllenwyr eu hunain), yn elfen newydd yn y Wasg Gymraeg ac ystyrir yn gyffredinol mai'r Cymro yw'r newyddiadur lluniau Cymraeg |

cyntaf.

19 Llun o staff Y Cymro ar dudalen 8 rhifyn penblwydd cyntaf y papur. Y pedwerydd o'r chwith yw John Eilian, golygydd cyntaf Y Cymro; y chweched o'r chwith yw Percy Ogwen Jones, yr is-olygydd. Einion Evans, y gŵr a fyddai ymhen ychydig fisoedd yn dod yn olygydd newydd y papur, a dynnodd y llun.

20 Hanes trist tanchwa Gresford.

21 'Clwb Plant Y Cymro' cyntaf, dan ofal Elidyr.

22 Deiseb Genedlaethol Y Cymro yn hawlio mwy o degwch yn y llysoedd.

23 Llun o aelodau o'r Ddirprwyaeth a gyflwynodd Ddeiseb yr Iaith i Gomisiwn y Llysoedd; y cyntaf ar y dde yw Einion Evans, golygydd Y Cymro; yr ail ar y dde yw R. F. Watkins, gohebydd amaethyddiaeth y papur.

24 Rhifyn cyntaf Y Cymro wedi iddo ymgorffori'r Ford Gron: sylwer yn benodol ar deitl y papur.

25 Marwolaeth y Brenin Siôr V.

26 Pennawd nodweddiadol yn dangos gwallgofrwydd trefn ddosbarthu bwydydd yr oes, un o sgîl-effeithiau niferus methiant y gyfundrefn economaidd.

27 'Y Babell Awen' gyntaf gan Dewi Emrys.

28 Torri'r newydd am losgi'r ysgol fomio, un o ddigwyddiadau Cymreig mwyaf arwyddocaol y ganrif.

29 Y Brenin Edward VIII yn ymweld â rhai o fannau mwyaf dirwasgedig De Cymru; ofer fu'r ymweliad fodd bynnag gan y torrodd y newydd am ei berthynas â Mrs. Simpson ychydig ddyddiau'n ddiweddarach.

30 Arwyddion cryf bod achos llys y tri chenedlaetholwr a losgodd yr ysgol fomio am gael ei symud i Lundain.

31 Tudalen flaen rhifyn estynedig arbennig o'r Cymro yn dilyn yr achos llys hanesyddol yn yr Old Bailey.

32 Llun ar dudalen 12 y rhifyn arbennig yn dangos y tri chenedlaetholwr ynghyd â J. E. Jones, Trefnydd Cyffredinol y Blaid Genedlaethol Gymreig, ac E. V. Stanley Jones, cyfreithiwr y tri, yn gwenu ar y ffordd i'r llys yng Nghaernarfon yn y mis Hydref

blaenorol.

33 Llun ar dudalen 15 y rhifyn arbennig yn dangos y tri chenedlaetholwr yn sefyll o flaen y gwesty yn Llundain.

34 Llun ar waelod yr un dudalen yn dangos y dorf tu allan i'r Old Bailey.

35 Coroni'r Brenin a'r Frenhines newydd, Siôr VI ac Elizabeth.

36 Llun trawiadol o feirdd Pabell Awen Y Cymro a gyfarfu mewn Ymgomwest arbennig adeg Eisteddfod Genedlaethol Machynlleth. Yr ail ar y chwith yn y rhes gyntaf yw Dewi Emrys, golygydd y Babell.

37 Colofn gyntaf 'O Fyd y Werin' gan T. E. Nicholas.

38 Un o dudalennau canol 'Rhifyn Iechyd' arbennig Y Cymro yn dangos lleoedd iacháu'r pla gwyn yng Nghymru.

39 Y Cymro yn mynegi ei anfoddhad wedi i Bwyllgor Addysg Sir Gaerfyrddin ddewis Sais di-Gymraeg i fod yn Gyfarwyddwr Addysg y sir. Ar waelod y dudalen ar y dde mae hysbyseb ar gyfer seidr an-feddwol: yr oedd Rowland Thomas yn ddirwestwr o argyhoeddiad.

40 Y Cymro yn holi paham fod cymaint o wahaniaeth rhwng y prisiau a dalai'r cyhoedd am eu llaeth, a'r prisiau a delid i'r ffermwyr amdano.

41 Y Prif Weinidog Neville Chamberlain yn gwrthod cais y Ddirprwyaeth Gymreig a fu'n ceisio ganddo sefydlu Ysgrifennydd i Gymru.

42 Llun cartŵn o Neville Chamberlain, arwr mawr y dydd, yn dilyn y 'Cytundeb' hanesyddol ym Munich, cytundeb yn ôl Y Cymro ar y pryd a olygai bod 'galanastra rhyfel byd-eang wedi ei osgoi dros amser, dros amser maith, o bosibl, - pwy a ŵyr, am byth.'

43 Rhifyn cyntaf Y Cymro wedi iddo ymgorffori'r Brython: sylwer yn benodol ar deitl y papur.

44 Tudalen gyntaf yr atodiad Saesneg 8-tudalen arbennig yn dilyn ymchwiliad manwl Clement Davies i broblem enfawr y pla gwyn yng Nghymru.

45 Un o ysgrifau blaen mwyaf arwyddocaol Y Cymro

erioed yn mynegi parodrwydd y papur i gefnogi gweithredu milwrol gan Brydain i wrthsefyll bygythiad Hitler; yn y blynyddoedd cyn hynny bu'r Cymro'n siarad yn gryf yn erbyn pob math o filwriaeth.

46 Arwydd pendant bod Rhyfel ar ei ffordd.

47 Lluniau o feirdd y Babell Awen, ynghyd â'u henwau, gyda Dewi Emrys yn dilyn Ymgomwest arall adeg Eisteddfod Genedlaethol Dinbych 1939.

48 Cwestiwn tyngedfennol gan Y Cymro ychydig ddyddiau'n unig cyn toriad yr Ail Ryfel Byd.

49 Pennawd brasach na'r arfer i ddynodi toriad yr Ail Ryfel Byd.

50 Golygydd Y Cymro yn dangos ei anghytundeb llwyr â T. E. Nicholas, awdur 'O Fyd y Werin', colofn Gomiwnaidd y papur.

51 'Y Fainc 'Sglodion' gyntaf gan J. W. Jones.

52 Ysgrif arbennig gan E. Morgan Humphreys i ddynodi achlysur hanner can mlwyddiant Lloyd George yn y Senedd.

53 Diswyddo Dr. Iorwerth Peate o'i waith yn Geidwad Adran Diwylliant a Diwydiannau Gwerin Amgueddfa Genedlaethol Cymru; nid oedd rheswm swyddogol dros ei ddiswyddo ond y gwir amdani oedd bod Dr, Peate yn wrthwynebydd cydwybodol.

54 Y Rhyfel yn datblygu'n Rhyfel Byd o ddifrif yn dilyn ymosodiad Japan ar Pearl Harbor.

55 Y Cymro yn holi beth oedd gwir gymhellion y Blaid Genedlaethol Gymreig; nid oedd y papur, fel y mwyafrif o drigolion Cymru'r oes, yn cytuno â'r Blaid yn ei dyddiau cynnar.

56 Pasio Mesur y Llysoedd ym 1942: carreg filltir, ond Mesur nad âi mor bell o dipyn â'r hyn a ofynnwyd amdano.

57 Ethol W. J. Gruffydd yn Aelod Seneddol newydd dros Brifysgol Cymru, yn dilyn yr is-etholiad hanesyddol ym 1943.

58 Llythyr agored Saesneg i'r Prif Weinidog Winston Churchill yn hawlio Ysgrifennydd i Gymru.

59 Llwyddiant aruthrol i Dewi Emrys yn Eisteddfod Genedlaethol Bangor 1943: enillodd ef y Gadair ac enillodd Dafydd Owen, un o 'ddisgyblion' y Babell Awen, y Goron.

60-64 Cyfres o bump o dudalennau o rifynnau dilynol o'r Cymro i ddangos ei hysbysebion yn ystod y Rhyfel. Diddorol iawn yw natur yr hysbysebion: hysbysebion tonics a 'meddyginiaethau' yn gyffredin iawn wrth i hysbysebwyr fanteisio ar gyflwr meddyliol bregus pobl adeg y Rhyfel; hysbysebion Cynilion Cenedlaethol hefyd yn ymddangos yn rheolaidd ac yn defnyddio technegau propaganda megis y 'Pry Afradu' ac arno swasticas (Llun 64) i ddylanwadu ar bobl i gynilo; sylwer hefyd bod llawer o hysbysebion ar gyfer nwyddau bob dydd hyd yn oed yn defnyddio'r Rhyfel i werthu'r cynhyrchion, megis sebonau sy'n 'gwneud y mwyaf' o rasiynau Rhyfel y Llywodraeth.

65 Adroddiad rhyfeddol ar yr Eisteddfod Gadeiriol a gynhaliwyd yng Nghairo gan y Cymry Cymraeg a wasanaethai yn y lluoedd yn y Dwyrain Canol.

66 Adroddiad Saesneg, er mwyn i'r Prif Weinidog fedru ei ddarllen, wedi iddo wrthod sefydlu Ysgrifennydd i Gymru.

67 Ysgrif flaen Saesneg yn yr un rhifyn.

68 Y Cymro yn adrodd hanes byddinoedd y Cynghreiriaid yn glanio ar arfordir Normandi ar 6 Mehefin 1944, 'D-Day'.

69 Lluoedd y Cynghreiriaid wedi cyrraedd yr Almaen.

70 Marwolaeth Lloyd George.

71 Angladd Lloyd George yn Llanystumdwy.

72 Marwolaeth Hitler.

73 Pennawd brasach na'r arfer i ddynodi bod y Rhyfel yn Ewrop drosodd wedi i'r Almaenwyr ildio i'r Cynghreiriaid.

74 Ysgrif flaen y rhifyn hanesyddol hwn o'r Cymro, ar ffurf salm, rhywbeth sy'n dangos crefyddolder yr oes.

75 Neges uniaith Saesneg gan Y Cymro i Ryddfrydwyr Cymru cyn Etholiad Cyffredinol 1945; yr oedd

Rowland Thomas yn Rhyddfrydwr mawr.

76 _Y Cymro_ yn adrodd am fuddugoliaeth enfawr y Blaid Lafur yn Etholiad Cyffredinol 1945.

77 Tudalen ôl yr un rhifyn yn dangos lluniau rhai o'r Aelodau Seneddol Cymreig a etholwyd i'w seddau yn yr Etholiad Cyffredinol.

78 Tudalen flaen _Y Cymro_ wedi diwedd yr Ail Ryfel Byd: llun gwych o Brifardd y Gadair, Tom Parry Jones, yn eistedd gyda'r Archdderwydd Crwys ar lwyfan Eisteddfod Genedlaethol Rhosllannerchrugog, ond ychydig iawn o sylw i'r ffaith bod yr Ail Ryfel Byd wedi dod i ben ar ôl i Japan ildio i'r Cynghreiriaid yn dilyn gollwng y ddau fom atomig.

79 _Y Cymro_ yn cyhoeddi marwolaeth Rowland Thomas, y gŵr di-Gymraeg a oedd tu cefn i'r papur o'r cychwyn ac a wnaeth gymaint o aberth ac ymdrech i geisio achub iaith na fedrai ei siarad.

E.W. EVANS LTD. DOLGELLEY

REPRESENTED THROUGHOUT THE PRINCIPALITY AND LARGEST ENGLISH TOWNS BY OVER 2000 AGENTS

TELEPHONE 13 DOLGELLEY

# Y Cymro!

CYHOEDDIADAU

Y CYMRO Dydd Mercher, 2g
Y DDOLEN Yn Fisol, 2g
Y GYMRAES Yn Fisol, 2g
YR HAUL Yn Fisol 4c

TELEGRAMS CYMRO DOLGELLEY

NEWYDDIADUR WYTHNOSOL.

AT WASANAETH CREFYDD, LLENYDDIAETH, GWLEIDYDDIAETH A MOESAU.

CYF. XVIII. RHIF 38. DYDD MERCHER, MEDI 23, 1931. PRIS 2G.

# DYFODOL "Y CYMRO."

## Hysbysiad Pwysig.

Y mae'r CYMRO wedi ei brynu gan Mri. Hughes a'i Fab, y Cyhoeddwyr, Wrecsam a Chaerdydd.

Hwn yw'r rhifyn olaf o'r CYMRO fel y mae.

Fe'i cyhoeddir cyn hir ar ddull hollol newydd, yn bapur newyddion cyffredinol i genedl y Cymry.

## GAIR AT Y DERBYNWYR.

**Eglurhad.**

Wedi darllen yr hysbysiad uchod, disgwylia'r darllenydd esboniad arno, a bwriadaf ddefnyddio gofod y tudalen yma i roddi eglurhad personol ar y datblygiadau newydd hyn, ac i ddywedyd ffarwel wrth fy narllenwyr. Aeth sibrwd allan rai misoedd yn ôl parthed dyfodol Y CYMRO, a lledaenwyd storïau lawer. Bu raid cadw'r gyfrinach hyd yn awr.

* * *

**Siom.**

Gwn y teimla miloedd o ddarllenwyr Y CYMRO yn siomedig oherwydd colli ohonynt newyddiadur a fu'n gymeradwy yn eu golwg. Teimla'r staff yn y Swyddfa yn siomedig hefyd oherwydd torri'r cysylltiadau a wnaed rhyngddynt â'r darllenwyr a'r ysgrifenwyr.

* * *

**Rhagolwg.**

Ond rhaid yw edrych ymlaen. Teimlwyd ers llawer dydd angen newyddiadur Cymraeg gwir genedlaethol, a dyhead llawer oedd am i'n cenedl gael newyddiadur a allai ymdrin â phob agwedd o'r bywyd Cymreig, ac a roddai i Gymru wybodaeth ac arweiniad arbennig ynglŷn â materion Prydain a'r byd. Ceisiodd amryw sefydlu newyddiadur o'r fath, ond syrthiodd y cynlluniau i'r llawr cyn iddynt gael eu cwblhau.

**Gweledigaeth.**

Felly, pan dderbyniasom awgrym oddi wrth Mri. Hughes a'i Fab parthed eu hawydd am sefydlu papur o'r fath, cafodd ystyriaeth ffafriol gennym, a da oedd gennym allu cyflwyno hawlfraint Y CYMRO i'r cwmni adnabyddus hwn. Mawr yw dyled Cymru i Wasg Wrecsam am yr hyn a wnaeth eisoes i lenyddiaeth Gymreig. Ond bydd ein dyled iddi yn fwy fyth am yr hyn a wna gyda'r CYMRO newydd.

* * *

**Bwriad.**

Bwriad y cwmni yw dwyn allan Y CYMRO yn nulliau newyddiadurol diweddaraf yr oes. Bydd yn wahanol i ddim a welodd Cymru erioed o'r blaen. Nid yw dydd cyhoeddi'r papur wedi ei benderfynu eto, ond fe'i cyhoeddir cyn gynted ag y bydd yn bosibl; hysbysir y dydd ymhellach ymlaen. Fe ganiateir imi ddywedyd yn y fan hon i'r perchenogion newydd roddi swydd gyfrifol i minnau ar y staff olygyddol.

* * *

**Diolch.**

Bydd yn chwith torri hen gysylltiadau. Dangoswyd teyrngarwch anghyffredin i'm diweddar dad o 1914 hyd 1925, ac i minnau ar ôl hynny. Mawr yw fy nyled i'r ysgrifenwyr, y darllenwyr, a'r dosbarthwyr. Derbynied y cwbl fy niolchgarwch puraf am eu ffyddlondeb.

**Y Staff.**

Dymunaf hefyd ddiolch yn gyhoeddus i weithwyr ffyddlon y Swyddfa—o'r Is-Olygydd i lawr—am eu cydweithrediad parod. Cefais hwynt bob amser yn barod i gyd-weithio i'r eithaf er mwyn llwyddiant Y CYMRO.

* * *

**Anghofio.**

Bu gan Y CYMRO ei wrthwynebwyr er ei gychwyniad. Bu rhai yn barod bob amser i wneuthur eu gwaethaf drosto. Efallai iddo greu gwrthwynebwyr trwy'r hyn a gyhoeddwyd ar ei dudalennau. Erfyniaf yn garedig am i hyn oll gael ei anghofio yn awr. Ymha le bynnag y coleddwyd drwg-deimlad, gadawer iddo ddiflannu. Ni ddywedwn ychwaneg ar y mater hwn, ond yn unig datgan yr hyder yr anghofir yn llwyr yr holl anghydweld a fu.

* * *

**Ffarwel.**

Dyletswydd anhapus yw dywedyd ffarwel wrth hen gyfeillion. Bydd yn chwith gennym beidio â chyfarch ein darllenwyr wythnos ar ôl wythnos, ond edrychwn ymlaen yn eiddgar at allu adnewyddu'r cysylltiad cyn hir. Y gair olaf sydd gennyf yw cyflwyno eto fy niolchgarwch dyfnaf i bawb a'm cynorthwyodd i wneuthur Y CYMRO yn gymeradwy i'w ddarllenwyr.

Y GOLYGYDD.

Llun 4

WEDNESDAY, AUGUST 9th, 1933

RHIFYN COFIO'R EISTEDDFOD


# Y CYMRO

The Welsh National Weekly — Papur Newydd Cenedlaethol Cymru

Smociwch a Mwynhewch
BACO'R AELWYD
SIAG digymar am y Pris
yr owns. 8d. yr owns;
Hanner owns 4d.
E. MORGAN A'I GWMNI, AMLWCH

RHIFYN ARBENNIG YR EISTEDDFOD GENEDLAETHOL

RHIF 37. DYDD MERCHER, AWST 9, 1933 DWY GEINIOG (2D.)





Defodau Gorsedd y Beirdd ar Faes Bodhyfryd, Wrecsam, wyth o'r gloch fore Mawrth. 1, Yn y cylch. 2. Cyflwyno'r aberthged i'r Archdderwydd.
[Darluniau'r "Cymro."

## MILOEDD CYMRU YN YR EISTEDDFOD

*Gan MEIRION LLOYD JONES*

**NI welwyd ers ugain mlynedd gymaint o bobl yng nghyfarfod cyntaf yr Eisteddfod Genedlaethol ag a welwyd yn Wrecsam ddydd Llun.**

Pan ddaeth Maer Wrecsam a'i osgorddlu i mewn, ar ôl gorymdaith drwy'r heolydd, cododd tua phum mil o bobl ar eu traed.

Y mae'r Eisteddfod hon, o bob safbwynt, eisoes yn llwyddiant eithriadol.

Ni welais hen dref Wrecsam erioed mor brydferth â deniadol ag yr oedd fore Llun.

Yr oedd banerau amryliw yn hongian ar draws ei hystrydoedd poblog, ac yr oedd pob dinesydd, Sais neu Gymro, yn awyddus iawn i groesawu'r dieithr-ddyn.

Yn wir yr oedd miloedd yn gwau ar hyd yr heolydd ymhell cyn amser yr orymdaith.

Anodd, wrth weled croeso ac ysbryd llednais y dref oedd peidio â phroffwydo y deuai mawr les i Wrecsam o'r ŵyl.

**Y PLANT YN EU COCH A GWYRDD.**

Golygfa i gynhyrfu calon pob Cymro ydoedd gweled tua 800 o blant mewn coch a gwyrdd yn gorymdeithio drwy'r dref.

Amhosibl ydoedd darganfod cerdded simsan a diamcan ymysg y miloedd plant. Eithr gyda thraed pendant a chamau penderfynol y cerddasant.

Hawdd iawn hefyd ydoedd sylweddoli bod y Maer (Mr. W. Emyr Williams) yn ei wisg ffllamgoch yn ymfalchïo yn ei dref. Gwyddai y'n dda bod llygaid Cymru ar Wrecsam, yn wir fod y byd Cymreig am ddod yno yn ystod yr wythnos.

**Breuddwyd nad anghofir ydoedd—gwyrdd yr Urdd a melyn yr haul—y plant yn cerdded o dan bontydd o faneri.**

Aeth iâs ryfedd o frwdfrydedd drwy lawer wrth weled y Maer yn arwain dyfodol Cymru trwy'r dref.

**CANU I'R DORF.**

Yn y pafiliwn bu pob un o'r siaradwyr yn fyr ac i bwrpas. Dyma Mr. Ellis Hughes i'r llwyfan yn ddiymdrol, a rhoddwyd ugain munud o ganu alawon adnabyddus gan yr Urdd i'r dorf fawr.

Eisteddai llawer o'r plant ar lawr y llwyfan canys nid oedd le i'r un plentyn arall. Yn sydyn fe oleuwyd y llwyfan â goleuni llachar trydan, a gwelwyd y plant yn eu gogoniant. Yr oedd eu lleisiau yn swnio fel hen glychau mwyn.

Agorwyd yr Eisteddfod yn ffurfiol ac yn Saesneg gan Mr. Aled Roberts, A.S. Siaradwyd ymhellach gan y Maer a Maer Croesoswallt. Hyfryd iawn ydoedd gweled y Faeres mewn gwyrdd.

Aeth y tân oer yn un fflam angerddol pan alwyd ar Mr. Ifan ab Owen Edwards i ddweud gair ar ran yr Urdd.

## YR ENILLWYR CYNTAF

### GORNEST Y SEINDYRF

**Gan T.A.J.**

NID wyf yn cofio gweled cymaint o wrandawyr ym mhabell yr Eisteddfod yn gwrando ar y prif gystadleuaeth i fandiau ag a oedd ddydd Llun.

Credaf mai un rheswm am hyn oedd fod y gwaith y cystadleuwyd arno, sef "I Capulette" (Bellini), yn bleserus iawn i'w wrando—y melodïau yn rhai ysgafn a thlws. Dyma'r buddugwyr:—

1, Ystalyfera Public; 2, Ystalyfera Town; 3, Royal Oakley, Ffestiniog; 4, Melin Gruffydd, Caerdydd.

Canai seindyrf pres, dosbarth C "Happy Memories" (Greenwood), a dyma fel y'u cloriannwyd:

1, Penmaenmawr; 2, Llanrwst; 3, Dolgellau.

**"OLD WALES."**

Hynod o ddiddorol oedd dewisiad darn newydd spon gan Joseph Holbrooke,—sef "Old Wales" ar gyfer cystadleuaeth y Seindyrf Pres, Dosbarth B. Pur anaml y ceir cystal safon yn yr adran yma o gerddoriaeth yr Eisteddfod. Oherwydd rhyw reswm neu'i gilydd, nid oes caniatad i'r beirniaid yn y cystadleuthau hyn gael gwybodaeth o gwbl pa fand sydd ar y llwyfan. Traddodwyd y feirniadaeth yn Gymraeg gan Mr. Haydn Morris a dyfarnodd fand y Rhos yn gyntaf; 2, Tuff Merthyr; 3, Ystradgynlais.

Gorymdeithgan o ddewis yr ymgeiswyr oedd y gystadleuaeth gyntaf.

I dudalen 2, col. 5.



### At Brydau Haf Ysgafn

NI fydd prydau ysgafn yr haf yn rhoi digon o faeth creu egni. Bydd "Ovaltine" blasus yn gwneud hyd yn oed y pryd ysgafnaf yn gyflawn o rin maethlon.

Y mae "Ovaltine" yn gyfoethog ym mhob cynneddf fwyd anhepgor, ac y mae'n llawn mor flasus fel llymaid poeth neu lymaid oer.

Yn wahanol i efelychiadau, nid oes mewn "Ovaltine" ddim siwgr teulu i chwyddo'i faint a lleihau ei gost. Ni cheir ynddo chwaith gyfartaledd mawr o goco. Gwrthodwch ddynwarediadau.

*Yfwch y blasus*

'OVALTINE'

*Prisiau ym Mhrydain a Gogledd Iwerddon, 1/1 1/10 a 3/3.*


Llun 13

'ies.

HAU,
LLAD

Street,
M.

# Cadair yr Eisteddfod, gyda'r gwŷr a'i gwnaeth




Cadair yr Eisteddfod, gyda'r crefftwyr a'i gwnaeth, sef Sicca Wei a'i gymdeithion yn Shanghai, China. Rhodd Cymry Shanghai ydyw'r gadair, trwy law Major J. R. Jones, brodor o Lanuwchllyn, Meirionnydd, i'r bardd buddugol a gadeirir brynhawn dydd Iau.



Llun 14


# Sasiwn, Priodas a Gwyliau



**MERCH Y MELINYDD.** Dyma lun a dynnwyd ar lan afon Ystwyth gan Miss Nansi Rowlands, The Pioneer, North Parade, Aberystwyth, a'i anfon i gystadleuaeth "Y Cymro."



Anfonwyd i gystadleuaeth "Y Cymro" gan Mr. T. Ellis Jenkins, Penlan Blaenpennal, Llanilar, Ceredigion.



**SASIWN:** Golygfa o gyfarfod prynhawn Iau yn Sasiwn y De a fu yng Nghapel y Tabernacl, Aberaeron, Ceredigion.



**Y GWTA FACH.** Dyma lun a enillodd wobr gyntaf i Wallace P. Jones, 3, Park Terrace, Llangoed, Môn, yn nosbarth plant ysgol yng nghystadleuaeth "Y Cymro."



**PRIODAS Y PARCH. J. PRYSE WILLIAMS,** gweinidog eglwys [illegible] a Miss Edith G. Owen, merch [illegible] y diweddar Mr. Stephen Owen a Mrs. Owen, [illegible] [illegible]



**MYND A'R DEFAID I'R MYNYDD, AR OL EU CHEIFIO.** Tynnwyd y [illegible] gan Miss M. M. [illegible] Hall [illegible] i gystadleuaeth "Y Cymro."

Llun 15


# Lluniau Gwaith a Gwyliau




Prynhawn braf yn Llandudno. Dyma lun a enillodd wobr gyntaf i Mr. R. M. Powell, Pewys, South Beach Pwllheli.



Meddwl am y wobr. Dyma lun a enillodd wobr gyntaf i Miss E. Olwen Jones, Brynawel, Llanarth, Ceredigion, yn adran plant ysgol yng nghystadleuaeth "Y Cymro."




Trochfa ola'r Tymor. Anfonwyd y llun hwn i gystadleuaeth "Y Cymro" gan Miss Edyth Williams, Green Hill, Penrhyndeudraeth.



Dyma weithwyr Mri. W. Gilbertson, Pontardawe, gerllaw Abertawe, yn llwytho dalennau sinc, rhan o archeb gwerth £600,000 o'r Argentina. Defnyddir hwy i ymladd locustiaid.



Tynnu'r Rhwyd yn Afon Dyfrdwy, [illegible] Anfonwyd y llun hwn i gystadleuaeth "Y Cymro" gan Miss Enid Elias, 29, Skerries-rd., Anfield, Lerpwl.




Dyma lun Mr. T. Hopkins, gof, Ystrad, Rhondda, yn gwneud organ i'w eglwys. Bydd 600 pibell i'r organ, ac fe ddefnyddiwyd 28 o gwyn defaid i wneud y [illegible]. Y mae Mr. Hopkins wrth y gwaith ers tair blynedd.

Llun 16

# Darluniau Oddi Wrth Ein Darllenwyr




HWYL WRTH DAFLU'R BEL.—Blwydd a hanner oed yw Margaret Owena Williams, Llety Llwyd, Tanycoed, Llanrug, Arfon. Enillodd y llun wobr gyntaf i Miss Nell M. Ellis, Cartrefle, Llanrug, Arfon.



YR ALARCH AR EI WIWLYN.—Ger Llyn Tegid. Anfonwyd y llun hwn i gystadleuaeth "Y Cymro" gan Miss Ceri Hughes, Awelfryn, Bala, Meirionnydd.




DYSGU CANU'R DELYN.—Dyma lun Miss A. Pallant, o Feddgelert, Arfon, a anfonwyd i gystadleuaeth "Y Cymro" gan Miss Edith M. Evans, Cwmcloch, Beddgelert, Arfon.



DIWRNOD DIPIO.—Tynnwyd y llun hwn gan Miss Minnie Davies, Gorsaf yr Heddlu, Llanrhaeadr, ger Croesoswallt, ym Moelyllyn, Llanrhaeadr ym Mochnant, i'w anfon i gystadleuaeth "Y Cymro."




NOS DAWEL YN [illegible], a'i anfon i gystadleuaeth "Y Cymro" gan Miss Mildred Meredith, Bryn Derw, Llwynhendy, Llanelli.



COR MEIBION CASTELLWYR CYDWELI, fydd yn darlledu mewn cyngerdd nos Iau dan arweiniad Mr. J. Islwyn Evans.

Llun 17


# Gwaith Cwmni Cymro yn yr Aifft




TRI O BLANT CWM GWILI, sef Geraint Thomas, Danny Jenkins, ac Ieuan Thomas. Anfonwyd i gystadleuaeth "Y Cymro" gan Mr. F. Thomas, Cross Hands, Llanelli.



LLYN Y FANOD. Anfonwyd gan Mr. Jack Davies, Isfryn, Tregaron, Ceredigion, a chafodd y wobr gyntaf.



ARGAE ASWAN, ar afon yn yr Aifft, sy wedi ei hail-godi gan gwmni o Lundain, sef Topham, Jones a Railton, Cyf., Westminster. Cymro, sef Syr Evan D. Jones, ydyw pennaeth y cwmni hwn.



YN Y WLAD. Dyma lun wedi ei dynnu yn Cilcain, Wyddgrug, a'i anfon i gystadleuaeth "Y Cymro" gan Mr. Edward Humphrey Jones, 113, Dacy Road, Everton, Lerpwl.



DATHLU [illegible] Yn y gadair, y gweinidog, y Parch. D. Rhys Thomas (un o blant Cwm-llynfell); siaradwyr yn y darlun: Y Parchn. J. C. Lloyd, Brynrhiwgaled; Wern Williams, Wern; E. Pryce Davies, Caerffili; G. C. Williams, Gwynfe; — Pugh Brynhafod; Jenkin E. Evans; Onllwyn; Enoch Davies, Soar, Aberdar; Mr. James Evans, 83 mlwydd oed; Mr. Daniel Jones, ysgrifennydd; Mr. D. Davies, trysorydd; y Parchn. — Jones, Pen-ycae, E. Evans, Tynygwndwn; ac Ellis Williams, Pisgah.



AR Y LLYN. Dyma lun a enillodd wobr gyntaf i Mr. Dewi Jones, 4, Lle'r Farchnad, Castellnewydd Emlyn, yn adran plant ysgol yng nghystadleuaeth "Y Cymro."

Llun 18

# LWYDD "Y CYMRO"

## *Gan Y GOLYGYDD*



**Rhai o bobl swyddfa'r "Cymro." Y mae pob un o'r rhai a enwir isod yn y llun hwn ond Mr. Einion Evans —ef oedd yn tynnu'r llun.**


og ganddynt at y bwriad i roddi hwb da i'r disgwyliad amdano yn eu har-

Nghaernarfon. Cystal critig â neb yng Nghymru ar bynciau gwlad ac

ydd Masnach, sydd yntau'n feistr ei faes ac yn tynnu sylw darllenwyr "Y

Llun 19

# o Deiseb yr Iaith i Gomisiwn y I



Aelodau o'r Ddirprwyaeth—Mr. Ronw Moelwyn Hughes, Mr. Morgan Jones, A.S., Mr. Ithel Davies, Miss Cassie Davies, Mr. R. F. Watkins, a Mr. Einion Evans.

## TYR LA TAVAS

### TREFNU GWASANAETH CERNYWEG

## *GWEINIDOGION YN SYMUD*

Penodwyd y Parch. T. Walter James curad eglwys Sant Paul y

## PENODIADAU'R B.B.C.

### LLENWI WYTH O'R

Llun 23

SATURDAY, JANUARY 25, 1936

YR EISTEDDFOD GENEDLAETHOL
ABERGWAUN
AWST, 1936.
RHESTR TESTUNAU
1/-. Trwy'r Post 1/2.
Gan unrhyw Lyfrwerthwr
HUGHES A'I FAB

# Y CYMRO
a'r Ford Gron
The Welsh National Weekly ∴ Papur Cenedlaethol Cymru

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD.
BLAENAU FFESTINIOG
MEHEFIN, 1936.
RHESTR TESTUNAU
6ch. Trwy'r Post 7c.
Gan unrhyw Lyfrwerthwr
HUGHES A'I FAB.

Rhif 166. DYDD SADWRN, IONAWR 25, 1936 DWY GEINIOG [2D.]

# MARW'R BRENIN YM MLWYDDYN EI JIWBILI

## Colli Nerth yn Gyflym

### PEDWAR YMWELIAD A CHYMRU

### CYHOEDDI ESGYNIAD IORWERTH VIII

GYDA gofid dwys y derbyniodd y wlad hysbysiad am farw'r Brenin Siôr V, yn ei gartref yn Sandringham, am bum munud i ddeuddeg o'r gloch, nos Lun, yng ngwyddfod y Frenhines, Tywysog Cymru, Duc Efrog, y Dywysoges Frenhinol, a'r Duc a Duces Caint.

Ymhen ychydig ddyddiau ar ôl y Nadolig canfuwyd nad oedd ei iechyd cystal ag arfer, ac er iddo deimlo'n ddigon da i fynd allan am ychydig ddydd Mercher, gwybu'r byd erbyn nos Wener iddo gael ymosodiad o'r ... a bod amhariad ar guriad ei galon.

Erbyn dydd Llun, ymollyngai i ysbeidiau o anymwybyddiaeth, a phallodd ei nerth yn gyflym. Am 9.25 y nos hysbyswyd fod ei yrfa yn dirwyn i'r pen. Nid oedd yn dioddef unrhyw boen, a daeth y diwedd yn hollol ... bum munud i hanner nos.

Yr oedd y Brenin Siôr yn 70 oed ar Fehefin 3 diwethaf, a bu'n frenin am chwarter canrif.

Yn fuan wedi ei goroni yn 1911, ymwelodd y teulu brenhinol â Chymru. Ar Orffennaf 13 y flwyddyn honno fe wnaed y Tywysog Iorwerth yn Dywysog Cymru mewn arwisgiad arbennig yng Nghastell Caernarfon.

Ar ei ymweliad â Bangor, ar yr un daith, agorodd Ei Fawrhydi adeiladau newydd Coleg y Brifysgol yno, ac yna aeth i Aberystwyth i osod carreg sylfaen y Llyfrgell Genedlaethol. Ymwelodd â Choleg y Brifysgol yno yr un pryd.

Ym Mehefin, 1912, ymwelodd y Brenin a'r Frenhines â Chaerdydd i osod carreg sylfaen Amgueddfa Genedlaethol Cymru. Datganodd Ei Fawrhydi yr amser honno awydd am ... dod i agor yr adeilad, a chafodd ... yn 1927.

Ymwelodd Eu Mawrhydi â Llangefni, Sir Ddinbych, ym mis Gorffennaf, 1920, i agor ysbyty newydd o eiddo Cymdeithas Goffa'r Brenin Iorwerth VII, ac oddi yno aethant i Abertawe i osod carreg sylfaen Coleg y Brifysgol. Ymwelwyd â dociau Abertawe ac ag Ysbyty Talgarth, Brycheiniog, yn ystod yr un daith.

Y tro diwethaf y bu'r Brenin a'r Frenhines yng Nghymru oedd i agor Amgueddfa Genedlaethol Cymru yng Nghaerdydd, Ebrill 22, 1927.

Drwy orchymyn y Brenin, bydd y ... yn gwisgo galarwisgoedd am naw ..., hyd Hydref 21 nesaf.

Cyhoeddwyd esgyniad y Brenin Iorwerth VIII i'r orsedd brynhawn ... mewn cyfarfod arbennig o'r ... Gyngor, pryd y cymerodd ef y ... o ffyddlondeb. Cyhoeddwyd ef yn ... gyda'r gorchian hynafol arferol yn Mhalas Sant Iago am 10 o'r gloch ... Mercher.



EI FAWRHYDI BRENIN SIOR V.

## Cymru Heb Ei Thywysog

### BRENIN DIBRIOD PRYDAIN

OHERWYDD marw'r Brenin Siôr V, fe esgyn ei fab hynaf, Tywysog Cymru, i'r orsedd, dan y teitl Iorwerth VIII, a chan mai dibriod yw, nid oes yn awr Dywysog Cymru am y tro cyntaf ers 1301, pan arwisgodd y Brenin Iorwerth I ei etifedd yn Dywysog Cymru.

Dyma'r tro cyntaf ers 1760 i Brydain gael brenin dibriod.


Ar Fehefin 23, 1894, y ganwyd y Brenin newydd. Yn 1907 aeth i'r Coleg Morawl Brenhinol yn Osborne, ac yna i Dartmouth. Crewyd ef yn Dywysog Cymru ar Fehefin 23, 1910, ac arwisgwyd ef yng Nghastell Caernarfon ar Fehefin 13, 1911.

Wedi diwedd y rhyfel ymwelodd â gwahanol rannau o'r byd fel Llysgennad Prydain, gan ymgymysgu'n rhydd â phob dosbarth o bobl nes ennill poblogrwydd eithriadol.

**YR OLYNIAETH FRENHINOL.**

Ar hyn o bryd dyma'r olyniaeth frenhinol: Yn gyntaf, Duc Efrog; yn ail, y Dywysoges Elizabeth; yn drydydd, y Dywysoges Margaret Rose; yna Duc Caerloyw; Duc Caint, y Tywysog Iorwerth; y Dywysoges Frenhinol, a'r Is Iarll Lascelles.

Pe priodai'r Brenin Iorwerth VIII a bod plant o'r briodas fe newidiai hynny'r drefn uchod.



Dyma ddarlun a dynnwyd ar adeg ymweliad olaf y Brenin Sior V a Chymru—i agor yr Amgueddfa Genedlaethol yng Nghaerdydd, Ebrill 22, 1927.

Llun 25

gynhesach atynt nag at yr hen darw a'r hwch fawr. Yn wir, sylwaf y caiff merched bach, twt, petite, fwy o anwes na'r chwiorydd mawr, cyhyrog!

thau. Fe gai pobl Môn eu hynys glodfawr yn well na mwg y Sowth. Mae degau—oes, cannoedd, mi goeliaf—o Gymry yn Llundain a grêd yn ddiysgog mai ar Dregaron a Llan-

ei thaws, o Fôn i Gŵyr, o Langefni i Abertawe, mewn pum awr ac ychydig funudau. Gwelais Gymru Gymreig bron i gyd mewn llai na chwarter diwrnod, a daeth pennill Eifion Wyn

## *GWENU AR Y FFORDD I'R LLYS*



**Tynnwyd y darlun hwn pan yr oedd y tri chenedlaetholwr ar eu ffordd i'r llys yng Nghaernarfon. Gyda hwynt y mae Mr. J. E. Jones a Mr. E. V. Stanley Jones.**

Llun 32

# I AMSER I WRANDO'R ACHO

## CYMRY
## ETH O
## ELL

### EISIAU
### CHIAU

### IYDD AM
### THNOS

DD y Barnwr
yn Llys yr Old
Llundain, fore Mer-
3, i wrando'r achos
Chenedlaetholwr y
dilynol (Ionawr 19)
l y tri ar eu cyfrif-
in, hyd hynny.
am un ar ddeg o'r
Barnwr Charles i'r
s Canol y Troseddwyr,
ıdain, a galwyd enwau
Lewis, Lewis Edward
)avid John Williams
o'r tu allan i'r Llys.
neu ddau daeth y tri
ryd eu lle yn y doc.
! nifer y gwrandawyr
lys bychan yw, ac ni
lle y caniateir i'r cy-
ond rhyw 35.
naw o'r gloch y bore,
o'r teithwyr a ddaeth
lros y nos, wedi ym-
rysau'r cyhoedd. Yn



Y TRI CHENEDLAETHOLWR O FLAEN Y GWESTY YN LLUNDAIN.

## *GORCHYMYN SYMUD Y PRAW*

## DYFARNIAD LLYS

DYFARNODD Llys y Fainc

Mr. Valentine, a'i fod wedi cael croeso eithriadol ym mhobman—yr hyn a arwyddai na edrychid arno fel troseddwr.

Dywedodd Mr. Birkett na ddylid sôn am y ffaith bod y rheithwyr wedi anghytuno. **"Os dyna yw sail y cais hwn ofer yw dweud nad ydych yn adlewyrchu'n anffafriol ar reithwyr**

## *"Nid*

## CWRD

"

"YR oeddwn
meddwl f
gweddol d
weddolais y bore
wn mor ddewr a
meddai'r Parch.
tine wrth fintai
a ymgasglodd
bychan yn Llunc
Ionawr 12, y n
ymddangos gyn
Bailey.

Cyfeirio yr oedd
ffaith iddo orfod
yn Llandudno, e
blentyn, a theithi
sefyll ei braw yn y

Ni welais ysbryc
unman erioed ag a
hwn. Yr oedd o
Gymry eiddgar wed
i glywed y "gair
Chymro a gafodd s
y misoedd diwetha

*Llun 33*

dywedodd Arglwydd Hewart nad oedd y Llys am ofyn i'r Twrne Cyffredinol ateb.

Ond cododd Syr Donald Somervell i ddweud nad oedd ganddo ef wrthwynebiad pe dymunai'r Llys i'r achos gael ei symud i Gaerdydd.

**"Awgrymir," meddai ymhellach, "bod y cais hwn yn golygu na ellid cael praw teg yn unman yng Nghymru. Nid wyf i'n awgrymu hynny o gwbl."**

Ystyriodd y Barnwyr y mater am rai munudau, ac yna dywedodd Arglwydd Hewart y gwneid y rheol yn derfynol. "Yr wyf yn fodlon," meddai, "fod y tystiolaethau a gyflwynwyd i'r Llys yn profi y gweinyddid y Gyfraith yn fwy cyfiawn pe caniateid y cais. Nid oes sail o gwbl i'r gŵyn bod yr achos i'w symud o Gymru i Loegr. Ni ymddengys i mi bod gennym hawl i newid y rheol a symud yr achos i Gaerdydd, ac ni chredwn fod galw am hynny.

Cytunodd y ddau Farnwr arall, a gwnaed y rheol yn derfynol.

cyfarfodydd Prifwyl y genedl Gymreig.

"Y mae'n rhaid i'r Blaid Genedlaethol," meddai Mr. Owen, "ofalu na chaiff yr un o'r ddau ŵr bonheddig hyn ddweud gair ar lwyfan yr Eisteddfod. Bydd rhaid inni drefnu ymlaen llaw i'w rhwystro—a phan fyddant wedi blino ar geisio annerch y dorf ym Mhafiliwn yr Eisteddfod, fe ofalwn ninnau ddistewi'n ebrwydd a chaniatau i weithrediadau'r Eisteddfod fynd ymlaen yn dawel."

Derbyniwyd yr awgrym hwn gyda chymeradwyaeth mawr.

**EFFAITH Y DIGWYDDIAD.**

Siaradodd y Parch. J. P. Davies, Porthmadog, ar effaith y digwyddiad ym Mhenyberth ar feddwl trigolion y cylch.

"O'm rhan fy hun," meddai, "yr wyf yn argyhoeddedig na fydd eu haberth yn ofer; gall ein cyfeillion, yn eu hunigedd mawr, deimlo'n dawel y byddwn ni yng Nghymru yn cario'r frwydr ymlaen. A phan ddeuant yn ôl atom, cânt weled eu bod wedi

calonnau. Y cwbl allaf ddweud wrth ych yw, 'Na wylwch o'n plegid n ond, yn hytrach, wylwch drostoc eich hunain.'

Cyrhaeddodd Mr. Saunders Lewis cyfarfod pan yr oedd Mr. Valentin yn siarad, a galwyd arno i ddweud gai

Dywedodd Mr. Lewis nad oed ganddo ddim i'w ddweud; bwriada ddweud yr hyn oedd ganddo i' ddweud yn y Llys. Diolchodd am derbyniad caredig a roddwyd iddynt a dywedodd fod yn dda ganddo gae y cyfle i gyfarfod Cymry Llundai unwaith eto.

"Gobeithio y daw'r dydd yn fuan," meddai, "pan y bydd y Saeson yn eic hel oddi yma ac y deuwch yn ôl Gymru. Pryd hynny, bydd gennym Lywodraeth Gymreig i'ch croesaw i'r Hen Wlad."

Wedi ychydig eiriau gan Mr. E. V. Stanley Jones, Caernarfon, a Mr. J. E. Jones, Trefnydd y Blaid Genedlaethol, terfynwyd y cyfarfod drwy ganu "Hen Wlad fy Nhadau."



**Tu allan i'r Old Bailey, Llundain. Yn y darlun y mae nifer o Gymry a deithiodd i Lundain dros y nos i fod yn bresennol yn y Llys.**

*Llun 34*



AELODAU O BABELL AWEN "Y CYMRO" a gyfarfyddodd yng Nghapel Maengwyn, Machynlleth, ddydd Iau. Yr ail ar y chwith yw Dewi Emrys, golygydd y "Babell."





Llun 36

D

Os y
fel a
a gar
falaf-
mil-
wled-
r di-
Os yr
ldiw,
r, a'i
w ar
zwar..

y cloc
hyn,
uni a
elwen

arae â
iaeth,
bedair
yn ol

lybed
f, neu
i ganu
maith
helley.
dd na
ıymyg
am yr
bawb
ad,"—
nw, o
w fan-

ol yw
nser i,

idwl a
o fore

g arn-
g oddi

r unig
Amod
ld croes
angau
roddes
au ar y
ffwrdd
aberth,
aberth

au neu

dd a'u
ywbeth,
a gwag
hwy,"
ynt i

wrthod
na fach-

r Eidal i
ymer-
am " le
ul pob
idd-dra


ni clym-

i'r Pasg
nog,—yn
d. Ond


v chwan-
d ar yr
minnau.



# LLEOEDD IACHAU'R PLA GWYN




Ar Fryniau Brycheiniog. Iechydfa De Cymru, Talgarth.



Bwthyn yng Ngogledd Cymru.




Bwthyn arall yn y Gogledd.




Penfro


Chwarae ar y lawnt o flaen Ysbyty Kensington, St. Bride's, Morgannwg.



Yn y Fro, sef Bro Morgannwg, Ysbyty Sully.



Ysbyty Meadowslea, yn Sir Fflint.



Rhan o Brydferthwch Dyffryn Clwyd, Iechydfa Gogledd Cymru.

Llun 38

*AS AUR*



gan, Aberdyfi, hanner can
Genedigol o Aberdyfi yw'r
oed a'i briod yn 80, ond
yn athro Ysgol Sul yng
pan oedd yn 13 oed am
Mary" o dan Capten
Exmouth (Capten David
uodd pan gyrhaeddodd yr

*IEIRION*



Mr. W. Trevor Hughes, clerc




# Y Cymro

CAXTON PRESS, OSWESTRY.

Teleffôn: Oswestry 5. Telegramau: "Cymro," Oswestry.
Swyddfa Llundain: Thanet House, 231-2, Strand, W.C.2.

DYDD SADWRN, EBRILL 22, 1939.


## CYMRU AR Y GROESFFORDD

UNWAITH eto yn hanes ein cenedl wynebir ni gan yr angen dygn am baratoi ar gyfer rhyfel i amddiffyn y rhyddid hwnnw sydd mor annwyl inni, y rhyddid sydd eisoes wedi ei golli mewn rhannau helaeth o Ewrob, ac a fygythir gan ymosodiadau pellach.

Os y caniateir i'r bwgwth hwn ddod yn ffaith, fe wanheir y gwerinaethau sy'n aros, a bygythir rhyddid, fel y deallwn ni ef, ar ein arfordir ninnau os nad ar ein haelwydydd.

Datganasom ar fwy nag un achlysur nad ydym yn cydweld â'r Llywodraeth bresennol. Y mae ei dull o ddelio â materion y wlad hon, a'i pholisi tramor, yn rhwym o ddod dan farn condemniad hanesydd y dyfodol,—a chaniatau y caiff ef ryddid i ysgrifennu'n ddilestair, y rhyddid hwnnw a ddifodwyd eisoes yn yr Almaen a'r Eidal.

Ar yr un pryd, rhaid i'r wlad hon baratoi yn ddiymdroi i gyfarfod unrhyw ymosodiad a wneir arni hi neu ar wledydd gwerinol eraill na allant yn eu nerth eu hunain wrthsefyll gallu'r Unbennau.

Er gwaethaf datganiadau y rhai hynny a ddywed na chaniata eu cydwybod iddynt ymuno â'r fyddin—a lle bo hynny'n hollol ddiffuant ni all neb estyn bys atynt—credwn y bydd i Gymru wneud ei rhan. Gwrthwynebid i'r eithaf wasanaeth milwrol gorfodol pan na bo rhyfel ond y mae'n rhaid wynebu'r ffaith na chyhoeddir rhyfel ymlaenllaw yn y dyddiau hyn. Prawf hanes China, Awstria, Abysinia, Sbaen, Sieco-Slofacia, ac yn olaf, Albania, petai angen prawf, mai taro heb unrhyw rybudd yw arfer yr Unbennau.

Datganasom ein barn eisoes fod Gwasanaeth Gwirfodd ar ei brawf olaf, ac ofnwn nad oes ond un canlyniad i fethiant y gyfundrefn Gwirfodd—mesur helaeth o Orfodaeth sydd mor atgas i feddwl pob Cymro.

Cashawn ryfel â'n holl galon, ond carwn ein rhyddid â'n delfrydau democrataidd yn fwy. Ac os y gorfodir Prydain i sefyll yn erbyn ymosodiadau'r Unbennau, credwn y bydd i drigolion y wlad hon wynebu eu cyfrifoldeb a chwarae eu rhan yn deilwng.

# Y FORD GRON

YN FYR AC I'R PWRPAS

TRWY'R DF

GA

DULL yr estry
fyd yw c
tywod. Tra
chwyrnellu o'i g
ei deimlad ei hu
wch. Beth bynn
mae'r diogelwch
pery. Os dêl y d
orfod edrych yn
hynny, fe ddaw
brofa'r sawl s
beunydd.

***Pob Un a'i Fyd ei Hun.***

ONID oes rhy
hanes dyni
yn annhebyg i'r
i anwybyddu per
hynny ni allai yn
y pryder o fyw n
yglus. Yn wir
yn amgenach na
ei fod yn cynnwy
a'i ddychymyg,
reddfau yn unig.

Gall pob dyn
ymyg, fyd iddo'i
ddymuniad. O
mor adwythig y
*tu allan* i fywyd
*mewn* yn diriogae
mor unigol fel
dresmasu arno.
dramwy'n ddilest
heb i neb byth w
iaethau. A hynn
barddoniaeth a c
"*My mind to n*

Llun 45

# YMGOMWEST BEIRDD Y BABELL



Dyma ddarluniau o'r beirdd a ddaeth ynghyd i de Beirdd Pabell Awen "Y Cymro" yn Eisteddfod Genedlaethol Dinbych. Yn y darlun uchaf y mae: Dewi Emrys, golygydd "Y Babell Awen," T. H. Williams, Emrys Jones, Robert Owen, yr Archdderwydd Crwys, Beti Wyn, P. Pritchard, Elfyn Jenkins, Tom Jones, J. D. Evans, Telynores Dwyryd, Gwenllian Dwyryd, J. Rhys Jones, y Parch. D. Tecwyn Evans, Bessie Orwig, Dewi Gwyrfai, Mrs. Jones, Bootle, y Parch. J. Jenkins, Watcyn o Feirion, E. L. Rowlands, Gerallt Davies, Ceiriog Jones, Horace Savage, Jack Roberts, Ifan T. Wilson, Meirionfab, Idwal Wynn Jones, W. I. Jones, Wil Rolant, Rhostryfan.



Yn yr ail ddarlun y mae Wil Owen, John Evans, R. Lloyd Jones, Pegi Melangell, Lewys Moelwyn, y Dr. T. Gwynn Jones, Ioan Dwyryd, E. T. Roberts, Bryan Roberts, D. J. Lewis, David Owen, y Parch. R. Bryn Williams, E. P. Jones, William Owen, Abel T. Jones Williams, Thomas Bowen Jones, Wm. Roberts, Eryddon, Manceinion, Awen Mona, D. T. Williams, J. R. Jones, R. Herbert Jones, John Evans, Dilys Cadwaladr, Thomas H. Davies, Griffith Parry, Idris Roberts, Alun James.

Mr. Einion Evans (y Prif Olygydd) deyrnged uchel i wasanaeth Dewi Emrys, a diolchodd yn gynnes i'r beirdd am eu cyfraniadau wythnosol. Addawodd, hefyd, y cyhoeddid ail gyfrol o ddetholiad beirdd "Y Babell," yn gynnar yn y flwyddyn newydd, os gwerthid digon o gopiau o'r gyfrol gyntaf i gyfreithloni anturiaeth felly. Hawliai teilyngdod y gyfrol gyntaf gylchrediad eang. Cyfeiriodd at yr Ymgomwest hon fel trydydd cynnull beirdd "Y Babell," a'r goreu o'r tri. "Aeth y cynnull hwn yn sefydliad cenedlaethol bellach," ebr ef, "ac edrychaf ymlaen at gynnull lluosocach eto ym Mhen y Bont y flwyddyn nesaf." Diolchodd yn gynnes i Ioan Dwyryd a'i ddwy ferch dalentog am ddwyn y delyn i'r cwmni, a'r cwbl yn wasanaeth cariad.

Cyn galw ar Dr. T. Gwynn Jones i annerch y cwmni, cyfeiriodd Dewi Emrys at fwlch amlwg yn ein llenyddiaeth farddol, sef y golyn am gylchgrawn tebyg i'r "Geninen Eisteddfodol." Dioddefasant eisoes golledion trwm ynglyn a chylchgronau eraill. Eto, parod fyddent i anturio o fewn terfynau rhesymol; ond fe garai ef fedru gosod enwau rhai cannoedd o dderbynwyr yn eu dwylo ymlaen llaw cyn gofyn iddynt ymgymryd â chyhoeddi chwarterolyn newydd at wasanaeth beirdd Cymru. "Felly," medd ef, "boed y cyfrifoldeb arnoch chwi a phawb a garai weld llenwi'r bwlch amlwg hwn yn ein llenyddiaeth farddol."

Derbyniwyd yr awgrym yn frwdfrydig iawn, a siaradodd Caerwyn ac eraill yn gryf o'i blaid. "Dyma i chwi fy enw i yn awr am ugain copi y chwarter," meddai John Ellis Williams (y dramodydd a'r goganwr adnabyddus). Cawn weld faint o frwdfrydedd cyffelyb a gyfyd mewn cylchoedd eraill.

## CYFARFODYDD ADRANNOL.

Soniodd y llywydd am ... a ddaeth oddi wrth y Parch. R. Bryn ... ydd o bryd i bryd a mabwysiadu'r cynllun a awgrymwyd. Tybiai yr arbedai hynny lawer o ohebu ofer i feirdd ieuainc nad oeddynt bob amser yn sicr ohonynt eu hunain wrth gyfansoddi ar gyfer y Wasg. Dichon, hefyd, yr arbedid ambell un rhag y fasged.

Cyfeiriodd Tecwyn at fraint beirdd "Y Babell" dan gyfarwyddyd aeddfed Dewi Emrys. "Yr wyt ti fy hun," meddai, "wedi dysgu cryn lawer wrth ddilyn y gwersi hyn." Mynnai ddiolch i berchenogion "Y Cymro" am eu cefnogaeth i feirdd ein gwlad, a chynigiodd bleidlais o ddiolchgarwch iddynt am eu haelioni ynglyn a'r Ymgomwest hon, heb son am gynulliadau cyffelyb diwywaith o'r blaen. Eiliwyd gan T. E. Nicholas, a phawb yn cymeradwyo'n frwd.

## TEYRNGED DR. T. GWYNN JONES.

Pan alwyd ar Dr. T. Gwynn Jones i annerch y cwmni, cafodd dderbyniad gwresog, pawb yn sefyll o barch i y prydydd Cymreig. Gwyddai am Ysgotyn a ddysgodd nyddu englyn rheolaidd a gwerthfawrogi crynoder ei fynegiant. Tystiolaethai hwnnw na ellid geiriau ofer mewn englyn. Y mae'n gyfrwng sy'n hawlio cynildeb ymadrodd. Yr oedd yn dda ganddo ef (y siaradwr) am grefft nifer o englynwyr "Y Babell," heb son am gynhyrchion eraill a amlygai lawer o gelfyddyd a gloywder arddull. Gellid dweud am gymdeithas fel hon ei bod yn cyfuno moddau ein prydyddiaeth draddodiadol â moddau newyddion er mantais y'r naill a'r llall. Nid yw'r ffrwyth hwnnw a elwir yn "grape-fruit" na lemon nac oraens. Eithr fe gyfunai rinweddau'r ddau; a ffrwyth nodedig ydyw. Felly am gymdeithas fel hon. Y mae'n cadw rhin yr hen brydyddiaeth a dwyn i mewn iddi, hefyd, i'w chyfoethogi a'i phereiddio, elfennau'r delyneg a moddau eraill. Sylwais bod nifer o feirdd "Y Babell" yn dwyn enwau Saesneg—Savage, er enghraifft, y gellid ei gysylltu â hanes ein llen...

Llun 47

Y CYMRO

Y BRYTHON A'R FORD GRON

PAPUR CENEDLAETHOL CYMRU
THE WELSH NATIONAL NEWSPAPER
FRIDAY, MARCH 30, 1945.

MAWRTH 30, 1945 — Dwy Geiniog (2d.)

DAVIES' MACHYNLLETH
YR AMWYDWST

"Sydyn ei ymosodiad,—chwyrn nychwr
Ein hiechyd ’aint afrad,—
E'fawr deyrn-glefyd ar'ad,
A dur gledd i daro gwlad." (R.J.)

DIM OND DAVIES'S A WNA'R TRO

*"Mi a Ymdrechais Ymdrech Deg, Mi a Orphenais Fy Ngyrfa, Mi a Gedwais y Ffydd"*

# IARLL LLOYD GEORGE YN FUD

## Yr Enwocaf o'r Cymry i Gyd

Gan Ein Gohebydd Arbennig.

**Yng nghanol y newyddion am y brwydro mawr ar feysydd Ewrop yn tynnu yr ail rhyfel byd i ben daeth newydd o bentref bach Llanystumdwy, nos Lun, a oerodd bob brwdfrydedd, am wr na wel yr ... —Iarll Lloyd George o Ddwyfor, Cymro enwocaf yr oesau, a fu farw yn dawel yn ei ffermdy Cymreig. Ty Newydd, am bum munud ar hugain i naw ar noson loergan glir o wanwyn cynnar.**

**... y gwasanaeth olaf i L.G. mor ramantus, mor ... a'i ddechrau bore. Y mae'r bachgen a fag... gweithdy'r crydd i'w gladdu gerllaw iddo ar y ... arian y cymerodd ei deitl oddi wrtho.**

**... Dwyfor mewn bedd newydd, mewn daear ... y dodir ef. Dan y coed yn y gwanwyn y dodir ... y tir y chwaraeodd arno'n blentyn y dodir ef. Dyna ...**

... ddydd Gwener y Groglith, y dodir ef dros ... mewn ynys Afallon fechan wyrdd lle try golygon ... hyd byth; yn y pridd a garodd yr huna ef, ar ... llwybr bychan ganllath o'r afon, llwybr a gochodd ... yn hogyn. Heddiw y mae hen ffrind ysgol iddo ... pren llwyfen yn arch—Robert Evans, Cambrian ... Cricieth, hen gyfaill ysgol 78 oed, sydd heddiw'n ... chweched arch i deulu L.G.


... cana'r rhain gan iddynt ganu carolau yn Nhy Newydd ar Sul y Nadolig a gwnaethant argraff mawr arno.

Y gweinidogion lleol a fydd yn cynnal y gwasanaeth.

Cyrhaedda'r Milwriad Gwilym Lloyd George a Mrs. Lloyd George, a'u mab ieuengaf, William, yfory.

### YN OL I'W FRO

### Y PLANT



DARLUN O'R IARLL FEL Y COFIR EF ORAU

### YN NHY'R CYFFREDIN

**Yn Nhy'r Cyffredin, ddydd Mawrth, cyn dechrau ar waith y dydd, dywedodd y Prif Weinidog:**

**"Clywodd y Ty gyda gofid dwys am farwolaeth un o ffigurau mwyaf adnabyddus a disgleiriaf ein bywyd cyhoeddus, yr Iarll Lloyd George o Ddwyfor.**

**"Ni theimlaf y gallwn gario ymlaen gyda'n gwaith arferol heddiw." Yna gohiriwyd yr eisteddiad.**

**Derbyniwyd y neges hon oddi wrth y Brenin:**

**"Clywodd y Frenhines a minnau gyda galar am farwolaeth eich priod. Ei arweiniad dewr yn ystod un o gyfnodau mwyaf argyfyngus yn ein hanes oedd ei wasanaeth anfesurol i'n gwlad, ac fe'i cofir bob amser gyda diolch a balchder. I chwi ac i'ch teulu oll anfonwn ein cydymdeimlad dwfn.**

## Y GWR A FU'N RYM YM MYWYD EWROP

*Gan E. Morgan Humphreys*

**Ni bu perthynas Arglwydd Lloyd George a Chymru yn agos iawn ers llawer blwyddyn ond teimlwn ni, sydd yn cofio'r blynyddoedd gynt, fod rhywbeth mawr wedi mynd allan o fywyd Cymru gyda'i farw ef.**

Tyfodd cenhedlaeth i ymyl canol-oed bellach nad yw yn hawdd ganddi ddeall hynny; ni chafodd dyn sydd heddiw'n ddeg ar hugain oed lawer o gyfle i weled Mr. Lloyd George yn anterth ei nerth ac nid oes gan genhedlaeth hyn na hynny fawr o gof amdano yn y blynyddoedd cynnar, pan oedd yn wr heb gyfrifoldeb swydd ac yn ymladd ei ffordd ymlaen yn wyneb llawer iawn o anawsterau. Ni chlywais i ef yn y blynyddoedd hynny.

Dwywaith y clywais ef yn siarad cyn iddo ddyfod yn Weinidog y Goron. Y tro cyntaf oedd mewn cyfarfod i anrhegu'r Parch. Gwynoro Davies yn y Bermo. Aeth nifer ohonom yno o'r Dyffryn yn un swydd i weled ac i glywed Lloyd George.

Gwelsom a chlywsom ef a siomwyd ni yn aruthr. Gwnaeth araith gyffredin ddigon.

### YR ARAITH GYNTAF

### HOFF O BREGETH

(G dudalen 12).

Llun 70

NEB

WYLLYS

yrach y bydd y ddar-
n wahanol i'r hyn y
chwi oedi ei gwneud
eich bod yn amharod i
ar ysgwyddau cyfaill
yn marw o'ch blaen.

oblegid hynny gan y
ysgutor neu'n ymddir-
hun neu i weithredu
a thrwy hynny sicrhau
th. Bydd goruchwyl-
yn barod i roddi pob
hwn, neu gellir anfon
swyddfeydd arbennig

E.C. 2. *Canghennau :*
70 Pall Mall, London,
uth, Brighton, Bristol,
Liverpool, Manchester,
, Sheffield a Torquay.

BANK
TEE COMPANY
D

is come

eir military power

e the Nation owes
to all our fighting

salute them ; they

★

*eedom from control*
*things, you will be*
*like of "the brand*

*n and sacrifice of*
*women.*

Y CYMRO,

# Y Cymro

*Y PAPUR CYMRAEG A'R CYLCHREDIAD MWYAF*

CAXTON PRESS, OSWESTRY.

Mai 11, 1945.

## NOS YN DARFOD

O DDUW, dod i'r Brenin dy farnedigaethau, ac i Fab y Brenin dy gyfiawnder.

Efe a farn dy bobl mewn cyfiawnder, a'th drueiniaid â barn.

Y mynyddoedd a ddygant heddwch i'r bobl, a'r bryniau trwy gyfiawnder.

Efe a farn drueiniaid y bobl, Efe a achub feibion yr anghenus ac a ddryllia y gorthrymydd.

Tra fyddo haul a lleuad y'th ofnant yn oes oesoedd.

Efe a ddisgyn fel glaw ar gnu gwlan, fel cawodydd yn dyfrhau y ddaear.

Yn ei ddyddiau Ef y blodeua y cyfiawn, ac amlder o heddwch fydd tra fyddo lleuad.

Ac Efe a lywodraetha o for hyd for ac o'r afon hyd derfynau y ddaear.

O'i flaen Ef yr ymgryma trigolion yr anialwch, a'i elynion a lyfant y llwch.

Ie, yr holl frenhinoedd a ymgrymant iddo; yr holl genhedloedd a'i gwasanaethant Ef.

Canys Efe a wared yr anghenog pan waeddo; y truan hefyd a'r hwn ni byddo cynorthwywr iddo.

Efe a achub y tlawd a'r rheidus, ac a achub eneidiau y rhai anghenus.

Bydd dyrnaid o yd ar y ddaear ym mhen y mynyddedd: ei ffrwyth a ysgwyd fel Libanus; a phobl y ddinas a flodeuant fel gwellt y ddaear.

Ei enw a fydd yn dragywydd; Ei enw a bery tra fyddo haul, ac ymfendithiant ynddo; yr holl genhedloedd a'i galwant yn wynfydedig.

Bendigedig fyddo yr Arglwydd Dduw, Duw Israel, yr Hwn yn unig sydd yn gwneuthur rhyfeddodau.

*Ysgrifennydd*

**RADIO'R WYTHNOS**

**Y FORD GRON**

## *Y Ddraig yn Llwybrau*

YN awr gwelsom y ddraig yn gwingo yn ei harteithiau olaf. Barn un o bapurau'r Swistir ("Die Weltwoche") ydyw na saif yr Almaen byth ar ei thraed eto fel cenedl.

"Heddiw," meddai, "y mae maluriad y genedl Almaenig yn rhywbeth dyfnach. Maluriad pobl ydyw, na welwyd mo'i debyg, yn ein barn ni, ers maluriad yr Iddewon ar ol dinistr Jerusalem.

Efallai fod gwasgariad yr Herrenvolk (y Genedl Etholedig newydd) wrth law; oblegid heddiw fe safant wrth y miliynau yn y dosbarth a osodasant am bum mlynedd ar filiynau o rai eraill—y dosbarth a elwir yn y brepiaith swyddogol adfydus yn "displaced persons": pobl wedi eu symud o'u lle.

Dinistriwyd eu dinasoedd, daeth gwyr y Fyddin Almaenig yn gyfarwydd a bywyd crwydyr; symudwyd miloedd o bobl gyffredin o le i le: rhoddwyd diwedd ar bob teimlad taleithiol a phob ffyddlondeb lleol. O ganlyniad y mae'r Almaenwyr, ar awr eu cwymp, yn genedl o "bobl wedi eu symud o'u lle"—yn grwydriaid.

### *Hawliau'r Werin*

FE aeth yr aradr trwy gannoedd o filltiroedd o lwybrau dynion a llwybrau meirch yn ystod y rhyfel. Caewyd eraill am eu bod yn croesi tir cad.

Wrth lwc, y mae cymdeithas sy'n cadw golwg arnynt, sef Cymdeithas Cadw Comins a Llwybrau, a dywed hon fod pomprenau wedi diflannu, camfeydd wedi eu torri neu eu llenwi, a rhai llwybrau go aneglur wedi mynd o'r golwg.

Y mae'r Gymdeithas wedi ysgrifennu at wyth mil o gynghorau plwy, ac ar fedr ysgrifennu at gynghorau tref a dosbarth, i ofyn iddynt fod yn sior o gael eu llwybrau'n ol pan ddaw'r rhyfel i ben.

Ymddengys fod rhai pwyllgorau'n ddifater, ac eraill wedi addo gwneud popeth a allont gyda'r dwylo sydd ganddynt. Y peth cyntaf i'w wneud ydyw gwneud rhestr o'r llwybrau a gaewyd, a'r bobl sydd wedi trigo yn y fro ar hyd eu hoes ydyw'r unig rai a fedr ei gwneud

### *Dylanwad Prifysgol*

Llun 74

YR AFON
Cân i Denor neu Soprano gan William Davies.
Y mae copiau yn awr ar gael, 2/4.
Gan unrhyw lyfrwerthwr neu gan
HUGHES A'I FAB,
16, Westgate Street, Caerdydd.
2Jy27

G. M. C. A.

# Y Cymro

Y BRYTHON A'R FORD GRON

PAPUR CENEDLAETHOL CYMRU
THE WELSH NATIONAL NEWSPAPER
FRIDAY, AUGUST 17, 1945.

DAVIES' MACHYNLLETH
YR ANWYDWST
"Sydyn ei ymosodiad,—chwyrn nychwr
Ein hiechyd, haint afrad,—
Enfawr deyrn-glefyd anfad,
A dur gledd i daro gwlad." (R.J.)
"DIM OND DAVIES'S A WNA'R TRO"

RHIF 664 — AWST 17, 1945 — Pris Dwy Geiniog (2d.)

# CADEIRIO PRIF-FARDD 1945



## AWDL ODIDOG

### *Goruchafiaeth Bardd o Fon*

*Gan Ohebydd "Y CYMRO"*

WEDI'R siom o beidio cael gweld coroni bardd brynhawn Mercher bu llawer o holi a stilio yn ystod bore Iau ar faes yr Eisteddfod a fyddai cadeirio bardd ai peidio y prynhawn hwnnw.

Cafwyd nid yn unig ateb pendant y byddai cadeirio, ond bu i rywun [illegible] si ar gerdded mai merch a [illegible] y tro hwn; os felly byddai [illegible] newydd sbon i'w gofnodi yn [illegible] hir yr Eisteddfod Genedlaethol.

Ychydig funudau cyn y ddefod [illegible] ac urddasol [illegible] nad merch a fyddai'n cael yr anrhydedd ond bardd adnabyddus a enillasai'r [illegible] fwy nag unwaith o'r blaen.

Yna cerddodd y Gorseddogion ar hyd y pafiliwn yng ngwydd cynulleidfa o 5,000 a lanwai'r lle hyd at ei [illegible] ac esgyn i'r llwyfan.

Galwodd yr Archdderwydd, a lywyddai'r gweithrediadau, ar Llifon, yr "aelod hynaf sy'n fyw o'r orsedd, mae'n debyg," i offrymu Gweddi'r Orsedd.

Nid ymddangosai fel petai'r gynulleidfa fawr wedi setlo i lawr yn dawel a threfnus, ac yr oedd rhywrai ym[illegible] draw y pafiliwn yn gwaeddi am i'r rhai oedd yn nes i'r llwyfan eistedd i lawr.

**Am foment edrychai pethau'n anhyfryd, ond pan lefarodd Llifon a gyrchasid at y meicroffon gan Meurig Prysor, y gair "Gweddiwn," mewn llais hyglyw digryn, bu tawelwch sydyn a pharhaol fel y gellid clywed pin yn disgyn. Yr oedd yn wir yn foment llawn drama.**

Yr oedd yn amlwg fod Dr. T. H. Parry Williams, Aberystwyth, yr hwn gyda'r Parch D. J. Davies, Llanelli, a Dewi Morgan, Aberystwyth, a feirniadai, ac a draddodai'r feirniadaeth, am gadw'r gyfrinach a fyddai cadeirio o gwbl, hyd oni ddeuai i ben ei draethiad, a llwyddodd i gadw'r [illegible] i ddyfalu hyd y diwedd.

Dywedodd fod yr "Oes Aur," yn destun y gadair yn y Barri 24 mlynedd yn ol, a'r pryd hwnnw ni chaed awdl deilwng i'w gwobrwyo, felly ceid gweld yn y man beth a fyddai tynged y pedair awdl ar ddeg a ddaethai i law eleni. [illegible] gynnyrch o'r neilltu gan nad oeddynt ar lun awdl. Yna wedi son am ddeg arall, sylwodd fod un awdl yn wahanol i'r lleill ac yn sefyll ar ei phen ei hun yn y gystadleuaeth.

Yna dyfynnodd yn helaeth linellau

(I dudalen 12)

## *JAPAN WEDI ILDIO*

*—Swyddogol*

*Darllenodd y Prif Weinidog (Mr. Attlee) hanner nos Fawrth fel y canlyn:*

*"Ildiodd Japan heddiw. Y mae'r olaf o'n gelynion wedi ei drechu."*

*Penodwyd y Cadfridog MacArthur yn benaeth y Cynghreiriaid i dderbyn y darostyngiad a gwnaed trefniadau i arwyddo'r telerau mor fuan byth ag fydd bosibl.*

**Yn y llun uchod, a dynnwyd gan "Y Cymro" ddydd Iau yn y Rhos, gwelir yr Eisteddfod Genedlaethol yn ei gogoniant. Y prifardd newydd yn y gadair yw Tom Parry Jones, Ty'n Rigyn, Malltraeth, Mon, prydydd a llenor ieuanc adnabyddus, ond hyd yma heb lwyddo i ennill yr anrhydedd uchaf. Bu'n ail ac yn drydydd mewn prif wyliau, a rhwng 1929 a 1936 enillodd saith coron a thros ugain o gadeiriau mewn eisteddfodau sirol a rhanbarthol.**

• • •


**Ac yn y darlun bach ar y dde, a dynnwyd ddydd Mercher, gwelir yr Archdderwydd Crwys yn sefyll o flaen y gadair wâg ac yn hysbysu i'r dorf enfawr siomedig na choronid bardd yn yr wyl eleni.**




Llun 78




EINION EVANS



J. H. HOWARD



J. R. LLOYD HUGHES



DAVID EMRYS JAMES (DEWI EMRYS)



J. W. JONES



*JOHN TUDOR JONES (JOHN EILIAN)*



*PERCY OGWEN JONES*




*T. E. NICHOLAS*




ROWLAND THOMAS



R. F. WATKINS



EDWIN WILLIAMS



JOHN ROBERTS WILLIAMS
(JOHN AELOD JONES)